Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

# Dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain? Profiadau babanod, plant a phobl ifanc o gam-drin domestig

Ebrill 2025

Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

# Dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain? Profiadau babanod, plant a phobl ifanc o gam-drin domestig

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 8 (6) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021

Ebrill 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn **commissioner@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk**.

ISBN 978-1-5286-5609-2

E03332606 04/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi
**RHAGAIR**



Yn 2022, cyhoeddais fy ymchwil mapio – *Clytwaith o Ddarpariaeth*[1] – a ddatgelodd anghydraddoldebau sylweddol i ddioddefwyr a goroeswyr a oedd yn ceisio cael gafael ar gymorth cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.

Un o'r canfyddiadau mwyaf siomedig oedd bod llai na thraean y dioddefwyr a'r goroeswyr a oedd am gael cymorth i'w plant yn gallu cael y cymorth hwnnw. Ers hynny, bu trawsnewid y cymorth sydd ar gael i blant sy'n ddioddefwyr – yn ogystal ag atal llawer mwy o blant rhag dioddef cam-drin domestig yn y lle cyntaf – yn un o'm prif flaenoriaethau.

Lai na blwyddyn cyn cynnal fy ymchwil mapio, daeth y Ddeddf Cam-drin Domestig yn gyfraith, gan gydnabod plant fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain am y tro cyntaf erioed. Fodd bynnag, er bod honno'n garreg filltir bwysig y bu brwydr galed i'w chyflawni, mae'n parhau'n aneglur hyd heddiw sut mae'r gydnabyddiaeth gyfreithiol hon yn cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu.

Y mis hwn, byddwn yn dathlu pedair blynedd ers lansio Deddf Cam-drin Domestig 2021, ac felly mae'n adeg briodol i lansio fy adroddiad – *Dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain?* – sy'n anelu at droi'r nod o ystyried plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain yn realiti.

Rwyf am i'r adroddiad hwn greu newid diriaethol i bob un o'r babanod, plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig er mwyn sicrhau y cânt ymateb sy'n diwallu eu hanghenion unigryw.

Er mwyn cyflawni hyn, mae *Dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain?* yn archwilio'r ymateb presennol i blant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig gartref neu o fewn eu teulu, gan ystyried ymatebion statudol ac anstatudol, gan gynnwys gweithgarwch atal, cyfleoedd i nodi achosion ac ymyrryd yn gynnar, yr ymateb mewn argyfwng a chymorth parhaus.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth gynhwysfawr i gefnogi ei 66 o argymhellion, o adolygiadau o lenyddiaeth a gwaith ymchwil sylfaenol i waith ymgysylltu ag ymarferwyr a mewnbwn gan blant eu hunain.

Fel rhan o'r gwaith ymchwil sylfaenol, mae canfyddiadau newydd wedi nodi'r gwasanaethau cymorth arbenigol sy'n cael eu darparu i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig – o'r amseroedd aros y mae plant yn eu hwynebu, yr argyfwng cyllido y mae'r gwasanaethau hyn yn ei wynebu a'r mathau o gymorth sydd ar gael.

Rwy'n gobeithio y bydd argymhellion yr adroddiad hwn yn arwain at fuddsoddiad sydd ei angen yn ddirfawr mewn gwasanaethau cymorth a gweithgarwch atal i blant sy'n dioddef cam-drin domestig, yn ogystal â gwell prosesau ar gyfer nodi plant sy'n ddioddefwyr, eu deall ac ymateb iddynt, a hynny gan yr holl wasanaethau y gallent ddod i gysylltiad â nhw.

Mae *Dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain?* wedi'i anelu at bawb – gwneuthurwyr polisi, gweithwyr plant, arbenigwyr cam-drin domestig, ymarferwyr yn y sector cyhoeddus, comisiynwyr,

[1] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).

academyddion, a mwy. Pwy bynnag ydych chi, credaf fod rhywbeth yn yr adroddiad hwn y gallwch ei ddefnyddio i wella'r canlyniadau i blant sy'n ddioddefwyr.

Yn ogystal ag adroddiad technegol sy'n archwilio gwasanaethau cam-drin domestig i blant yng Nghymru a Lloegr, dylid darllen *Dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain?* ar y cyd â'r adroddiad *Tell Nicole* a luniwyd gennyf.[2] Mae'r cyhoeddiad ychwanegol hwn yn cynnwys yr adborth – gan gynnwys lluniau – y gwnaeth dros 100 o blant eu hanfon ataf, yn disgrifio'r newidiadau y maen *nhw* am iddynt gael blaenoriaeth, gan gynnwys yr angen i oedolion wrando arnynt drwy'r amser ac i gredu eu profiadau.

Yn ystod y sesiynau *Tell Nicole*, mynegodd plant amrywiaeth o deimladau pwerus mewn perthynas â cham-drin domestig, gan gynnwys "ar goll, unig, trist, gwahanol, pryderus, colli rheolaeth, wedi dychryn, dig, anhapus, nerfus, ofn, heb lais".

Aethant ati wedyn i nodi argymhellion, fel gwell trefniadau ymgysylltu gan yr heddlu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau a'r angen i ddarparu man lle gall pobl ifanc gael eu cefnogi heb iddynt gael eu barnu.

Gall rhoi pwyslais ar brofiad bywyd gael effaith sylweddol wrth lywio polisïau ac ymyriadau effeithiol ac empathetig ym maes cam-drin domestig. Rwy'n hynod ddiolchgar bod cynifer o blant a phobl ifanc wedi bod yn barod i rannu eu safbwyntiau â mi a hoffwn ddymuno'n dda iddynt ar gyfer dyfodol disglair. Gobeithio y byddant yn gallu gweld bod eu lleisiau i'w clywed ym mhob rhan o'r adroddiad hwn.

Mae bellach yn bryd i ni roi'r gydnabyddiaeth ar waith. Ond er mwyn gwneud newid go iawn, bydd angen ymrwymiad gan y llywodraeth a bydd angen iddi ystyried lleisiau'r plant sy'n ddioddefwyr, buddsoddi mewn gwasanaethau a gwella ymatebion.

Erfyniaf arnoch i ddarllen yr adroddiad hwn, i rannu ei ganfyddiadau ac i gymryd pa bynnag gamau y gallwch eu cymryd. Boed hynny drwy'r llywodraeth, drwy bolisi neu drwy ymarfer, mae gan bawb ran i'w chwarae wrth sicrhau y gall unrhyw blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

**Y Fonesig Nicole Jacobs**
Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr



[2] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025c).

**CYNNWYS**

**Rhan 1 – Cyflwyniad a'r Ddarpariaeth Gwasanaethau Cymorth Arbenigol i Fabanod, Plant a Phobl Ifanc**

Tell Nicole

1.0 - Pennod un – Cyflwyniad
- Y fframwaith deddfwriaethol
- Dull gweithredu a threfniadau ymgysylltu'r Comisiynydd: ffynonellau mewnbwn
- Nifer y plant sy'n byw mewn amgylchedd lle ceir cam-drin domestig rhwng y rhieni
- Effeithiau cam-drin domestig ar blant
- Yr effeithiau yn ystod gwahanol gamau datblygiadol

2.0 - Pennod dau - Y Ddarpariaeth Gwasanaethau Cam-drin Domestig Arbenigol i Blant
- Mapio gwasanaethau arbenigol i blant: methodoleg a heriau
- Canfyddiadau

**Rhan 2 – Dulliau Atal Cyffredinol**

3.0 - Pennod tri – Dulliau Atal ac Addysg Rhyw a Chydberthynas
- 3.1 Agweddau pobl ifanc a chanfyddiadau newidiol y cyhoedd
- 3.2 Addysg Rhyw a Chydberthynas
- Y weledigaeth ar gyfer newid

4.0 - Pennod pedwar - Y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan
- Beth yw Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched?
- Ymarfer presennol
- Plant nad ydynt mewn addysg

**Rhan 3 – Cyfleoedd i Nodi Achosion ac Ymyrryd yn Gynnar**

5.0 - Pennod pump – Rôl gwasanaethau iechyd
- Beichiogrwydd ac ymwelwyr iechyd
- Rôl gwasanaethau iechyd ehangach

6.0 - Pennod chwech – Yr Ymateb Amlasiantaethol o ran Cymorth Cyffredinol a Chymorth wedi'i Dargedu
- Pwysigrwydd trefniadau gweithio amlasiantaethol
- Yr ymateb help cynnar
- Hybiau i deuluoedd
- Rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol
- Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni – Cyfle coll
- Cam-drin domestig a 'thrais difrifol'

**Rhan 4 – Yr Ymateb mewn Argyfwng a Chymorth Parhaus i Blant a Phobl Ifanc**

7.0 - Pennod saith – Yr Ymateb mewn Argyfwng
- Gwasanaethau arbenigol sy'n darparu cymorth mewn argyfwng
- Help ariannol brys
- Plismona a chyfiawnder troseddol
- Ymgyrch Encompass

- Gofal cymdeithasol i blant
- Cymorth llety

8.0 - Pennod wyth – Gwella a Chymorth Parhaus
- Cymorth gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS)
- Cymorth therapiwtig yn y gymuned
- Ymyriadau i'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin
- Rhaglenni newid ymddygiad
- Y llys teulu
- Cymorth i blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig

**Rhan 5 – Casgliad ac Argymhellion**

9.0 - Pennod naw – Casgliad ac Argymhellion
- Rhestr termau
- Terminoleg
- Cyfeiriadau
- Atodiad 1 – Argymhellion o ran ymarfer

# RHAN 1 – CYFLWYNIAD A'R DDARPARIAETH GWASANAETHAU CYMORTH ARBENIGOL I FABANOD, PLANT A PHOBL IFANC

**CWMPAS YR ADRODDIAD HWN**

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried yr ymateb presennol i blant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig gartref neu o fewn eu teulu, o weithgarwch atal, cyfleoedd i nodi achosion ac ymyrryd yn gynnar, yr ymateb mewn argyfwng a chymorth parhaus. Ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin ag achosion o Drais a Cham-drin gan Blant a Phobl Ifanc tuag at eu Rhieni (CAPVA) nac achosion o gam-drin sy'n digwydd fel rhan o berthnasoedd rhwng pobl ifanc yn eu harddegau. Ni fydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw fanylion sylweddol am ymateb y Llys Teulu, cyfraith gyhoeddus na phlant sy'n derbyn gofal ychwaith. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn annog darllenwyr i ystyried anghenion y bobl ifanc hyn yn yr argymhellion a wnaed. Mae'r Comisiynydd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad pellach ar wahân am achosion o gam-drin sy'n digwydd fel rhan o berthnasoedd rhwng pobl ifanc yn eu harddegau, a chomisiynodd waith ymchwil ar achosion o Drais a Cham-drin gan Blant a Phobl Ifanc tuag at eu Rhieni yn 2021.[3]

**Datganoli**

Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn nodi rôl Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr, sy'n gyfyngedig i faterion a gadwyd yn ôl yn unig yng Nghymru.[4] Felly, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phob elfen o'r ymateb i blant yn Lloegr ond dim ond i'r ymateb cyfiawnder troseddol a theuluol ac i faterion sy'n gysylltiedig â mewnfudo y mae'n berthnasol yng Nghymru. Gall y Comisiynydd wneud argymhellion i Lywodraeth Genedlaethol y DU ac i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru ond ni all wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg, iechyd na thai, ac ni all wneud argymhellion i Awdurdodau Lleol na chyrff iechyd yng Nghymru ychwaith.

Caiff astudiaethau achos sy'n ymwneud ag ymarfer da ledled Cymru a Lloegr eu cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn, er mwyn cydnabod y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yng Nghymru ac er mwyn i gyrff Llywodraeth y DU allu dysgu ohono.

Mae'r Comisiynydd eisoes yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cynghorwyr Cenedlaethol Cymru a phartneriaid statudol a phartneriaid sector yng Nghymru, a byddai'n annog y sefydliadau hyn i ystyried yr argymhellion hyn fel y bônt yn berthnasol.

---

[3] Baker, V. a Bonnick, H. (2021).
[4] *Deddf Cam-drin Domestig 2021.*

## TELL NICOLE

Er mwyn paratoi ar gyfer yr adroddiad hwn, gweithiodd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig mewn partneriaeth ag wyth sefydliad i gynnal cynllun peilot o *Tell Nicole:* fframwaith ar gyfer ymgysylltu â phlant sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae *Tell Nicole* yn un o'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod lleisiau plant yn llywio strategaeth y Comisiynydd mewn perthynas â phlant.

Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi'r prif themâu roedd plant am eu rhannu â'r Comisiynydd. Mae'r wybodaeth a gyfrannwyd ganddynt hefyd i'w gweld drwy'r adroddiad hwn. Er nad oes cyd-destun polisi ac ymarfer yn gysylltiedig â rhai o'r themâu yn yr adran hon, neu na cheir ystyriaeth bellach o ran yr hyn y gallai sylwadau'r plant ei olygu, roedd y Comisiynydd o'r farn ei bod hi'n bwysig cynnwys adrannau yn yr adroddiad sy'n gwbl seiliedig ar yr hyn a ddywedodd y plant wrthi.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i dros 100 o blant:

> "*Pa gymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc pan fyddan nhw'n dioddef cam-drin domestig gartref?*"[5]

Yn ystod sesiynau wedi'u hwyluso, creodd y plant dros 90 o eitemau yn cynnwys eu hadborth i'r Comisiynydd, gan gynnwys ffotograffau, arolygon, posteri, siartiau tro, lluniau, cardiau post a dogfennau ysgrifenedig. I gael manylion llawn y cynllun peilot a sylwadau'r plant, edrychwch ar adroddiad y Comisiynydd: *Tell Nicole "Our feelings matter": Children's views on the support they need after experiencing domestic abuse*.[6]

### Prif themâu Tell Nicole "Our feelings matter"

*Pwysigrwydd gwrando ar blant*

Mae plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt am i rywun wrando arnynt, am gael eu cymryd o ddifrif, am gael eu trin â pharch ac am gael eu credu pan fyddant yn rhannu eu profiadau.

Mae'r plant yn teimlo nad yw llawer o oedolion yn cydnabod effaith cam-drin domestig ar blant. O ganlyniad, gall fod gan rai oedolion ddisgwyliadau annheg o ran ymddygiad plant sydd wedi profi trawma.

*Sicrhau y caiff plant help i adnabod achosion o gam-drin domestig*

Roedd y plant yn credu y dylid rhoi gwybodaeth sylfaenol i bob plentyn am gam-drin domestig, sut i adnabod ymddygiadau camdriniol a phwy y dylid dweud wrthynt os bydd yn digwydd i chi. Dylid rhoi gwybodaeth am gydsyniad a pherthnasoedd iach i blant ifancach.

*Beth sydd ei angen ar blant er mwyn gwella ar ôl dioddef cam-drin domestig*

I'w helpu i wella ar ôl dioddef cam-drin domestig, dywedodd y plant wrthym fod angen y canlynol arnynt:

- diogelwch a mannau lle gallant siarad â rhywun sy'n gwrando arnynt
- gweithwyr proffesiynol sy'n cydnabod y gallai disgrifiadau'r plant o'r hyn a oedd yn digwydd fod yn wahanol i ddisgrifiadau eu rhieni a'u gofalwyr

[5] Yn unol â chwmpas yr adroddiad hwn, gofynnwyd cwestiwn i'r plant a oedd yn canolbwyntio ar blant yng nghyd-destun achosion o gam-drin domestig rhwng y rhieni. Fodd bynnag, mae fframwaith *Tell Nicole* hefyd yn annog plant i ddweud beth arall yr hoffent ei ddweud wrth Nicole; o ganlyniad, cawsom sylwadau hefyd gan bobl ifanc a oedd yn sôn am achosion o gam-drin domestig o fewn eu perthnasoedd agos eu hunain.
[6] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025c).

- mwy o ddewis o ran hyd y cymorth, lleoliad y cymorth a'r math o gymorth (er enghraifft, sesiynau grŵp neu sesiynau unigol)

*Rhwystrau sy'n atal plant rhag cael cymorth*

Nododd y plant sawl rhwystr sy'n eu hatal rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys:

- diffyg ymwybyddiaeth plant o gam-drin
- eu parodrwydd i siarad
- profiadau negyddol wrth geisio cael gafael ar gymorth yn y gorffennol
- dylanwad aelodau eraill o'r teulu
- trefniadau cyswllt nad ydynt eu heisiau
- amheuon plant tuag at yr heddlu

Roedd y plant a wnaeth feirniadu'r heddlu yn cwyno am ddiffyg empathi tuag at eu sefyllfa, na wnaeth yr heddlu siarad â nhw ar wahân i'w rhieni a'u gofalwyr ac na wnaeth yr heddlu gymryd achosion o gam-drin a oedd yn digwydd o fewn perthnasoedd y bobl ifanc eu hunain o ddifrif.

*Sut gall ysgolion helpu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt*

Nid yw'n fawr syndod, o ystyried faint o amser y mae plant yn ei dreulio mewn addysg, fod llawer o sylwadau'r plant yn sôn am yr hyn a ddylai ddigwydd mewn ysgolion i atal cam-drin domestig – er mwyn nodi achosion yn gynnar a rhoi cymorth gwell i helpu plant i wella.

*Atal cam-drin domestig*

Roedd y plant yn credu bod angen help ar bob plentyn i adnabod achosion o gam-drin domestig. Roeddent yn credu y gall ysgolion helpu drwy gynnwys mwy o drafodaethau am gam-drin domestig mewn gwasanaethau ac fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas/Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economeg.

Roedd y plant yn teimlo bod angen i wybodaeth am gam-drin domestig neu berthnasoedd iach gael ei chyflwyno gan weithwyr sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y pynciau hyn – nid eu hathrawon arferol.

*Nodi achosion o gam-drin domestig yn gynnar*

Trafododd y plant hefyd ffyrdd a fyddai'n galluogi ysgolion i ymyrryd yn gynharach. Gellid gwneud hyn drwy:

- hyfforddi athrawon i ddiweddaru eu gwybodaeth am drawma ac effaith cam-drin domestig ar blant, ac arwyddion cam-drin, gan gynnwys o fewn perthnasoedd pobl ifanc.
- annog athrawon a staff ysgol i chwarae rhan weithredol drwy ymateb mewn ffordd hyblyg i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt a thrwy sôn yn rheolaidd am y cymorth a allai fod ar gael.

*Cymorth i wella*

Roedd y plant yn credu y dylai ysgolion fod yn helpu plant i wella ar ôl achos o gam-drin domestig drwy ymyrryd yn gynharach, rhoi cymorth arbenigol a chwnsela, a sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel. Mae'n well gan rai plant gael cymorth y tu allan i amgylchedd yr ysgol.

Roedd y plant yn credu pe byddai gan athrawon ddealltwriaeth well o drawma, y byddent yn ymateb i ymddygiad disgyblion ac yn rheoli'r ymddygiad hwnnw mewn ffordd a oedd yn dangos mwy o ddealltwriaeth.

*Gweithio gyda phlant sy'n wynebu argyfwng a chyfathrebu â nhw*

Ar lefel ymarferol, dywedodd y plant fod angen i blant sy'n dioddef cam-drin domestig gael help i gynllunio camau diogelwch. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o sylwadau'r plant am yr hyn a ddylai ddigwydd mewn argyfwng yn sôn am y ffordd roedd gweithwyr yn gwneud iddynt deimlo ar yr adegau hyn.

*Ymhlith rhinweddau gweithwyr proffesiynol roedd y plant yn eu gwerthfawrogi, roedd y canlynol:*

- unigolion profiadol sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o gam-drin domestig
- unigolion sy'n gallu uniaethu, ar ôl cael profiad tebyg eu hunain
- unigolion sy'n garedig ac yn dangos parch at blant
- unigolion sy'n gwrando'n ofalus, sy'n bwyllog ac sy'n dangos agwedd gadarnhaol
- unigolion amyneddgar nad ydynt yn barnu

*Cyfathrebu*

Dywedodd y plant eu bod am i weithwyr proffesiynol wneud y canlynol:

- cymryd mwy o amser i wrando arnynt ac i weithio ar gyflymder addas i'r plentyn
- cydnabod bod gan oedolion fwy o bŵer, a all fod yn annheg i blant

Er enghraifft, dywedodd y plant eu bod am gadw eu gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol a chadw rheolaeth dros ba wybodaeth amdanyn nhw neu am aelodau o'u teulu a gaiff ei rhannu ag eraill. Mae angen i oedolion y mae'n ofynnol iddynt ddilyn gweithdrefnau diogelu feddwl yn ofalus sut y gallant alluogi plant i deimlo eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a bod rheolaeth ganddynt dros y sefyllfa.[7]

*Beth mae'r plant yn credu y dylai'r Llywodraeth ei wneud*

Roedd y plant yn credu y gallai'r Llywodraeth helpu eu sefyllfaoedd drwy wneud y canlynol:

- addysgu oedolion am effaith cam-drin domestig ar blant
- rhoi mwy o rôl i ysgolion wrth gefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- deall pa wasanaethau sy'n helpu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt a sicrhau bod y gwasanaethau hynny ar gael
- sicrhau bod y system gyfreithiol yn gweithio, er mwyn gwneud yn siŵr bod unigolion sy'n cam-drin yn wynebu goblygiadau hynny

**Y camau nesaf**

O ganlyniad i *Tell Nicole*, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi gwneud cyfres o ymrwymiadau i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig (gweler Adran 3 o *Tell Nicole "Our feelings matter*"). Yr ymrwymiad cyntaf yw sicrhau y caiff pob un o'r themâu a'r canfyddiadau o *Tell Nicole* eu cynnwys yn yr adroddiad hwn ac yn yr holl waith arall sy'n ymwneud â phlant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

[7] Mae gwasanaethau cam-drin domestig rheng flaen yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu â phlant ac o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid iddynt dorri cyfrinachedd a rhoi gwybod i'r gwasanaethau statudol am achosion. Caiff hyn hefyd ei esbonio i ddioddefwyr a goroeswyr yn ystod y cyswllt cyntaf un. Mae'r polisïau diogelu hyn wedi'u cynnwys fel rhan o hyfforddiant achrededig a safonau gwasanaeth ac mae'n bwynt ffocws wrth gomisiynu gwasanaethau arbenigol a/neu ddyfarnu cyllid. Mae hyn yn eithriadol o bwysig o ystyried bwriad y Llywodraeth i gyflwyno trefniadau Adrodd Mandadol drwy'r Bil Troseddu a Phlismona arfaethedig. Os caiff trefniadau Adrodd Mandadol eu cyflwyno, mae'r Comisiynydd yn glir y bydd yn rhaid cael ymrwymiad i sicrhau y caiff mannau cyfrinachol i blant sy'n cael eu cam-drin eu hamddiffyn, er mwyn eu hannog i ddatgelu achosion, a chynnig cymorth iddynt ar unwaith.

**Edrychwch am y symbol hwn i weld pa rannau o'r adroddiad hwn sy'n cynnwys cyfraniadau uniongyrchol gan yr unigolion a gymerodd ran yn *Tell Nicole***

*Gweler hefyd Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025) Tell Nicole "Our feelings matter": Children's views on the support they need after experiencing domestic abuse. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.*

**Nodyn i'r darllenydd**

Mae'r adroddiad hwn yn hirach nag adroddiadau blaenorol y Comisiynydd, er mwyn cydnabod y ffaith ein bod ymhell o gyflawni ein cyfrifoldebau i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, ac ymhell o weithredu mewn ffordd ystyrlon mewn ymateb i'r ffaith bod plant yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae profiadau plant o gam-drin domestig yn bwnc hynod bwysig, ac mae'r Comisiynydd yn gobeithio y bydd y Llywodraeth newydd yn rhoi blaenoriaeth iddo. Mae hyd yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r angen i flaenoriaethu'r pwnc, y gwaith y mae angen ei wneud a'r cyfle sydd ar gael i'r Llywodraeth newydd hon. Felly, drwy'r adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd yn gobeithio tynnu sylw adeiladol at y bylchau presennol yn y ddarpariaeth, a'r ffaith bod angen gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn gwneud gwelliannau helaeth ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

Byddai'r Comisiynydd yn argymell y dylid darllen yr adroddiad hwn mewn camau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig pwynt cyfeirio cynhwysfawr i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant sy'n destun cam-drin domestig, ac er bod yr adroddiad cyfan yn rhoi darlun llawn o'r ymateb i blant, mae hefyd yn darparu manylion helaeth ar wasanaethau penodol a'r rhan y maent yn ei chwarae yn yr Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig i gam-drin domestig.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n adlewyrchu taith y plentyn drwy'r system, gan ddechrau â dulliau atal cyffredinol, wedyn y cyfleoedd i nodi achosion o gam-drin ac ymyrryd yn gynnar, ac yn olaf, yr ymateb mewn argyfwng a chymorth parhaus. Gwneir argymhellion drwy gydol yr adroddiad, ac maent hefyd wedi'u cynnwys gyda'i gilydd ar ddiwedd yr adroddiad. Mae'r argymhellion hyn wedi'u rhannu'n saith thema wahanol, ac wedi'u hategu gan ganfyddiadau *Tell Nicole*, er mwyn dangos sut y cafodd argymhellion y Comisiynydd eu tywys gan y gwaith ymgysylltu a wnaed gyda phlant a phobl ifanc.

**1.0 PENNOD UN – CYFLWYNIAD**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o brofiadau torcalonnus dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig wedi gwella, ac mae polisïau, ymarfer a sgyrsiau cyhoeddus yn gwneud mwy i gydnabod profiadau dioddefwyr a goroeswyr a'r angen am gymorth arbenigol. Ceir mwy o ffocws hefyd ar alluogi plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.[8] Er gwaethaf hyn, nid oes digon o bwyslais ar leisiau plant o hyd o fewn polisïau cenedlaethol ac o fewn ymatebion amlasiantaethol lleol i fabanod, plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae cam-drin domestig yn enghraifft sylfaenol o wadu hawliau plant, gan lesteirio eu budd pennaf, eu rhyddid i fynegi eu hunain, eu gallu i ymlacio ac i chwarae a'u hawl i fod yn ddiogel rhag trais[9], a hynny ar gost eithriadol i gymdeithas.[10]

Yn anffodus, mae profiadau o gam-drin domestig yn ystod plentyndod yn gyffredin.[11] Mae asesu nifer gwirioneddol y plant sy'n dioddef cam-drin domestig yn anodd o ganlyniad i'r normau a'r agweddau cymdeithasol sy'n treiddio i normau teuluol, sef preifatrwydd, cywilydd a'r awydd i wadu achosion o gam-drin yn y cartref. Mae enghreifftiau lle caiff difrifoldeb rheolaeth drwy orfodaeth ei danseilio a'r ffaith na chaiff ei chydnabod yn ddigonol yn creu rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n amhosibl i lawer o ddioddefwyr a goroeswyr ddatgelu'r sefyllfa.

Gall effeithiau cam-drin domestig ar blant fod yn ddwys. Ochr yn ochr â'r trallod a brofir pan fydd yr achos o gam-drin yn digwydd (fel lefelau uwch o ofn, swildod, ynysigrwydd, colled, gorbryder ac iselder)[12], mae tebygolrwydd hefyd y byddant yn wynebu trawma tymor hwy a fydd yn effeithio ar eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, eu datblygiad, eu hymddygiad a'u llesiant emosiynol.[13, 14, 15] Mae'r effeithiau seicolegol negyddol y mae plant yn debygol o'u hwynebu o ganlyniad i reolaeth drwy orfodaeth yn cynnwys diffyg sicrwydd a diogelwch, amharodrwydd i ymddiried mewn eraill a chyfleoedd cyfyngedig i ddewis, teimlo'n rhydd a meithrin ymdeimlad o annibyniaeth.[16, 17]

O ystyried yr effaith sylweddol y mae cam-drin domestig yn ei chael ar blant, dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, gan amddiffyn plant rhag niwed corfforol, gan ar yr un pryd gydnabod a hyrwyddo eu diogelwch seicolegol ac emosiynol, gan gynnwys ymdrechion i ddeall sut mae eu hymddygiad yn adlewyrchu unrhyw drawma.

---

[8] Øverlien, C. a Holt, S. (2021).
[9] UNICEF (2019).
[10] Oliver, R. et al (2019).
[11] Radford, L. et al (2011); Skafida, V. et al (2022).
[12] Kitzmann, K. M. et al (2003).
[13] Stanley, N. (2011).
[14] Holt, S. et al (2008).
[15] Sefydliad Iechyd y Byd (2013).
[16] Mullender, A. et al (2002).
[17] Buckley, H. et al (2007).

### 1.1 Y Fframwaith Deddfwriaethol

#### 1.1.1 Deddf Cam-drin Domestig 2021

Yn 2021, ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu, cafodd plant eu cydnabod yn gyfreithiol am y tro cyntaf fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain yng Nghymru a Lloegr. Mae Adran 3 yn diffinio plentyn sy'n ddioddefwr fel unrhyw blentyn sy'n gweld neu'n clywed y gamdriniaeth, neu'n wynebu effeithiau'r gamdriniaeth.[18] Ochr yn ochr â'r newid arwyddocaol hwn, datganodd y Ddeddf y byddai'r ddyletswydd i ddarparu llety diogel o dan Ran 4 yn berthnasol i blant yn ogystal ag oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig.[19]

#### 1.1.2 Yr angen am eglurder

Er gwaethaf y newidiadau pwysig yn Neddf Cam-drin Domestig 2021, nid yw'n glir o hyd beth mae'r diffiniad o blant fel dioddefwyr yn ei olygu o ran ymarfer rheng flaen. Pan gynhaliodd y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant arolwg o Bartneriaethau Diogelu Plant Lleol yn Lloegr er mwyn canfod sut roeddent yn ymateb i'r newid yn y Ddeddf Cam-drin Domestig i gydnabod plant fel dioddefwyr, cafwyd amrywiaeth o ymatebion. Er mai ymateb rhai partneriaethau oedd na allent ateb gan eu bod yn aros am ganllawiau cenedlaethol pellach, dywedodd eraill eu bod bob amser wedi ystyried plant fel dioddefwyr uniongyrchol a bod hynny'n llywio eu hymateb cyfan.[20]

Yn ystod yr un flwyddyn, cyhoeddwyd yr Adolygiad Ymarfer Diogelu Plant Cenedlaethol i lofruddiaethau echrydus Arthur Labinjo-Hughes a Star Hobson, gan dynnu sylw at wendidau sylweddol yn yr ymateb diogelu plant lleol, a gwersi i'w dysgu o ran ymarfer.[21] Cyfeiriwyd at gam-drin domestig yn y ddau achos, ond ni chafodd ei archwilio'n llawn, a chafodd cyfleoedd i ymyrryd a rhoi cymorth yn gynnar eu methu – thema gyfarwydd o Adolygiadau blaenorol.[22, 23] Cyhoeddodd yr adolygiad argymhellion penodol ar wella'r trefniadau ar gyfer gweithio amlasiantaethol rhwng gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a gwasanaethau statudol, gan gynnwys ysgolion.

Mae'r Comisiynydd yn clywed pryderon o hyd gan ymarferwyr rheng flaen am yr hyn y dylai'r newid deddfwriaethol ei olygu mewn gwirionedd ac a ydym yn deall maint y broblem:

> *“Deddfwriaeth wag ydyw heb gyllid.”*
>
> *“Dydyn ni ddim wir yn siŵr sut i wneud newidiadau gan fod y niferoedd mor uchel.”*

Yn ogystal, mae ymarferwyr wedi rhannu sawl enghraifft o rai asiantaethau statudol nad ydynt yn ymwybodol o'r newid yn y ddeddfwriaeth, gan awgrymu bylchau sylweddol o ran gwybodaeth.

#### 1.1.3 Y Cyd-destun Deddfwriaethol

Yng Nghymru a Lloegr, cafodd y system amddiffyn plant ei sefydlu gan Ddeddf Plant 1989.[24] Mae Deddf Plant 2004 yn datblygu ar Ddeddf 1989 ac yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer amddiffyn plant, yn ogystal â nodi manylion dyletswyddau statudol awdurdodau lleol mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal leol.[25]

---

[18] *Deddf Cam-drin Domestig 2021.*
[19] *Deddf Cam-drin Domestig 2021.*
[20] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[21] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022a).
[22] Sidebotham et al (2016).
[23] Brandon et al (2020).
[24] *Deddf Plant 1989.*
[25] *Deddf Plant 2004.*

Er gwaethaf hyn, cyn 2000, nid oedd effaith cam-drin domestig ar blant yn cael ei chydnabod rhyw lawer. Nododd achos pwysig Re L;  Re V; Re M; Re H, [2000] EWCA Civ 194 yn glir y goblygiadau a'r effaith andwyol y gall cam-drin domestig eu cael ar blant yn ogystal â nodi canllawiau i'r llysoedd wrth ystyried trefniadau cyswllt yn dilyn achosion o drais domestig.[26, 27] Cyn hynny, dim ond oedolion roedd cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn ôl y gyfraith.

Yn 2002, diwygiwyd y diffiniad o niwed sylweddol i gydnabod yr effaith niweidiol pan fydd plant yn dod i gysylltiad ag achosion o gam-drin domestig, gan ddiffinio'r niwed sy'n cael ei achosi gan gam-drin domestig fel yr amhariad sy'n cael ei ddioddef o ganlyniad i weld neu glywed unigolyn arall yn cael ei gam-drin.[28] Fodd bynnag, nid oedd y diffiniad hwn yn cyfeirio at y niwed sylweddol i iechyd a llesiant tymor hwy plant, ac nid yw'n cydnabod y diffiniad ehangach o gam-drin domestig a'r effaith uniongyrchol ar blant ychwaith, fel y drosedd a gyflwynwyd yn 2015, sef ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol, nad yw'n cyfeirio o gwbl at blant.[29]

Mae Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 yn sefydlu dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, yn ogystal â rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol.[30] Nod y Ddeddf oedd gwella trefniadau gweithio cydgysylltiedig ar lefel leol i ddiogelu plant fel ffordd o wella ymarfer cenedlaethol. Fel rhan o'r Ddeddf, cafwyd cyfarwyddyd y dylai Addysg Rhyw a Chydberthynas fod yn ofynnol mewn lleoliadau addysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn adeiladu ar adran 22 o Ddeddf Plant 1989.

Yng Nghymru, yn 2015, aeth Llywodraeth Cymru gam ymhellach a chyflwynodd Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.[31] Ynghyd â dyletswyddau ar ardaloedd lleol i ddiogelu dioddefwyr trais ar sail rhywedd a pharatoi strategaethau lleol, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol sy'n canolbwyntio ar atal cam-drin domestig a throseddau eraill ar sail rhywedd, gan arwain at weithgareddau atal mandadol mewn ysgolion.

### 1.1.4 Cyfraith Ewrop

Mae Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol 1950 (y Confensiwn) yn sefydlu dyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â dioddefwyr cam-drin domestig ac yn rhoi rhwymedigaeth ar y Wladwriaeth i ymyrryd mewn achosion o gam-drin. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn i gyfraith ddomestig ac yn cadarnhau bod yn rhaid cymryd achosion o gam-drin domestig o ddifrif.[32]

### 1.1.5 Cyfraith ryngwladol

Derbynnir yn gyffredinol fod plant yn agored i niwed a chaiff hynny ei adlewyrchu'n glir mewn darpariaethau cyfreithiol sy'n gymwys oherwydd eu hoedran. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 1989 yw'r cytuniad hawliau dynol sydd wedi'i gadarnhau fwyaf ledled y byd, gyda phob gwlad ac eithrio Unol Daleithiau America yn ei gadarnhau.[33] Mae CCUHP yn offeryn cyfreithiol helaeth sy'n ymdrin â hawliau sifil, economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol y plentyn.

Cafodd CCUHP ei gadarnhau yn y Deyrnas Unedig (DU) ym mis Rhagfyr 1991. Fodd bynnag, nid yw CCUHP wedi cael ei ymgorffori'n llawn i gyfraith ddomestig y DU (ac eithrio yn yr Alban), ac felly

[26] Re L; Re V; Re M; Re H 2000 2 FLR 334.
[27] Rydym yn cyfeirio yma at 'drais domestig', yn hytrach na 'cham-drin domestig' er mwyn cyfeirio at eiriad yr achos.
[28] *Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002*, Nodiadau Esboniadol.
[29] *Deddf Troseddau Difrifol 2015*.
[30] *Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017.*
[31] *Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*.
[32] *Deddf Hawliau Dynol 1998.*
[33] UNICEF (1991).

nid yw gweddill y DU yn ymrwymedig i'r holl ddarpariaethau. Mae hyn hefyd yn golygu na all plant hawlio eu hawliau yn y llys gan ddefnyddio achosion o dorri CCUHP fel yr unig sail. Fodd bynnag, mae Erthygl 3 o CCUHP yn nodi bod yn rhaid i les pennaf plentyn fod yn ystyriaeth allweddol pan fydd sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd cyfreithiol, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol yn cymryd camau gweithredu.[34] Felly, mae rhwymedigaeth ar Lywodraeth y DU a phob corff cyhoeddus i ystyried CCUHP wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â phlant o ganlyniad i'r cadarnhad Gwladwriaethol. Mae Adran 2 o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd Plant ystyried CCUHP 1989, gan ddangos rôl ganolog CCUHP 1989 mewn cyfraith ddomestig.

At hynny, yn 2022, cadarnhaodd y DU Gonfensiwn Istanbwl, sef Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig.[35] Drwy gadarnhau'r Confensiwn, mae'r DU wedi ymrwymo i gymryd amrywiaeth o gamau i atal ac amddiffyn, erlyn a chydgysylltu polisïau mewn ymateb i gam-drin domestig. Fodd bynnag, rhoddodd y DU amod ar Erthygl 59 o Gonfensiwn Istanbwl, sy'n golygu ei bod wedi optio allan. Dyma'r ddarpariaeth i roi caniatâd awtonomaidd i breswylio i fudwyr sy'n ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, y mae eu preswyliaeth yn dibynnu ar gymar neu bartner, pan ddaw'r berthynas i ben oherwydd cam-drin domestig.[36] Mae'r amod hwn yn rhoi mudwyr sy'n ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig mewn sefyllfa beryglus iawn, gan y bydd risg y cânt eu hallgludo a/neu y caiff eu plant eu cymryd oddi wrthynt, neu y bydd yn rhaid iddynt aros mewn sefyllfa dreisgar am gyfnod hirach, er mwyn osgoi hynny. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar blant sy'n ddioddefwyr ac yn ailfictimeiddio'r plant am droseddau'r camdriniwr.

### 1.2 Dull gweithredu a threfniadau ymgysylltu'r Comisiynydd: ffynonellau mewnbwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi swm sylweddol o wybodaeth, mewnbwn a gwaith ymgysylltu.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi cynnal adolygiadau eang o lenyddiaeth a gwaith ymchwil sylfaenol, wedi ymgysylltu ag ymarferwyr ac wedi gofyn am safbwyntiau'r plant eu hunain. I grynhoi, mae'r adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth yn deillio o'r canlynol:

- Canfyddiadau o *Tell Nicole*
- Gwaith ymgysylltu â SafeLives Changemakers
- Arolwg o 168 o gomisiynwyr
- Arolwg o 266 o ddarparwyr gwasanaethau hysbys sy'n cefnogi plant
- 860 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol, gan gynnwys:
- Pob un o'r 41 o ardaloedd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr,
- 97 o weithwyr cymdeithasol o bob cwr o Gymru a Lloegr,
- 130 o athrawon ac Arweinwyr Diogelu Dynodedig ledled Cymru a Lloegr,
- 40 o weithwyr proffesiynol o wasanaethau ‘gan ac ar gyfer’ yng Nghymru a Lloegr,
- 100 o weithwyr proffesiynol o Hybiau i Deuluoedd yn Lloegr.

Ar ddechrau'r gwaith hwn, cydnabu'r Comisiynydd fod angen i unrhyw strategaeth am blant sy'n dioddef cam-drin domestig gynnwys lleisiau, blaenoriaethau a phryderon y plant hynny. O ganlyniad, datblygwyd ‘*Tell Nicole*’: fframwaith i greu cyfleoedd i blant gymryd rhan yng ngwaith y Comisiynydd. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn gynharach yn yr adroddiad hwn ac mae manylion llawn i'w gweld yn: *“Tell Nicole: “Our feelings matter.”*[37]

[34] UNICEF (1991).
[35] Cyngor Ewrop (2025).
[36] Cyngor Ewrop (2025).
[37] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025c).

Roedd y wybodaeth a gafwyd o'r gwaith ymgysylltu hwn yn allweddol wrth lywio'r argymhellion ac mae'r Comisiynydd yn hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd ran ac a soniodd yn agored am eu profiadau yn cefnogi plant.

### 1.2.1 Argymhellion

O ystyried gwerth gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai pob adran sy'n aelod o'r gweithgor trawslywodraethol arfaethedig (gweler y manylion ym Mhennod 9) adolygu a datblygu ei hymateb i blant fel dioddefwyr, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod llais plant yn hanfodol fel rhan o unrhyw ryngweithio neu waith datblygu polisi. Rhaid i hyn gynnwys adolygiad o'r cyrff cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt.**

- **Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg ddarparu cyllid ar y cyd i Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig gynnal cynllun peilot i greu panel ieuenctid cenedlaethol, i lywio polisi, yng Nghymru a Lloegr.** Byddai hyn yn seiliedig ar fodelau ymarfer gorau, fel pecyn cymorth Children and Families Affected by Domestic Abuse (CAFADA)[38] a phecyn cymorth cyfranogi Everyday Heroes[39] yn yr Alban.

- **Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau atgyfnerthu Polisi Prawf Teulu DWP i gynnwys cam-drin domestig, ac yn benodol, profiadau plant o gam-drin domestig, er mwyn sicrhau y caiff profiadau plant eu hystyried fel rhan o unrhyw brofion polisi.**

### 1.2.2 Safbwynt croestoriadol

Wrth ddatblygu'r adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd wedi nodi'n glir nad dim ond un math o gam-drin domestig sy'n bodoli. Mae gwahanol fathau o gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol, yn cyd-fodoli yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, ac mae'n bwysig deall sut y caiff pŵer a rheolaeth eu defnyddio yn y sefyllfaoedd hyn. Mae plant a phobl ifanc yn grŵp heterogenaidd, â hunaniaethau, anghenion a phrofiadau cymhleth ac amrywiol (fel iechyd meddwl, niwrowahaniaeth, anghenion addysgol arbennig ac anableddau, ethnigrwydd, oedran, rhywedd, crefydd, rhywioldeb, statws economaidd-gymdeithasol, statws mewnfudo). Mae absenoldeb parhaus o'r ysgol yn golygu nad yw rhai plant yn cael eu gweld gan systemau a allai eu hamddiffyn.[40] At hynny, ni ellir gorbwysleisio effaith profi tlodi yn ystod plentyndod. Gall byw mewn tlodi gynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn dioddef cam-drin domestig[41] a/neu esgeulustod yn sylweddol, ond gall y ffocws ar gam-drin domestig, ochr yn ochr â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl gwael, olygu mai prin yw'r sylw a roddir i'r rhai sy'n profi tlodi, a ffactorau croestoriadol eraill.[42] Yn y cyfamser, mae'r argyfwng costau byw wedi gwthio hyd yn oed mwy o blant i mewn i dlodi.[43, 44]

O ganlyniad, dylai polisi ac ymarfer adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn, a dangos sut mae niweidiau sy'n gorgyffwrdd a strwythurau gorthrwm croestoriadol yn effeithio ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais, yn ogystal â sut maent yn gwneud synnwyr o'r cam-drin, yn ymdopi ag ef ac yn ei reoli, a'r systemau cymorth sydd eu hangen.[45] Mae'n bwysig cydnabod bod aelodau o rai cymunedau yn ei chael hi'n anos mynd at yr awdurdodau oherwydd eu profiadau blaenorol fel unigolion neu gymunedau.[46] Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y sefyllfa o safbwynt croestoriadol ac mae wedi'i

---

[38] Houghton, C. et al (2024).
[39] Everyday Heroes (2015).
[40] Yr Adran Addysg (2024a).
[41] Skafida, V. (2023).
[42] Skinner, G.C.M. et al (2020).
[43] Y Ganolfan Ymchwil i Bolisi Cymdeithasol, Prifysgol Loughborough. (2024).
[44] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2024a).
[45] Llywodraeth yr Alban (2023).
[46] Belur, J. (2008); Femi-Ajao, O. et al (2018).

lywio gan ddull gweithredu gwrth-hiliol.[47] Mae'r adroddiad hefyd wedi'i lywio gan asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n ein galluogi i ddeall profiadau cyfan oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr yn well ac i nodi achosion o orthrwm systemig ac ymyleiddio.

Fel y dangoswyd gan lofruddiaeth drychinebus Sara Sharif, mae plant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig o gefndiroedd sydd wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol yn wynebu sawl niwed sy'n gorgyffwrdd ac mae eu hachosion yn aml yn syrthio drwy holltau yn y system gofal cymdeithasol o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o groestoriadedd a diffyg chwilfrydedd proffesiynol neu ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant. Rhaid rhoi blaenoriaeth i anghenion plant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin, a rhaid sicrhau bod camau diogelu penodol ar waith i ymdrin â'r niweidiau sy'n gorgyffwrdd a'r heriau y mae plant o gefndiroedd wedi'u hymyleiddio yn eu hwynebu.

### 1.2.3 O safbwynt rhyweddol

Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn – ac yn wir, holl waith y Comisiynydd Cam-drin domestig – yn berthnasol i bob dioddefwr a goroeswr cam-drin domestig, ni waeth beth fo'i ryw na'i rywedd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y Comisiynydd yn ystyried rhywedd; hynny yw, gan gydnabod bod cam-drin domestig yn dod o dan adain 'Trais yn erbyn menywod a merched',[48] a hynny fel achos ac fel canlyniad anghydraddoldeb rhywedd ac, felly, ei fod yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched.[49]

Bydd cam-drin yn effeithio ar bob dioddefwr neu oroeswr mewn ffyrdd gwahanol ac unigryw, yn seiliedig ar nodweddion, cefndir a phrofiadau croestoriadol yr unigolyn. Bydd rhywedd dioddefwr neu oroeswr a ph'un ai oedolyn neu blentyn yw'r unigolyn yn effeithio ar ei brofiad o gam-drin. Bydd gan ddynion, menywod ac unigolion nad ydynt yn cydymffurfio o ran eu rhywedd brofiadau gwahanol ond hefyd brofiadau cyffredin o gam-drin, a bydd cam-drin yn effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol ond hefyd mewn ffyrdd cyffredin; ond mae materion penodol y dylid bod yn ymwybodol ohonynt. Mae model Duluth ar gyfer deall pŵer a rheolaeth yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth o'r batriarchaeth wrth ystyried cam-drin domestig a gall fod yn ddefnyddiol wrth ddeall dynameg rhyweddol trosedd pan fo nifer anghymesur o'r cyflawnwyr yn ddynion a bod nifer anghymesur o'r dioddefwyr a'r goroeswyr yn fenywod.

Serch hynny, rhaid i ni gydnabod profiadau dynion sy'n wynebu heriau a rhwystrau penodol wrth ddod o hyd i gymorth. Yn adroddiad *Clytwaith o Ddarpariaeth* y Comisiynydd, tynnodd dynion sylw at y diffyg gwasanaethau a oedd ar gael iddynt, ac, hyd yn oed lle roedd gwasanaethau yn cael eu comisiynu i gefnogi pob rhywedd, roedd dynion o'r farn eu bod yn anhygyrch neu nid oeddent yn glir a oeddent yn gymwys i gael cymorth. Dywedodd 82% o ddynion fod mynediad at help yn anodd neu'n anodd iawn – o gymharu â 73% o bobl anneuaidd a 43% o fenywod.[50]

Nododd dynion fod gwasanaethau yn gwahaniaethu yn eu herbyn, neu nad oedd gwasanaethau yn bodoli ar eu cyfer. Dywedodd un goroeswr wrthym:

> "*Doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd i wasanaethau gwrywaidd yn unig a ches i ddim help pan siaradais â gwasanaethau benywaidd yn unig yn gofyn am gyngor. Gwnaeth un person hyd yn oed ymddiheuro a dweud eu bod nhw'n sylweddoli bod angen cefnogaeth arnaf, ond nad oedd yn gwybod am unman oedd yn ei darparu."*[51]

---

[47] Mae croestoriadedd, sef term a fathwyd gan Kimberlé Crenshaw, wedi'i wreiddio'n gadarn mewn profiadau menywod Du o hiliaeth a mathau gwahanol o orthrwm, gan gynnwys cam-drin domestig. I gael gwybod mwy, gweler: Ysgol y Gyfraith Columbia (2017).
[48]Er mai cylch gwaith y Comisiynydd yw materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, rhaid cydnabod bod cam-drin domestig yn fath o Drais yn Erbyn Menywod a Merched, ac ar lefel strategol, nad yw bob amser yn ddefnyddiol gwneud argymhellion i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dim ond un math o niwed, ac y gall hynny gael effaith andwyol ar yr ymateb i fathau eraill tebyg o niwed. Felly, er bod argymhellion y Comisiynydd yn ymwneud yn benodol â cham-drin domestig, yn unol â chylch gwaith y Comisiynydd, mae'r Comisiynydd yn annog y Llywodraeth i ystyried yr argymhellion gan gadw mathau eraill o Drais yn Erbyn Menywod a Merched mewn cof.
[49] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024b).
[50] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).
[51] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).

Bydd plant hefyd yn profi ac yn deall cam-drin domestig yn seiliedig ar eu profiadau eu hunain o rywedd, gallu eu rhiant nad yw'n cam-drin i gael help, a'r gwahanol ddisgwyliadau a gaiff eu rhoi ar ferched a bechgyn. Ni chaiff hyn ei ystyried yn fanwl yn yr adroddiad hwn, ac rydym wedi defnyddio iaith rywedd-niwtral (gan gyfeirio at 'ddioddefwr neu oroeswr' a 'chyflawnwr') i gyfeirio at yr amrywiaeth lawn o brofiadau. Serch hynny, mae'n werth nodi profiadau rhyweddol plant ac oedolion o gam-drin domestig.

**1.3 Nifer y plant sy'n byw mewn amgylchedd lle ceir cam-drin domestig rhwng y rhieni**

Mae plant yn dioddef cam-drin domestig mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallant fod yn destun rheolaeth gamdriniol ac ymddygiad camdriniol, a/neu gael eu cam-drin a/neu eu manipwleiddio er mwyn niweidio neu reoli aelodau eraill o'r teulu.[52] Mae'n debygol iawn y bydd plant y ceir achosion o gam-drin domestig yn eu cartref yn gweld ac yn clywed y gamdriniaeth, neu'n gweld yr effeithiau (fel anafiadau neu'r effaith emosiynol y mae'n ei chael), neu y byddant yn dod yn ymwybodol o'r gamdriniaeth sy'n digwydd drwy glywed eraill yn trafod y mater.[53] Yn yr achosion mwyaf brawychus, bydd plant yn bresennol neu'n dyst pan gaiff un o'u rhieni eu lladd neu eu treisio.[54] O dan yr amgylchiadau prin lle na fydd plant o bosibl yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, bydd dynameg negyddol y teulu o ganlyniad i gam-drin domestig yn cael effaith arnynt o hyd.[55] Gall plant chwarae 'rolau gweithredol' yn amddiffyn y rhiant nad yw'n gamdriniol a'u brodyr a'u chwiorydd, neu drwy ofyn am help pan fydd rhywbeth yn digwydd.[56] Gall plant hefyd deimlo euogrwydd, cywilydd a chyfrifoldeb os na fyddant yn gallu lliniaru'r gamdriniaeth. Er nad ymdrinnir â'r mater yn yr adroddiad hwn, mae llawer o bobl ifanc yn dioddef cam-drin domestig fel rhan o'u perthnasoedd agos eu hunain.

Mae amcangyfrifon o nifer y plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn amrywio ac mae'r ffaith nad yw pawb yn rhoi gwybod am achosion o gam-drin yn effeithio ar yr amcangyfrifon hyn. Mae'r ffaith nad oes arolwg cyffredinrwydd ar gael ac mai ystadegau swyddogol cyfyngedig sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud hi'n anodd asesu nifer y plant y mae'n effeithio arnynt.[57] Mae hyn yn tanseilio'r flaenoriaeth a roddir a'r adnoddau a ddyrennir i atal, nodi ac ymateb i'r niwed hwn. Mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn glir bod angen ystadegau swyddogol er mwyn deall maint y broblem hon, er mwyn sicrhau y gall cyllid ac adnoddau ddiwallu lefel wirioneddol yr angen. Fel y cyfryw, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ymrwymo i gyflwyno'r Arolwg Cyffredinrwydd Cam-drin Plant, gan gynnwys cwestiynau penodol ar ddod i gysylltiad â cham-drin domestig a phrofiad ohono yn ystod plentyndod.**

- **Dylai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol barhau i ystyried datblygu cwestiynau am fabanod a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig fel rhan o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr.**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod y canllawiau statudol sy'n sail i'r Ddyletswydd i Gydlafurio yn nodi'r canlynol yn glir:**
    - **Rhaid i bartneriaid diogelu gynnwys data blynyddol ar blant sy'n destun cam-drin domestig fel rhan o Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol.**
    - **Rhaid gwneud pob ymdrech i gasglu data am anghenion plant a dioddefwyr cam-drin domestig nad ydynt yn hysbys i wasanaethau statudol a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael cymorth.**

---

[52] Callaghan, J. et al (2018b).
[53] Hornor, G. (2023).
[54] Chantler, K. et al (2023b).
[55] Hornor, G. (2023).
[56] Stanley, N. (2011).
[57] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023).

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion yn rhoi'r awtonomi i ardaloedd lleol ddewis yr asiantaeth o fewn y Ddyletswydd i Gydlafurio sydd yn y sefyllfa orau i feddu ar bwerau cynnull.**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gymryd cyfrifoldeb cenedlaethol dros oruchwylio'r rôl sy'n gysylltiedig â'r pŵer cynnull a bod yn ymwybodol ba asiantaeth sy'n gyfrifol ym mhob ardal a sicrhau ei bod yn atebol am gyflawni ei dyletswyddau o dan y Ddeddf.**

Ar lefel leol, fel rhan o'u dyletswyddau o fewn y Ddyletswydd i Gydlafurio, rhaid i bartneriaid diogelu, gan gynnwys y sector addysg, gynnwys data blynyddol ar blant sy'n destun cam-drin domestig yn eu hardal leol, er mwyn sicrhau bod Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol mor gywir â phosibl.

### 1.3.1 Amcangyfrifon sydd ar gael

Gan nad oes astudiaeth cam-drin plant yn cael ei chynnal yng Nghymru a Lloegr, rydym yn dibynnu ar y canlynol o hyd:

- astudiaethau o ddegawdau blaenorol[58, 59]
- mesurau sy'n canolbwyntio ar gam-drin corfforol yn unig[60]
- ystadegau swyddogol neu ddata gwasanaeth sy'n tangynrychioli maint y broblem
- amcangyfrifon wedi'u cyfrifo o ddata ymchwil a gasglwyd at ddiben gwahanol.[61, 62]

Cynhaliwyd yr astudiaeth ddiwethaf o gam-drin plant ledled DU gyfan dros 15 mlynedd yn ôl. Yn ôl Radford et al, roedd 12% o blant dan 11 oed, 17.5% o blant rhwng 11 ac 17 oed a 23.7% o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed wedi dod i gysylltiad â thrais domestig rhwng oedolion yn eu cartrefi yn ystod plentyndod.[63] Defnyddiwyd cwestiynau am weld un rhiant yn cael ei gicio, ei dagu neu ei guro gan y rhiant arall i amcangyfrif nifer y plant a oedd yn dod i gysylltiad â thrais mwy difrifol yn ystod plentyndod (3.5% o blant o dan 11 oed, 4.1% o blant rhwng 11 ac 17 a 6% o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed).[64]

Yn 2014, amcangyfrifodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant nifer y plant yr oedd cam-drin domestig yn effeithio arnynt gan ddefnyddio achosion o gam-drin y rhoddwyd gwybod amdanynt gan oedolion lle roedd plant yn byw yn yr un cartref. Yn ôl data o'r Adult Psychiatric Morbidity Survey yn 2015, mae 26.7% o'r holl blant rhwng 0 a 5 oed yn Lloegr a 25.3% o blant rhwng 6 a 15 oed yn Lloegr yn byw ag oedolyn nad yw erioed wedi dioddef cam-drin domestig.[65]

Yn fwy diweddar, defnyddiodd Skafida et al ddata o astudiaeth garfan hydredol Growing Up in Scotland, sy'n dilyn 5,200 o blant a anwyd yn yr Alban rhwng mis Mai 2004 a 2005. Erbyn i'r plant yn yr astudiaeth gyrraedd 6 oed, roedd 14% o'r holl famau yn nodi eu bod wedi dioddef rhyw fath o gam-drin domestig ers geni'r plentyn, gan gynnwys 7% a oedd wedi dioddef cam-drin corfforol. Mae hyn yn cyfateb i ryw 45,000 o blant o dan 7 oed yn yr Alban y gallai cam-drin domestig o bosibl effeithio arnynt. Gan dybio tueddiadau tebyg ledled y DU, mae'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan yn dangos y gallai cam-drin domestig o bosibl effeithio ar ryw 700,000 o blant.[66] Gan ystyried brodyr a chwiorydd hefyd, gellir allosod y ffigur hwn i ddangos effaith ar 1.5 miliwn o blant. Er bod y ffigur hwn yn uwch nag amcangyfrifon blaenorol, nid yw'n cynnwys plant dros 7 oed; felly gallwn dybio'n

58 Radford, L. et al (2011).
59 Y Comisiynydd Plant (2018).
60 Adjei, N.K. et al (2022).
61 Skafida, V. et al (2022).
62 Y Comisiynydd Plant (2018).
63 Radford, L. (2011).
64 Radford, L. (2011).
65 Y Comisiynydd Plant (2018).
66 Skafida, V. et al (2023).

ganiataol bod y ffigur ar gyfer pob plentyn o dan 18 oed sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn llawer uwch.

Yn ôl y data diweddaraf ar gyffredinrwydd a natur achosion o gam-drin partneriaid o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, lle roedd pobl rhwng 16 a 59 oed yn nodi eu bod wedi dioddef cam-drin domestig, nododd 32.4% o'r ymatebwyr fod plentyn o dan 16 oed yn byw yn y tŷ.[67]

Fel y nodwyd, mae'r amcangyfrifon o gyffredinrwydd sydd ar gael yn amrywio, ac mewn rhai achosion, nid ydynt yn debygol o adlewyrchu'r boblogaeth bresennol gan fod cryn dipyn o amser ers i'r astudiaethau hyn gael eu cynnal. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon yn debyg yn yr ystyr eu bod oll yn adlewyrchu problem sy'n llawer mwy arwyddocaol na'r sylw sy'n cael ei roi a'r adnoddau sy'n cael eu buddsoddi ar hyn o bryd yn y math hwn o niwed a'i effeithiau posibl ar fywydau plant.

### 1.4 Effeithiau cam-drin domestig ar blant

tell nicole

"Ar goll, unig, trist, gwahanol, pryderus, colli rheolaeth, wedi dychryn, dig, anhapus, nerfus, ofn, heb lais."

Geiriau o waith celf gan blant oed uwchradd.

Bydd effeithiau cam-drin domestig ar blant yn amrywio yn ôl amrywiaeth o ffactorau, fel rhywedd, oedran, difrifoldeb y cam-drin, ac am ba hyd y byddant wedi cael eu cam-drin.[68] Caiff cam-drim domestig ei ystyried yn Brofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a fydd yn effeithio ar risgiau iechyd ac afiechydon yn ystod bywyd fel oedolyn,[69] ond mae profiad o brofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod sy'n digwydd ar yr un pryd hefyd yn allweddol o ran maint yr effaith. Ceir gorgyffwrdd sylweddol rhwng cam-drin plant, esgeuluso plant a cham-drin domestig sy'n effeithio ar blant ac mae plant yn debygol o gael eu poly-fictimeiddio.[70, 71, 72] Cyfeiriwyd at gam-drin domestig mewn bron hanner (47%) o'r Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol, yr Adolygiadau Cyflym a'r Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant Lleol a gafwyd rhwng 2023 a 2024, ac roedd yn fwy tebygol o fod yn bresennol mewn digwyddiadau lle bu'r plentyn farw (52%), o gymharu â digwyddiadau lle cafodd y plentyn niwed difrifol (43%).[73] Ceir cydberthyniad hefyd rhwng dod i gysylltiad â cham-drin domestig, a chosbi plant yn gorfforol. Mewn cartrefi lle mae partner camdriniol y fam wedi bod yn rhan o fywyd y plant ers iddynt gael eu geni, roedd 26% o blant 2 oed wedi cael smacio gan bartner camdriniol y fam.[74] Nid yw amddiffyniad cosb resymol yn Lloegr o gymorth yn hyn o beth, gan ei fod yn drysu'r ffiniau drwy ddadlau bod rhywfaint o drais yn y cartref yn dderbyniol.

Ym mhrofiad y Comisiynydd, mae meddwl am yr hyn y mae eu plant wedi'i ddioddef o ganlyniad i gam-drin, ar y cyd â chydnabyddiaeth gyfyngedig i'r ffyrdd y maent wedi ceisio amddiffyn eu plant, yn achosi cryn ofid yn aml i oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig. Wrth ystyried effeithiau cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc, mae'r Comisiynydd yn glir nad oes bai ar neb ond y cyflawnwr (cyflawnwyr), a bod yn rhaid rhoi cymorth i'r oedolyn sy'n ddioddefwr hefyd, er mwyn i'r unigolyn hwnnw, yn ei dro, allu helpu ei blentyn drwy'r profiadau hyn. Ni ddylid rhoi bai annheg ar yr oedolyn sy'n ddioddefwr am 'fethu ag amddiffyn' ac yn lle hynny, rhaid dwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd. Trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 7.

[67] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023).
[68] Skafida, V. et al (2021).
[69] Felitti, V.J. et al (1998); Stanley, N. (2011).
[70] Radford, L. et al (2011).
[71] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2024b).
[72] SafeLives (2014).
[73] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2024a).
[74] Skafida, V. et al (2023).

Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw dod i gysylltiad â cham-drin domestig yn ystod plentyndod o reidrwydd yn arwain at effeithiau negyddol; ond mae angen i ni ddeall pa ffactorau sy'n helpu i amddiffyn plant ac yn eu dwysáu.

### 1.4.1 Yr Effaith ar Iechyd Meddwl

Un o'r effeithiau mwyaf nodedig ar blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef cam-drin domestig yw'r effaith ar eu hiechyd meddwl. Mae nifer y cleifion sy'n cael Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) sydd wedi dioddef cam-drin domestig o leiaf ddwywaith y nifer hwnnw yn y boblogaeth gyffredinol, gyda bron i 50% o gleifion CAMHS yn nodi eu bod wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig neu gam-drin plant, a 22% yn nodi eu bod wedi dioddef y ddau.[75]

Mae cysylltiad cronig ag amgylcheddau lle mae ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol yn chwarae rhan amlwg yn creu ymateb straen parhaus yn ymennydd y plentyn, gan felly gynyddu'r risg o salwch corfforol a seicolegol.[76]

Roedd plant a oedd wedi dioddef cam-drin domestig yn fwy tebygol o gael diagnosis o nifer o wahanol broblemau iechyd meddwl. Er enghraifft, mae plant ddwywaith mor debygol o gael diagnosis o anhwylder defnyddio sylweddau. Mae'r tebygolrwydd o gael diagnosis ar gyfer mathau eraill o iechyd meddwl yn cynyddu fel a ganlyn:

- 20% ar gyfer anhwylder datblygiad seicolegol
- 40% ar gyfer anhwylder sy'n gysylltiedig ag iselder
- 40% ar gyfer sgitsoffrenia a seicosis
- 40% ar gyfer anhwylder organig
- 50% ar gyfer anhwylder gorbryder
- 60% ar gyfer hunan-niweidio bwriadol
- 80% ar gyfer anhwylder personoliaeth.[77]

Hyd yn oed pan na fydd cam-drin domestig neu fathau eraill o drawma wedi cael effaith amlwg ar blant, gallent fod yn destun 'effaith gysgwr' lle bydd plant yn dechrau wynebu problemau iechyd meddwl yn ddiweddarach yn eu bywyd.[78]

### 1.4.2 Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anableddau

Mae plant a phobl ifanc ag anabledd yn dioddef cam-drin domestig ar gyfradd uwch na'u cyfoedion nad oes ganddynt anabledd.[79] Mae oedolion ag anableddau yn wynebu risg uwch o gam-drin domestig – felly, bydd unrhyw blant yn y teuluoedd hynny yn wynebu risg uwch, boed yn anabl ai peidio.[80] Nid yw'n hysbys i ba raddau y mae cam-drin yn ystod beichiogrwydd yn achosi anableddau.

Nid oes digon o ymchwil wedi'i wneud i brofiadau o gam-drin domestig ymhlith plant ag anabledd, sy'n ei gwneud hi'n anodd datblygu dulliau gweithredu sy'n diwallu eu hanghenion neu'n meithrin dealltwriaeth pellach.[81] Mae 18.4% o'r holl ddisgyblion yn Lloegr[82] ac 11.4% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru[83] yn blant ag AAA neu ADY. Mae disgyblion y cofnodwyd iechyd cymdeithasol, iechyd

[75] Hultmann, O. et al (2022).
[76] Juruena, M.F. et al (2020).
[77] Sefydliad Ymchwil Cenedlaethol Awstralia ar gyfer Diogelwch Menywod (2022).
[78] Sefydliad Ymchwil Cenedlaethol Awstralia ar gyfer Diogelwch Menywod (2022).
[79] Jones, L. et al (2012).
[80] Robinson, S. et al (2020).
[81] Jones, C. et al (2017).
[82] Yr Adran Addysg (2024d).
[83] Ystadegau Llywodraeth Cymru (2024).

emosiynol ac iechyd meddwl fel eu prif fath o angen ymhlith y grwpiau cymorth AAA mwyaf yng Nghymru ac yn Lloegr.[84]

Mae plant ag anabledd wedi'u gorgynrychioli o fewn gwasanaethau plant, wedi'u tangynrychioli ar gynlluniau amddiffyn plant, ond wedi'u gorgynrychioli o fewn achosion sy'n arwain at Adolygiadau Achos Difrifol. Mae hyn yn awgrymu nad oes gweithdrefnau digonol gan wasanaethau amddiffyn plant i nodi plant ag anabledd ar yr adeg y mae'n dioddef achos o gam-drin.[85] Mae'r ffocws ar y 'risgiau cynhenid' sy'n gysylltiedig ag anabledd ymhlith plant a phobl ifanc wedi methu â lliniaru nac ymdrin â'u diogelwch, gan ar yr un pryd gyflwyno anabledd fel 'ffactor risg' yn hytrach na rhan o gyd-destun bywydau plant a phobl ifanc.[86]

Mae asiantaethau yn aml yn methu arwyddion bod plant anabl yn cael eu cam-drin, gan gamddehongli newidiadau yn eu hymddygiad neu anafiadau fel rhan o'u hanabledd neu'r cyflyrau iechyd sy'n deillio ohono, a chaiff anafiadau corfforol eu cuddio gan gwympiadau/damweiniau sy'n gysylltiedig â'u hanabledd neu ddiffyg rheoleiddio.[87] Mae hyn yn cynrychioli nifer o gyfleoedd coll, ac mae'r Comisiynydd yn glir bod yn rhaid cynnal mwy o waith ymchwil er mwyn deall effaith cam-drin domestig ar blant ag AAA ac anableddau gan felly wella'r ymateb.

### 1.5 Yr effeithiau yn ystod gwahanol gamau datblygiadol

#### 1.5.1 Beichiogrwydd a phlant cyn oed ysgol

Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod cymaint â 30% o achosion o gam-drin domestig yn dechrau yn ystod beichiogrwydd.[88] Mae'r nifer gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch gan nad yw unigolion bob amser yn rhoi gwybod am achosion. Mae rhwng 20% a 30% o fenywod beichiog yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau trais corfforol,[89] sy'n peri risg o anaf i'r fam a'i phlentyn heb ei eni. Gall natur y gamdriniaeth hefyd newid yn ystod beichiogrwydd, gyda chynnydd yn yr ergydion i'r stumog, o gymharu â chyn y beichiogrwydd, cam-drin llafar a thrais rhywiol.[90] Mae cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd hefyd yn cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl, gyda chyfraddau uwch o iselder ar ôl geni.[91] Yn ôl data ymchwiliad cyfrinachol MBRRACE i farwolaethau ymhlith mamau, hunanladdiad oedd prif achos marwolaethau ymhlith mamau yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl geni ac roedd cam-drin domestig yn ffactor a nodwyd ar gyfer 43% o'r menywod a fu farw.[92] Fodd bynnag, gan na fydd llawer o fenywod o bosibl wedi rhoi gwybod eu bod yn cael eu cam-drin, mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn llawer uwch.

Ynghyd â'r risgiau i'r fam, ceir risgiau o ran canlyniadau geni gwael a thrawma i'r ffetws. Gall cam-drin domestig gael dylanwad uniongyrchol ar ddatblygiad y ffetws drwy newid yr amgylchedd yn y groth.[93] Mae'r risg y bydd y baban yn marw yn ystod beichiogrwydd neu yn ystod yr enedigaeth rhwng 2 a 2.5 gwaith yn uwch mewn achosion lle cafwyd cam-drin domestig, gydag achosion cyffredin y farwolaeth yn cynnwys ergydion i'r abdomen, ac anafiadau meinwe meddal i'r baban.[94] At hynny, mae babanod y mae eu mamau yn dioddef cam-drin domestig yn ystod eu beichiogrwydd yn fwy tebygol o gael eu geni cyn amser ac o gael pwysau geni isel.[95]

---

84 Yr Adran Addysg (2024d).
85 What Works for Children's Social Care (2021b).
86 Wayland, S. et al (2016).
87 NSPCC (2024b).
88 Lyons, G. (2008).
89 Callaghan, J. et al (2018a).
90 Bullock, L. et al (2006).
91 Dennis, C.L. a Vigod, S. (2013).
92 MBRRACE-UK (2024).
93 Glover, V. a Capron, L. (2017).
94 Meuleners, L.B. et al (2011).
95 Cymorth i Ferched (2019).

Gall cysylltiad â straen gwenwynig, sy'n ysgogi ymateb straen cronig y corff, greu lefelau uchel o gortisol yn y groth, sy'n golygu y bydd lefelau cortisol hefyd yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd drwy gydol plentyndod.[96] Gall cysylltiad parhaus â thrais yn y groth effeithio hefyd ar niwroddatblygiad plentyn.[97] O ganlyniad, gall plant fod yn fwy tebygol o wynebu anawsterau wrth reoli a rheoleiddio emosiwn, gweithrediad gwybyddol, anawsterau iechyd ac anawsterau rhyngweithio cymdeithasol.[98]

Babanod o dan flwydd yw'r boblogaeth fwyaf agored i niwed yn y DU – y grŵp oedran sy'n wynebu'r risg uchaf o ddigwyddiadau difrifol a lladdiadau.[99] Mae blwyddyn gyntaf bywyd plentyn yn allweddol o ran ymlyniad a datblygiad, gan fod y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn yn hanfodol i'r baban ddysgu sut i hunan-reoleiddio a datblygu disgwyliadau ynghylch ymddygiad eraill.[100] Yn ôl damcaniaeth ymlyniad, rôl y rhiant/gofalwr yw amddiffyn – lle bydd unrhyw ymyrryd â'r rôl hon ac na all y rhieni amddiffyn eu hunain, gall hyn gael effaith andwyol ar y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn ac effeithio ar ymlyniad.[101] Un o'r dulliau gorfodaeth niferus y mae cyflawnwyr yn eu defnyddio yw ymosod ar allu rhianta'r fam a'r berthynas rhwng y fam a'r plentyn wrth arfer rheolaeth a goruchafiaeth – gall hyn ymyrryd yn sylweddol â'r datblygiad hanfodol hwn yn ystod blwyddyn gyntaf plentyn.[102]

Fel plant bach, gall plant sy'n dioddef cam-drin domestig fod yn or-adweithiol, neu'n or-oddefol, gan effeithio ar ddatblygiad eu hymennydd, a'u twf gwybyddol a synhwyraidd.[103, 104] Mae'r effeithiau yn cynnwys arferion cysgu gwael ac anhunedd, poen stumog, cymryd cam yn ôl o ran ymddygiad fel pyliau amlach o dymer drwg a sgrechian, iechyd gwael, gorbryder gwahanu ac ofn bod ar eu pen eu hunain.[105, 106] At hynny, mewn rhai achosion gall cam-drin domestig effeithio ar leferydd ac iaith plentyn: mae risg debygol y bydd plant cyn oed ysgol yn datblygu problemau sylweddol o ran eu lleferydd a'u hiaith ac y byddant yn dangos gwahaniaeth sylweddol o ran datblygiad eu clyw a'u lleferydd.[107] Lle bydd gan blant rhai sgiliau llafar, gall y plant hyn brofi rhwystredigaeth ormodol pan na fyddant yn gallu mynegi eu teimladau.[108]

### 1.5.2 Plant oed cynradd

Caiff llawer o effeithiau cam-drin domestig eu diystyru hyd nes y bydd problemau ymddygiadol yn digwydd pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynd i'r ysgol.[109] Gall gweithwyr proffesiynol fethu â chydnabod bod ‘problemau ymddygiadol’ yn deillio o drawma sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, gan arwain at gosbi plant, gan gynnwys cyfraddau uwch o blant sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn cael eu gwahardd o'r ysgol.[110]

I blant yn ystod y cam datblygiad hwn, gall fod effeithiau sylweddol ar eu hiechyd meddwl hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol. Mae iselder ymhlith plant rhwng 6 a 9 oed fwyaf cyffredin ymhlith plant sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig ac anhwylder iechyd meddwl y fam.[111]

---

[96] Glover, V. a Capron, L. (2017).
[97] Center on the Developing Child ym Mhrifysgol Harvard (2024).
[98] Bergman, K. et al (2007).
[99] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024a).
[100] Fonagy, P. (2001).
[101] Bowlby, J. (1979).
[102] Lapierre, S. (2010).
[103] Gewirtz, A.H. ac Edleson, J.L. (2007)
[104] UNICEF (2006).
[105] James, M.P. (1994).
[106] Stiles, M.M. (2002).
[107] Graham-Bermann, S.A. et al (2010).
[108] Christian, C.W. et al (1997).
[109] Hester, M. (2007).
[110] Hester, M. (2007).
[111] Silva, E.P. et al (2021).

Fodd bynnag, cydnabyddir yn ehangach nad yw astudiaethau yn rhoi digon o ystyriaeth i gymhlethdod bywydau plant a'u gallu i ymdopi ag emosiynau llethol ac anodd, gan gynnwys hunan-gysuro, ac i reoli'r emosiynau hynny.[112]

### 1.5.3 Pobl ifanc

Yn ôl dadansoddiad Astudiaeth Carfan y Mileniwm, roedd pobl ifanc a fu'n destun cam-drin domestig yn 3 oed yn fwy tebygol o nodi lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol uwch na'r cyfartaledd erbyn iddynt gyrraedd 14 oed.[113] Canfu astudiaethau eraill eu bod yn hunan-gofnodi lefelau uwch o alcoholiaeth a chymryd cyffuriau anghyfreithiol yn ystod llencyndod ac oedolaeth, o driwantiaeth o'r ysgol ac o gymryd risgiau.[114, 115] Ceir cydberthyniad cryf hefyd rhwng dod i gysylltiad â cham-drin domestig a phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.[116]

Mae rhieni yn modelu ymddygiadau i'w plant, felly mae risg y gall ymddygiadau camdriniol gael eu normaleiddio o fewn teuluoedd fel ffordd o ymdrin ag anawsterau a gwrthdaro. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gall dod i gysylltiad â cham-drin domestig rhwng y rhieni arwain at achosion lle bydd y plentyn yn cyflawni achosion o gam-drin domestig ei hun yn oedolyn.[117] Fodd bynnag, mae agwedd hynod ryweddol yn gysylltiedig â hyn ac nid yw profiad o gam-drin domestig yn blentyn yn golygu ei bod hi'n anochel y bydd yn cyflawni yn oedolyn.[118] Lle bydd unigolyn yn cael profiad o gam-drin domestig yn ystod llencyndod ac oedolaeth, naill ai fel dioddefwr neu gyflawnwr, dylid ystyried hynny ochr yn ochr ag effaith profiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod wrth benderfynu ar y camau gweithredu gorau i'w gefnogi.

### 1.5.4 Effaith lladdiadau domestig a hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ar blant

Mae effaith bod yn destun troseddau mor echrydus yn ddwys. Mae'n bosibl y bydd plant wedi gweld neu glywed camdriniaeth, neu y byddant wedi ymyrryd, naill ai cyn y lladdiad domestig neu yn ystod y lladdiad domestig ei hun[119], neu cyn hunanladdiad dioddefwr neu gyflawnwr.[120]

I blant a fu'n dyst i lofruddiaeth rhiant, bydd hynny'n gorgyffwrdd â mathau eraill o niwed, gan mai anaml y bydd y lladdiad yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun.[121] Yn aml, mae llawer o blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig a lladdiadau wedi dioddef mathau eraill o gam-drin plant – gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol, ac esgeulustod.[122] Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc sydd wedi cael profedigaeth drwy hunanladdiad yn wynebu mwy o deimladau o sioc, gorbryder ac hunan-fai na'r rhai hynny sydd wedi cael profedigaeth drwy achosion naturiol[123]. Mae astudiaethau hefyd wedi dangos risg uwch o iselder ymhlith tua 10% o'r bobl ifanc sy'n colli rhiant drwy hunanladdiad neu farwolaeth drawmatig arall fwy na ddwy flynedd ar ôl y golled.[124]

Mae'r profiad yn wahanol i'r profiad o gam-drin domestig nad yw'n angheuol. Yn yr achosion hyn, bydd y plentyn fel arfer yn colli'r ddau riant: y profiad trawmatig o golli'r rhiant nad yw'n gamdriniol, ynghyd â'r ffaith y bydd y rhiant-gyflawnwr fel arfer yn absennol gan y bydd wedi'i ddedfrydu i gyfnod yn y carchar.[125]

[112] Callaghan, J. et al (2017a).
[113] Gweithredu dros Blant (2019).
[114] Emery, C.R. (2011).
[115] Stiles, M.M. (2002).
[116] Chaffin, M. et al (2002).
[117] Herbert, A. et al (2024).
[118] Herbert, A. et al (2024).
[119] Chantler, K. et al (2023a).
[120] Chantler, K. (2023a).
[121] Lewandowski, L.A. et al (2004).
[122] Skafida, V. et al (2023).
[123] Andriessen, K. et al (2020).
[124] Andriessen, K. et al (2020).
[125] Alisic, E. et al (2017).

Fel y cyfryw, mae'r plant yn ymdrin â'r galar sy'n gysylltiedig â cholli eu rhieni, a'r trawma sy'n gysylltiedig â'u profiad. Caiff hyn ei waethygu gan y ffaith bod y plentyn wedi colli'r unigolyn a fyddai o bosibl wedi ei helpu i alaru colled fawr. At hynny, mae'n bosibl y bydd angen iddo symud i ardal newydd neu ddod yn rhan o'r system gofal.[126]

Mae plant wedi disgrifio ymdeimlad o deimlo'n wahanol, neu 'ddim yn normal' yn y cyfnod yn union ar ôl y digwyddiad, ac o fodoli o fewn 'diwylliant o dawelwch', heb wybod â phwy i siarad. O ganlyniad, mae plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig yn teimlo'n ynysig a'u bod wedi'u hymddieithrio.[127] Gall ofnau ynghylch rhannu bioleg â'r rhiant-gyflawnwr, a'r syniad y byddant wedi etifeddu genynnau peryglus neu y byddant yn trosglwyddo genynnau peryglus i'r genhedlaeth nesaf waethygu'r teimladau hyn.[128] Gall uniaethu â theulu'r dioddefwr fod yn ffordd ystyrlon o ddatrys gofid sy'n gysylltiedig â hunaniaeth.[129]

### 1.5.5 Yr effeithiau ar fywydau plant

Gall cam-drin domestig darfu'n sylweddol ar fywyd plentyn. Gall rhwydweithiau cymdeithasol a rhwydweithiau cymorth ddiflannu o ganlyniad i symud ysgol a chartref yn aml er mwyn cadw'n ddiogel a newid ffonau. Bydd plant yn colli grwpiau ffrindiau, anifeiliaid anwes,[130] ac eitemau eiddo, gan gyfrannu at ddryswch a dicter o ran yr hyn sy'n digwydd iddynt.[131] Gall gorfod cadw'n dawel er mwyn amddiffyn aelodau o'r teulu achosi ymdeimlad pellach o ynysigrwydd a, gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn creu haenau ychwanegol o drawma cymhleth i'r plentyn.

Bydd effaith cam-drin domestig o ddydd i ddydd ar blant yn croestorri â heriau a phrofiadau eraill y maent yn eu hwynebu. O ganlyniad i gau ysgolion yn ystod pandemig COVID-19, gwelwyd diffyg o ran dysgu ac iechyd meddwl plant.[132] Mae'r gyfradd o ran y plant nad ydynt yn mynd i'r ysgol neu nad ydynt mewn addysg wedi cynyddu ers y pandemig.[133] At hynny, caiff tlodi plant ei waethygu lle bydd achosion o gam-drin economaidd yn bresennol – er enghraifft, rhiant yn gwrthod talu taliadau cynhaliaeth plant neu'n methu â gwneud taliadau rheolaidd.

At hynny, mae llawer o blant yn byw gyda'r cyflawnwr o hyd, ochr yn ochr â'r rhiant sy'n eu hamddiffyn, o dan ddynameg ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol. Bydd y cyflawnwr yn parhau i chwarae rhan arwyddocaol ym mywyd llawer o blant, boed hynny drwy gydol perthynas â'r rhiant sy'n eu hamddiffyn, neu ar ôl i'r rhieni wahanu.[134] Gall hyn greu sefyllfaoedd cymhleth i blentyn: gall fod yn byw mewn amgylchedd lle nad oes llawer o gyfle i weithredu, lle mae ganddo lai o 'lais' yn y teulu, lle caiff ei ddadrymuso a lle caiff ei hyder a'i alluogedd eu herydu.[135] Felly, mae gweithio i ymyrryd â chyflawnwyr – neu'r rhai hynny sy'n dangos arwyddion cynnar o ymddygiadau afiach – yn rhan hanfodol o'r ymateb i blant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig.

Ni ellir gorbwysleisio effaith byw gyda cham-drin domestig, a dyna pam y mae'n rhaid gwneud llawer mwy i amddiffyn plant ac i wella'r cymorth a'r cyfleoedd i adfer sydd ar gael i blant sy'n destun cam-drin domestig, er mwyn iddynt allu tyfu i fyny i fyw bywydau hapus a boddhaus.

[126] Gaensbauer, T. et al (1995).
[127] Eastwood, O. et al (2024).
[128] Eastwood, O. et al (2024).
[129] Eastwood, O. et al (2024).
[130] Callaghan, J. (2023).
[131] NSPCC (2023).
[132] Mazrekaj, D. a De Witte, K. (2024).
[133] Y Comisiynydd Plant (2024d).
[134] Katz, E. (2016).
[135] Katz, E. (2016).

## 2.0 PENNOD DAU – Y DDARPARIAETH GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG ARBENIGOL I BLANT

Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau'r Comisiynydd ynghylch y ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i blant.

Er bod eithriadau nodedig,[136] anaml y mae'r llenyddiaeth flaenorol sy'n adolygu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn canolbwyntio ar blant yn eu rhinwedd eu hunain. Yn aml, caiff plant eu trafod o fewn cyd-destun anghenion ychwanegol eu rhiant; ac er y rhoddir ystyriaeth i sut y gall ffactorau fel anabledd, ethnigrwydd, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol atal oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr rhag cael gafael ar gymorth, prin iawn y caiff y ffactorau hyn eu hystyried, os o gwbl, wrth drafod plant sy'n ddioddefwyr.

Mae'r themâu a ddaeth i'r amlwg o adolygiadau blaenorol o wasanaethau cymorth cam-drin domestig i blant yn cynnwys y canlynol:

- diffyg cymorth therapiwtig i helpu plant i wella ar ôl trawma[137]
- lefelau cyllid isel i wasanaethau sy'n benodol i blant[138]
- dim cyllid penodedig i wasanaethau i blant ar gyfer tua un o bob pedwar lloches a gwasanaeth yn y gymuned[139]
- gwasanaethau yn gorfod lleihau nifer y plant y gallant roi cymorth iddynt[140]
- dim gwasanaethau cymorth i blant onid ydynt yn byw o fewn ardaloedd codau post neu ardaloedd o amddifadedd penodol[141]
- gwahaniaethau rhanbarthol yng nghyfran y plant sy'n cael cymorth drwy lety diogel[142]
- gallu plant i gael gafael ar wasanaethau yn dibynnu ar ymgysylltiad rhiant â'r gwasanaeth[143]

### 2.1 Mapio gwasanaethau arbenigol i blant: methodoleg a heriau

Er mwyn archwilio'r gwasanaethau cymorth i blant sy'n cael eu comisiynu a'u darparu ar hyn o bryd, cynhaliodd y Comisiynydd ddau arolwg ledled Cymru a Lloegr – yn gyntaf, gyda chomisiynwyr gwasanaethau cymorth cam-drin domestig ac, yn dilyn hynny, gyda darparwyr gwasanaethau cymorth cam-drin domestig i blant hysbys.

Bwriad gwreiddiol y prosiect oedd cynnal ymarfer 'mapio' o'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth i blant ledled Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn yr adroddiad technegol[144] ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, er bod yr ymateb a gafwyd gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant yn dderbyniol at ddibenion dadansoddi a deall y broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau, nid yw'n cynnig rhestr gyflawn o'r holl fathau o gymorth ym mhob ardal. Cafwyd amrywiaeth hefyd yn yr ymatebion a gafwyd gan gomisiynwyr o fewn ardaloedd daearyddol gwahanol yng Nghymru a Lloegr.

Ymatebodd cyfanswm o 168 o sefydliadau comisiynu i'r arolwg. Roedd tri chwarter yr ymatebwyr o gyrff comisiynu a oedd yn cynrychioli meysydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros gomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig – er enghraifft, naill ai'r awdurdod lleol haen un neu'r bartneriaeth diogelwch cymunedol berthnasol. Cyfeiriodd y comisiynwyr at 683 o wasanaethau arbenigol i blant a gomisiynwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

[136] Gweithredu dros Blant (2019).
[137] Senedd Cymru (2024).
[138] Against Violence and Abuse (2023).
[139] Cymorth i Ferched (2023b).
[140] Cymorth i Ferched (2023b).
[141] Gweithredu dros Blant (2019).
[142] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2023).
[143] Gweithredu dros Blant (2019).
[144] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025b).

Cafodd y ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg o ddarparwyr gwasanaethau ei lunio gan ddefnyddio data o'r arolwg o gomisiynwyr a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y flwyddyn, ymchwil ddesg a gwybodaeth leol a feithriniwyd drwy'r cydberthnasau a ddatblygwyd gan dîm ymarfer a phartneriaethau'r Comisiynydd a oedd yn seiliedig ar ranbarthau daearyddol. Cafwyd 266 o ymatebion i'r arolwg o ddarparwyr gwasanaethau, sef cyfradd ymateb o 51%. Rhyngddynt, cyfeiriodd y darparwyr gwasanaethau a ymatebodd at gyfanswm o 508 o wasanaethau ac ymyriadau i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yng Nghymru a Lloegr.

Roedd sawl ffactor yn effeithio ar yr ymateb i'r arolwg o ddarparwyr gwasanaethau. Yn wahanol i'r comisiynwyr, nid cyrff cyhoeddus yw'r sefydliadau sy'n rhoi cymorth i blant fel arfer ac, felly, nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad cyfreithiol i roi gwybodaeth i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Dangosodd yr ymatebion e-bost awtomataidd a gafwyd i'r gwahoddiadau i gymryd rhan yn yr arolwg lefelau uwch na'r lefel arferol o drosiant staff ac absenoldeb oherwydd salwch, a oedd yn golygu na fu bob amser yn bosibl cysylltu ag unigolyn penodedig yn ystod cyfnod yr arolwg. Gwrthododd sefydliadau eraill y cynnig i gymryd rhan, gan gyfeirio at y llwyth gwaith cam-drin domestig a oedd ganddynt. Mae hyn yn adlewyrchu pryder ehangach ynghylch amgylcheddau gwaith yn y sector trais yn erbyn menywod a merched,[145] sydd yn y pen draw yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir i bob dioddefwr a goroeswr.

O ganlyniad i arolygon y Comisiynydd, llwyddodd i adrodd ar y canlynol:

- Ymarfer comisiynu presennol mewn perthynas â phlant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Y mathau o wasanaethau a ddarperir – eu ffocws, poblogaethau targed a threfniadau cyllido
- Sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn gan gynnwys eu lleoliadau a'u hamgylchiadau ariannol
- Y materion y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt mewn perthynas â phlant a phobl ifanc gan gynnwys:
    - y gallu i gael gafael ar wasanaethau yn annibynnol ac i gael gafael ar wasanaethau yn gyffredinol
    - mynediad i blant ag anghenion ychwanegol a chroestoriadol,
    - a yw gwasanaethau yn canolbwyntio ar y plentyn, er enghraifft pwy sy'n darparu'r gwasanaeth a sut y maent yn ymgysylltu â phlant?

Ceir rhagor o fanylion am yr arolygon a'r dull yn yr adroddiad technegol: *Support Services for Children affected by Domestic Abuse Technical Report*.[146] Mae'r adrannau nesaf yn nodi prif ganfyddiadau'r arolygon. Dylai darllenwyr nodi drwy gydol ein dadansoddiad na fydd rhai o'r canrannau a nodir o bosibl yn dod i gyfanswm o 100 naill ai gan eu bod wedi'u talgrynnu neu oherwydd y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.


### 2.2 Comisiynu gwasanaethau i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt

Dywedodd y rhan fwyaf o'r comisiynwyr a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn comisiynu gwasanaethau wedi'u cynllunio'n benodol i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt (89%). Mae Ffigur 1 yn cyflwyno ymatebion y comisiynwyr i'r cwestiwn hwn. Nododd dros ddwy ran o dair o'r comisiynwyr (69%) y gall unrhyw blentyn gael y gwasanaeth, ond dywedodd 20% mai dim ond plant y mae eu rhiant neu eu gofalwr hefyd yn cael cymorth allai gael y gwasanaeth.

Dim ond dau o'r 17 o gomisiynwyr nad oeddent yn comisiynu gwasanaethau i blant a ddywedodd eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Atebodd saith ohonynt “Na” neu “Ddim yn gwybod” a chyfeiriodd 11 ohonynt at y ffaith bod plant yn cael cymorth anuniongyrchol drwy eu rhiant neu eu gofalwr.

[145] Cymorth i Ferched (2024b).
[146] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025b).

Ffigur 1: Comisiynu gwasanaethau i blant a'r meini prawf ar gyfer cael cymorth




### 2.3 Asesu'r angen am gymorth


Gofynnwyd i gomisiynwyr gwasanaethau cam-drin domestig nodi a oedd eu sefydliad wedi cynnal asesiad o anghenion lleol a oedd yn cynnwys adran gynhwysfawr ar blant a phobl ifanc, sef un o argymhellion adroddiad Clytwaith o Ddarpariaeth y Comisiynydd Cam-drin Domestig.[147] Dywedodd bron i hanner yr holl gomisiynwyr (47%) eu bod wedi asesu anghenion plant yn y gymuned ac mewn llety diogel, ac roedd dros un rhan o bump (22%) wedi asesu anghenion plant mewn llety diogel yn unig, fel sy'n ofynnol gan Ran 4 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 a chanllawiau statudol.[148] O blith y comisiynwyr eraill, roedd 14% yn bwriadu cynnal asesiad a oedd yn cynnwys plant yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ac roedd 8% wedi ateb “Na” neu “Ddim yn gwybod/ansicr”.[149] Gan fod dyletswyddau o fewn y Ddeddf yn amrywio, gyda dyletswydd i asesu ar awdurdodau 'perthnasol' neu 'haen un' a dim ond dyletswydd i gydlafurio â'r asesiad ar awdurdodau 'haen dau', cafodd atebion i'r cwestiwn hwn eu dadansoddi hefyd yn ôl y math o gomisiynydd. Dywedodd dros dri chwarter y partneriaethau diogelwch cymunedol (77%) a'r awdurdodau lleol haen un (81%) a ymatebodd fod eu hasesiad yn cynnwys adran gynhwysfawr ar blant a phobl ifanc o gymharu â 50% o'r awdurdodau lleol haen dau a 36% o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu neu awdurdodau cyfun maerol.

### 2.4 Comisiynu mwy o wasanaethau yn y gymuned na gwasanaethau llety

Roedd dros ddwy ran o dair o'r gwasanaethau yn wasanaethau yn y gymuned (68%) yn hytrach na gwasanaethau llety (er enghraifft, wedi'u darparu gan loches neu drwy fath arall o lety diogel). Mae Ffigur 2 yn cyflwyno atebion yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dangosodd y dadansoddiad o'r data ar gyllid a ddarparwyd gan y comisiynwyr fod gwasanaethau yn y gymuned i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt fel arfer yn cael llai o gyllid na gwasanaethau llety: y cyllid cyfartalog canolrifol fesul blwyddyn oedd £28K o gymharu â £41K i wasanaethau llety

[147] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).
[148] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol/Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2021).
[149] Roedd y canrannau yn cynnwys 1% o ddata coll.

Ffigur 2: Canran y gwasanaethau yn y gymuned a'r gwasanaethau llety i blant




**2.5 Mae llawer llai o wasanaethau yn canolbwyntio ar atal**

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a gomisiynir yn targedu plant y mae cam-drin yn effeithio arnynt fel rhan o'u perthynas â rhiant/gofalwr. Gofynnwyd i'r comisiynwyr nodi pa grwpiau o blant roedd y gwasanaethau a gomisiynwyd ganddynt yn eu targedu. Y pedair poblogaeth darged fwyaf cyffredin oedd:


- plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt fel rhan o'u perthynas â rhiant/gofalwr [sy'n cael y gwasanaeth ar eu pen eu hunain] (41%)
- plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt fel rhan o'u perthynas â rhiant/gofalwr [sy'n cael y gwasanaethau ar y cyd â'u rhiant neu ofalwr nad yw'n cam-drin] (20%)
- poblogaethau targed lluosog (10%)
- pobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig o fewn eu perthnasoedd agos eu hunain (7%)

Cafodd categorïau gwasanaethau eu hailgodio er mwyn dangos a oeddent yn canolbwyntio ar argyfwng a chymorth, adfer neu atal. Roedd traean o'r gwasanaethau yn canolbwyntio ar argyfwng a chymorth (33%), gyda chyfran debyg (31%) yn canolbwyntio ar adfer. Dim ond 13% o'r gwasanaethau oedd yn canolbwyntio ar atal.

**2.6 Nid oedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a oedd wedi'u comisiynu wedi cael eu gwerthuso**

Dim ond 6% o'r gwasanaethau neu'r ymyriadau a gofnodwyd gan y comisiynwyr yn yr arolwg oedd wedi cyhoeddi canfyddiadau o werthusiadau a oedd ar gael i'w rhannu – gweler Ffigur 3. Roedd gan bron i chwarter y gwasanaethau (24%) ganfyddiadau o werthusiadau a oedd at ddefnydd mewnol yn unig. Nid oedd dros hanner y gwasanaethau wedi cael eu gwerthuso (51%) neu nid oedd yr ymatebydd yn gwybod a oedd y gwasanaeth wedi cael ei werthuso (19%).

Ffigur 3: Canran y gwasanaethau a oedd wedi cael eu gwerthuso




**2.7 Mae'r rhan fwyaf o gyfnodau cyllido yn para rhwng blwyddyn a thair blynedd**

Er bod y cyfnodau cyllido a nodwyd yn amrywio o gyfnod o lai na blwyddyn i gyfnodau hyd at 25 mlynedd, roedd y rhan fwyaf o'r cyfnodau cyllido yn para rhwng blwyddyn a thair blynedd (72%). Yr hyd cyfartalog oedd tair blynedd a'r cyfnod a nodwyd amlaf oedd blwyddyn yn unig (29%).

**2.8 Mae lefelau cyllid wedi'u sgiwio gyda llawer mwy o wasanaethau yn cael symiau llai**

Cyfrifwyd y cyllid cyfartalog cymedrig a chanolrifol fesul blwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth drwy rannu cyfanswm cost pob gwasanaeth â nifer y blynyddoedd yn y cyfnod cyllido. Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o wasanaethau, roedd ystod y symiau cyllido yn eang, ac roedd gwahaniaeth mawr rhwng y swm cyfartalog cymedrig o gyllid a gafwyd a'r cyfartaledd canolrifol llawer is. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o wasanaethau yn cael symiau cymharol llai o gyllid ond bod y nifer bach o wasanaethau sy'n cael symiau llawer uwch yn gwthio'r ffigur cyfartalog cymedrig i fyny.

Mae'r symiau cyllid ar ben isaf y raddfa yn awgrymu nad 'gwasanaethau' i blant yn y ffordd y mae'r gair yn ei awgrymu yw'r hyn a nodir, ond mewn gwirionedd, ei fod yn cyfeirio at swydd i un gweithiwr, nad yw hyd yn oed o bosibl yn weithiwr llawn amser.

Roedd arsylwadau eraill ynghylch cyllid y gwasanaethau a gomisiynwyd a nodwyd yn yr arolwg fel a ganlyn:

- Gwasanaethau a oedd yn cynnig ymyriadau lluosog i blant oedd yn cael y symiau cyllid uchaf.
- Mae gwasanaethau llety yn cael symiau cyllid uwch na gwasanaethau yn y gymuned (er bod y gwariant cyffredinol ar wasanaethau yn y gymuned yn uwch gan fod mwy ohonynt).
- Roedd yr ystod mwyaf rhwng y symiau cyllid lleiaf a'r symiau cyllid mwyaf i'w gweld ymhlith gwasanaethau sy'n targedu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt o fewn eu perthynas â rhiant/gofalwr (dyma'r gwasanaethau a nodwyd amlaf).
- Gwasanaethau i bobl ifanc a oedd naill ai'n arddangos ymddygiad camdriniol neu a oedd yn destun cam-drin domestig o fewn eu perthnasoedd eu hunain oedd yn cael y symiau cyllid lleiaf, o gymharu â phoblogaethau targed eraill.


**2.9 Mae un gwasanaeth o bob pedwar yn cael ei gyllido gan wahanol ffynonellau ar gyfer gwahanol gyfnodau amser**

Gofynnwyd i'r comisiynwyr nodi sut roedd y cyllid ar gyfer pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Er bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn dod gan un ffynhonnell (er enghraifft, grant neu gyllid craidd) ar gyfer cyfnod penodol o amser (72%), roedd un gwasanaeth o bob pedwar yn cael cyllid a oedd yn dod o gyfuniad o grantiau a chyllid craidd a/neu'n cael cyllid ar gyfer gwahanol hydoedd.

**2.10 Dim ond ar gyfer un gwasanaeth o bob pump roedd cadarnhad y byddai'r trefniadau cyllido presennol yn parhau**

Ymddengys fod cyllid y mwyafrif o wasanaethau yn ansicr. Pan ofynnwyd a oes risg y caiff cyllid y gwasanaeth ei atal neu ei leihau pan ddaw'r cylch cyllido presennol i ben, nododd comisiynwyr fod risg i rywfaint o gyllid, os nad cyllid cyfan, dros 60% o'r gwasanaethau. Dywedodd y comisiynwyr nad oeddent yn gwybod a oedd yn risg ar gyfer 20% o'r gwasanaethau.

Ffigur 4: Barn comisiynwyr o ran a oes risg y caiff cyllid y gwasanaeth ei atal neu ei leihau pan ddaw'r cylch cyllido presennol i ben




**2.11 Y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i blant a nodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau**

Gofynnwyd i'r sefydliadau gategoreiddio eu gwasanaethau i blant gan ddefnyddio categorïau gwasanaeth 'Routes to Support' Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr (WAFE). Mae Tabl 1 yn cyflwyno nifer y gwasanaethau a gofnodwyd yn ôl pob categori. Gallai'r ymatebwyr roi tic wrth ymyl mwy nag un categori ar gyfer eu gwasanaeth os oedd hynny'n briodol. Gwaith adfer (46% o'r gwasanaethau) a gwasanaethau yn y gymuned (43%) oedd y categorïau gwasanaeth a gofnodwyd amlaf, wedi'u dilyn gan waith atal ac ymwybyddiaeth (30%). Cofnodwyd un rhan o bump o'r gwasanaethau fel gwasanaethau llety (20%), a chyfran debyg fel ymyriadau newid ymddygiad (18%). Dim ond 4% o'r gwasanaethau yn benodol i blant oedd yn wasanaethau mynediad agored, fel llinellau cymorth, canolfannau galw heibio neu wasanaethau ar-lein.

Tabl 1: Categorïau gwasanaeth yn seiliedig ar y rhai hynny a ddefnyddir yn 'Routes to Support'*

| Categorïau Gwasanaeth yn seiliedig ar ddiffiniadau Routes to Support | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwaith adfer, gan gynnwys cwnsela, gwaith therapiwtig, gwaith grŵp a grwpiau cymorth. | 231 | 46% |
| Gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys cymorth fel y bo'r angen, gwasanaethau allgymorth, rolau eirioli/gweithwyr achos. | 216 | 43% |
| Gwaith atal ac ymwybyddiaeth, fel gwaith addysgol ag ysgolion. | 151 | 30% |
| Gwasanaethau llety, gan gynnwys llochesi a mathau eraill o lety. Gall y gwasanaeth hwn gynnwys rhai mathau o waith adfer mewn llety. | 101 | 20% |
| Ymyriadau newid ymddygiad i blant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad niweidiol yn eu perthnasoedd â'u cyfoedion neu yn eu teuluoedd, fel CAPVA. | 93 | 18% |
| Arall | 28 | 6% |
| Gwasanaethau mynediad agored, gan gynnwys llinellau cymorth, canolfannau galw heibio a sgyrsiau ar-lein wedi'u hanelu'n benodol at blant a phobl ifanc yn unig. | 22 | 4% |

Noder: Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un categori; felly, mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%


Nesaf, gofynnwyd i'r sefydliadau nodi prif ffocws eu gwasanaeth(au) o blith rhestr hir o ddisgrifiadau o wasanaethau.[150] Y categorïau gwasanaeth a gofnodwyd amlaf gan ddarparwyr gwasanaethau oedd:

- gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc a oedd yn cael eu darparu wyneb yn wyneb (56%)
- gwaith adfer mewn grwpiau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys ymyriadau a rhaglenni (40%)
- gwaith grŵp gyda phobl ifanc er mwyn atal cam-drin domestig a hyrwyddo perthnasoedd iach, a gynhelir y tu allan i leoliadau addysgol (32%)
- gweithwyr cymorth cam-drin domestig i blant a phobl ifanc (31%)

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ddarperir yn targedu plant sy'n dioddef cam-drin domestig gartref neu yn eu teulu. Roedd dros hanner y gwasanaethau a gofnodwyd gan y sefydliadau yn rhoi cymorth i fwy nag un o'r poblogaethau a restrwyd. Mae Ffigur 5 yn cyflwyno canran y gwasanaethau sy'n nodi eu bod yn rhoi cymorth i boblogaethau targed penodol o blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Roedd y mwyafrif o'r gwasanaethau yn targedu plant sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn eu cartref neu yn eu teulu (78%), ac roedd 45% o'r gwasanaethau yn rhoi cymorth i blant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig yn eu perthnasoedd agos eu hunain. Roedd dros un rhan o bump o'r gwasanaethau yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig ag achos CAPVA (23%). Roedd cyfran debyg yn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n dangos ymddygiad camdriniol yn eu perthnasoedd eu hunain (22%), a nododd 8% o'r gwasanaethau nad oedd eu poblogaeth darged yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau a ddarparwyd. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys gwasanaethau i oroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwasanaethau i roi cymorth i bobl ifanc sy'n dioddef cam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, a gwasanaethau i blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

[150] Gweler yr adroddiad technegol i weld niferoedd a chanrannau pob math o wasanaeth neu ymyriad a gofnodwyd.

Ffigur 5: Canran y gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i wahanol boblogaethau o blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt




**2.12 Mae gwasanaethau yn dueddol o roi cymorth i blant o ystod oedran eang**

Rhoddwyd ystod oedran a oedd yn ymestyn o'r adeg cyn geni hyd at 25 oed i'r sefydliadau a gofynnwyd iddynt nodi'r oedran isaf a'r oedran uchaf ar gyfer derbyn plant a phobl ifanc a oedd wedi'u hatgyfeirio i'w gwasanaeth.

Roedd nifer bach o wasanaethau wedi'u targedu'n benodol at ystod oedran gymharol gul, er enghraifft, yr adeg cyn geni a phlant dan flwydd oed (2%). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc o ystod oedran eang, gyda thri chwarter y gwasanaethau yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed.

Gan ystyried yr oedrannau isaf a'r oedrannau uchaf ar draws y sampl gyfan, yr ystodau oedran isaf a gofnodwyd amlaf oedd pump oed (26%) a'r adeg cyn geni hyd at blant dan flwydd oed (25%), a oedd yn cynrychioli dros hanner y gwasanaethau. Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd llai nag un rhan o bump o'r gwasanaethau yn canolbwyntio ar blant ysgol uwchradd, lle mai'r oedran isaf ar gyfer derbyn atgyfeiriad oedd 11 oed neu'n uwch (18%). Roedd 16% o wasanaethau yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed. Mae hyn yn adlewyrchu'r canllawiau statudol i sefydliadau sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ag AAA neu anableddau.[151]

**2.13 Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig i blant**

Sefydliadau cam-drin domestig gwirfoddol oedd fwyaf tebygol o ddarparu cymorth arbenigol i blant. Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaethau ddewis o blith rhestr o opsiynau a oedd yn disgrifio'r math o sefydliad a oedd yn darparu gwasanaethau i blant. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd sefydliadau a oedd yn disgrifio eu hunain fel 'sefydliadau cam-drin domestig gwirfoddol' (59%) wedi'u dilyn gan sefydliadau gwirfoddol i blant (14%) a sefydliadau 'gan ac ar gyfer' (11%). Roedd 7% o sefydliadau a ymatebodd yn disgrifio eu hunain fel 'gwasanaethau mewnol awdurdod lleol'. Ticiodd sawl sefydliad fwy nag un opsiwn, a thiciodd chwarter y sefydliadau a ymatebodd yr opsiwn "Arall" lle roedd blwch iddynt ddisgrifio eu sefydliad yn eu geiriau eu hunain. Cafodd y wybodaeth a ddarparwyd ym mlwch testun yr opsiwn "Arall" ei huno a'i hailgodi i greu categorïau sefydliadol ychwanegol er mwyn cynrychioli proffil y sefydliadau darparwyr a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg yn y ffordd orau. Y grŵp mwyaf yn y categori "Arall" oedd sefydliadau a oedd yn disgrifio eu hunain

[151] Yr Adran Addysg a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2015).

fel sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lluosog.  Cafodd mathau eraill o sefydliadau a oedd yn cynnwys pedwar sefydliad neu fwy eu disgrifio fel “elusen”, “sefydliad cam-drin domestig” (yn hytrach na sefydliad cam-drin domestig gwirfoddol), “sefydliad tai”, “lloches” a sefydliad “Trais yn erbyn Menywod a Merched a cham-drin domestig”.

Gofynnwyd i'r sefydliadau nodi yn ardal pa awdurdod lleol (ALl) neu Gomisiynydd Heddlu a Throseddu roeddent yn darparu eu gwasanaethau. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn cael eu darparu i un ardal gomisiynu yn unig (61%); ond roedd dros draen o'r gwasanaethau yn cael eu darparu i fwy nag un ardal (39%). Nododd y mwyafrif o'r darparwyr gwasanaethau (85%) fod eu gwasanaeth neu ymyriadau yn cael eu darparu gan eu sefydliad nhw yn unig. Dim ond 15% o'r ymyriadau a gofnodwyd oedd yn cael eu darparu mewn partneriaeth neu fel rhan o gonsortiwm. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn darparu ymyriadau lluosog i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Er bod bron i 40% o'r sefydliadau wedi nodi eu bod yn darparu un ymyriad i blant yn unig, roedd y mwyafrif ohonynt yn darparu dau wahanol fath o ymyriad neu fwy ac roedd bron i 20% yn darparu pedwar ymyriad neu fwy.

### 2.14 Lefelau cyllid a gofnodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau

Gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaethau nodi gyfanswm y cyllid a oedd ar gael i'w gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024. Llwyddodd y sefydliadau i ddarparu'r ffigur hwn ar gyfer 341 o wasanaethau. Er bod 5% o'r gwasanaethau yn nodi nad oeddent yn cael unrhyw gyllid, y swm uchaf oedd £1,800,000. Y swm canolrifol oedd £60,000. Fel gyda'r symiau cyllid a gofnodwyd gan y comisiynwyr, roedd gwahaniaeth mawr rhwng y ffigur canolrifol isaf a'r ffigur cymedrig, sef £115,479, a oedd ychydig yn is na'r 75ain canradd. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu bod y mwyafrif o'r gwasanaethau a ymatebodd i'n harolwg yn cael symiau llai o gyllid, ond caiff y ffigur cyfartalog ei gynyddu o ganlyniad i nifer bach o wasanaethau sy'n cael symiau cyllid llawer uwch.

### 2.15 Y ffynhonnell gyllid a gofnodwyd amlaf oedd awdurdodau lleol ac wedyn ymddiriedolaethau elusennol

Roedd cyllid ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i blant yn dod o amrywiaeth o ffynonellau. Gofynnwyd i'r sefydliadau nodi o blith rhestr yr holl ffynonellau cyllid gwahanol a oedd ar gael i'w gwasanaethau. Cyllid gan awdurdodau lleol oedd yr ymateb amlaf (40%) ac wedyn grantiau gan ymddiriedolaethau elusennol (28%) a chyllid gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (27%). Roedd 18% o'r sefydliadau hefyd yn dibynnu ar weithgareddau codi arian a chynhyrchu incwm. Gofynnwyd i'r sefydliadau hefyd o ble yr oedd mwyafrif y cyllid ar gyfer eu gwasanaeth yn dod. Nododd traean o'r sefydliadau fod mwyafrif eu cyllid yn dod gan awdurdodau lleol. Dywedodd y grŵp mwyaf ond un fod mwyafrif eu cyllid yn dod o grantiau gan ymddiriedolaethau elusennol (20%). Er bod y cyllid roedd gwasanaethau yn ei gael gan awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol, roedd y symiau blynyddol yn dueddol o fod yn uwch na'r symiau a roddwyd gan ymddiriedolaethau elusennol. Roedd y cyllid cyfartalog a roddwyd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn uwch byth, gan adlewyrchu o bosibl yr ardaloedd daearyddol mwy.

### 2.16 Mae toriadau cyllid yn effeithio ar y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant


Roedd dros hanner y sefydliadau (56%) a ymatebodd i'r arolwg wedi wynebu toriadau cyllid i'r gwasanaethau arbenigol maent yn eu darparu i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nododd 29% o'r sefydliadau eu bod, o ganlyniad, wedi rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol a gynigiwyd ganddynt yn flaenorol i blant. Dywedodd cyfran debyg (27%) eu bod wedi gorfod amsugno rhywfaint o gostau, neu gost gyfan, y gwasanaeth er mwyn parhau i'w ddarparu. Ar gyfer y sefydliadau a oedd yn weddill, nid

oedd 43% wedi gorfod rhoi'r gorau i ddarparu unrhyw wasanaethau neu os bu'n rhaid iddynt wneud hynny, roedd hynny am resymau eraill heblaw cyllid (2%).

### 2.17 Mae problemau cyllid yn arbennig o amlwg yn y sector cam-drin domestig

Mae mwy o risg i gyllid gwasanaethau cam-drin domestig nag unrhyw sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.[152] Mae Ffigur 6 yn cymharu ymatebion y sefydliadau cam-drin domestig a ymatebodd i'r cwestiwn ag ymatebion sefydliadau eraill er mwyn canfod a oedd sefydliadau cam-drin domestig yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau i blant am resymau cyllidol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nododd y mwyafrif o sefydliadau cam-drin domestig gwirfoddol broblemau o ran cyllido eu gwasanaethau i blant yn ystod y pum mlynedd diwethaf. O gymharu â sefydliadau eraill, roedd sefydliadau cam-drin domestig gwirfoddol yn llawer mwy tebygol o nodi eu bod wedi rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol i blant am resymau cyllidol neu fod eu sefydliad wedi amsugno cost y gwasanaeth er mwyn parhau i'w ddarparu. Mae'r ansicrwydd hwn o ran cyllid yn golygu bod arbenigedd, o ran gwybodaeth a phobl, yn cael ei golli'n gyson, gan atal gwasanaethau rhag gwneud cynnydd.

Ffigur 6: Gwasanaethau a roddodd y gorau i ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i blant yn ystod y pum mlynedd diwethaf




Heb gynnwys Ddim yn gwybod neu Ddim yn gymwys

Gofynnwyd i'r sefydliadau a ddywedodd eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf oherwydd rhesymau cyllidol nodi'r math o wasanaeth a gaewyd. Y mathau o wasanaethau y cyfeiriwyd atynt fwyaf oedd: “Gwaith adfer (gan gynnwys cwnsela, gwaith therapiwtig a grwpiau cymorth)” (29%) ac wedyn “Gwasanaethau yn y gymuned (gan gynnwys cymorth fel y bo'r angen, gwasanaethau allgymorth, rolau eirioli/gweithwyr achos)” (23%). Efallai ei bod hi'n syndod mai gwaith adfer oedd y gwasanaeth roedd sefydliadau fwyaf tebygol o roi'r gorau i'w ddarparu sy'n awgrymu ei fod yn cael llai o flaenoriaeth na gwasanaethau argyfwng a ‘risg uchel’. Mae hyn er gwaethaf argymhelliad adroddiad Clytwaith o Ddarpariaeth y Comisiynydd Cam-drin Domestig a nododd y dylid cynyddu'r cymorth cwnsela a'r cymorth therapiwtig arbenigol sydd ar

[152] Cymorth i Ferched (2024b).

gael i ddioddefwyr a goroeswyr gan gynnwys plant. Cyfeiriodd sylwadau ysgrifenedig yn y categori 'Arall' at rai o'r straeon sy'n sail i'r ffigurau hyn: beth oedd wedi digwydd. Disgrifiodd ymatebwyr y canlynol:

- gwrthod cynnig i dendro gan ei bod hi'n amhosibl darparu gwasanaeth o ansawdd o fewn y gyllideb a oedd yn cael ei chynnig
- darparu cymorth heb ei gyllido i blant ers degawd
- atal gwasanaeth dros dro am gyfnod o dri mis o ganlyniad i broses ailgomisiynu a arweiniodd at golli'r tîm cyfan a phroses recriwtio ddilynol
- y ffaith mai dim ond ychydig fisoedd o gyllid oedd ar ôl gan wasanaethau

### 2.18 Blaenoriaethau plant o ran darparu gwasanaethau

Roedd y grŵp Changemakers wedi gofyn i'r Comisiynydd ganfod (1) A yw gwasanaethau cymorth yn canolbwyntio'n benodol ar blant?; a (2) A all bob plentyn gael gafael ar y cymorth?[153]

### 2.19 Nid oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau drefniadau i ymgysylltu â phlant ar hyn o bryd

Gofynnwyd i'r darparwyr gwasanaethau a oedd gan eu sefydliad banel ieuenctid, neu grŵp profiad bywyd pobl ifanc sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae eu gwasanaethau yn gweithredu. Nododd 22% o'r sefydliadau fod ganddynt banel neu grŵp o'r fath, a dywedodd 7% eu bod yn cydweithio â sefydliad arall â grŵp neu banel. Nid oedd gan dros draean o'r sefydliadau (35%) a ymatebodd i'r cwestiwn system i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a allai ddylanwadu ar y ffordd y mae eu gwasanaeth yn gweithredu. Roedd y grŵp mwyaf nesaf (30%) yn bwriadu datblygu system o'r fath. Gellir deall o bosibl nad oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau baneli ieuenctid ar hyn o bryd os nad yw cost darparu panel o'r fath yn rhan o'r contract comisiynu a bod yn rhaid i'r sefydliad amsugno'r gost honno.

### 2.20 Mae bron i ddwy ran o dair o wasanaethau yn helpu plant i eirioli drostynt eu hunain

Roedd darparwyr gwasanaethau yn fwy tebygol o helpu plant i eirioli drostynt eu hunain ar sail unigol fel rhan o'r cymorth maent yn ei ddarparu. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a yw eu gwasanaeth yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc eirioli drostynt eu hunain â gwasanaethau statudol, er enghraifft gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant neu'r heddlu. Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r gwasanaethau eu bod yn helpu plant a phobl ifanc i eirioli drostynt eu hunain. Roedd hyn yn cael ei wneud drwy'r dulliau canlynol: mynychu cyfarfodydd gyda'r plentyn ac eirioli ar ei ran neu ei helpu i eirioli drosto'i hun (47%), atgyfeirio plant at gymorth eirioli arbenigol yn yr ardal (8%) neu drwy drafod hyn yn ystod sesiynau gyda'r plentyn neu'r person ifanc i'w helpu i baratoi i eirioli ond heb fynychu'r cyfarfodydd eu hunain gyda'r unigolyn (7%). Dywedodd y darparwyr gwasanaethau a nododd nad oeddent yn helpu unigolion i eirioli naill ai nad oedd eu gwasanaeth yn darparu'r math hwnnw o gymorth (27%) neu fod y plant a oedd yn cael cymorth ganddynt yn rhy ifanc ar gyfer y math hwn o waith (3%). Rhoddodd y 7% o ymatebwyr a oedd yn weddill atebion eraill i'r cwestiwn hwn.


### 2.21 Mae dros draean gweithwyr gwasanaethau arbenigol i blant yn gweithio gydag oedolion a phlant

Roedd pobl ifanc wedi dweud wrth y Comisiynydd Cam-drin Domestig ei bod hi'n bwysig gwybod bod y gweithwyr sy'n rhoi cymorth yn gallu uniaethu â phlant. Gofynnwyd i'r sefydliadau nodi pa fath o weithwyr neu ymarferwyr oedd yn rhoi'r cymorth i blant (Ffigur 7). Er ein bod yn cydnabod nad yw teitlau swydd gweithwyr o reidrwydd yn gysylltiedig â'u gallu i ymgysylltu â phlant a gweithio'n effeithiol â nhw, mae'n ddefnyddiol deall pa broffesiynau sy'n rhoi cymorth ar hyn o bryd. Roedd modd i'r sefydliadau roi tic wrth ymyl mwy nag un proffesiwn o blith amrywiaeth o broffesiynau posibl

[153] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025b).

ar gyfer eu gwasanaeth. Y grŵp o weithwyr a gofnodwyd amlaf oedd “Ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion a phlant” (37%). Mae hyn yn awgrymu, ar gyfer dros draean o wasanaethau, fod y gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau arbenigol mewn gwirionedd yn gweithio gydag oedolion a phlant yn hytrach na phlant yn benodol. Roedd y rhan fwyaf o'r proffesiynau eraill yn weithwyr â theitlau swydd a oedd yn awgrymu eu bod yn gweithio'n benodol â phlant. Yr un mwyaf cyffredin oedd Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig i Blant a Phobl Ifanc (24%) a gweithwyr plant mewn lloches (17%).

Ffigur 7: Mathau o broffesiynau sy'n darparu gwasanaethau i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt




Yn gynharach yn yr adran hon, gwnaethom drafod y ffaith bod 20% o'r comisiynwyr wedi nodi mai dim ond plant y mae eu rhiant neu ofalwr hefyd yn cael cymorth allai gael y gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a gomisiynir ganddynt. Gan ddilyn cyngor grŵp Changemakers, ystyriwyd y mater hwn yn fanylach fel rhan o'r arolwg o ddarparwyr gwasanaethau, y gofynnwyd iddynt a oedd eu gwasanaethau i blant yn dibynnu ar y canlynol:

- a yw rhiant neu ofalwr y plentyn hefyd yn cael cymorth
- a yw'r rhieni a'r gofalwyr yn gwybod bod y plant yn defnyddio'r gwasanaeth

Nododd ychydig dros draean o'r gwasanaethau eu bod ond yn gweithio gyda phlant (24%) neu eu bod bob amser yn gweithio gyda phlant ac oedolion ar wahân. Roedd ychydig dros draean o'r gwasanaethau bob amser yn gweithio gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr gyda'i gilydd. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys gwasanaethau a oedd wedi'u cynllunio i weithio gyda phlant a'u rhiant neu ofalwr nad yw'n cam-drin (26%) neu wasanaethau a oedd yn defnyddio dull teulu cyfan, gan weithio weithiau gyda'r rhiant neu'r gofalwr sydd wedi cam-drin (6%). Dywedodd y gwasanaethau a oedd yn weddill eu bod naill ai'n gweithio mewn ffordd wahanol â phob atgyfeiriad gan ddibynnu ar yr hyn sydd ei angen neu gwnaethant roi disgrifiad arall o'r ffordd roeddent yn gweithio nad oedd yn cyd-fynd â'r categorïau a ddarparwyd.


**2.22 Gall pobl ifanc ddefnyddio'r mwyafrif o wasanaethau heb gefnogaeth eu rhiant neu ofalwr**

Er ein bod wedi gofyn i'r gwasanaethau a allai plant ddefnyddio eu gwasanaeth heb gefnogaeth eu rhiant neu ofalwr, rydym yn cydnabod mai dim ond am yr hyn 'a all ddigwydd' y gallai'r sefydliadau sôn yn hytrach na'r hyn 'sy'n digwydd' yn y rhan fwyaf o achosion. Dywedodd dros chwarter y darparwyr gwasanaethau fod angen i riant neu ofalwr wybod bod plant a phobl ifanc yn mynychu eu gwasanaeth (27%). Byddai'r mwyafrif o'r gwasanaethau yn derbyn atgyfeiriadau heb i riant neu ofalwr wybod o dan yr amgylchiadau canlynol: os byddant yn hyderus bod y person ifanc yn gymwys yn ôl diffiniad Gillick[154] (25%), os yw'n 16 oed neu drosodd (13%) neu os oedd gweithiwr proffesiynol yn cefnogi'r plentyn (8%). Dywedodd 12% arall o wasanaethau eu bod yn derbyn atgyfeiriadau o'r fath heb unrhyw ragamodau. Nododd y 15% o ymatebwyr a oedd yn weddill 'Arall' gan ddisgrifio'r amgylchiadau a'r meini prawf atgyfeirio penodol ar gyfer eu gwasanaeth.

**2.23 Mynediad at wasanaethau**

Ar gyfartaledd, mae gwasanaethau sy'n ymgymryd â gwaith atal ac ymwybyddiaeth yn gweld 1,517 o blant bob blwyddyn – mwy na'r holl wasanaethau eraill gyda'i gilydd (Ffigur 8). Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y math hwn o ymyriad yn aml yn cael ei gyflwyno i grwpiau mawr mewn lleoliadau addysgol. Gwasanaethau sy'n darparu ymyriadau lluosog sy'n gweld y nifer mwyaf ond un o blant, sef cyfartaledd o 338 o blant bob blwyddyn, sy'n nifer sylweddol lai na gwasanaethau ataliol. Ar ben arall y raddfa, mae gwasanaethau adfer yn helpu 114 o blant bob blwyddyn ar gyfartaledd ac mae gwasanaethau llety yn helpu 98 o blant bob blwyddyn ar gyfartaledd, gan fod yr ymyriadau hyn yn ymyriadau tymor hwy ac yn gofyn am fwy o adnoddau.

Ffigur 8: Y nifer cyfartalog o blant a gafodd help yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024 yn ôl y math o wasanaeth





[154] *Gillick v Awdurdod Iechyd Ardal Gorllewin Norfolk a Wisbech* [1986] AC 112

Gan gydnabod y problemau a nodwyd gan rieni o ran cael cymorth i'w plant, roedd y ddau arolwg yn cynnwys cwestiynau am fynediad plant at wasanaethau cymorth cam-drin domestig, gan gynnwys:

- y cyfnod o amser mae plant yn aros i gael eu gweld
- a yw darparwyr gwasanaethau yn gweithredu rhestrau aros ychwanegol
- a gaiff atgyfeiriadau eu gwrthod oherwydd diffyg capasiti neu gyllid
- mynediad i blant ag anghenion ychwanegol neu groestoriadol.

O blith y sefydliadau hynny a oedd yn gallu cofnodi hyd amseroedd aros, roedd y cyfnod aros a gofnodwyd amlaf ar gyfer cael gwasanaeth rhwng un mis a thri mis (31%). Dywedodd 6% o'r sefydliadau a ymatebodd nad oeddent yn gwybod beth oedd y cyfnod o amser aros i blentyn gael ei weld gan eu gwasanaeth. Mae Ffigur 9 yn cyflwyno'r amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau a oedd yn gallu ymateb i'r cwestiwn. Roedd plant yn cael eu gweld o fewn 24 awr ar gyfer 9% o wasanaethau. Roedd dros draean o wasanaethau (34%) yn gallu gweld plant a atgyfeiriwyd atynt o fewn wythnos. Roedd dros hanner y gwasanaethau yn gallu gweld y plentyn o fewn mis (55%).

Ffigur 9: Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau fel y'u cofnodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau





**2.24 Mae comisiynwyr yn fwy tebygol o gofnodi amseroedd aros o fewn saith diwrnod**

Cymharwyd yr amseroedd aros a gofnodwyd gan y comisiynwyr a'r darparwyr gwasanaethau. Er bod y dosbarthiad ar draws y gwahanol amseroedd aros ar gyfer y ddwy set o ymatebwyr yn debyg, roedd y comisiynwyr yn fwy tebygol o nodi y byddai'r darparwyr gwasanaethau yn gweld y plant o fewn cyfnod amser byrrach. Nid yw'n glir a yw'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu gwahaniaeth barn rhwng y comisiynwyr a'r darparwyr gwasanaethau neu a yw'n gysylltiedig ag amseru'r ddau arolwg. Cynhaliwyd yr arolwg o'r comisiynwyr cyn diwedd y flwyddyn ariannol felly roedd yr hyn a nodwyd ganddynt i ryw raddau yn rhagweld yr hyn a ddylai ddigwydd, ond gallai darparwyr y gwasanaethau, y cynhaliwyd yr arolwg ohonynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn, nodi beth oedd wedi digwydd go iawn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac ymddengys y bu'n rhaid i blant aros mwy o amser.

Mae Ffigur 10 yn cyflwyno canran y gwasanaethau a fyddai'n gweld plant o fewn amseroedd aros penodol fel y cofnodwyd gan bob grŵp o ymatebwyr.

Ffigur 10: Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau yn ôl comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau




**2.25 Mae'n rhaid i dros chwarter gwasanaethau wrthod rhai atgyfeiriadau**

Yn ogystal â hyd amseroedd aros, gofynnwyd i'r sefydliadau a oedd eu gwasanaeth yn cynnal rhestrau aros neu'n gorfod gwrthod atgyfeiriadau hyd yn oed. Dywedodd dros hanner y gwasanaethau (51%) eu bod yn gorfod rhoi plant ar restrau wrth gefn neu restrau aros ychwanegol gan eu bod yn derbyn mwy o atgyfeiriadau na'r hyn a ganiateir gan eu capasiti neu eu cyllid. Dywedodd dros chwarter y gwasanaethau (27%) eu bod wedi gorfod gwrthod atgyfeiriadau gan eu bod yn derbyn mwy o atgyfeiriadau na'r hyn a ganiateir gan eu capasiti neu eu cyllid.

**2.26 Mynediad at wasanaethau yn ôl y math o wasanaeth**

Cafodd gwybodaeth am amseroedd aros, rhestrau aros ac a oedd gwasanaethau yn gorfod gwrthod atgyfeiriadau ei dadansoddi yn ôl y math o wasanaeth. Fel arfer, mae gwasanaethau llety yn derbyn atgyfeiriadau o fewn terfyn amser byr, ond mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn nodi eu bod yn gorfod gwrthod atgyfeiriadau gan nad oes gan eu gwasanaethau ddigon o gapasiti neu gyllid i'w derbyn. Yn y cyfamser, o gymharu â gwasanaethau eraill, nododd gwasanaethau adfer fod plant yn aml yn gorfod aros mwy o amser i gael eu gweld, a'u bod yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar restr aros neu o gael eu gwrthod.

**2.27 Mynediad i blant ag anghenion ychwanegol a chroestoriadol**

Gofynnwyd i'r sefydliadau nodi sut roedd eu gwasanaeth yn gallu cefnogi plant ag anghenion ychwanegol neu groestoriadol. Gallai'r ymatebwyr ddewis o blith yr opsiynau canlynol er mwyn nodi beth oedd yn disgrifio eu gwasanaeth orau:

- Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra'n benodol at aelodau'r boblogaeth hon

- Mae'r gwasanaeth yn hygyrch i aelodau'r boblogaeth hon ac yn cael ei ddefnyddio ganddynt yn rheolaidd
- Mae'r gwasanaeth ar gael i aelodau'r boblogaeth hon ond nid yw'n cael ei ddefnyddio ganddynt yn rheolaidd
- Mae sefydliad arall yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra at aelodau'r boblogaeth hon, felly rydym yn dueddol o atgyfeirio pobl at y sefydliad hwnnw
- Mae'r gwasanaeth yn llai addas i aelodau'r boblogaeth hon, sef plant a phobl ifanc
- Ddim yn gwybod

Gwnaethom ddiffinio'r poblogaethau roedd y rhan fwyaf o wasanaethau fwyaf hyderus yn eu cefnogi fel y rhai hynny lle roedd dros 60% o'r ymatebion naill ai yn nodi (1) bod y gwasanaethau wedi'u teilwra'n benodol at aelodau'r poblogaethau neu (2) ar gael iddynt ac yn cael eu defnyddio ganddynt yn rheolaidd. Dim ond tri grŵp o blant oedd yn bodloni'r meini prawf hyn: Merched a Menywod Ifanc (79% o'r gwasanaethau), Bechgyn a Dynion Ifanc (69%) a Phlant a Phobl Ifanc ag Anghenion Iechyd Meddwl (64%). Gan ddefnyddio'r un meini prawf, gall y mwyafrif o wasanaethau roi cymorth yn hyderus i blant a phobl ifanc Du a lleiafrifiedig (55%) a phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig gan gynnwys anableddau dysgu a/neu niwrowahaniaeth (59%). Fodd bynnag, nododd sawl gwasanaeth hefyd nad oedd y poblogaethau hyn o blant yn eu defnyddio'n rheolaidd. Ni wnaeth yr arolwg ofyn i'r ymatebwyr esbonio'r rheswm dros hyn.

### 2.28 Pa blant sy'n llai tebygol o gael cymorth?

Ymddengys mai'r poblogaethau nad oedd y rhan fwyaf o wasanaethau mor hyderus yn rhoi cymorth iddynt oedd 'plant a phobl ifanc b/Byddar' a 'Phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt mewn perthynas â cham-drin ysbrydol' (llai na 10% ar gyfer y ddau). Atebodd bron i draean y sefydliadau "Ddim yn gwybod" neu ni wnaethant ateb y cwestiwn am bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt mewn perthynas â cham-drin ysbrydol a phrin iawn o'r ymatebwyr (7%) a ddywedodd eu bod yn atgyfeirio plant y mae angen y math hwn o gymorth arnynt at sefydliadau eraill. Dim ond un sefydliad o bob deg oedd yn atgyfeirio plant b/Byddar at wasanaethau cymorth eraill wedi'u teilwra at eu hanghenion. Dywedodd tua hanner y gwasanaethau fod eu gwasanaeth ar gael i'r grwpiau canlynol ond nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ganddynt: Plant a phobl ifanc ag anabledd corfforol (51%), pobl ifanc Draws Anneuaidd (48%) a phlant a phobl ifanc b/Byddar (47%). Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu y gellid gwneud mwy i ystyried trefniadau gweithio ar y cyd ac i roi cyhoeddusrwydd i gymorth cam-drin domestig arbenigol i blant â'r anghenion croestoriadol penodol hyn yn y sector cam-drin domestig ehangach.[155]

### 2.29 Argymhellion y Comisiynydd:

Fel yr adlewyrchir drwy'r bennod gyfan hon, mae gwasanaethau arbenigol yn cynnig cymorth hanfodol i oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr ond maent yn wynebu argyfwng cyllid difrifol. Mae hyn yn arbennig o wir i wasanaethau 'gan ac ar gyfer', y mae'n rhaid cydnabod eu harbenigedd, rhoi cyllid digonol iddynt a pheidio â'u hystyried fel gwasanaethau atodol wedi'u llethu.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos ei bod hi'n hollbwysig sicrhau y gall plant gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu profiadau, y mae galw mawr iawn amdano. Mae'r Adolygiad o Wariant arfaethedig yn cynnig cyfle i feithrin capasiti yn y sector cam-drin domestig a'r sector plant ac i atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i blant sy'n destun cam-drin domestig. Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai'r Llywodraeth wneud y canlynol:

**Cyflwyno dyletswydd statudol a chyfuno cyllid ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned i bob plentyn ac oedolyn sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig, yn seiliedig ar**

[155] Rydym yn cydnabod mai rhestr rannol o blant ag anghenion croestoriadol oedd wedi'i chynnwys yn yr arolwg. Dylai gwaith dadansoddi yn y dyfodol gynnwys plant mewn gofal, plant y tu allan i'r ysgol, plant gwrywaidd dros 14 oed, y maent oll yn wynebu heriau ychwanegol wrth gael gafael ar wasanaethau.

**asesiad o anghenion lleol, gan ystyried y cynnydd mewn atgyfeiriadau yn deillio o'r ffaith bod plant yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain.**

Dylai'r cyllid hwn sicrhau y gall **pob** plentyn sy'n ddioddefwr cam-drin domestig gael y cymorth sydd ei angen arno, sy'n iawn ar ei gyfer, ar yr adeg gywir. Rhaid i'r cymorth hwn fod yn hyblyg – a chynnwys opsiynau fel gwaith grŵp, cymorth eirioli, cymorth therapiwtig, gwaith un i un neu waith ar y cyd gyda'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin, ymhlith eraill. Rhaid i'r cymorth hwn gynnwys darpariaeth ar gyfer:

- Plant â nodweddion gwarchodedig
- Plant ag anghenion iechyd meddwl
- Plant ag anghenion addysgol arbennig a/neu niwrowahaniaeth
- Bechgyn yn eu harddegau
- Dioddefwyr cam-drin o fewn perthnasoedd rhwng pobl ifanc yn eu harddegau
- Cymorth i blant sy'n rhan o achos mewn Llys Teulu
- Cymorth i blant sy'n rhan o achos mewn Llys Troseddol
- Plant nad ydynt yn cael gofal cymdeithasol i blant mwyach
- Plant sy'n ddioddefwyr marwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig – rhaid iddynt allu cael gafael ar gymorth gydol oes.

Ar gyfer Adolygiad o Wariant amlflwydd 2025, rhaid sicrhau bod cyllid ar gael ar unwaith yn ystod y flwyddyn gyntaf, er mwyn cau'r bwlch o ran y cymorth i blant a phobl ifanc a nodir uchod. Wrth ystyried y dyraniad cyllid ar gyfer yr ail flwyddyn a thu hwnt – dylai gwerth y gronfa gael ei lywio gan y data a gesglir o'r Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol, a gyflwynir drwy'r Ddyletswydd i Gydlafurio. Mae'r Comisiynydd yn glir nad ar ffurf beilot y dylid gwneud unrhyw ymrwymiad cyllido, o ystyried yr anghenraid clir am wasanaethau cymorth i blant sy'n destun cam-drin domestig.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai'r **Swyddfa Gartref ddiweddaru'r canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod a Merched, er mwyn atgyfnerthu'r cynnwys sy'n ymwneud â phlant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn sylweddol ac ystyried eu hanghenion croestoriadol unigol**.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfraniad cyllid ychwanegol yn cynnig y gwerth gorau am arian, mae'n hanfodol ystyried sut y caiff ei gyflwyno, a bod ymrwymiad i gynnwys arbenigedd penodol drwy gydol y broses gyfan. Yn yr un modd, mae'n hollbwysig rhoi'r amser i staff sy'n rhoi ymyriadau ar waith gyfrannu at y broses werthuso mewn ffordd ystyrlon, ac i'r gwerthuswyr fod yn ymwybodol o'r pwysau ar y gwasanaethau hyn a'r unigolion sy'n gweithio yno ac i beidio â'u llethu. Er mwyn gwerthuso a chasglu data yn effeithiol, mae angen adnoddau priodol a'r gallu i feithrin capasiti yn y sector, er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd gwell.

Mae gwerthuso yn rhan bwysig o unrhyw waith i sicrhau bod gwasanaethau yn rhoi cymorth effeithiol i blant, ac i wneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus. Felly, **mae'r Comisiynydd yn argymell dull fesul cam sy'n cynnig cyfleoedd i feithrin gallu, creu dealltwriaeth a rennir ym mhob rhan o'r sector sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnwys safbwyntiau ac anghenion plant, arbenigedd arbenigwyr cam-drin domestig, ac yna werthuso ymyriadau pan fyddant yn barod.**

Mae'r Comisiynydd yn argymell y camau canlynol ar gyfer y gwaith hwn:

- **Cam 1:** Yn seiliedig ar ddata o arolygon y Comisiynydd Cam-drin Domestig o ddarparwyr a chomisiynwyr, rhaid i swyddogion o bob rhan o'r Llywodraeth ddod ag arbenigwyr ynghyd i ystyried graddau'r gweithgarwch presennol ac i ddysgu o werthusiadau sy'n bodoli eisoes o wasanaethau. Dylai'r grŵp hwn gynnwys academyddion, ymarferwyr rheng flaen, a dylai gael ei gydgysylltu gan gynrychiolwyr o'r sector cam-drin domestig a chynrychiolwyr o'r sector plant. Dylid darparu cyllid i aelodau o'r grŵp hwn weithio ar y prosiect hwn.

- **Cam 2:** Yn dilyn y cam hwn, dylai'r un grŵp gyfarfod i ystyried y gwersi a ddysgwyd o werthusiadau blaenorol ac i gytuno ar y mesurau gwerthuso priodol, sut i gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc, egwyddorion gwerthuso ac os yw'n bosibl, set ddata ofynnol. Rhaid i nifer o bobl benderfynu ar yr elfennau hyn, er mwyn creu dealltwriaeth a rennir. Rhaid i lais dioddefwyr a goroeswyr lywio'r strategaeth a'r broses werthuso.
- **Cam 3:** Ar ôl i'r partïon a restrir uchod gytuno ar yr uchod, caiff gwasanaethau eu gwerthuso. Drwy osod y sylfeini er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion gwerthuso yn addas ar gyfer cymorth cam-drin domestig arbenigol lleol, ni fyddai'r broses werthuso yn rhoi gormod o faich ar wasanaethau.

Dylid neilltuo cyllid hefyd ar gyfer Cronfa Cymorth Technegol. Mae amrywiadau mawr ledled y wlad wrth ystyried yr ymateb i blant sy'n destun cam-drin domestig, ond ceir enghreifftiau o ymarfer ardderchog ac arbenigedd hefyd. Y ffordd fwyaf effeithlon i'r Llywodraeth gyfrannu at sicrhau cyfleoedd teg i bawb fyddai dod ag arbenigwyr o wahanol sefydliadau a chefndiroedd â gwahanol feysydd arbenigedd at ei gilydd i weithio i feithrin galluogrwydd a chapasiti, gan ddibynnu ar anghenion lleol.

# RHAN 2 – DULLIAU ATAL CYFFREDINOL

**Nodyn i'r darllenydd**

Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn dechrau ar ddechrau taith plentyn ac yn ystyried gweithgarwch atal, gan ganolbwyntio ar y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas, a'r rôl sydd gan bob ysgol a lleoliad addysg i'w chwarae wrth ymateb i gam-drin domestig.

Fel y nodir yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn, nid ystyrir plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig fel rhan o'u perthnasoedd agos eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn glir bod Addysg Rhyw a Chydberthynas, a'r cyfleoedd beunyddiol sydd gan ysgolion i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yn adnodd hanfodol bwysig wrth ymateb i'r math hwn o niwed sy'n cynnig man y mae ei angen yn fawr i bobl ifanc ddatgelu eu profiadau, nodi pan fydd eu perthynas eu hunain yn gamdriniol a chael help.

At hynny, mae'r Comisiynydd yn nodi bod Addysg Rhyw a Chydberthynas a lleoliadau addysg yn gwasanaethu pob plentyn a pherson ifanc, nid dim ond y rhai hynny sy'n dioddef cam-drin domestig – felly, mae'r adran hon o'r adroddiad wedi'i hanelu at is-adran o aelodau'r garfan gyffredinol y mae ysgolion yn eu cefnogi. Er gwaethaf hyn, o ystyried nifer y plant sy'n dioddef cam-drin domestig, mae ysgolion a lleoliadau addysg yn wasanaeth sylfaenol yn yr Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig.

Mae'r adran hon yn cynnwys y canlynol:

- Pennod 3 – Dulliau Atal ac Addysg Rhyw a Chydberthynas
    - Agweddau plant a phobl ifanc a chanfyddiadau newidiol y cyhoedd
    - Addysg Rhyw a Chydberthynas
    - Hyder, Hyfforddiant ac Amser
    - Safbwyntiau Plant a Phobl Ifanc
    - Y Weledigaeth ar gyfer Newid
    - Gwelliannau i'r Cwricwlwm ac ar Lefel Leol

- Pennod 4 – Dull Gweithredu Ysgol Gyfan
    - Beth yw Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched?
    - Ymarfer Presennol
    - Cyfraniad addysg at yr ymateb lleol ehangach
    - Plant nad ydynt mewn Addysg

## 3.0 PENNOD TRI – DULLIAU ATAL AC ADDYSG RHYW A CHYDBERTHYNAS

Roedd y plant yn credu y dylid rhoi gwybodaeth sylfaenol i bob plentyn am gam-drin domestig, sut i wybod bod sefyllfa yn gamdriniol a phwy y dylid dweud wrthynt os bydd yn digwydd i chi. Dylid rhoi gwybodaeth am gydsyniad a pherthnasoedd iach i blant ifancach.

*"Mae angen i blant wybod beth sy'n digwydd er mwyn iddynt allu deall pethau'n well a all eu helpu i beidio â theimlo mor ddig a rhwystredig"*
Sesiwn Grŵp, plant rhwng 11 ac 16 oed

Mae'r byd academaidd wedi nodi ers amser bod angen rhoi blaenoriaeth i weithgarwch atal yn yr ymateb i gam-drin domestig[156] a chydnabuwyd hynny hefyd ers cryn amser mewn strategaethau cenedlaethol[157] ac mewn strategaethau llywodraeth leol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi diffinio cam-drin domestig fel mater iechyd y cyhoedd difrifol, gan nodi ei bod hi'n bwysig deddfu a gorfodi deddfwriaeth, datblygu polisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd a'u rhoi ar waith, dyrannu adnoddau i weithgarwch atal ac ymateb a buddsoddi mewn sefydliadau hawliau menywod er mwyn cyflawni newid parhaus.[158]

Er gwaethaf ymdrechion i annog dull gweithredu o safbwynt iechyd y cyhoedd[159] ledled y byd, canfyddiad ymarferwyr rheng flaen a gymerodd ran yn nhrafodaethau bord gron y Comisiynydd Cam-drin Domestig oedd nad oedd llawer o enghreifftiau gwirioneddol o weithgarwch atal gyda phlant a phobl ifanc. Yn yr amgylchedd cyllidol presennol, rhoddwyd blaenoriaeth is i weithgarwch atal ar y cyfan ar lefel llywodraeth genedlaethol ac wrth wneud penderfyniadau comisiynu lleol, gyda chyllid yn cael ei gyfeirio at ymateb i argyfyngau yn seiliedig ar risg.

Er bod atal yn un o brif elfennau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched a'r Cynllun Cam-drin Domestig, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch atal penodol y Swyddfa Gartref yn canolbwyntio ar ymdrin ag achosion o aildroseddu, yn hytrach nag atal Trais yn erbyn Menywod a Merched yn y lle cyntaf.[160] Canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod chwarter yr ymrwymiadau a oedd yn ymwneud ag atal wedi'u dyrannu i'r Adran Addysg – ond mai dim ond £0.52 miliwn a wariwyd gan yr Adran ar draws yr holl allbynnau a oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched neu'r Cynllun Cam-drin Domestig rhwng 2021/22 a 2023/24 ac y gwariwyd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn ar roi cymorth i ddioddefwyr, yn hytrach nag atal.[161] Yn yr un modd, yn 2022/23, mewn ymarfer i ailddyrannu cyllid, ystyriodd y Swyddfa Gartref 23 o weithgareddau, ond dim ond dau ohonynt oedd yn cyfeirio at weithgarwch atal.[162]

Rhaid i'r ddealltwriaeth bod cam-drin domestig a mathau eraill o drais ar sail rhywedd yn deillio o anghydraddoldeb rhywedd fod yn sail i unrhyw weithgarwch atal a rhaid addysgu hyn o safbwynt hawliau dynol a chroestoriadedd.[163] Fel y cyfryw, mae'n allweddol ymdrin â gwahanol gysylltiadau pŵer, a dynameg pŵer a rheolaeth, a'u deall. Yn eu tro, gall ymyriadau sy'n rhoi blaenoriaeth i'r ddealltwriaeth hon hefyd leihau mathau eraill o drais, fel trais ymhlith ieuenctid a throseddau casineb.[164]

Yn 2019, cynhaliodd Gweithredu dros Blant arolwg er mwyn deall pa wasanaethau oedd yn cael eu darparu i blant a oedd yn destun cam-drin domestig, gan ddod i'r casgliad "*domestic abuse support for children is inconsistent across the country. Where services are available, they are often focused*

[156] Wolfe, D.A. a Jaffe, P.G. (1999).
[157] Y Swyddfa Gartref (2021).
[158] Sefydliad Iechyd y Byd (2024).
[159] SafeLives (2023c).
[160] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2025).
[161] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2025).
[162] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2025).
[163] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (1992).
[164] Cymorth i Ferched Cymru (2023).

*on protecting children, which is crucial, but there is insufficient preventative and recovery support.”*[165] Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae'n siomedig nodi darlun tebyg (Gweler Pennod 2).

Mae angen i'r gymuned gyfan gymryd rhan mewn gweithgarwch atal. Weithiau, cymunedau fydd y cyntaf i wybod am achos o gam-drin domestig, ond oherwydd diffyg sgiliau, gwybodaeth a hyder, gall unigolion fod yn amharod i estyn allan a chynnig help i ddioddefwyr a goroeswyr.[166] O ganlyniad, ar lefel genedlaethol a lleol, rhaid gwneud ymdrech i ymgysylltu â phlant a gweithio gyda nhw, eu teuluoedd, y gymuned ehangach a sefydliadau ym mhob rhan o'r boblogaeth ac ym mhob cam bywyd er mwyn meithrin diwylliant o gydraddoldeb a pharch.[167] Wrth greu'r gymdeithas hon, mae amrywiaeth eang o wahanol fathau o weithgarwch atal y gellir ymgymryd ag ef mewn lleoliadau cymunedol er mwyn atal cam-drin domestig rhag digwydd. Gall hyn gynnwys:

- ymgyrchoedd cyfathrebu cyffredinol
- rhaglenni datblygiad cymdeithasol-emosiynol i blant a phobl ifanc (sy'n canolbwyntio ar ddatblygu empathi a mathau o ymddygiad rhag-gymdeithasol)
- rhaglenni atal i ddynion a bechgyn (a all ganolbwyntio ar newid ymddygiad unigolion, meithrin sgiliau ar gyfer perthnasoedd iach, cydsyniad neu atal ymddygiad lle mae unigolion yn cadw'n dawel am ddigwyddiadau y maent yn ymwybodol ohonynt)
- rhaglenni allgymorth cymunedol a grwpiau cyfoedion ar gyfer cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio sy'n hyrwyddo gwerthoedd cyffredinol mewn perthynas â chydraddoldeb ac yn herio normau cymdeithasol niweidiol
- rhaglenni lleihau anghydraddoldebau rhywedd a herio normau rhywedd niweidiol mewn ffordd feirniadol

Ni fydd y bennod hon yn trafod yr holl wahanol fathau o weithgarwch atal cam-drin domestig y gellir eu cynnal mewn cymuned. Yn hytrach, bydd yn canolbwyntio ar ddarparu gweithgarwch atal sy'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc, neu ar nodi plant a allai fod yn ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig yn gynharach, yn benodol drwy addysg rhyw a chydberthynas.

### 3.1 Agweddau pobl ifanc a chanfyddiadau newidiol y cyhoedd

Mae angen herio credoau mewn ffordd sylfaenol: Canfu Cymorth i Ferched fod 23% o bobl ifanc yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad y dylech bob amser gael cydsyniad gan eich partner i gael rhyw fel rhan o berthynas.[168] At hynny, ar adeg pan fo plant ar-lein yn fwy ac yn fwy, ac y gallant ddod i gysylltiad â deunydd niweidiol ar-lein, mae'r risgiau y bydd plant a phobl ifanc yn dod ar draws agweddau niweidiol sy'n dangos casineb at fenywod yn uwch nag erioed. Nododd yr un astudiaeth gan Cymorth i Ferched “*Those exposed to misogynistic social media content, like Andrew Tate, were almost 5x more likely than those not exposed to view hurting someone physically as acceptable if you say sorry afterwards*.”[169] Yn yr un modd. mae plant sy'n dod i gysylltiad â chynnwys sy'n dangos casineb at fenywod yn fwy tebygol o feddwl y dylai fod unigolyn sy'n dangos nodweddion cryfach yn y berthynas.[170]

Yn y cyd-destun hwn, rhaid bod cyfleoedd addysg rheolaidd ar gael yn hawdd i bob plentyn a pherson ifanc sy'n chwalu mythau a chredoau ac yn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i feithrin perthnasoedd llawn parch. Mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn cynnig amgylchedd delfrydol i gyflwyno'r addysg hon ac mae'n rhaid i'r lleoliadau hyn gydnabod y rhan greiddiol sydd ganddynt i'w chwarae wrth ymateb i gam-drin domestig. Mae ymateb diweddar y Comisiynydd Cam-drin Domestig i ymgynghoriad Ofcom ar ganllawiau ‘Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein’[171] yn cynnwys rhagor o wybodaeth am niwed ar-lein, sydd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad penodol hwn.

[165] Gweithredu dros Blant (2019).
[166] Cymorth i Ferched Cymru (2021).
[167] Cymorth i Ferched Cymru (2023).
[168] Cymorth i Ferched (2023a).
[169] Cymorth i Ferched (2023a).
[170] Cymorth i Ferched (2023a).
[171] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024a).

### 3.2 Addysg Rhyw a Chydberthynas

Roedd y plant yn credu bod angen help ar bob plentyn i adnabod achosion o gam-drin domestig. Roeddent yn credu y gall ysgolion helpu drwy gynnwys mwy o drafodaethau am gam-drin domestig mewn gwasanaethau ac fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas/Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economeg.

*"Ymdrechion i godi ofn o ran hawliau rhieni i wybod beth sy'n cael ei addysgu fel rhan o Addysg Rhyw a Chydberthynas – gall hyn atal ysgolion rhag addysgu am gam-drin domestig fel na fydd plant a phobl ifanc o bosibl yn adnabod achosion ohono."* Aelodau'r Bwrdd Ieuenctid Ar-lein, 18-24 oed

Yn aml, mae'r ffordd y caiff cam-drin a pherthnasoedd eu cysyniadoli wedi'i llywio gan ddiwylliant.[172] Rhieni/gofalwyr, neiniau a theidiau a brodyr a chwiorydd yw athrawon cyntaf plant a byddant yn dysgu drwy arferion rhyngweithio cymdeithasol y bobl hyn, y gall rhai ohonynt fod yn niweidiol. Rhaid defnyddio'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas gyffredinol fel y cam cyntaf i sicrhau bod plant yn deall nodweddion perthynas gamdriniol, rhoi cyfle iddynt ddatgelu unrhyw berthynas o'r fath ac addysgu plant sut i gael help.

Er mwyn cydnabod hyn, ymrwymodd y Llywodraeth flaenorol yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig a'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched i roi blaenoriaeth i atal drwy well cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas a gwell cymorth i athrawon.[173] Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r trefniadau ar gyfer cyflwyno Addysg Rhyw a Chydberthynas yn Lloegr yn anghyson o hyd, ac nid yw'r canllawiau presennol yn rhoi digon o bwyslais ar gam-drin domestig a mathau eraill o Drais yn erbyn Menywod a Merched.[174]

Yn 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ganllawiau drafft ar Addysg Rhyw a Chydberthynas i ddisodli'r canllawiau a oedd yn bodoli eisoes, yr oedd gan y Comisiynydd bryderon sylweddol yn eu cylch, fel y nodwyd yn llawn yn ei hymateb i'r ymgynghoriad.[175] Roedd y canllawiau drafft arfaethedig yn gosod cyfyngiadau oedran ar gynnwys ac mewn perthynas â cham-drin domestig, roedd yn rhoi cyfarwyddyd i ysgolion "*to not teach the details of violent abuse before Year 9 as it is important that pupils are not introduced to distressing concepts when they are too young to understand them.*" Ymddengys na chafodd y ffaith y bydd llawer o blant eisoes wedi dod i gysylltiad â cham-drin o'r fath cyn Blwyddyn 9 ei hystyried.

> Mewn trafodaethau bord gron a gynhaliwyd gan y Comisiynydd, roedd athrawon yn glir bod y canllawiau drafft, ochr yn ochr â'r sylw cynyddol yn y cyfryngau i'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas, yn creu cryn ddryswch i athrawon. Mae'r dryswch hwn yn parhau, gan fod y canllawiau ar gael o hyd ar-lein ac na chafwyd unrhyw gyfarwyddyd gan yr Adran Addysg o ran y camau nesaf. Mae angen arweinyddiaeth strategol gan y Llywodraeth er mwyn datblygu dyfodol y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas a'r trefniadau ar gyfer ei gyflwyno.

Gwnaeth y Llywodraeth bresennol ymrwymiadau yn ei maniffesto i ailosod y system ac i sicrhau bod ysgolion yn mynd i'r afael â chasineb at fenywod ac yn addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach a chydsyniad.[176] Er bod hyn yn gadarnhaol, rhaid i'r Llywodraeth newydd ymrwymo i ddiwygio Addysg Rhyw a Chydberthynas yn llwyr, ar y cyd â'r sector arbenigol, ac i roi'r adnoddau, y cymorth a'r

[172] Stanley, N. et al (2015).
[173] Y Swyddfa Gartref (2022a).
[174] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2024).
[175] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2024b).
[176] Y Blaid Lafur (2024).

hyder sydd eu hangen ar athrawon a darparwyr addysg i'w chyflwyno. Ochr yn ochr â hyn, mae'n hanfodol cyflwyno Dull Gweithredu Ysgol Gyfan er mwyn atal y math hwn o niwed ac ymyrryd yn gynnar – caiff hyn ei drafod yn fanylach ym Mhennod 4.

### 3.3 Nid oes gan lawer o athrawon yr hyder, yr hyfforddiant na'r amser i gyflwyno Addysg Rhyw a Chydberthynas yn effeithiol

> *"Mae angen mwy o hyfforddiant ar athrawon. Dylid rhoi hyfforddiant i athrawon ar gam-drin domestig, iechyd meddwl a meysydd eraill sy'n berthnasol i blant rhwng 4 ac 16 oed."*
>
> Nodiadau o boster a luniwyd gan blant oed uwchradd.

O ystyried eu bod yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc bob dydd, mae ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i'w dysgu am berthnasoedd iach a cham-drin domestig, ond yn anffodus, nid oes gan athrawon lawer o hyder na sgiliau i ymdrin â phynciau sy'n gysylltiedig â cham-drin.[177] Mewn arolwg o athrawon ysgol uwchradd yn 2022, nododd 46% ohonynt nad oeddent yn hyderus yn cyflwyno addysg rhyw a pherthnasoedd.[178] Yn fwy penodol, nid yw 40% o athrawon yn teimlo'n hyderus yn addysgu gwersi ar bornograffi, mae llai na thraean yn teimlo'n hyderus yn addysgu gwersi ar gydsyniad, a dim ond 19% sy'n teimlo'n hyderus yn addysgu gwersi ar ymddygiad rhywiol niweidiol ac aflonyddu rhywiol.[179]

Sail y diffyg hyder hwn yw'r diffyg hyfforddiant i athrawon a staff addysg wrth addysgu'r math hwn o gynnwys. Canfu SafeLives mai dim ond 58% o athrawon a oedd yn cytuno eu bod wedi cael digon o hyfforddiant i addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas yn effeithiol, gydag un o bob saith yn nodi nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant o gwbl ar Addysg Rhyw a Chydberthynas.[180]

Ochr yn ochr â'r ddarpariaeth hyfforddiant wael, nid oes digon o amser wedi cael ei neilltuo i Addysg Rhyw a Chydberthynas fel rhan o gwricwlwm ysgolion. I lawer o ysgolion, nid yw Addysg Rhyw a Chydberthynas yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economeg ehangach, er ei bod yn un o'r elfennau gorfodol. Lle bo ysgolion yn cyflwyno'r cynnwys, mae dros hanner yr athrawon yn nodi bod disgwyl iddynt addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas yn ystod cyfnodau tiwtor,[181] fel rhan o ddiwrnodau gweithgareddau penodol neu fel rhan o wasanaethau unigol.[182] Fel y cyfryw, mae anghysondebau sylweddol o ran sut mae ysgolion ac arweinwyr addysg awdurdodau lleol yn blaenoriaethu Addysg Rhyw a Chydberthynas ac yn darparu adnoddau ar ei chyfer, sy'n lleihau effaith y gweithgarwch atal hwn ar draws y boblogaeth ysgolion.

Mae hyn yn arbennig o siomedig, oherwydd pan gaiff Addysg Rhyw a Chydberthynas ei haddysgu'n effeithiol, ceir manteision amlwg, ac mae tystiolaeth sy'n dangos y gall addysg o'r fath hysbysu plant am yr hyn sy'n dderbyniol mewn perthnasoedd a sut i nodi achosion o gam-drin domestig.[183] Mae Addysg Rhyw a Chydberthynas o ansawdd da yn chwalu'r tawelwch sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, yn hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau a ble i gael gafael ar gymorth.[184] Pan fydd ysgolion yn addysgu am berthnasoedd iach ac yn rhoi strwythurau datgelu ar waith, bydd plant yn teimlo'n fwy hyderus yn siarad ag aelodau o'r staff ac yn gofyn am help.[185]

---

[177] Stanley, N. et al (2023).
[178] NSPCC (2022b).
[179] NSPCC (2022b).
[180] SafeLives (2022).
[181] Ofsted (2021).
[182] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[183] Stanley, N. et al (2023).
[184] Chantler, K. et al (2023a).
[185] Stanley, N. et al (2023).

### 3.4 Safbwyntiau Plant a Phobl Ifanc ar y ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas

*"Mwy o addysg am gam-drin mewn ysgolion er mwyn meithrin dealltwriaeth ac atal unigolion rhag cam-drin yn y dyfodol."*

*"Dylid defnyddio Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economeg yn well yn yr ysgol a'i thrafod yn fanylach."*

Nodiadau o bosteri a luniwyd gan blant oed uwchradd.

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn nodi bod Addysg Rhyw a Chydberthynas yn annigonol, gydag ychydig dros chwarter o bobl ifanc yn sôn bod y ddarpariaeth hon yn wael yn eu hysgol gan ei bod yn cael ei rhuthro ac yn teimlo'n lletchwith.[186] Mae plant hefyd yn poeni am y cynnwys sy'n cael ei addysgu iddynt. Yn yr arolwg o Addysg Rhyw a Chydberthynas a gynhaliwyd ymhlith pobl ifanc yn 2024, nododd bron i hanner y plant a'r bobl ifanc nad oeddent yn dysgu digon am bornograffi, anghydbwysedd pŵer neu agweddau tuag at fenywod, a dywedodd 40% nad oeddent wedi dysgu digon am nodweddion perthynas gamdriniol.[187]

Yn yr un modd, canfu adroddiad SafeLives ar Addysg Rhyw a Chydberthynas yn 2022 mai'r pynciau yr ymdriniwyd â nhw yn y ffordd leiaf gyson oedd cam-drin ar sail 'anrhydedd', fel y'i gelwir, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) a rheolaeth drwy orfodaeth. Ychydig llai na chwarter o'r myfyrwyr a nododd eu bod wedi cael eu haddysgu am y pynciau hyn, a dim ond 13% ohonynt a ddywedodd eu bod wedi cael eu haddysgu'n dda.[188]

O ystyried bod 137,000 o fenywod a merched yn byw â chanlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU, a bod 60,000 o ferched o dan 15 oed yn wynebu risg ohono yn y DU, mae hyn yn peri pryder mawr, a chaiff cyfleoedd atal allweddol eu colli.[189] Dim ond hanner y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg oedd yn cytuno bod dosbarthiadau Addysg Rhyw a Chydberthynas yn rhoi dealltwriaeth dda o berthnasoedd gwenwynig a pherthnasoedd iach iddynt.[190]

### 3.5 Troi at ffynonellau amgen

Yn 2021, nododd y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) nad oedd plant o'r farn bod Addysg Rhyw a Chydberthynas yn adlewyrchu eu profiadau bywyd go iawn, gan nodi "*it was too little, too late…not equipping them with the information and advice they needed to navigate the reality of their lives*."[191] O ganlyniad, mae plant a phobl ifanc yn aml yn troi at eu ffrindiau i gael gwybodaeth am berthnasoedd, ac yn arbennig i drafod pryderon am achosion o gam-drin domestig.[192]

Fel arall, mae plant yn dewis addysgu eu hunain am berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb, gyda'r NSPCC yn nodi bod dros 42% o blant yn addysgu eu hunain drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser, a 30% yn nodi eu bod yn addysgu eu hunain weithiau.[193]

Er ei bod hi'n anochel bod addysg am berthnasoedd yn rhan o ecosystem sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, mae risgiau amlwg yn gysylltiedig â hyn, y gellid eu lliniaru drwy gyflwyno Addysg Rhyw a Chydberthynas effeithiol[194] sy'n adlewyrchu realiti profiadau bywyd o iawn plant a phobl ifanc. Heb yr addysg hon, mae'n bosibl y bydd plant yn troi at ffynonellau gwybodaeth niweidiol, a all fod yn gamarweiniol neu'n anghywir, a all ddangos casineb at fenywod a/neu

[186] Cymorth i Ferched (2023a).
[187] Y Fforwm Addysg Rhyw (2024).
[188] SafeLives (2022).
[189] Macfarlane, A.J. et al (2014).
[190] SafeLives (2022).
[191] Ofsted (2021).
[192] Barter, C. et al (2009).
[193] Renold, E. et al (2023).
[194] Barter, C. et al (2009).

esgusodi cam-drin domestig ac ymddygiad camdriniol. Mae plant wedi nodi eu bod yn troi at ffynonellau ar-lein fel y cyfryngau cymdeithasol, yn holi cyfoedion sydd ag arbenigedd neu brofiad, yn eu barn nhw, neu'n nodi nad oes unrhyw gyngor ar gael iddynt.[195] Mae pornograffi yn enghraifft glir o hyn, gydag ymchwil ddiweddar yn nodi bod trais rhywiol yn sgript rywiol normadol mewn pornograffi ar-lein prif ffrwd, sy'n arwain at oblygiadau difrifol ar lefel gymdeithasol o ran gallu unigolion i ddeall y gwahaniaeth rhwng pleser rhywiol a niwed rhywiol.[196] O ganlyniad, gall negeseuon niweidiol ledaenu'n gyflym, ac os bydd plant yn dod ar draws camwybodaeth, gall hyn gael effaith sylweddol ar eu system gredoau, eu hymddygiadau a'u hagweddau wrth iddynt fynd yn hŷn.

Yn anffodus, caiff canlyniadau Addysg Rhyw a Chydberthynas wael ar y cyd â chamwybodaeth helaeth eu hadlewyrchu yn nealltwriaeth pobl ifanc o gam-drin domestig a'u gwybodaeth am sut i gael cymorth os bydd ei angen arnynt. Yn 2023, canfu Cymorth i Ferched mai ychydig llai na hanner y plant yng Nghyfnod Allweddol 2 a gymerodd ran mewn arolwg a gynhaliwyd ganddo oedd yn gallu dewis y diffiniad cywir ar gyfer perthynas anniogel.[197] O ran plant hŷn, er bod 70% ohonynt yn nodi y byddent yn debygol o geisio dod o hyd i gymorth pe byddent yn pryderu bod cam-drin domestig yn effeithio arnynt, roedd yn destun pryder nodi nad oedd 61% o'r plant hyn yn siŵr neu nad oeddent yn gwybod ble i gael gafael ar y cymorth hwnnw.[198] Nid yw plant yn cael gwybodaeth ddigonol am ble i gael gafael ar gymorth, ac nid ydynt yn gwybod y cânt eu cymryd o ddifrif – sydd felly'n eu hatal o bosibl rhag datgelu achosion ac yn effeithio ar y gallu i ymyrryd a rhoi cymorth iddynt.

### 3.6 Y Weledigaeth ar gyfer Newid

Mae'r hyn y mae pobl ifanc am ei weld yn amlwg – rhaid diwygio'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas bresennol yn sylweddol er mwyn iddi fod yn effeithiol wrth atal cam-drin domestig. Rhaid i'r Adran Addysg wrando ar bobl ifanc a chydnabod bod ganddi ran allweddol i'w chwarae yn yr ymateb i gam-drin domestig, drwy fwrw ati i newid y ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

**Er mwyn rhoi cychwyn clir i agenda atal gadarn gan y llywodraeth, dylai'r Llywodraeth ymrwymo i drefniadau llywodraethu a chydgysylltu cryfach o ran yr ymateb i blant sy'n ddioddefwyr a'r broses o ddatblygu tasglu Addysg Rhyw a Chydberthynas, sy'n:**

a. **cynnwys plant a phobl ifanc, athrawon, a'r sector cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched arbenigol**
b. **disodli'r Panel Adolygu presennol**
c. **cydgynhyrchu canllawiau Addysg Rhyw a Chydberthynas diwygiedig ar y cyd â'r Adran Addysg**
d. **darparu cyfeiriad clir a fframwaith strategol i randdeiliaid lleol o ran sut y dylid cyflwyno Addysg Rhyw a Chydberthynas ym mhob ysgol**
e. **ystyried beth sy'n briodol o ran oedran, yn seiliedig ar wybodaeth a data ar y lefel leol a thystiolaeth**
f. **ymgynghori'n rheolaidd â phlant am eu profiadau ac effeithiolrwydd y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas yn eu hysgol, gan ddefnyddio gwybodaeth gan grwpiau adborth lleol, er mwyn sicrhau bod newidiadau i'r cwricwlwm yn seiliedig ar brofiadau plant**
g. **goruchwylio ansawdd a safon y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno Addysg Rhyw a Chydberthynas, drwy gyfeirio'r broses o ddatblygu Dull Gweithredu Ysgol Gyfan a rhwydwaith Addysg Rhyw a Chydberthynas o ddarparwyr ymarfer gorau**

[195] Y Fforwm Addysg Rhyw (2024).
[196] Vera-Gray, F. et al (2021).
[197] Cymorth i Ferched (2023a).
[198] Cymorth i Ferched (2023a).

### 3.7 Beth yw nod Addysg Rhyw a Chydberthynas i blant a phobl ifanc?

Cyflwynodd Panel Ieuenctid Acorns ddogfen yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin, sy'n cynnwys adran ar atal ac ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a pherthnasoedd gwenwynig:

Pwysleisiodd Panel Ieuenctid Acorns y pwyntiau canlynol:

- Addysgu plant am gydsyniad o oedran ifanc
- Darparu cyfleoedd trafod a gweithdai yn seiliedig ar weithgareddau ar berthnasoedd mewn ysgolion
- Mae angen i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phobl ifanc neilltuo amser i ddiweddaru eu gwybodaeth am berthnasoedd pobl ifanc
- Mae angen i ysgolion roi mwy o sylw i berthnasoedd pobl ifanc a chynnig cyfleoedd i ystyried y pwnc gydag oedolion diogel y gellir ymddiried ynddynt
- Siarad â phobl ifanc am ffiniau iach, a'u hawliau a'u cyfrifoldebau o fewn perthnasoedd
- Osgoi beio'r dioddefwr drwy gydbwyso addysg ar osgoi perthnasoedd camdriniol â phwyslais ar helpu i atal ymddygiadau niweidiol
- Sicrhau bod strategaethau yn berthnasol ac yn gynhwysol ac y caiff bechgyn eu cynnwys

Yn anad dim, rhaid i'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas gydnabod plant fel unigolion yn hytrach na grŵp homogenaidd, rhaid iddo gael ei arwain gan blant a chynnig adlewyrchiad go iawn o realiti bywydau a phrofiadau plant. Mae plant a phobl ifanc am i bobl wrando arnynt ac ymgynghori â nhw am yr hyn yr hoffent ei ddysgu, sut maent yn ei ddysgu a sut i gael gafael ar gymorth.[199] At hynny, mae'n hanfodol eu bod yn cael dewis a rheolaeth dros yr hyn y maent yn agored yn ei gylch, beth a gaiff ei rannu, gyda phwy y caiff ei rannu a beth a gaiff ei gadw'n breifat.[200] Yn ei thrafodaethau bord gron wedi'u harwain gan weithwyr proffesiynol 'gan ac ar gyfer', clywodd y Comisiynydd gan y rhai hynny sy'n gweithio'n agos gyda phlant ag anghenion ychwanegol fod angen i Addysg Rhyw a Chydberthynas fod yn ymgynghorol a chael ei chreu ar y cyd â phlant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau y gellir teilwra'r cwricwlwm at bob cyfnod allweddol, ei fod ar gael mewn fformatau hygyrch a'i fod yn groestoriadol.

**Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai Ofsted gasglu gwybodaeth leol am y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas ac y dylai rannu'r canfyddiadau â'r Adran Addysg, er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a'r canllawiau statudol yn parhau mor berthnasol â phosibl.**

Ar lefel leol, dylai ysgolion gynnal gwaith ymgynghori rheolaidd â phlant am eu safbwyntiau ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas yn eu hysgol. Gellir gwneud hyn drwy roi dolenni adborth ar waith er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a'i fod yn berthnasol i'w profiadau. Rhaid i hyn fynd y tu hwnt i ddisgyblion mewn addysg gyhoeddus brif ffrwd a chynnwys hefyd y disgyblion hynny mewn addysg breifat, darpariaeth amgen, ysgolion arbennig a'r rhai hynny nad ydynt mewn addysg ac sy'n cael addysg yn y cartref.

### 3.8 Addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas

Mae Addysg Rhyw a Chydberthynas yn cynnig dull posibl ar gyfer ymdrin ag achosion sylfaenol a diwylliannau cam-drin domestig a mathau ehangach o drais yn erbyn menywod a merched. Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm yn cysylltu trafodaethau am rywedd a mathau o anghydraddoldeb sy'n

[199] Renold, E. et al (2023).
[200] Renold, E. et al (2023).

croestorri, stereoteipiau rhywedd a thrafodaethau am bŵer a cham-drin.[201] Cafwyd cryn drafodaeth ynghylch ‘priodolrwydd oedran’ y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas, a phryderon ynghylch addysgu pynciau i blant nad ydynt yn barod ar eu cyfer. Mewn gwirionedd, mae plant, yn anffodus, yn dod i gysylltiad â nifer o niweidiau o oedran ifanc iawn a rhaid rhoi'r adnoddau iddynt allu siarad am brofiadau o'r fath ac ymdrin â'r niwed sydd eisoes yn digwydd.[202, 203]

Mae nifer o sefydliadau sy'n darparu gwersi Addysg Rhyw a Chydberthynas arbenigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn addysgu cynnwys am gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched mewn ffordd sy'n briodol, ond sydd hefyd yn galluogi plant i ddeall cam-drin domestig, nodi ymddygiad camdriniol a gofyn am gymorth pan fo angen. Gellir darparu gwybodaeth ar lefel y gall plentyn ei deall, fel y mae ymgyrch sefydledig NSPCC, ‘PANTS’, yn ei wneud.[204] Mae rhaglenni o'r fath yn creu hafan ddiogel i ddatgelu a chyfleoedd i blant adnabod achosion a lleisio eu profiadau.

Er gwaethaf eu gwerth, mae'r cyllid sydd gan ysgolion i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol i'w helpu i gyflwyno cynnwys Addysg Rhyw a Chydberthynas sensitif ar faterion fel cam-drin domestig ac anffurfio organau cenhedlu benywod yn gyfyngedig.[205] At hynny, mae gwasanaethau arbenigol hefyd yn nodi ei bod hi'n anodd darbwyllo uwch-aelodau o staff ysgolion a'u bod yn aml yn cael eu gwahodd i ysgolion i gynnal sesiynau unigol yn unig, neu mewn ymateb i ddigwyddiadau proffil uchel,[206] neu bryder a nodwyd yn yr ysgol. Rhaid cydnabod y gwerth y gall gwasanaethau arbenigol allanol ei ychwanegu wrth ddarparu Addysg Rhyw a Chydberthynas yn genedlaethol ac yn lleol.

> tell nicole
>
> Roedd y plant yn teimlo bod angen i wybodaeth am gam-drin domestig neu berthnasoedd iach gael ei chyflwyno gan weithwyr sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y pynciau hyn – nid eu hathrawon arferol.

Gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol sydd yn y sefyllfa orau i addysgu rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas, yn arbennig agweddau ar gydsyniad, cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth, ac roedd plant hefyd yn glir y byddai'n well ganddynt gael eu haddysgu gan arbenigwyr. Fodd bynnag, o ystyried yr argyfwng capasiti a chyllid y mae'r sector arbenigol yn ei wynebu ar hyn o bryd, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Mae Addysg Rhyw a Chydberthynas yn cynnig dull posibl ar gyfer ymdrin ag achosion sylfaenol a diwylliannau trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd os caiff ei addysgu o safbwynt tegwch a hawliau. Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno mewn dilyniant er mwyn deall ffactorau cymdeithasol cam-drin domestig a throseddau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod a merched, a chysylltu trafodaethau am rywedd a mathau o anghydraddoldeb sy'n croestorri, stereoteipiau rhywedd a thrafodaethau am bŵer a cham-drin.[207] Rhaid cyflwyno'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas mewn dilyniant o'r cyfnod sylfaen hyd at Addysg Bellach, gan ymateb i anghenion plant a phobl ifanc drwy wersi wedi'u cynllunio'n ofalus. Rhaid i hon fod yn broses barhaus, er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu cadarn wrth i blant dyfu'n hŷn.

Felly, gyda help y tasglu Addysg Rhyw a Chydberthynas arfaethedig, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

[201] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[202] Maitra, D. et al (2023).
[203] Chantler, K. et al (2023a).
[204] NSPCC (2020).
[205] Tender (2024).
[206] SafeLives (2022).
[207] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).

- **Dylai'r Adran Addysg greu fframwaith clir yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi sut i roi pynciau Addysg Rhyw a Chydberthynas mewn dilyniant a threfn. Byddai hyn yn helpu i fodelu nodweddion addysgu sy'n briodol o ran oedran, ond gan gynnig hyblygrwydd ychwanegol lle bo angen er mwyn diwallu anghenion plant.**

- **Dylai'r Adran Addysg gyllido'r sector cam-drin domestig arbenigol i'w helpu i gynnal gweithgarwch atal gydag ysgolion ym mhob ardal leol, yn ogystal â chyflawni ei rolau eraill yn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr.**

- Hyd nes y bydd cyllid ar gael i arbenigwyr addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y dylid darparu hyfforddiant cynhwysfawr i bob aelod o staff addysgu/bugeiliol/diogelu sy'n addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas wneud hynny. **Dylai'r Adran Addysg sicrhau lle nad oes arbenigwyr arbenigol allanol ar gael i addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas o ansawdd, y dylid darparu cyllid i athrawon (neu aelodau eraill o staff ysgol) ymgymryd â hyfforddiant Addysg Rhyw a Chydberthynas o ansawdd uchel, fel rhan o'u hyfforddiant athrawon craidd, fel un rhan o'r ymdrech gyffredinol i broffesiynoli'r gwaith o addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas.** Rhaid i'r tasglu Addysg Rhyw a Chydberthynas bennu safonau'r hyfforddiant hwn. Mae hyn yn ychwanegol at argymhelliad ehangach y dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymgysylltu â phlant gael hyfforddiant ar gam-drin domestig, sydd i'w weld ar dudalen 91.

- **Dylai'r Adran Addysg ymrwymo i gyllido rhwydwaith o ymarferwyr Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ac Addysg Rhyw a Chydberthynas,[208] y caiff ei gyfeiriad ei bennu gan y tasglu Addysg Rhyw a Chydberthynas arfaethedig.** Bydd y rhwydwaith hwn yn datblygu ymarfer, yn cyfuno adnoddau ac yn llywio'r gwaith o lunio safonau gwell. Er mwyn i'r gwaith hwn fod o fudd i bob plentyn, rhaid i bob ysgol benodi aelod o'i dîm arwain i fod yn gyfrifol am roi'r gwersi a gaiff eu dysgu o'r rhwydwaith ar waith.

- **Dylai'r Adran Addysg ddatblygu canllawiau Addysg Rhyw a Chydberthynas diwygiedig**, sy'n cynnwys y canlynol:

    - Canllawiau ar gyfer atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng ysgolion a'r ymateb amlasiantaethol i gam-drin domestig yn lleol, er mwyn sicrhau bod pynciau sensitif yn cael eu haddysgu i blant gan arbenigwyr, a bod plant yn deall ble i gael gafael ar help.
    - Dysgu am berthnasoedd sy'n dangos parch o'r ysgol gynradd, er mwyn ymdrin â'r niwed y mae plant eisoes yn ei wynebu, a sicrhau eu bod yn tyfu i fyny â disgwyliadau iach am berthnasoedd ac nad oes ganddynt agweddau niweidiol.
    - Cynnwys i feithrin dealltwriaeth fanwl ymhlith plant o anghydraddoldeb rhywedd, achosion sylfaenol casineb at fenywod a chroestoriadedd.
    - Meddwl yn feirniadol, dadansoddi gwybodaeth a ffynonellau ar-lein.
    - Cynnwys sy'n ymdrin â'r ffordd y mae pŵer a dynameg rheolaeth yn sail i gam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin a nodir yn y continwwm ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched.
    - Cynnwys sy'n ymdrin ag adnabod ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.
    - Y ddeddfwriaeth a'r niwed sy'n gysylltiedig â thagu wrth gael rhyw.
    - Cynnwys sy'n ymdrin â herio normau rhywedd niweidiol.

[208] Bwriad y Comisiynydd yw y byddai hyn ar ffurf debyg i'r Institute for Addressing Strangulation. Byddai'r Rhwydwaith o Ymarferwyr yn gweithredu fel hyb i weithwyr proffesiynol rannu llyfrgell o adnoddau ymarfer gorau wrth addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas o ansawdd uchel. Byddai hyn yn wahanol i'r Tasglu Addysg Rhyw a Chydberthynas – grŵp â gwybodaeth benodol yw'r Tasglu sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad y gwelliannau sydd eu hangen i Addysg Rhyw a Chydberthynas, drwy weithio'n uniongyrchol â'r Adran Addysg i ddatblygu'r cwricwlwm a'r canllawiau.

- Cynnwys i alluogi plant i ddysgu strategaethau i osgoi neu atal achosion o ledaenu ‘camwybodaeth’.
- Cynnwys sy'n ymdrin â cham-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg, a niweidiau ar-lein.
- Addysgu plant i ddeall sut i aros yn ddiogel (gan gynnwys ar-lein) a sut i gael gafael ar help a dod o hyd i oedolyn y gellir ymddiried ynddo i siarad ag ef.
- Sut i ymddwyn mewn ffordd barchus, ac ystyr ymddygiad camdriniol ar-lein ac all-lein.
- Cynnwys i sicrhau y caiff plant eu haddysgu am eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr a'u bod yn ymwybodol o'r hawliau hynny.
- Cynnwys sy'n ymdrin â deall croestoriadedd mewn perthynas ag unigolion agored i niwed a risg a niweidiau cudd, yn enwedig cam-drin ar sail 'anrhydedd', fel y'i gelwir, ac anffurfio organau cenhedlu benywod.
- Cynnwys i annog plant a phobl ifanc i ystyried bai a chyfrifoldeb a sut i adnabod sefyllfaoedd niweidiol.
- Yr angen i arweinwyr cam-drin domestig/trais yn erbyn menywod a merched ac arweinwyr addysg mewn awdurdodau lleol gydgysylltu ag ysgolion yn yr ardal leol i ddarparu cynnwys Addysg Rhyw a Chydberthynas effeithiol ar gam-drin domestig, gyda chyfraniadau gan wasanaethau arbenigol lleol.

### 3.9 Rhaid cyflwyno mesurau eraill i gyd-fynd â gwelliannau i'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas

Heb fesurau ehangach, gall effaith canllawiau Addysg Rhyw a Chydberthynas wedi'u hatgyfnerthu fod yn gyfyngedig iawn.

Nododd adborth gan ymarferwyr, gan gynnwys athrawon, fod angen i ysgolion fod yn barod i ymateb i'r cynnydd mewn datgeliadau a fyddai'n anochel yn codi drwy wella Addysg Rhyw a Chydberthynas. Dangosodd trafodaethau bord gron â'r Comisiynydd fod angen llawer mwy o gymorth ar ysgolion er mwyn ymateb. Gwnaethant nodi'r canlynol:

- nid oedd staff addysgu yn meddu ar y sgiliau i ymateb yn briodol
- roedd diffyg mannau diogel i ymdrin â datgeliadau
- roedd angen i fyfyrwyr deimlo hyder yn eu hathrawon ac yn y staff nad ydynt yn addysgu ym mhob rhan o'r ysgol er mwyn datgelu achosion ac ymddiried ynddynt i gymryd y camau priodol

Er mwyn i Addysg Rhyw a Chydberthynas gael effaith wirioneddol wrth drawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig, rhaid ei chynnwys fel rhan o ‘Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan’, a gaiff ei ystyried yn fanylach yn y bennod nesaf. Dylai hyn adlewyrchu ymdrechion y sectorau addysg i roi dull gweithredu ysgol gyfan ar waith mewn perthynas â bwlio – sef y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â bwlio yn yr ysgol, yn ôl gwaith ymchwil.[209]

Y tu hwnt i'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas, dylid ystyried cam-drin domestig ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Canfu gwaith ymchwil gan UCL a'r NSPCC fod pobl ifanc yn disgrifio manteision dysgu am bynciau sy'n gysylltiedig ag Addysg Rhyw a Chydberthynas fel rhan o feysydd eraill o'r cwricwlwm (fel Cymdeithaseg, Hanes, Llenyddiaeth Saesneg a Drama) a'u bod am i'r hyn y maent yn ei ddysgu gael ei gynnwys o fewn cyd-destunau ehangach cydraddoldebau, cyfiawnder cymdeithasol a hawliau, ac ym mhob rhan o'r cwricwlwm a'r ysgol.[210] At hynny, canfu gwaith ymchwil gan End Sexism in Schools mai dim ond 2% o fyfyrwyr yn Lloegr a astudiodd destun cyfan wedi'i ysgrifennu gan awdur benywaidd ar gyfer TGAU yn 2022.[211]

[209] Farrington, D.P. a Ttofi, M.M. (2009).
[210] NSPCC (2022a).
[211] Hollis, V. et al (2022).

### 3.10 Gwella Addysg Rhyw a Chydberthynas ar lefel leol

Yn ogystal â'r Llywodraeth genedlaethol, mae hefyd yn hanfodol y rhoddir mwy o flaenoriaeth i'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas ar lefel leol gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion plant yn yr ardal leol. Er mwyn creu cysondeb rhwng ysgolion:

- Dylai pob partner amlasiantaethol lleol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i Addysg Rhyw a Chydberthynas a phrofiadau plant o gam-drin domestig ac y caiff hyn ei adolygu o leiaf unwaith bob chwarter. Mae hyn yn cynnwys drwy Rwydweithiau Arweinwyr Diogelu Dynodedig, grwpiau Penaethiaid, Partneriaethau Diogelu Plant Lleol, cyfarfodydd AAAA, Timau Cymorth Bugeiliol Ysgolion, grwpiau arwain a Byrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig.

- Dylai arweinwyr strategol a chomisiynwyr ddatblygu dealltwriaeth leol o anghenion croestoriadol yn seiliedig ar ddemograffeg eu hardal ac ysgolion penodol, er mwyn pennu meysydd o'r cwricwlwm i roi ffocws ychwanegol arnynt a gwaith i hwyluso trefniadau ar gyfer cyflwyno gwersi ‘gan ac ar gyfer’. Dylai hyn fod yn seiliedig ar asesiadau o anghenion lleol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024.

- Dylai arweinwyr cam-drin domestig mewn awdurdodau lleol gydgysylltu ag ysgolion yn yr ardal leol i ddarparu cynnwys Addysg Rhyw a Chydberthynas effeithiol a chyson ar gam-drin domestig, gyda chyfraniadau gan wasanaethau arbenigol lleol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Sbectrwm Plws, Cymru**

Mae Sbectrwm Plws yn cynnig cymorth Addysg Rhyw a Chydberthynas estynedig, wedi'i dargedu'n benodol at blant a nodwyd drwy hysbysiadau Ymgyrch Encompass yng Nghymru. Pan fydd yr heddlu yn cael cais i ymateb i achos cam-drin domestig, byddant yn anfon Hysbysiad Digwyddiad Domestig (DIN) at dimau diogelu lleol, a fydd wedyn yn hysbysu'r ysgolion er mwyn iddynt allu rhoi strategaethau cymorth ar waith ar unwaith i'r myfyrwyr dan sylw. Sefydlwyd Sbectrwm Plws ym mis Hydref 2020, wedi'i ariannu gan Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru, i gefnogi disgyblion yn ardal Heddlu Dyfed Powys sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig.

Mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant i bob aelod o staff er mwyn gallu adnabod arwyddion cam-drin domestig, deall ei effeithiau, a rhoi strategaethau ar waith i hyrwyddo perthnasoedd iach ymhlith myfyrwyr. Gan gydnabod bod plant yn aml wedi bod yn destun cam-drin domestig ers amser cyn i'r heddlu ddod yn ymwybodol o'r mater, nid yw Sbectrwm Plws yn canolbwyntio ar ddisgyblion penodol yr effeithiwyd arnynt. Yn hytrach, mae'n cynnwys eu cyfoedion mewn sesiynau cymorth. Cydweithiodd Sbectrwm Plws ag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys damcaniaeth ymlyniad a hyfforddiant ar emosiynau, er mwyn gwella ei ddeunyddiau hyfforddi a'i ddulliau gweithredu. Ar gyfer plant iau, yn enwedig plant oedran Meithrin a Dosbarth Derbyn, lluniwyd pecyn adnoddau er mwyn hwyluso ymyriadau hunan-arweiniol gan oedolion allweddol mewn ysgolion.

Caiff cwricwlwm Sbectrwm Plws ei gyflwyno i bob cyfnod allweddol ac mae wedi datblygu i gynnwys Dull Gweithredu sy'n Ystyriol o Drawma. Mae'n cynnwys 18 o sesiynau ychwanegol wedi'u teilwra at y Cyfnod Sylfaen (Blynyddoedd 1 a 2), a myfyrwyr Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Caiff yr arferion allweddol a sefydlwyd gan Ymgyrch Encompass eu hintegreiddio drwy gydol y sesiynau gan ddarparu mannau diogel i fyfyrwyr fynegi eu teimladau. Caiff ysgolion eu hannog i greu amgylcheddau meithringar, gan hwyluso dulliau ymdopi ac annog perthnasoedd cadarnhaol ymhlith y myfyrwyr a'r staff. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n glir ar hawliau'r plentyn, gan ystyried egwyddorion fel “creu cysylltiad cyn cywiro” ac “mae pob ymddygiad yn ymdrech i gyfathrebu”. Mae Sbectrwm Plws yn canolbwyntio ar helpu disgyblion i gydnabod eu hawl i deimlo'n ddiogel ac i gael eu cefnogi yn yr ysgol. Caiff plant eu hannog i nodi oedolion y maent yn ymddiried ynddynt yn amgylchedd yr ysgol, a rhoddir adnoddau i helpu rhieni i gefnogi llesiant emosiynol eu plant.

## 4.0 PENNOD PEDWAR – Y DULL GWEITHREDU YSGOL GYFAN

Roedd plant o'r farn y dylai ysgolion ymyrryd yn gynharach. Gellid gwneud hyn drwy:

- hyfforddi athrawon i ddiweddaru eu gwybodaeth am drawma ac effaith cam-drin domestig ar blant, ac arwyddion cam-drin, gan gynnwys o fewn perthnasoedd pobl ifanc.
- annog athrawon a staff ysgol i chwarae rhan weithredol drwy ymateb mewn ffordd hyblyg i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt a thrwy sôn yn rheolaidd am y cymorth a allai fod ar gael.

Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae Addysg Rhyw a Chydberthynas mewn ysgolion yn cynnig cyfle sylfaenol i helpu i atal cam-drin domestig a niweidiau yn y dyfodol ond ni ellir ei rhoi ar waith fel elfen cwbl annibynnol. Fel y cyfryw, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn galw am Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan mewn perthynas â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched ym mhob lleoliad addysg gynradd, uwchradd ac uwch yng Nghymru a Lloegr.

Yn yr adran hon, mae'r Comisiynydd yn defnyddio'r termau 'ysgolion' neu 'leoliadau addysg' er hwylustod, a dylid ystyried eu bod yn cynnwys pob lleoliad – gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, darpariaeth amgen, ysgolion arbennig, ysgolion ffydd, ysgolion preifat, academïau, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau Addysg Bellach.

Ystyr 'Dull Gweithredu Ysgol Gyfan' mewn perthynas â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched yw pan fydd ysgolion yn datblygu ethos ac amgylchedd sy'n cefnogi dysgu ac sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant a diogelwch pob disgybl, pob aelod o staff a'r gymuned ehangach ym mhob rhan o'r amgylchedd dysgu.[212, 213] Fe'i hargymhellwyd yn Adroddiad Ofsted 2021, mewn ymateb i dystiolaeth ddewr miloedd o blant ledled Lloegr a nododd gyfraddau eithriadol o uchel o drais rhywiol ac aflonyddu mewn ysgolion.[214]

Ers hynny, mae'r Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (EVAW) wedi nodi'n glir elfennau Dull Gweithredu Ysgol Gyfan mewn perthynas â cham-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched.[215] At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi argymell y dylid rhoi Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar waith mewn canllawiau,[216] ac mae Llywodraeth yr Alban wedi nodi fframwaith i ysgolion ar gyfer atal achosion o Drais ar Sail Rhywedd ac ymateb iddynt.[217]

Er gwaethaf ceisiadau i weithredu gan amrywiaeth o sefydliadau, prin yw'r dystiolaeth bod Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei roi ar waith mewn ysgolion ledled Cymru a Lloegr. Bydd gweddill yr adran hon yn trafod y ddarpariaeth bresennol o ran cymorth cam-drin domestig mewn ysgolion ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newid.

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Adran Addysg gyflwyno Dull Gweithredu Ysgol Gyfan a'i roi ar waith ledled Lloegr, wedi'i ategu gan ganllawiau clir a'r buddsoddiad strategol.**

---

[212] The Bristol Ideal (n.d.).
[213] Firmin, C. (2020).
[214] Ofsted (2021).
[215] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[216] Llywodraeth Cymru (2018).
[217] Llywodraeth yr Alban (2024).

- **Dylai Ofsted ychwanegu meini prawf at arolygiadau ysgol er mwyn asesu'r canlynol:**
    - **Elfennau Dull Gweithredu Ysgol Gyfan mewn perthynas â cham-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched**
    - **Sut yr ymdrinnir â hysbysiadau Ymgyrch Encompass, pa gymorth a gynigir yn yr ysgol ac atgyfeiriadau ymlaen at wasanaethau eraill**
    - **Sut yr ymdrinnir â datgeliadau, a sut y caiff cymorth ei gynnig yn yr ysgol (nid o ganlyniad i hysbysiad Ymgyrch Encompass)**
    - **Sut yr ymdrinnir ag atgyfeiriadau diogelu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig**
    - **Pa hyfforddiant a gynigir ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched, ac i ba staff**

Ar lefel leol, dylai pob ysgol adolygu'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan[218] ac ystyried sut y gall atgyfnerthu'r diwylliant a'r polisïau yn eu hysgol a'u Hymddiriedolaeth er mwyn sicrhau y caiff agweddau ac ymddygiadau sy'n dangos casineb at fenywod eu herio, bod pobl ifanc yn teimlo ei bod hi'n ddiogel iddynt roi gwybod am ymddygiadau amhriodol, a bod staff yn teimlo'n barod i ymateb.

### 4.1 Beth yw Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched?

Er bod y fersiwn bresennol o'r canllawiau Addysg Rhyw a Chydberthynas yn cyfeirio at ddull gweithredu ysgol gyfan, nid ydynt mewn gwirionedd yn annog uwch-arweinwyr ysgolion i'w roi ar waith, nac yn cynnig unrhyw arweiniad o ran sut y gellid gwneud hyn yng nghyd-destun cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched.

Mae model EVAW o Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan "*addresses the needs of pupils, staff and the wider community across the entire school environment, from the curriculum or learning environment to addressing the school's physical environment and what actions are taken to prevent VAWG and ensure safety for both students and staff*."[219] Fel gydag Addysg Rhyw a Chydberthynas, er mwyn i Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan fod yn effeithiol, rhaid iddo ystyried materion o safbwynt rhywedd a chroestoriadedd a rhaid iddo fod yn seiliedig ar fframwaith hawliau dynol.

#### 4.1.1 Egwyddorion allweddol Dull Gweithredu Ysgol Gyfan[220]

Yn ogystal â chwricwlwm ysgol cyfannol (gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), mae Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cynnwys y canlynol:

*Datblygiad sefydliadol a datblygu polisïau*

Mae Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn dechrau drwy ddylanwadu ar ddiwylliant yr ysgol er mwyn meithrin ethos cadarnhaol o gydraddoldeb, parch ac ymddiriedaeth. Caiff pob unigolyn sy'n rhan o gymuned yr ysgol ei gynnwys: rhieni, gofalwyr, aelodau o deuluoedd, myfyrwyr, pob aelod o staff yr ysgol, ac uwch-arweinwyr awdurdodau addysg. Rhaid i bob unigolyn chwarae ei ran wrth nodi achosion o gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched, cyfrannu at ddealltwriaeth o berthnasoedd iach a herio safbwyntiau niweidiol.

[218] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[219] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[220] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).

Dylai arweinwyr ysgol gydnabod eu rôl wrth hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol yn ogystal â modelu ymddygiad a chydraddoldeb.[221] Fel rhan o'r broses o annog newid diwylliannol, dylai uwch-arweinwyr roi dull gweithredu ymddygiadol a chodau ymddygiad ar waith, gan gynnwys sancsiynau lle y bo'n briodol, er mwyn atgyfnerthu'r ffaith na chaiff achosion o gam-drin domestig ac agweddau niweidiol eu goddef na'u derbyn. Dylai arweinwyr ysgol fod yn gyson wrth gymryd camau gorfodi ond dylent hefyd sicrhau nad ydynt yn gweithredu mewn ffordd gwbl gosbol heb unrhyw oddefgarwch, a all atal unigolion rhag datgelu[222] a chael effaith anghymesur ar fyfyrwyr o gymunedau lleiafrifiedig[223] neu fyfyrwyr sy'n wynebu anfanteision lluosog.[224]

*Hyfforddiant a chymorth i staff*

O ystyried eu cyfraniad at greu diwylliant a gwerthoedd ysgol, rhaid i bob aelod o'r staff fodelu ymddygiad ac agweddau parchus, cadarnhaol a phriodol. Mae disgwyliadau clir a hyfforddiant rheolaidd ar nodi achosion o gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched ac ymateb iddynt yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i staff herio agweddau ac ymddygiad niweidiol. Dylai staff ysgol hefyd allu cael gafael ar gymorth ychwanegol yn yr ardal y maent yn gweithio ynddi, ar gyfer eu profiadau personol o gam-drin, neu er mwyn cael help i gefnogi myfyrwyr.

*Cymorth, diogelu a chyfeirio unigolion at wasanaethau arbenigol*

Rhaid bod gan ysgolion ethos ac amrywiaeth o bolisïau i greu diwylliant o ddiogelu i fyfyrwyr, staff, rhieni a gofalwyr. Mae'r rhain yn cynnwys polisi amddiffyn plant, polisi ymddygiad, polisi ymddygiad staff, polisi adnoddau dynol a mesurau diogelu i ymateb i blant sy'n absennol, oll wedi'u llywio gan ddealltwriaeth gadarn o gam-drin domestig.[225] Rhaid bod gan ysgolion systemau datgelu ac ymateb cynhwysfawr ac amlwg ar waith.[226] Rhaid i hyn gynnwys trefniadau ar gyfer cadw cofnodion rheolaidd er mwyn helpu i nodi patrymau ac ymyrryd yn gynnar i gefnogi myfyrwyr yn well.

Yn olaf, mae gweithio gyda phartneriaid statudol ac arbenigol hefyd yn rhan allweddol o Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan. Rhaid bod gan ysgolion gysylltiadau da â gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt gael yr atgyfeiriad priodol a chael cymorth i wella o'u profiadau.

---

[221] Llywodraeth yr Alban (2024).
[222] Lloyd, J. a Bradbury, V. (2023).
[223] Giroux, H. A. (2003).
[224] Losen, D. et al (2014).
[225] Llywodraeth Cymru (2022).
[226] Universities UK (2016).

**ASTUDIAETH ACHOS**

***The Limes College, Bwrdeistref Sutton yn Llundain***

Darpariaeth amgen ym Mwrdeistref Sutton yn Llundain yw The Limes College, sy'n rhan o'r Ymddiriedolaeth Dysgu Amgen.

Fel lleoliad addysgol, mae The Limes College wedi nodi bod cam-drin domestig yn rhan o fywyd 90% o'r bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol, naill ai ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Mae'r ysgol yn cyflogi 16 o Weithwyr Ymyriadau i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd i helpu'r bobl ifanc i fynychu'r ysgol ac i ymgysylltu ag addysg, ac i gydgysylltu rhwng amrywiaeth o asiantaethau er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael pan fo'i angen ac y rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu.

Mae The Limes College yn un o bedwar partner sy'n rhan o wasanaeth cam-drin domestig integredig yr Awdurdod Lleol, 'Transform', sy'n cynnwys llety diogel, gwaith eirioli a chymorth yn y gymuned, gweithgarwch atal, gwaith adfer i oedolion a phlant, a gwaith newid ymddygiad i gyflawnwyr.

Mae The Limes College yn gweithredu rhaglen adfer lwyddiannus i blant rhwng 9 ac 16 oed sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn y cartref neu yn y teulu. Mae hefyd yn cynnal gwaith atal wedi'i dargedu i fechgyn a merched yn eu harddegau. Gall pob ysgol yn y fwrdeistref atgyfeirio unigolion at unrhyw un o'r rhaglenni hyn. Caiff grŵp hunan-barch a grŵp goroeswyr eu rhedeg i rieni/gofalwyr benywaidd sydd wedi dioddef cam-drin domestig ac y mae eu plentyn/plant yn cymryd rhan yn un o'r rhaglenni uchod.

Mae The Limes College yn darparu hyfforddiant cam-drin domestig arbenigol i ysgolion a grwpiau eraill ledled y fwrdeistref ac ar raglen dysgu a datblygu'r Bartneriaeth Diogelu Plant Leol am effaith cam-drin domestig ar blant a sut i ymateb yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae polisïau a phynciau ehangach cwricwlwm yr ysgol yn ystyried cam-drin domestig. Mae gwaith rheolaidd yn canolbwyntio ar berthnasoedd iach a chydsyniad.

Mae uwch-arweinwyr yr ysgol yn rhan o rwydwaith penaethiaid lleol yn y fwrdeistref, a gaiff ei gynrychioli gan The Limes College ac ysgolion eraill ar y Bwrdd Partneriaeth Cam-drin Domestig, y Bartneriaeth Diogelu Plant Leol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

## 4.2 Ymarfer Presennol

### 4.2.1 Canllawiau

Lluniwyd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant[227] er mwyn cynnig canllawiau statudol i asiantaethau â chyfrifoldebau diogelu dros blant eu dilyn. Mae'r canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd a chanllawiau statudol y Ddeddf Cam-drin Domestig[228] yn cyfeirio lleoliadau addysg at y canllawiau Keeping Children Safe in Education[229] o ran sut y dylai ysgolion gyflawni eu dyletswyddau diogelu. Fodd bynnag, er gwaethaf y nifer o blant ysgol sy'n dioddef cam-drin domestig, nid yw'r canllawiau hyn yn gwneud digon i esbonio i leoliadau addysg sut y dylent ymateb. Nid ydynt ychwaith yn cyflwyno cam-drin domestig fel mater â blaenoriaeth, gan nad yw'n cyfeirio at y diffiniad llawn o gam-drin domestig, a'r ffaith bod plant bellach yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, tan Atodiad B, ar dudalen 153. At hynny, nid yw'r canllawiau yn nodi'n glir a yw'r ffaith bod plentyn yn destun cam-drin domestig yn sail dros wneud atgyfeiriad diogelu.

Er bod y canllawiau yn nodi os yw plentyn yn wynebu risg o niwed sylweddol y dylid gwneud atgyfeiriad, ni fydd pob athro o'r farn bod plentyn sy'n destun cam-drin domestig yn wynebu risg o niwed sylweddol, gan ddewis peidio â gwneud atgyfeiriad, o ganlyniad i ddealltwriaeth gyfyngedig o effaith cam-drin domestig ar blant.

Mae hyn yn creu diffyg eglurder sylweddol i leoliadau addysg o ran sut y dylent ymateb i blant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, a'u dyletswydd gofal tuag at y dioddefwyr hyn. Drwy gydol y canllawiau, caiff cyfleoedd eu colli i nodi'n glir bod plant yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, eu bod yn wynebu risg o niwed sylweddol, a bod cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin yn digwydd ar yr un pryd.

Mae'r diffyg eglurder i'w weld hefyd mewn ymarfer, gyda thrafodaethau bord gron â staff addysgu yn dangos tystiolaeth o'r ymateb amrywiol, ac yn aml annigonol, i blant sy'n destun cam-drin domestig. Dylai'r canllawiau hyn fod yn ddigon manwl i roi eglurder i staff addysgu ynghylch sut y dylent ymateb mewn achosion o gam-drin domestig.

### 4.2.2 Diwylliant yr ysgol a man diogel fel ffactor amddiffynnol

Mae diwylliant ysgol yn elfen bwysig o ran ei hymateb i gam-drin domestig. Er y bydd plant o bosibl yn nodi addysg fel ffynhonnell gymorth ‘bosibl’, ni fydd pob plentyn yn teimlo y gall droi at staff yr ysgol. Nododd arolwg a gynhaliwyd gan Cymorth i Ferched Cymru yn 2021 anghysondeb rhwng pobl ifanc Ddu a lleiafrifiedig a'u cyfoedion gwyn, gyda'r ail grŵp yn fwy tebygol o ddewis ysgolion fel ffynhonnell gymorth bosibl.[230] Heb y diwylliant cywir, gall ysgolion ddod yn amgylchedd peryglus, lle na chaiff achosion o gam-drin eu cymryd o ddifrif, lle bydd ymddygiad rheolaethol yn parhau ac na chaiff ei herio, a lle na fydd plant yn teimlo'n ddiogel i ddatgelu eu profiadau.[231]

### 4.2.3 Gallu athrawon i nodi arwyddion posibl o gam-drin domestig

Bydd rhai plant sy'n destun cam-drin domestig yn ei chael hi'n anodd addasu yn yr ysgol.[232] Mae'n bosibl y caiff ymatebion trawma i achosion o gam-drin eu dehongli fel ymddygiad gwael, ‘gwneud ati’, iechyd meddwl gwael neu AAAA. Mae hyn yn llai tebygol o ddigwydd os bydd athrawon wedi meithrin cydberthnasau da â'r plant ac yn deall nodweddion posibl ymateb trawma. Soniodd cyfranogwyr yn y trafodaethau bord gron fod rhai staff addysg yn dibynnu gormod ar glywed plentyn yn dweud yn uniongyrchol wrth rywun ei fod wedi dioddef cam-drin, yn hytrach na chwestiynu

---

[227] Yr Adran Addysg (2023C).
[228] Y Swyddfa Gartref (2022c).
[229] Yr Adran Addysg (2024e).
[230] Cymorth i Ferched Cymru (2021).
[231] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[232] SafeLives (2014).

newidiadau mewn ymddygiad neu anawsterau rheoleiddio. At hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall rhai plant Du a lleiafrifiedig gael eu hoedolyneiddio mewn ysgolion – er enghraifft, yn aml ystyrir bod merched Du a lleiafrifiedig wedi chwarae rhan mewn achos o drais yn eu herbyn. Byddant felly'n llai tebygol o gael eu hystyried yn ddioddefwyr dilys.[233] Dywedodd un cyfranogwr wrth y Comisiynydd bod plant sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol yn cael eu labelu fel plant ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu blant drwg ac y gallant gael eu gwahardd o amgylchedd diogel yr ysgol.

### 4.2.4 Hyder athrawon a'r angen am hyfforddiant

Roedd plant yn cydnabod y pwysau sy'n gysylltiedig ag addysgu, a'r ffaith bod hyfforddiant annigonol yn ei gwneud hi'n anodd i athrawon ymateb yn briodol:

*"Dyw hi ddim yn hawdd i'r athrawon chwaith, mae'r myfyrwyr yn ymddwyn yn sarhaus [tuag atynt], ac maen nhw'n rhoi fyny â llawer o bethau. Efallai nad yw athrawon mewn ysgolion prif ffrwd yn cael digon o hyfforddiant."*

Trafodaeth grŵp, plant 7-19 oed

Mae nodi a deall achosion o gam-drin domestig ymhlith plant yn gymhleth. Nid oes gan lawer o athrawon ddigon o hyder i ymdrin â datgeliadau, nodi arwyddion o gam-drin, gan gynnwys cam-drin ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir ac arferion niweidiol, a chefnogi plant, er gwaethaf y ffaith mai nhw fel arfer yw'r gweithwyr proffesiynol amlycaf ym mywydau plant. Dywedodd athrawon wrth y Comisiynydd fod llawer ohonynt yn teimlo'n ansicr o ran sut i gefnogi plant, yn enwedig pan fydd cyflawnwr yn byw yng nghartref y teulu o hyd. Yn yr achosion hyn, yn aml gall plant yn aml fod yn amharod i ddatgelu, gan ofni na fydd yr athrawon yn cadw cyfrinachedd ac y byddant yn gweithredu mewn ymateb i'r datgeliad – a allai waethygu'r sefyllfa, ym marn y plant. Nododd athrawon hefyd er bod hyfforddiant ar gam-drin domestig yn rhan o'r hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3, mai anaml yr oedd yr hyfforddiant ar gam-drin domestig yn cael ei ailadrodd. Nododd rhai athrawon nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol ar gam-drin domestig.

Mae hyfforddiant a chymorth i bob aelod o staff ysgol yn rhan hanfodol o'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan.[234] Canfu adolygiad prosiect HALT[235] o argymhellion yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig fod cyfran fawr o adolygiadau yn argymell hyfforddiant i ysgolion a darparwyr addysg ar gam-drin domestig er mwyn llenwi'r bylchau o ran gwybodaeth, gan gynnwys datblygu hyfforddiant ar effeithiau cam-drin domestig ar blant.

**Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai'r Adran Addysg gyllido, datblygu a chyflwyno hyfforddiant arbenigol i bob aelod o staff ysgol ym mhob ysgol ac yn y blynyddoedd cynnar, i'w gynnwys fel rhan o ofynion hyfforddiant arbenigol y Comisiynydd i bob gweithiwr proffesiynol sy'n rhyngweithio â phlant (gweler tudalen 91) a hyfforddiant i athrawon Addysg Rhyw a Chydberthynas (gweler adran 3.8).**

### 4.2.5 Cyfraniad addysg at yr ymateb lleol ehangach

Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrth y Comisiynydd fod yn rhaid atgyfnerthu partneriaethau ag ysgolion, ac y dylai lleoliadau addysg gael eu hintegreiddio'n well i'r ymateb lleol i gam-drin domestig. Argymhellodd yr adolygiad cenedlaethol i lofruddiaethau Arthur Labinjo-Hughes a Star Hobson fod yn rhaid cynnwys ysgolion a gwasanaethau addysg yn llawn ar y lefel strategol a'r lefel weithredol.[236]

---

[233] Thiara, R. a Roy, S. (2020).
[234] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[235] Chantler, K. et al (2023a).
[236] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022a).

Roedd nifer o ffactorau a oedd yn cyfrannu at y diffyg ymgysylltu hwn a'r trefniadau cyfyngedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth:

- Capasiti ysgolion: roedd diffyg adnoddau ysgolion a methiant i ddod o hyd i amser i ymgysylltu'n ddigonol â phartneriaid lleol yn thema gyffredin. Pwysleisiodd staff ysgol eu bod yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r 1,265 awr y flwyddyn o 'amser cyfeiriedig'[237]. Rhaid i'r 'ffigur hud' hwn, fel y'i disgrifiwyd gan un athro, gynnwys yr holl amser addysgu, diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, hyfforddiant, nosweithiau rhieni a digwyddiadau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn ysgol, a nododd athrawon nad oedd llawer o gyfle iddynt wneud fawr ddim arall.

- Diffyg Arweinydd Diogelu Dynodedig penodedig: mae Arweinwyr Diogelu Dynodedig mewn ysgolion fel arfer yn ymgymryd â sawl rôl felly mae'n anodd neilltuo amser penodol i ddiogelu ac i gydweithio â Phartneriaethau Diogelu Plant Lleol. Yn aml, dim ond un rhan fach iawn o'u gwaith o ddydd i ddydd yw rôl yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, yn enwedig pan fyddant hefyd yn Bennaeth/Dirprwy Bennaeth, yn arweinydd cwricwlwm, yn arweinydd asesu, yn arweinydd dysgu a datblygu ac yn addysgu – ymhlith pethau eraill. Amcangyfrifodd Arweinwyr Diogelu Dynodedig mewn trafodaethau bord gron fod o leiaf 30% o'u llwyth achosion yn ymwneud â cham-drin domestig (gyda rhai yn nodi 100%); fodd bynnag, roeddent yn cydnabod nad ydynt yn arbenigo mewn rheoli risg na chynllunio diogelwch a bod yn rhaid iddynt gydweithio â gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol a'r gwasanaethau statudol angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Felly, roedd cyfranogwyr yn y trafodaethau bord gron yn argymell yn gryf y dylid creu rolau diogelu *penodedig* mewn ysgolion.

- Rhannu gwybodaeth: Nododd yr arolygiad maes penodol blaenorol ar y cyd a gynhaliwyd o'r ymateb amlasiantaethol i blant sy'n byw â cham-drin domestig broblemau o ran y trefniadau ar gyfer rhannu data a gwybodaeth rhwng asiantaethau eraill ac ysgolion. Yn aml, bydd gwybodaeth ar goll yng nghofnodion nyrsys ysgol, gan na all nyrsys ysgol bob amser weld gwybodaeth gan rannau eraill o'r gwasanaeth iechyd.[238] Nododd athrawon nad oeddent yn cael gwybod gwybodaeth allweddol, fel gwybodaeth am brofiadau o gam-drin nad oeddent wedi digwydd yn ddiweddar a fyddai wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o sefyllfa plentyn.[239] Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oedd y sector addysg yn cael ei gynrychioli mewn cyfarfodydd amlasiantaethol, ond hefyd gan fod y wybodaeth a oedd yn cael ei rhannu y tu allan i'r cyfarfodydd hyn yn wael. Mae adolygiadau o laddiadau domestig yn nodi achosion lle na chafodd gwybodaeth am drais a cham-drin domestig ei rhannu ar ôl i'r digwyddiadau hynny ddod yn hysbys. Lle nodwyd ymarfer da gan adolygiadau o laddiadau domestig, roedd yr enghreifftiau yn cynnwys cyfathrebu effeithlon ac effeithiol o fewn ysgolion *(Adolygiad o Ddynladdiad Domestig 244, astudiaeth HALT).*

- Cydberthnasau anghyson â Phartneriaethau Diogelu Plant Lleol: Trafododd cyfranogwyr y trafodaethau bord gron y cydberthnasau rhwng ysgolion a Phartneriaethau Diogelu Plant Lleol hefyd. Mae rhai o'r Partneriaethau yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddeall anghenion plant ac athrawon ac i roi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith. Dim ond ar sail ad hoc y mae Partneriaethau eraill yn cynnwys y sector addysg, a hynny wrth ymateb yn benodol i achosion unigol sy'n wynebu argyfwng. Fel y cyfryw, caiff cyfleoedd i rannu gwybodaeth am bresenoldeb, gwaharddiadau dros dro, gwaharddiadau parhaol, pryderon am achosion o gam-drin a ffactorau cymdeithasol ehangach eraill a allai beri risg i blant eu colli.[240]

---

[237] Yr Adran Addysg (2024f).
[238] McBride, E. (2018).
[239] McBride, E. (2018).
[240] Y Gronfa Gwaddol Ieuenctid (2024).

- Capasiti gwasanaethau arbenigol lleol: Elfen arall o'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yw partneriaethau â gwasanaethau arbenigol lleol.[241] Fodd bynnag, er gwaethaf gwerth eu gwaith mewn ysgolion, mae diffyg cyllid sylweddol ar gael i'r sector arbenigol.[242] Tynnodd trafodaethau bord gron â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac addysg sylw at werth amlwg gwasanaethau arbenigol, ac argymhellwyd y dylid cyllido gweithwyr wedi'u cydleoli a swyddi arbenigol mewn ysgolion. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i blant a phobl ifanc gael gafael ar gymorth, ac i feithrin cydberthnasau, llwybrau a threfniadau cydweithio rhwng ysgolion a gwasanaethau arbenigol.

Roedd cyfranogwyr yn yr holl drafodaethau bord gron a oedd yn cynnwys y sector addysg yn cytuno y dylid creu rôl sy'n helpu uwch-arweinwyr ysgol, Arweinwyr Diogelu Dynodedig a chyrff llywodraethu i ddilyn trefniadau diogelu lleol ac i roi systemau a gweithdrefnau ar waith i gasglu a rhannu gwybodaeth. Dywedodd uwch-arweinwyr ysgol a gymerodd ran yn y trafodaethau bord gron hefyd wrth y Comisiynydd lle bo arbenigwyr cam-drin domestig ar gael, bod eu hysgol mewn sefyllfa llawer well i ymateb i achosion o gam-drin domestig a bod yr hyfforddiant a ddarperir o safon lawer uwch ac yn cael ei gynnal yn amlach.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae dadl gymhellol o blaid cynnwys y sector addysg fel partner diogelu.

### 4.3 Argymhellion

**Felly, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Adran Addysg gynnwys lleoliadau addysg fel y pedwerydd partner diogelu statudol drwy'r Bil Llesiant Plant ac Ysgolion.** Bydd hyn yn gam pwysig wrth annog trefniadau cydgysylltu lleol ac wrth wella'r ymateb system gyfan i blant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig.

- **Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg gyllido'r broses o gyflwyno rolau Cynghorwyr Cam-drin Domestig ym maes Addysg, fel rhan o'r Bartneriaeth Diogelu Plant Leol, a all ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i ysgolion a rhannu ymarfer gorau ledled ardaloedd lleol.** Byddai'r rôl hon yn ymgymryd â'r canlynol:

    - chwarae rhan strategol wrth gydgysylltu gallu'r sector addysg lleol i ymateb yn effeithiol i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig
    - cynrychioli'r sector addysg ar Fyrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig, grwpiau llywio Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (Marac) a ffora perthnasol eraill
    - casglu a dadansoddi data allweddol o atgyfeiriadau diogelu, er mwyn bwydo i mewn i asesiadau ar y cyd o anghenion strategol
    - monitro'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas a rhannu enghreifftiau o ymarfer gorau wrth gyflwyno'r cwricwlwm hwn ar draws ardal
    - darparu neu drefnu hyfforddiant ac arweiniad i staff addysg ar gam-drin domestig

- **Dylai'r Adran Addysg gyflwyno darpariaeth ddiogelu benodedig ym mhob ysgol. Dylai'r Adran Addysg gyllido rhaglen beilot dwy flynedd o hyd sy'n darparu 'Arweinwyr Diogelu Penodedig', â rôl sy'n canolbwyntio'n llwyr ar waith diogelu (ar draws pob math o niwed) a gwaith cyswllt a chymorth i deuluoedd mewn ysgolion ac ar feithrin partneriaethau effeithiol.** Byddai'r rôl hon yn annibynnol ar ofal cymdeithasol i blant, ac yn gweithredu fel rhan annibynnol, o bwys cyfwerth, o'r ymateb amlasiantaethol. Byddai'r rhaglen beilot yn costio tua £5m, ar draws 100 o ysgolion yn ardal tri awdurdod lleol.

[241] Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (2023).
[242] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).

Os cânt eu cyflwyno, gallai'r rolau hyn oruchwylio hyfforddiant cam-drin domestig (a thrais ehangach yn erbyn menywod a merched) i bob aelod o staff ysgol, gan gefnogi'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ehangach, a galluogi i'r sector addysg gael ei gynnwys yn effeithiol fel partner diogelu statudol.

Ar lefel leol, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai ysgolion a lleoliadau addysg eraill gofnodi achosion o gam-drin domestig yn arbennig i unrhyw blant lle y caiff pryderon diogelu eu codi ac y dylai'r data hyn gael eu rhannu ag arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn rheolaidd, gyda'r bwriad o ymateb yn well.

### 4.4 Plant nad ydynt mewn addysg

Er bod y Comisiynydd wedi nodi'r rôl y gall y system addysg ei chwarae ac y dylai ei chwarae er mwyn atal cam-drin domestig ac ymateb yn briodol yn yr ysgol i blant a phobl ifanc sy'n ei ddioddef, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried profiadau ac anghenion y rhai hynny nad ydynt mewn lleoliadau addysg;  y cyfeirir atynt yn aml fel y 'plant anweledig'.[243] Nododd adroddiad diweddar gan y Sefydliad Polisi Addysg 400,000 o blant nad ydynt mewn addysg. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 100% yn y nifer o blant sydd wedi'u cofrestru fel plant sy'n cael addysg yn y cartref rhwng 2017 a 2023; sef cyfanswm o 95,000 o blant a phobl ifanc.[244]

Mae'n hanfodol bod yr Adran Addysg yn ystyried y rôl y dylai awdurdodau lleol ei chwarae mewn perthynas â diogelu pob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n destun cam-drin domestig, gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn mynd i'r ysgol. Rhaid cyllido awdurdodau lleol a rhoi'r adnoddau iddynt gadw cofnod cynhwysfawr o bob plentyn a pherson ifanc sydd wedi dewis cael addysg yn y cartref a'r rhai hynny nad ydynt yn mynd i'r ysgol am resymau eraill, cadw mewn cysylltiad uniongyrchol parhaus digonol â phlant a phobl ifanc ac asesu pryderon ynghylch cam-drin domestig yn rheolaidd ac ymateb iddynt.   Rhaid i'r Adran Addysg hefyd gydweithio ag asiantaethau partner a gwasanaethau cyffredinol, yn enwedig gwasanaethau iechyd a gwasanaethau ieuenctid, gan gydnabod eu bod yn cynnig mannau diogel hollbwysig ar gyfer cyrraedd y grŵp hwn. Rhaid ymgymryd â gwaith i greu llwybr atgyfeirio cadarn er mwyn nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig nad ydynt yn mynd i'r ysgol.

### 4.5 Casgliad

Er mwyn lleihau achosion o gam-drin domestig a nifer y plant sy'n dioddef, mae angen buddsoddi'n sylweddol mewn gweithgarwch atal cyffredinol. Heb fesurau atal cyffredinol, gan gynnwys cyflwyno'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas ac ehangu rôl y sector addysg, bydd anghydraddoldeb rhywedd a chasineb at fenywod yn parhau, gan ddarparu amgylchedd i lefelau uchel o gam-drin domestig barhau am ddegawdau i ddod. Os ceir mwy o ymrwymiad i weithgarwch atal, bydd plant yn fwy tebygol o sylweddoli bod yr hyn sy'n digwydd yn y cartref yn gyfystyr â cham-drin domestig a byddant yn gallu datgelu'r achos a gofyn am help. Er bod y system cyfiawnder troseddol yn elfen bwysig y mae'n rhaid ei hatgyfnerthu er mwyn atal unigolion rhag cyflawni cam-drin domestig, mae'r system yn adweithiol ar y cyfan, ac yn ymateb dim ond pan fydd achos o gam-drin domestig eisoes wedi digwydd. Er mwyn cael dylanwad go iawn a newid y sefyllfa, rhaid i weithgarwch atal ddigwydd o ddechrau bywyd plentyn a pharhau fel oedolyn er mwyn galluogi cyfleoedd dysgu parhaus. Rhaid rhoi blaenoriaeth hefyd i weithgarwch atal ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r argymhellion a nodir gan y Comisiynydd yn y bennod hon yn cynnig man cychwyn, ac mae'r Comisiynydd yn annog y Llywodraeth i'w hystyried yn llawn. Drwy fuddsoddi mewn gweithgarwch atal, byddwn yn lleihau'r costau i gymdeithas a'r galw ar elfennau eraill o'r system: o nodi achosion yn gynnar i helpu unigolion i wella ar ôl cam-drin domestig.

---

[243] Comisiynydd Plant Lloegr (2023).

[244] Y Sefydliad Polisi Addysg (2024).

# RHAN 3 – CYFLEOEDD I NODI ACHOSION AC YMYRRYD YN GYNNAR

**Nodyn i'r darllenydd**

Mae Rhan 3 yn canolbwyntio ar yr ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn y cartref – y dioddefwyr y mae Adran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn ymdrin â nhw, sydd bellach yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain.

Yn wahanol i Ran 1, mae gan yr asiantaethau a'r gwasanaethau a drafodir yn yr adran hon ymateb cwbl wahanol i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin fel rhan o'u perthnasoedd eu hunain, o gymharu â phlant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn y cartref. Felly, o ystyried cwmpas eang yr adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd wedi dewis canolbwyntio ar yr ail grŵp a bydd yn rhyddhau adroddiad sy'n ymdrin yn benodol â'r cyntaf maes o law.

Bydd yr adran hon yn nodi'r angen am wasanaethau ymyrryd yn gynnar fel rhan o'r ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, ac wedyn yn disgrifio'r ymateb iechyd, fel enghraifft o wasanaeth cyffredinol â rôl i'w chwarae. Gan symud ymlaen, bydd yr adran yn ystyried gwaith gwasanaethau Help Cynnar a Hybiau i Deuluoedd, ac wedyn yn edrych yn benodol ar y Rhaglen ar gyfer Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni (RPC). Bydd yr adran hon yn dangos y gall plant a theuluoedd gael gafael ar wasanaethau ar unrhyw adeg, ac y gall gwasanaethau cyffredinol wneud gwaith wedi'i dargedu'n fwy penodol yn y pen draw, o ganlyniad i gyfyngiadau capasiti a'r sefyllfa o ran adnoddau ar lefel leol – a dyna pam mae trefniadau gweithio amlasiantaethol yn gwbl hanfodol wrth sicrhau y gall plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ar ddiwedd Rhan 3, ceir adran sy'n ymdrin yn benodol â'r gorgyffwrdd rhwng cam-drin domestig a thrais difrifol, a pham mae dull gweithredu amlasiantaethol mor bwysig.

Mae'r adran hon yn cynnwys y canlynol:

- Pennod 5 – Rôl Gwasanaethau Iechyd
    - Cyllido Gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar
    - Beichiogrwydd ac Ymwelwyr Iechyd
    - Rôl Gwasanaethau Iechyd Ehangach

- Pennod 6 – Yr Ymateb Amlasiantaethol o ran Cymorth Cyffredinol a Chymorth wedi'i Dargedu
    - Pwysigrwydd Trefniadau Gweithio Amlasiantaethol
    - Yr Ymateb Help Cynnar
    - Rôl Hybiau i Deuluoedd
    - Rhaglenni Gwaith ar gyfer y Dyfodol
    - Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni – Cyfle Coll
    - Cam-drin Domestig a 'Thrais Difrifol'

**Cyllido Gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar**

Er mwyn i ymyriadau cynnar weithio'n effeithiol fel rhan o'r ymateb i gam-drin domestig, rhaid i bob gwasanaeth cyffredinol a rheng flaen gydnabod ei rôl wrth ddarparu cyfleoedd i nodi achosion yn gynnar – o addysg, tai, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau lles a chanolfannau i blant. Rhaid i wasanaethau rheng flaen feddu ar y sgiliau i adnabod yr arwyddion y gallai plentyn fod yn destun cam-drin domestig a bod yn glir o ran y llwybrau i'w defnyddio i hysbysu'r gwasanaethau cyfrifol er mwyn sicrhau y caiff cymorth o ansawdd ei roi.[245] Diben ymyrryd yn gynnar yw lleihau risg ac atal niwed rhag gwaethygu, lleihau nifer yr atgyfeiriadau mynych a'r digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt, gwella hyder plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr a lleihau'r potensial y bydd niwed ar y pryd yn arwain at effeithiau tymor hwy.

Gall gwasanaethau sy'n ymyrryd cyn gynted ag y caiff achos o gam-drin domestig neu ymddygiad niweidiol ei nodi roi addysg a chymorth teuluol i blant a'u rhiant nad yw'n cam-drin. Gan gydnabod effaith niweidiol cam-drin domestig ar oedolion a phlant, bydd rhai ymyriadau yn cael eu hystyried yn wasanaethau adfer i oedolion yn dilyn achos o gam-drin, fel rhaglenni sy'n rhoi'r cyfle i blant a'u rhieni atgyfnerthu eu bond a gwella gyda'i gilydd, ond mewn gwirionedd, mae'r ymyriadau hyn hefyd yn cynnig cymorth ymyrryd yn gynnar i blentyn na fydd o reidrwydd wedi cael unrhyw gymorth hyd at yr adeg honno, a gallant atal niwed pellach.

Er gwaethaf gwerth gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, oherwydd gostyngiadau helaeth o ran y cyllid a ddarperir a blynyddoedd o gyni, mae'r gwariant cyfun ar wasanaethau ymyrryd yn gynnar i blant wedi lleihau'n sylweddol. Rhwng 2020/11 a 2022/23, cafwyd gostyngiad o 44% o ran gwariant ar wasanaethau ymyrryd yn gynnar. O ganlyniad, roedd llai nag un rhan o bump (18%) o gyfanswm y gwariant ar wasanaethau plant yn cael ei wario ar wasanaethau ymyrryd yn gynnar, gostyngiad o dros draean (36%) yn 2010/11.[246] O gymharu, cynyddodd gwariant ar wasanaethau ymyrryd yn hwyr a'r ymateb mewn argyfwng 57% yn ystod y cyfnod hwn.[247] O ganlyniad, mae'n rhaid i wasanaethau a ddylai gynnig cymorth cyffredinol, fel Hybiau i Deuluoedd a gwasanaethau cymorth i deuluoedd, roi blaenoriaeth i weithio gyda phlant sy'n wynebu amgylchiadau risg uwch, oherwydd diffyg cyllid, a chaiff cyfleoedd eu colli i ymyrryd yn gynnar.

Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn ymrwymo i gyllido amrywiaeth eang o wasanaethau ymyrryd yn gynnar. Heb gyllid, bydd y cylch costus a niweidiol o gam-drin ac ymateb mewn argyfwng yn parhau.

[245] Dodaj, A. (2020).
[246] Probono Economics (2024).
[247] Probono Economics (2024).

## 5.0 PENNOD PUMP – RÔL GWASANAETHAU IECHYD

Yn aml, mae lleoliadau gofal iechyd yn amgylcheddau yr ymddiriedir ynddynt, ac felly maent yn bartner allweddol yn yr ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn rhwymedigaeth sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), ac mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn nodi achosion o gam-drin domestig o bob math a'u bod yn ymateb mewn ffordd briodol a chymesur.

Fel arfer, bydd pawb yn defnyddio lleoliadau gofal iechyd drwy gydol eu hoes – oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr, yn ogystal â chyflawnwyr, ac yn gyffredinol, nid ydynt yn cael eu cysylltu gymaint ag ymateb gwladol cosbol (fel gofal cymdeithasol i blant neu blismona). Wedi dweud hynny, gall fod rhwystrau sylweddol o hyd sy'n atal unigolion o gymunedau wedi'u hymyleiddio, fel y rhai hynny nad yw eu statws mewnfudo yn sicr, neu fenywod Du a lleiafrifiedig, rhag ymddiried mewn gwasanaethau iechyd.[248]

### 5.1 Beichiogrwydd ac Ymwelwyr Iechyd

Mae beichiogrwydd yn gyfle pwysig i ymyrryd yn gynnar gan mai dyma'r adeg y mae mamau fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad rheolaidd â gwasanaethau iechyd, gan gynnwys apwyntiadau gwahanol ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol cyn ac ar ôl yr enedigaeth. Felly, mae gofal mamolaeth yn lleoliad allweddol i gynnal ymchwiliadau cyffredinol cadarn ac i ddangos chwilfrydedd proffesiynol.

Yn aml, bydwragedd fydd pwyntiau cyswllt cyntaf menywod beichiog a gallant gynnig lleoliad lle na chaiff unigolion eu barnu sy'n helpu i feithrin ymddiriedaeth, gan greu amgylchedd diogel i fenywod ddatgelu achosion o gam-drin. Er gwaethaf cyffredinrwydd achosion o gam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd, mae lefelau canfod achosion ac ymdrechion i'w gwneud hi'n haws i unigolion ddatgelu achosion o gam-drin o fewn gwasanaethau mamolaeth yn gymharol isel. Dim ond 0.5% o gleifion mamolaeth y cofnodir eu bod yn datgelu achosion o gam-drin domestig.[249]

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, er gwaethaf y ffaith na allant gyfleu hynny ar lafar, gall profiad o gam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd hefyd effeithio ar fabanod wrth iddynt ddod yn blant bach, gan fod y cam-drin domestig a ddioddefwyd gan eu mamau eisoes wedi cael effaith ar eu datblygiad.

#### 5.1.1 Ymwelwyr Iechyd

Mae gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd wedi'u cynllunio i gyrraedd pob plentyn mewn ffordd systematig a rhagweithiol cyn iddynt gyrraedd pump oed er mwyn hybu eu hiechyd a'u llesiant.[250] Yn ôl yr astudiaeth garfan Children of the 2020s, roedd 97% o deuluoedd wedi gweld ymwelydd iechyd erbyn i'w plentyn gyrraedd 9 mis oed.[251]

Fodd bynnag, er gwaethaf y cysylltiad unigryw hwn â'r plant ifancaf sy'n wynebu'r risg fwyaf, caiff ymwelwyr iechyd eu llesteirio gan ddiffyg capasiti i ymateb yn effeithiol i achosion o gam-drin domestig. Yn y trafodaethau bord gron a gynhaliwyd gan y Comisiynydd â gweithwyr cymdeithasol, cydnabuwyd bod ymwelwyr iechyd yn meddu ar y wybodaeth a'r arbenigedd i gefnogi plant dieiriau. Fodd bynnag, roedd gweithwyr cymdeithasol yn poeni bod gwasanaethau ymwelwyr iechyd dan bwysau. Roedd yr ymwelwyr iechyd a gymerodd ran yn yr arolwg o'r un farn, gyda llai na hanner yr ymwelwyr iechyd yn hyderus bod eu gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion babanod a phlant

[248] MBRRACE-UK (2024).
[249] Spedding, R.L. et al (1999).
[250] Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (2024).
[251] Bernardi, M. et al (2023).

agored i niwed lle caiff angen ei nodi[252] a 60% o ymwelwyr iechyd yn nodi cynnydd pellach o ran pryderon diogelu mewn perthynas â phlant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[253]

Mae llawer o ymwelwyr iechyd yn nodi eu bod yn ei chael hi'n anodd ymyrryd yn gynnar i ddiogelu babanod a phlant gan eu bod wrthi'n 'diffodd tanau' gyda rhan helaeth o'u gwaith yn ymwneud â theuluoedd sy'n wynebu argyfwng.[254] Nododd data a gyhoeddwyd yn 2023 gan y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau fod 1 o bob 4 plentyn wedi methu ei adolygiad yn 2-2.5 oed.[255]

Er mwyn rhoi dull gweithredu iechyd y cyhoedd effeithiol ar waith mewn perthynas â cham-drin domestig, rhaid rhoi mwy o bwyslais ar weithgarwch ymyrryd yn gynnar yn ystod pob cam o'r broses gwneud penderfyniadau. Rhaid sicrhau bod gan bob ymarferydd yr adnoddau i wneud hyn yn effeithiol, drwy wneud yn siŵr ei fod yn meddu ar y wybodaeth, y set sgiliau, y gallu a'r adnoddau.

Felly, ar lefel leol, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai unrhyw strategaeth neu ddull iechyd cymunedol gydnabod plant fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, gan gydnabod yr effaith ar blant a'r ffaith bod hynny'n gofyn am ymateb sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Rhaid i brosesau ar gyfer meithrin capasiti er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau iechyd cymunedol nodi achosion ac ymyrryd yn gynnar fod yn un o bileri craidd y gwaith hwn.

### 5.2 Rôl Gwasanaethau Iechyd Ehangach

Er bod beichiogrwydd yn cynrychioli pwynt risg uchel, mae pob gweithiwr gofal iechyd cyffredinol proffesiynol yn chwarae rhan sylfaenol yn cadw plant yn ddiogel; drwy atal, ymyrryd yn gynnar ac ymdrin ag anghenion corfforol a seicogymdeithasol plant sy'n destun cam-drin domestig.[256]

Mewn llawer o achosion, meddygon teulu yw'r man cyntaf y bydd rhieni nad ydynt yn cam-drin yn mynd iddo i gael help os byddant yn dioddef cam-drin domestig.[257] Yn adroddiad mapio'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, Clytwaith o Ddarpariaeth, dywedodd 44% o ddioddefwyr a goroeswyr wrth y Comisiynydd mai gweithwyr iechyd proffesiynol oedd y gweithwyr iechyd cyntaf y gwnaethant ddweud wrthynt am eu profiadau.[258] Oherwydd y cydberthnasau tymor hir a'r parhad gofal y gall gweithwyr gofal iechyd sylfaenol proffesiynol, fel meddygon teulu a nyrsys, eu rhoi, gall hyn greu amgylchedd cefnogol a diogel i unigolion ddatgelu achosion o gam-drin domestig.[259] Fel y cyfryw, mae lleoliadau gofal sylfaenol yn cynnig cyfle allweddol i ymyrryd yn gynnar, ac yn rhoi cymorth arbenigol allweddol i oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr.[260]

Er gwaethaf hyn, mae llawer o rwystrau sy'n golygu nad yw plant sy'n destun cam-drin domestig yn cael eu nodi fel mater o drefn ac nad ydynt yn cael y cymorth gofynnol. Gall rhieni a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd wynebu'r rhwystrau hyn, ond yn y pen draw, byddant yn effeithio ar y plentyn neu'r person ifanc. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr yn amharod i ofyn am gymorth i'w plant gan eu meddyg teulu, gan ofni y byddai ymyriad proffesiynol yn arwain at fynd â'r plentyn oddi wrthynt, gan greu diffyg ymddiriedaeth.[261] Mae hyn yn gyson â safbwyntiau plant o *Tell Nicole* a'u hofnau y gallai datgelu achos arwain at ddiffyg rheolaeth o ran beth fydd yn digwydd nesaf iddyn nhw, i'r rhiant nad yw'n cam-drin ac i'r cyflawnwr. At hynny, mae oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr yn ofni y bydd y cyflawnwr yn dod i wybod, ac felly, er mwyn rheoli'r risg iddyn nhw eu hunain, mae'n bosibl na fyddant yn gofyn am gymorth ar gyfer eu plant ar yr adeg honno.[262] Rhwystr arall yw'r cyfnodau byr sydd ar gael i drafod yn ystod

[252] Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (2024).
[253] Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (2023).
[254] Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (2024).
[255] Y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau (2023).
[256] Lines, L.E. et al (2020).
[257] Roy, J. et al (2022).
[258] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).
[259] Roy, J. et al (2022).
[260] Szilassy, E. et al (2024).
[261] Heron, R.L. ac Eisma, M.C. (2021).
[262] Kelly, U. (2006).

ymgyngoriadau, a all atal mamau rhag bod yn agored a datgelu achosion o gam-drin, gan felly atal plant a phobl ifanc rhag cael eu nodi a'u cefnogi.[263]

### 5.2.1 Prosesau nodi gwael

Mae llawer o ymarferwyr gofal sylfaenol hefyd yn ei chael hi'n anodd nodi a chefnogi plant a phobl ifanc.[264] Er gwaethaf llwyddiant y model Nodi ac Atgyfeirio er mwyn Cynyddu Diogelwch (IRIS)[265] wrth nodi mwy o oedolion benywaidd sy'n oroeswyr, anaml y caiff plant a phobl ifanc sy'n dyst i gam-drin domestig/sy'n dioddef cam-drin domestig eu nodi o fewn gofal sylfaenol a'u hatgyfeirio i gael cymorth arbenigol.[266] Yn yr un modd, nid yw gweithwyr iechyd meddwl oedolion proffesiynol bob amser yn ystyried plant a phobl ifanc. Yn aml, pan fydd gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yn gysylltiedig ag achos, nid yw'r risgiau y mae'r oedolion yn eu peri i blant yn cael eu cynnwys fel rhan o ymarfer[267] ac yn aml, nid oes gan wasanaethau iechyd meddwl oedolion yr arbenigedd na'r amser i ymateb yn effeithiol i gyflawnwyr cam-drin domestig.[268] Fel y cyfryw, mae effaith feddyliol a chorfforol cam-drin domestig ar blant yn cael ei hesgeuluso o hyd yn yr ymateb gofal sylfaenol.[269]

### 5.2.2 Diffyg ymholiadau cyffredinol

Mae gwaith ymchwil ac ymarfer wedi nodi ers amser bod sgrinio ar gyfer cam-drin domestig yn effeithiol wrth annog datgeliadau, yn enwedig mewn rhai lleoliadau iechyd.[270] Er gwaethaf ei werth, mewn trafodaeth bord gron yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, dim ond hanner nododd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn holi cwestiynau am gam-drin domestig.[271] Yn ôl gwaith ymchwil, mae ansicrwydd ymhlith meddygon teulu o ran sut y dylid holi cwestiynau, cofnodi a chefnogi plant sy'n destun cam-drin domestig, a bod gweithwyr proffesiynol yn amharod i siarad yn uniongyrchol â phlant am eu profiadau o gam-drin domestig.[272] At hynny, mae gweithwyr proffesiynol yn nodi eu bod ofn y gallai holi cwestiynau am gam-drin domestig achosi mwy o drawma neu sarhau unigolion, ac yn nodi nad ydynt yn hyderus o ran eu rôl neu eu cyfrifoldebau mewn perthynas â cham-drin domestig.[273] Mae'n bryder nodi bod rhai gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol o'r farn bod cam-drin domestig weithiau'n cael ei ystyried yn ‘fater cymdeithasol’, sydd y tu hwnt i gwmpas triniaethau iechyd meddwl, gan effeithio'n sylweddol ar eu hymateb.[274] O ganlyniad, gall gwadu a/neu wrthod trawma olygu bod y diagnosis a wneir a'r driniaeth a roddir ar gyfer y mater dan sylw o bosibl yn anghywir.

### 5.2.3 Atgyfeirio

O ganlyniad i'r gwahanol fathau o ofal y mae gweithwyr gofal iechyd sylfaenol yn eu rhoi i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig, mae'n hanfodol eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o ymyriadau sydd ar gael ar gyfer rheoli eu gofal.[275] Mae gwaith ymchwil wedi dangos lle cafodd lleoliadau iechyd eu hintegreiddio i mewn i'r ymateb cymunedol cyfan, fel gydag Iris+, fod nifer sylweddol o blant wedi cael eu hatgyfeirio at gymorth arbenigol ac wedi cael budd o'r

---

[263] Bacchus, L. et al (2003).
[264] Roy, J. et al (2022).
[265] Model i leoliadau iechyd ei ddefnyddio i nodi a chefnogi menywod y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yw IRIS. Mae IRIS+ yn datblygu model IRIS ymhellach ac yn anelu at gau'r bwlch o ran prosesau nodi ac atgyfeirio mewn lleoliadau iechyd i ddynion, plant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig.
[266] Szilassy, E. et al (2024).
[267] McBride, E. (2018).
[268] Calcia, M.A. et al (2021).
[269] Szilassy, E. et al (2024).
[270] Stanley, N. (2011).
[271] Cynghrair Iechyd Meddwl Mamau (2023).
[272] Szilassy, E. et al (2017).
[273] Cynghrair Iechyd Meddwl Mamau (2023).
[274] Cynghrair Iechyd Meddwl Mamau (2023).
[275] Cilar Budler, L. et al (2022).

atgyfeiriad hwnnw.[276] At hynny, lle cafodd mamau eu hatgyfeirio gan leoliadau iechyd i gael cymorth, sylwyd bod y plant yn cael cymorth anuniongyrchol ychwanegol.[277]

Er gwaethaf manteision systemau fel Iris+, yn anffodus nid yw'r system wedi cael ei chyflwyno ar raddfa genedlaethol, ac yn lle hynny, mae'n cael ei gwerthuso ar draws tri safle. Er mai gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml yw'r rhai sy'n dod i gysylltiad â phlant sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig gyntaf, nid ydynt ar y rhestr sy'n nodi'r pum math o weithiwr proffesiynol sy'n cymryd camau gweithredu amlaf.[278] At hynny, mae canfyddiadau Clytwaith o Ddarpariaeth yn dangos, er gwaethaf lefelau uchel o ddatgeliadau i wasanaethau iechyd, mai dim ond 19% o oroeswyr a gafodd wybod am y cymorth cam-drin domestig a oedd ar gael iddynt gan weithwyr gofal iechyd.[279]

Mae'n bosibl y gellir priodoli'r data atgyfeirio gwael yn rhannol i'r ffaith nad yw ymarferwyr yn sicr pa wybodaeth y gellir ei rhannu, a pha wybodaeth y mae'n ofynnol iddynt weithredu yn ei chylch. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod ymarferwyr yn aml yn ansicr a yw cleifion yn ymwybodol bod eu gwybodaeth wedi cael ei rhannu ag asiantaethau eraill, a'r foeseg sy'n gysylltiedig â hynny.[280] Mae'r diffyg cydgysylltu a chydweithredu hwn rhwng gwasanaethau yn tarfu ar barhad gofal i'r plentyn ac yn golygu y caiff cyfleoedd i roi cymorth eu colli. Rhaid unioni'r rhwystrau hyn sy'n atal unigolion rhag cael eu hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol ac ymdrin â nhw er mwyn sicrhau bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl.

[276] Szilassy, E. et al (2024).
[277] Roy, J. et al (2022).
[278] Cilar Budler, L. et al (2022).
[279] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).
[280] Roy, J. et al (2022).

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Llwybr Atgyfeirio a Threfniadau Gweithio Amlasiantaethol rhwng Meddygon Teulu, Safer Cornwall***

Comisiynodd Safer Cornwall (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cernyw) wasanaeth Gofal Sylfaenol ar gyfer Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ym mis Mawrth 2023 am gyfnod peilot o ddwy flynedd, wedi'i gyllido'n rhannol gan y Bwrdd Gofal Integredig. O ganlyniad i'w lwyddiant, mae wedi parhau i gyllido'r gwasanaeth hwn.

Mae'r gwasanaeth yn darparu tri ymarferydd arbenigol llawn amser ym maes Cam-drin Domestig sydd wedi'u lleoli ar draws canolbarth, gorllewin a dwyrain Cernyw yn unol â'r tair Ardal Gofal Integredig. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu fel pwynt cyswllt unigol i feddygon teulu ar gyfer llwybr atgyfeirio uniongyrchol i'r gwasanaeth cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol a gwasanaethau cymorth diogelu eraill, i oedolion, plant a phobl ifanc. Maent yn allweddol wrth ddarparu hyfforddiant, cynnal clinigau galw heibio a thrafodaethau achos o fewn cylch gwaith eu hardaloedd lleol; ac maent yn cynrychioli grwpiau clwstwr meddygon teulu ar gyfer lleoliadau penodol mewn cyfarfodydd cam-drin domestig a thrais rhywiol amlasiantaethol i oedolion ac i blant, gan gynnwys y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (Marac).

O ganlyniad i'r Cynghorwyr Cymorth Cam-drin Domestig, mae hyfforddiant arbenigol wedi'i deilwra'n arbennig ar gael i bractisau meddygon teulu, sydd wedi gwella eu dealltwriaeth o gam-drin domestig ac arwyddion cam-drin. Yn ei dro, mae hyn wedi gwella hyder meddygon teulu a staff practisau yn sylweddol wrth gynnal ymholiadau cyffredinol a nodi risgiau. Mae babanod, plant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig a/neu drais rhywiol, neu sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig a/neu drais rhywiol, yn eu perthnasoedd agos eu hunain neu eu perthnasoedd teuluol yn cael cymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n briodol ar gyfer eu hoedran drwy'r gwasanaeth, a gall staff practisau a meddygon teulu wneud atgyfeiriadau diogelu cam-drin domestig a thrais rhywiol ac atgyfeiriadau diogelu plant arbenigol ar unwaith drwy'r pwynt cyswllt unigol. Yn ogystal, caiff plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg gan fod eu rhiant yn destun cam-drin domestig eu nodi a'u cofnodi fel rhan o'r atgyfeiriad a chynigir cymorth i'r rhiant nad yw'n cam-drin.

Mae'r Ymarferydd Cam-drin Domestig yn darparu adnodd hanfodol o ran arbenigedd ac amser ymgysylltu ychwanegol penodedig, sy'n helpu practisau meddygon teulu i ymateb yn fwy effeithiol i anghenion plant a phobl ifanc mewn ffordd nad yw'n fygythiol, sy'n eu cefnogi ac y gellir ymddiried ynddi, heb y pwysau amser a deimlir yn y gwasanaeth iechyd sydd mor aml yn golygu y caiff cyfleoedd i atal niwed eu colli.

Mae'r adborth gan feddygfeydd wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol, gan gynnwys gwell dealltwriaeth a gallu i nodi achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol, mwy o hyder yn cynnal ymholiadau cyffredinol, a'r gallu i gyfrannu'n fwy effeithiol at drefniadau gweithio amlasiantaethol.

Ers dechrau'r contract, bu cynnydd sylweddol a pharhaus yn nifer yr atgyfeiriadau gan feddygfeydd at wasanaethau arbenigol (cam-drin domestig a thrais rhywiol), a hynny ar gyfer oedolion a phlant. Bu cynnydd o 81% yn nifer yr atgyfeiriadau gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, ac nid oedd 55% o'r rhai hynny a ddefnyddiodd y gwasanaeth erioed wedi gofyn am gymorth o'r blaen, gan dynnu sylw at y ffordd y mae dioddefwyr a goroeswyr yn gynyddol yn llwyddo i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag datgelu ac i gael gafael ar gymorth hanfodol sy'n achub bywyd drwy lwybrau meddygon teulu sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

### 5.3 Casgliad

Mae'n amlwg bod yn rhaid gwella'r ymateb iechyd i blant sy'n dioddef cam-drin domestig. Un ffordd o ysgogi newid o'r fath yw drwy wella canllawiau NICE – nid yw'r canllawiau cyfredol sy'n ymwneud â cham-drin domestig wedi cael eu diweddaru ers 2016, ac nid ydynt yn cydnabod plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain.[281] Fel y cyfryw, mae ymarferwyr yn ei chael hi'n anodd nodi plant sy'n ddioddefwyr, ac hyd yn oed pan fyddant yn gwneud hynny, nid ydynt yn meddu ar ddealltwriaeth o sut i ymateb, neu'r gallu i wneud hynny'n effeithiol. Nododd rhaglen Iris+ lle bo clinigwyr wedi cael hyfforddiant ar gam-drin domestig a'r effaith ar blant sy'n ddioddefwyr, lle bo llwybr atgyfeirio uniongyrchol at wasanaeth arbenigol, mynediad at gymorth eirioli un i un i blant a phobl ifanc a system hysbysiadau meddygol ar waith, bod mwy o blant yn cael eu nodi ac yn cael cymorth. Roedd hefyd yn gwella ymarfer clinigol.[282]

At hynny, gellir gwneud gwelliannau fel y dangosir drwy The Pathfinder Toolkit, sef cynllun peilot tair blynedd sy'n gweithio ar draws lleoliadau yn Lloegr i drawsnewid yr ymateb iechyd i gam-drin domestig, wedi'i gyllido gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran dos Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Aeth y cynllun hwn a'r pecyn cymorth cysylltiedig ati i hyrwyddo dull gweithredu cyfannol sy'n ystyriol o drawma sy'n seiliedig ar gryfderau ac ar ddealltwriaeth o effaith trawma ar draws pob adran ac o fewn diwylliant y GIG o brosesau llywodraethu ac ymyriadau i ymholiadau cyffredin ac atgyfeiriadau. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad[283] wedi dangos cynnydd o 10.9% yn nifer yr atgyfeiriadau risg uchel a chynnydd o 33.6% yn nifer yr ymyriadau cynnar ar gyfer achosion risg safonol ar gyfer plant ac oedolion, gan ddangos prosesau canfod a chymorth gwell ar draws systemau iechyd.

### 5.4 Argymhellion

Felly, er mwyn gwella'r ymateb iechyd i blant sy'n destun cam-drin domestig, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:

- Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gwasanaethau iechyd cymunedol gael hyfforddiant arbenigol ar gam-drin domestig, a'r effaith ar blant a phobl ifanc, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr Hyfforddiant Diogelu Plant craidd. Nodir manylion penodol yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn argymhelliad ehangach y Comisiynydd ar hyfforddiant ar dudalen 91.

- **Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fuddsoddi i sicrhau bod arbenigedd ym maes cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched ar gael mewn lleoliadau iechyd – drwy gyllido'r ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol mewn lleoliadau iechyd er mwyn cefnogi gweithgarwch atal a gwaith ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.**

- **Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sicrhau bod Byrddau Gofal Integredig yn atebol am gynrychioli gweithwyr iechyd proffesiynol ar Fyrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig ac mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (Marac).**

- **Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sicrhau bod Arweinwyr Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Byrddau Gofal Integredig yn rhoi digon o sylw i blant sy'n ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain a rhoi dull iechyd y cyhoedd ar waith mewn perthynas â cham-drin domestig ledled eu hardaloedd.**

---

281 NICE (2016).
282 Szilassy, E. et al (2024).
283 Melendez-Torres, G.J. et al (2024).

- **Dylai'r Adran ymgynghori ar strategaeth 10 mlynedd i roi Dull Iechyd y Cyhoedd mewn perthynas â Cham-drin Domestig ar waith ledled Lloegr a chyhoeddi'r strategaeth honno, gan roi ffocws penodol ar anghenion plant a phobl ifanc, ochr yn ochr ag ymrwymiad datganedig y Llywodraeth i haneru achosion o drais yn erbyn menywod a merched o fewn degawd.**

Yn lleol, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- Mae ymateb i gam-drin domestig yn strategaeth a rennir y dylid ei hystyried o safbwynt iechyd y cyhoedd, ar draws y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, ,y Bartneriaeth Diogelu Plant Leol, y Bwrdd Diogelu Oedolion, Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol a Byrddau Gofal Integredig, er mwyn sicrhau bod amcanion a rennir a strategaeth a dull gweithredu cyfannol sy'n ystyried y teulu cyfan ar waith ledled ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfuno adnoddau i gyllido swyddi a rennir er mwyn datblygu strategaeth a'i rhoi ar waith.

- Dylai byrddau amlasiantaethol lleol rannu data ar gyffredinrwydd a demograffeg yn ogystal â themâu o Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, adolygiadau o achosion difrifol, ac adolygiadau o farwolaethau eraill er mwyn llywio strategaethau ac asesiadau o anghenion.

- Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ddiwygio ac adolygu strategaethau lleol ar y cyd â'r Bartneriaeth Diogelu Plant Leol a'r Bwrdd Diogelu Oedolion er mwyn sicrhau y caiff plant eu cynrychioli cymaint ag oedolion. Fel rhan o'r trefniant hwn, dylid rhoi protocolau rhannu gwybodaeth y cytunwyd arnynt ar waith sy'n nodi pa wybodaeth i'w rhannu, pryd i'w rhannu a sut i'w rhannu, gyda phob un yn atebol am gydymffurfio.

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Safer Places a Beacon House, Essex***

Datblygodd Safer Places, sef elusen cam-drin domestig arbenigol â thros 45 mlynedd o brofiad, gymhwyster Lefel 3 wedi'i deilwra'n benodol a'i gydnabod yn genedlaethol, wedi'i achredu gan Ranbarth Llundain Rhwydwaith y Coleg Agored (OCNLR), i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt. Caiff y cymhwyster ei ddarparu ar y cyd â Beacon House, sef gwasanaeth therapiwtig arbenigol i bobl ifanc, teuluoedd, ac oedolion, sy'n dwyn ynghyd arbenigeddau o'r sector cam-drin domestig a'r sector plant, i feithrin sgiliau ymarferol dysgwyr i helpu plant ar eu taith tuag at ddiogelwch ac wrth iddynt wella yn dilyn achos o gam-drin domestig.

Mae'r cymhwyster yn cymryd rhwng pedwar a phum mis i'w gwblhau, ac mae'n sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar amrywiaeth o wybodaeth ac arbenigedd ar bynciau fel datblygiad plant, y fframwaith cyfreithiol ar gyfer hawliau plant, profiadau unigryw plant o gam-drin a'r risg gysylltiedig (gan gynnwys trais a cham-drin gan blant a phobl ifanc tuag at eu rhieni), trawma datblygiadol a threfniadau gweithio amlasiantaethol. Mae'r cwrs wedi bod yn cael ei gynnal ers dros flwyddyn a dywedodd 100% o'r dysgwyr fod y cynnwys yn ardderchog a'u bod wedi cynnwys yr hyn a ddysgwyd ganddynt yn eu hymarfer.

## 6.0 PENNOD CHWECH – YR YMATEB AMLASIANTAETHOL O RAN CYMORTH CYFFREDINOL A CHYMORTH WEDI'I DARGEDU

### 6.1 Pwysigrwydd Trefniadau Gweithio Amlasiantaethol

Mae cydweithredu ar draws y system statudol gyfan yn hanfodol er mwyn gwneud newidiadau parhaus. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau i blant yn aml yn diystyru'r risgiau i oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr, ac yn yr un modd, mae gwasanaethau sy'n gweithio'n benodol ag oedolion yn aml yn methu ag ystyried plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae llawer o wasanaethau yn methu â rhoi blaenoriaeth i'r berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin.

Gall effaith ffocws unigol sy'n gweithredu mewn seilo fod yn drychinebus. Mae gan bob asiantaeth ei rhan bwysig i'w chwarae wrth ymateb i gam-drin domestig. Rhaid bod gan bob asiantaeth systemau a llwybrau mewnol cadarn er mwyn sicrhau y caiff y risgiau i'r teulu cyfan ac anghenion y teulu cyfan eu hystyried drwy gydol ei gwaith. Ar yr un pryd, rhaid sicrhau bod gweithdrefnau amlasiantaethol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn er mwyn gallu ystyried yr holl risgiau hysbys i'r teulu cyfan a'u rheoli. Lle na fydd hyn yn digwydd, ni fydd gweithwyr proffesiynol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n digwydd, gan y bydd stori'r plentyn wedi'i rhannu rhwng nifer o bobl mewn nifer o fannau.[284] Dim ond os byddant yn arwain at gamau gweithredu ac, yn y pen draw, at newidiadau cadarnhaol i ddioddefwyr a goroeswyr y bydd trefniadau gweithio amlasiantaethol o fudd.

### 6.2 Yr ymateb amlasiantaethol presennol i blant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig

Roedd cyfranogwyr yn y trafodaethau bord gron ar gyfer gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' i bobl anabl yn cytuno ei bod hi'n bwysig cysylltu â phartneriaid amlasiantaethol ond yn nodi, yn ymarferol, bod seilos yn ei gwneud hi'n anodd cydweithredu. O ganlyniad, mae plant sy'n ddioddefwyr yn cael eu methu, gan fod gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd diwallu eu hanghenion, ac o ganlyniad, o bosibl yn creu rhwystr a fydd yn eu hatal rhag cael cymorth pellach yn y dyfodol. Adleisiodd y drafodaeth bord gron 'gan ac ar gyfer' o dan arweiniad pobl f/Fyddar y safbwyntiau hyn gan roi enghraifft lle roedd gofal cymdeithasol i oedolion a gofal cymdeithasol i blant wedi rhoi cymorth a chyngor a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd i'r oedolyn a oedd yn ddioddefwr, gan achosi iddo fygwth tynnu'r plentyn a oedd yn ddioddefwr o'r system.

Yn nadansoddiad HALT o argymhellion Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig, roedd 73% o argymhellion yr adolygiadau yn nodi trefniadau gweithio amlasiantaethol aneffeithiol a phrosesau rheoli gwybodaeth gwael.[285] Roedd angen i wasanaethau plant wella eu prosesau ar gyfer casglu gwybodaeth, adrodd arni a'i rhannu â gwasanaethau eraill. Roedd angen hefyd iddynt wella eu prosesau cyfathrebu a chydgysylltu yn fewnol a'u prosesau cofnodi – yn un achos, roedd enw tad biolegol y plentyn wedi cael ei gofnodi'n anghywir. Mae angen i bob asiantaeth weithredu'n effeithiol, fel asiantaeth unigol a gydag asiantaethau eraill ar draws gwahanol bartneriaethau.

Nid yw'n syndod bod prosesau rhannu gwybodaeth yn aneffeithiol, gan fod llawer o weithwyr proffesiynol yn ansicr o ran pa wybodaeth y gellir ei rhannu o fewn asiantaethau ac ar draws asiantaethau.[286] Yn ogystal â helpu i sicrhau'r penderfyniad gorau i'r teulu ac asesiad risg cywir, mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol hefyd yn gwella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol ac yn eu helpu i nodi anghenion cymorth plant yn well.[287] Felly, mae prosesau gwell ar gyfer cadw cofnodion,

[284] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022a).
[285] Chantler, K. et al (2023a).
[286] McBride, E. (2018).
[287] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022a).

rhannu gwybodaeth a chyfrannu at drefniadau diogelu amlasiantaethol yn gwbl hanfodol er mwyn gwella'r ymateb presennol.

### 6.2.1. Y gwahaniaethau rhwng ymatebion amlasiantaethol i gam-drin domestig a diogelu plant

Ar hyn o bryd, mae ymatebion diogelu lleol i gam-drin domestig yn canolbwyntio'n llwyr ar y ‘drws ffrynt’, ac o ganlyniad, nid oes unrhyw ymateb systemig i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn y system diogelu ehangach. Drwy newid i ganolbwyntio ar yr ymateb cyfan, gall ardaloedd lleol symud y tu hwnt i sefyllfa o reoli'r galw ar gyfer achosion lle mae plant yn ddioddefwyr cam-drin domestig, a datblygu ymateb effeithiol sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn.[288] Er mwyn gwneud hyn, bydd angen cryn ymdrech ar y cyd rhwng partneriaid diogelu, gan gynnwys partneriaethau addysg a cham-drin domestig, â chyfeiriad clir gan y llywodraeth o ran yr ymateb diogelu priodol i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.

Er eu bod yn teimlo bod cyflwyno MASH wedi gwella'r trefniadau ar gyfer asesu risg wrth y ‘drws ffrynt’, ac wedi gwella'r gwaith o brosesu atgyfeiriadau at wasanaethau plant, roedd ymarferwyr o'r farn bod diffyg cyswllt sylweddol o hyd rhwng ymatebion cam-drin domestig ac ymatebion diogelu plant i blant sy'n ddioddefwyr, a bod mwy i'w wneud. Nododd ymarferwyr hefyd wrthdaro cynhenid rhwng cymhwyso ymateb cam-drin domestig nodweddiadol yn seiliedig ar risg, ac ymateb nodweddiadol yn seiliedig ar anghenion gan wasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Tybir bod cam-drin domestig risg uchel yn cyfateb i lefel uchel o angen ac, felly, yn bodloni'r trothwy ar gyfer gofal cymdeithasol i blant. Fodd bynnag, gall plentyn neu berson ifanc ag anghenion sylweddol a chymhleth fod yn gysylltiedig ag oedolion sy'n ddioddefwr sy'n wynebu risg safonol neu ganolig, sy'n golygu nad oes cymorth ar gael i'r plant hyn. Yn rhannol, mae hyn oherwydd diffyg canllawiau a fframwaith ieitheg a rennir mewn perthynas â cham-drin domestig er mwyn nodi rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau partneriaid diogelu a'r ymateb diogelu cyffredinol i blant sy'n ddioddefwyr.

Un rheswm am yr ymateb rhanedig hwn yw'r diffyg cyswllt rhwng trefniadau llywodraethu partneriaethau cam-drin domestig a diogelu plant. Yn amlach na pheidio, mae'r Bwrdd Partneriaeth Cam-drin Domestig yn rhan o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol, ac mae timau diogelu plant yn atebol i'r bartneriaeth Diogelu Plant Leol. Mewn rhai ardaloedd, bydd y Bwrdd Partneriaeth Cam-drin Domestig yn rhan o adran neu asiantaeth arall, fel iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol i oedolion neu dai hyd yn oed. Anaml y bydd y Bwrdd Partneriaeth Cam-drin Domestig yn rhan o drefniadau diogelu plant. O ganlyniad, nid oes unrhyw atebolrwydd rhwng y ddwy bartneriaeth hyn at ei gilydd, ac anaml y bydd prosesau cyfathrebu parhaus ar waith. Fel y cyfryw, dylai timau diogelu plant a thimau plant a theuluoedd ystyried trefniadau cydleoli fel rhan o wasanaethau cam-drin domestig lle y bo'n bosibl a nodi systemau ar gyfer gwella'r prosesau cyfathrebu parhaus er mwyn sicrhau nad dim ond mewn cyfarfodydd ffurfiol y ceir cyfathrebu.[289] Er mwyn osgoi achosion o gydleoli dibwrpas, rhaid rheoli'r broses a'i strwythuro mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi cyfraniad arbenigwyr cam-drin domestig annibynnol, nad yw'n gosod bai mewn ffordd annheg ar y rhiant nad yw'n cam-drin ac sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion y plentyn. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 7, sy'n ystyried yr ymateb mewn argyfwng.

### 6.3 Yr ymateb Help Cynnar

Yn wahanol i wasanaethau cyffredinol, fel addysg ac iechyd, diben gwasanaethau Help Cynnar yw cynnig help i blant a theuluoedd wrth i broblemau ddod i'r amlwg, lle na all gwasanaethau cyffredinol ddiwallu eu hanghenion. Mae llywodraethau blaenorol wedi cydnabod gwerth Help Cynnar, gan ddeall bod ymyriadau cynharach wedi'u targedu yn fwy buddiol i ganlyniadau plant, o gymharu â gweithredu'n ddiweddarach.[290] I blant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig, gall help cynnar sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o hyd o blant nad ystyrir eu bod yn ‘risg uchel’

[288] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[289] Stanley, N. (2011).
[290] Yr Adran Addysg (2023d).

neu blant ar gynllun amddiffyn plant. Fodd bynnag, anaml y caiff y risgiau unigol i blant eu hasesu, ac mae lefel risg y plentyn fel arfer yn adlewyrchu lefel risg y rhiant nad yw'n cam-drin. Trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 7.

Gall help cynnar gynnig hyblygrwydd i deuluoedd, wedi'i deilwra at anghenion oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr.[291] Mae gwaith ymchwil yn dangos lle cafodd rhieni a phlant help cynnar, lle rhoddwyd hyblygrwydd iddynt o ran eu cymorth a lle roeddent yn ymddiried yn eu gweithwyr, fod yr help hwnnw wedi cael effaith gadarnhaol.[292] Yn hanfodol, roedd gweithwyr yn teimlo y gallent roi blaenoriaeth i anghenion plant a phobl ifanc gan gyfeirio at newidiadau o ran hunanhyder plant a phobl ifanc, eu hiechyd corfforol, eu parodrwydd i fentro, lefelau presenoldeb yn yr ysgol, eu gwaith ysgol, eu hymddygiad, eu perthnasoedd a'u gallu i siarad â'u mamau.[293]

Er gwaethaf cydnabyddiaeth eang i'w gwerth, nid yw Gwasanaethau Help Cynnar yn statudol ac fel y cyfryw, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'w cyllido. Caiff hyn ei waethygu gan y diffyg data ar nifer y plant a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Felly, ar lefel genedlaethol, mae'n anodd iawn nodi nifer y teuluoedd sy'n cael help cynnar, anghysondebau o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar wasanaethau o'r fath, ac effaith y gwasanaeth ar deuluoedd o ran darparu cymorth cynnar wedi'i dargedu a'r angen i gyllido'r mathau hyn o wasanaethau.

Daw'r data mwyaf cywir o arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, a amcangyfrifodd fod 185,100 o blant ag achosion a oedd ar agor o fewn gwasanaethau Help Cynnar wedi'u targedu yn 2022.[294] O gymharu â'r lefelau uchel o angen, mae'r gwariant ar y mathau hyn o wasanaethau yn syfrdanol o isel. Yn ôl gwaith ymchwil pwysig gan Gweithredu dros Blant, dros gyfnod o bum mlynedd, gwariodd 9 allan o 10 awdurdod lleol lai ar wasanaethau ymyrryd yn gynnar/Help Cynnar fesul plentyn – gyda lefelau gwariant yn lleihau o fwy na hanner i 10 awdurdod lleol gyda'r gostyngiad mwyaf, sef 39%, yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mewn termau real, gostyngodd gwariant 21% ledled y wlad.[295] Nid yw hyn yn gynaliadwy. Fel y nodwyd gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, caiff y ddarpariaeth help cynnar ei chyllido yn ôl disgresiwn ac ewyllys wleidyddol arweinwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau lleol.[296] Er bod llawer o ardaloedd lleol wedi mabwysiadu modelau ymarfer creadigol i gadw gwasanaethau ar agor, mae llawer bellach yn nodi mai dim ond llond llaw o blant sy'n cael cymorth ganddynt, sy'n golygu nad oes help ar gael i lawer o'r rhai hynny sydd ei angen arnynt.

[291] McCarry, M. et al (2021).
[292] McCarry, M. et al (2021).
[293] McCarry, M. et al (2021).
[294] Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Cyf. (2022).
[295] Gweithredu dros Blant (2022).
[296] Gweithredu dros Blant (2022).

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Bwrdeistref Hounslow yn Llundain***

Mae un o flaenoriaethau strategol Bwrdeistref Hounslow yn Llundain yn ymwneud ag ymyrryd yn gynnar ac atal, ac o ganlyniad, mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau cyllid ar gyfer gwaith gydag ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar er mwyn helpu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn dilyn penderfyniad y Swyddfa Gartref i roi'r gorau i gyllid Plant y mae Cam-drin Domestig yn Effeithio Arnynt (CADA) yn 2020.

Mae Hounslow yn cyflogi pum Gweithiwr Cam-drin Domestig Arbenigol unigryw i Rieni a Phlant, y mae pedwar ohonynt yn gweithio gyda holl ysgolion y fwrdeistref, a'r pumed wedi'i neilltuo'n benodol i leoliadau blynyddoedd cynnar. Mae'r gweithwyr hyn, mewn partneriaeth â'r heddlu, yn cael hysbysiadau drwy Ymgyrch Encompass ac yn cydgysylltu ag ysgolion i ddarparu cymorth therapiwtig cyfannol i blant a rhieni nad ydynt yn cam-drin. Maent yn helpu rhieni i wneud dewisiadau gwybodus ac yn eu grymuso i ddiwallu anghenion eu plentyn. Mae'r gweithwyr yn cydweithio ag arweinwyr diogelu mewn ysgolion i atgyfnerthu'r cymorth a gynigir i blant sy'n dioddef cam-drin domestig.

Mae'r ddarpariaeth mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn rhan o ymateb lleol ehangach, gan gynnwys arbenigedd cam-drin domestig wedi'i gydleoli o fewn yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH), rhaglenni adfer sy'n briodol o ran oedran i blant a'u rhiant nad yw'n cam-drin, darpariaeth llety diogel, Siop Un Stop i oroeswyr a gwasanaeth eirioli i oedolion. Mae darpariaeth benodol i oedolion sy'n oroeswyr â phlant ifanc, fel cyrsiau tylino i fabanod, er mwyn annog babanod a'u rhiant nad yw'n cam-drin i feithrin bond ar ôl achos o gam-drin domestig. Mae Hounslow yn comisiynu Shewise, sefydliad 'gan ac ar gyfer' arbenigol i fenywod a merched o gymunedau De Asia a'r Dwyrain Canol. Mae Shewise yn cynnal rhaglenni ieuenctid, gwasanaeth eirioli a hyfforddiant, gan gynnwys i ysgolion ar bynciau fel grymuso economaidd, perthnasoedd iach a'r cyfryngau cymdeithasol.

Un rhaglen sydd ar waith yn Hounslow yw 'Let's Talk', sef rhaglen grŵp therapiwtig strwythuredig 11 wythnos o hyd sy'n rhad ac am ddim i blant, pobl ifanc a mamau y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt. Mae gweithgareddau'r rhaglen yn cynnwys celf, straeon, trafodaethau, chwarae rôl a fideos er mwyn galluogi'r plant i fynegi eu teimladau. Mae'r grŵp cymorth i oedolion yn cynnig amgylchedd diogel, cefnogol a chyfrinachol i helpu menywod i gyfathrebu â'u plant am eu profiadau, gan ar yr un pryd ddatblygu eu rhwydwaith cymorth eu hunain â menywod sydd wedi cael profiadau tebyg. Mae Let's Talk wedi'i hanelu at deuluoedd lle nad yw'r oedolyn sy'n cam-drin yn byw yng nghartref y teulu mwyach.

### 6.3.1 Effaith trothwyon gwahanol ar gyfer cymorth statudol

Mae adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen yn eu hardal drwy ddarparu amrywiaeth a lefel o wasanaethau sy'n briodol ar gyfer anghenion y plant hynny. Fodd bynnag, mae problemau sylweddol o ran gallu ac adnoddau yn golygu mai anaml y mae hyn yn digwydd, ac mae dim ond y rhai hynny sy'n wynebu'r problemau mwyaf difrifol sy'n cael eu rheoli o dan adran 17.[297] O ganlyniad, nododd yr Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol i Blant yn 2022 fod gwasanaethau Help Cynnar yn gwneud mwy a mwy o waith gyda theuluoedd y mae angen llawer o help arnynt, ac mae dim ond y lefelau angen uchaf lle ceir problemau difrifol sy'n cael eu rheoli o dan adran 17.[298]

[297] Macalister, J. (2022).
[298] Macalister, J. (2022).

Mae i ba raddau y mae hynny'n wir yn amrywio o le i le. Gan nad oes sail statudol iddo, nid yw cwmpas gwaith Help Cynnar wedi'i ddiffinio'n glir ac, o ganlyniad, mae trothwyon lleol yn wahanol ledled y wlad, gan greu lefelau anghyson o ran ymyriadau a chymorth i blant sydd o bosibl yn wynebu risgiau tebyg.[299]

O ganlyniad i'r diffyg cysondeb hwn, caiff adnoddau eu gwario yn porthgadw ac yn asesu achosion yn erbyn trothwyon, yn hytrach nag i helpu teuluoedd. Mae hyn yn creu drws tro o achosion sy'n symud rhwng Help Cynnar ac Adran 17. Canfu Gweithredu dros Blant fod 32% o'r plant a gafodd eu dewis i gael Help Cynnar ar ôl i'w hasesiad plant mewn angen ddod i ben yn cael eu hatgyfeirio eto ar gyfer asesiad plant mewn angen arall o fewn 12 mis.[300] Mae'r diwylliant o atgyfeirio rhwng timau help cynnar a thimau plant mewn angen yn defnyddio lefel sylweddol o adnoddau ac yn gostus, ond mae hefyd yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau plant a chysondeb y cymorth y maent yn ei gael. Mae'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant hefyd yn nodi ei fod yn bwynt risg allweddol. Pan fydd achosion yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng Help Cynnar a chynlluniau Plant mewn Angen, mae'n creu gwrthdaro o ran lefel y cymorth sydd ar gael, ac yn golygu nad yw'r plentyn hwnnw yn cael ei oruchwylio'n briodol. O ganlyniad, mae methu ag ymdrin â lefelau risg newidiol yn thema sy'n aml yn gysylltiedig â digwyddiadau difrifol.[301] Trafodir y materion hyn ymhellach ym Mhennod 7, yn yr adran ar ofal cymdeithasol i blant.

### 6.3.2 Cam-drin Domestig a Help Cynnar

Mewn trafodaethau bord gron a gynhaliwyd yn 2024, dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrth y Comisiynydd Cam-drin Domestig fod cam-drin domestig yn broblem fynych a pharhaus o fewn llwythi achosion timau gofal cymdeithasol i blant a Help Cynnar. Mae gwaith ymchwil gan Foundations yn dangos bod 84% o ymarferwyr Help Cynnar yn nodi eu bod wedi gweithio ar achosion a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn ystod y chwe mis diwethaf.[302] Er gwaethaf niferoedd uchel o achosion cam-drin domestig, nid yw gwasanaethau Help Cynnar yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig, o ganlyniad i drothwyon uchel a diffyg adnoddau, ond hefyd gan nad oes arbenigwyr cam-drin domestig wedi'u cynnwys yn briodol fel rhan o'r timau. Yn ogystal â'r bwlch hwn mewn gwybodaeth, mae agosrwydd gwasanaethau Help Cynnar i wasanaethau statudol hefyd yn creu rhwystr rhag datgelu ac ymgysylltu mewn perthynas â cham-drin domestig. Nododd ymarferwyr Help Cynnar fod eu cyswllt uniongyrchol â'r gwasanaethau statudol yn golygu bod llawer o rieni a gofalwyr – gan ofni y caiff eu plant eu tynnu oddi wrthynt ac y caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant eu cynnwys – yn amharod i roi gwybod iddynt am achosion o gam-drin domestig. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr Du a lleiafrifiedig a'u plant.

Nododd unigolion a gymerodd ran yn y trafodaethau bord gron yn glir bod angen i dimau Help Cynnar feddwl yn greadigol am ffyrdd i annog pob dioddefwr a'u plant i ymgysylltu â'r system, gan gynnwys drwy gynnwys arbenigwyr cam-drin domestig ym mhob lefel o'r ymateb. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol sy'n defnyddio'r Model Diogelu Teuluoedd[303] wrth y Comisiynydd fod angen i'r system gyfan fod yn ystyriol o gam-drin domestig er mwyn iddi fod yn effeithiol, yn hytrach na dim ond cynnig hyfforddiant i weithwyr proffesiynol unigol.

Mae cyfranogiad gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn hanfodol. Mae'n hysbys bod ymddiriedaeth a chyfrinachedd yn ffactorau sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac mae oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr yn pwysleisio pwysigrwydd gallu ymddiried yn y rhai hynny sy'n gweithio gyda nhw.[304] Rydym hefyd yn gwybod bod gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol yn fwy tebygol o ennyn yr ymddiriedaeth hon. Roedd hyn i'w weld yn yr adborth a gafwyd gan

[299] Macalister, J. (2022).
[300] Gweithredu dros Blant (2022).
[301] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2021).
[302] Foundations (2024).
[303] Y Ganolfan ar gyfer Ymarfer Diogelu Teuluoedd (dim dyddiad).
[304] McCarry, M. et al (2021).

ymarferwyr Help Cynnar, a ddywedodd wrth y Comisiynydd pan oedd gwasanaeth cam-drin domestig yn rhan o'r ddarpariaeth Help Cynnar, fod rhieni a phlant yn fwy tebygol o ddatgelu achos o gam-drin, pan nad oeddent wedi'i ddatgelu'n flaenorol. Fel y trafodir ymhellach yn yr adran ar ofal cymdeithasol i blant, nododd gweithwyr cymdeithasol ei bod hi'n fuddiol iawn cydleoli gweithwyr cam-drin domestig arbenigol fel rhan o MASH a thimau drws ffrynt wrth gynnal asesiadau cychwynnol a gwaith sgrinio.

Er gwaethaf effaith gadarnhaol y swyddi hyn fel rhan o dimau Help Cynnar, ni ddylai ddiddymu'r angen i weithwyr proffesiynol eraill ddeall cam-drin domestig ac ymateb iddo. Canfu gwaith ymchwil Foundations fod rolau cam-drin domestig arbenigol mewn timau amlddisgyblaethol mewn rhai ardaloedd yn gwbl gyfrifol am atgyfeiriadau at wasanaethau cam-drin domestig allanol ac am gysylltu â'r teulu.[305] O ganlyniad, nid oedd ymarferwyr Help Cynnar bob amser yn dod i gysylltiad uniongyrchol â gwasanaethau cam-drin domestig, a oedd yn cael effaith ar atgyfeiriadau, hyder a threfniadau cydweithio â'r sector arbenigol.[306] Gall hyn arwain at sefyllfa lle na fydd gweithwyr proffesiynol anarbenigol yn teimlo bod angen iddynt ystyried cam-drin domestig gan nad ydynt yn gyfrifol amdano. Canfu gwaith ymchwil gan Foundations hefyd nad oedd 32% o ymarferwyr Help Cynnar yn teimlo eu bod wedi cael digon o hyfforddiant ar effaith cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc a sut i'w cefnogi, ac nad oeddent yn hyderus yn hynny o beth o ganlyniad.[307] Er bod llawer o ymarferwyr yn ymgysylltu â phlant, roeddent yn betrus ynghylch holi cwestiynau am gam-drin domestig, neu ynghylch gofyn am farn plant ar wahân i'w rhieni, rhoi cyngor iddynt am eu hopsiynau, cysylltu â nhw i wneud yn siŵr eu bod yn iawn a'u hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol.[308] Mae'n bosibl nad yw'r diffyg gwybodaeth a sgiliau hwn yn syndod o ystyried bod prosesau recriwtio yn seiliedig ar agweddau a gwerthoedd, ac na chaiff gwybodaeth am gam-drin domestig na dealltwriaeth ohono eu hystyried.[309]

At hynny, canfu'r gwaith ymchwil ddiffyg hyder ymhlith staff Help Cynnar wrth weithio gyda chymunedau amrywiol a phlant ag anghenion ychwanegol neu blant sy'n wynebu rhwystrau uwch wrth geisio cael cymorth.[310] Nid oedd staff Help Cynnar yn hyderus yn gweithio gyda phlant ag anableddau, ac nid oeddent yn deall y gwahanol ddangosyddion yr oedd y plant hyn yn eu mynegi mewn perthynas â cham-drin domestig.[311] Fel y cyfryw, roedd ymarferwyr Help Cynnar yn llawer llai tebygol o wneud atgyfeiriadau ar gyfer plant anabl at wasanaethau cam-drin domestig arbenigol.[312] Nid yw plant mudol yn cael eu gwasanaethu'n briodol ychwaith, a nododd y Comisiynydd yn aml nad yw asiantaethau statudol ac anstatudol yn gwybod am lwybrau mewnfudo a hawliau'r unigolion hyn i wasanaeth eirioli cyfreithiol a chymorth. Mae tystiolaeth gan Ganolfan Angelou yn dangos y dylai 70% o'r dioddefwyr a'r goroeswyr a atgyfeiriwyd at ei gwasanaethau a'i llinell gymorth trais yn erbyn menywod a merched fel unigolion heb hawl i gyllid cyhoeddus yn 2020/21 fod wedi gallu cael gafael ar fudd-daliadau neu gyllid cyhoeddus arall. Disgrifiodd Canolfan Angelou lawer o'r achosion hyn fel “achosion drws tro” lle gwnaed sawl galwad i'r heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn argyfwng.

### 6.4 Rôl Hybiau i Deuluoedd

Mae Hybiau i Deuluoedd yn ffordd o roi help cynnar, gan gynnig pwynt mynediad cyffredinol i gymorth i blant a'u teuluoedd. Maent yn cael eu treialu ar hyn o bryd yn ardal 75 o awdurdodau lleol.[313] Mae Hybiau i Deuluoedd yn darparu lefelau cymorth amrywiol i deuluoedd y mae angen help statudol arnynt ac i deuluoedd â lefelau angen is. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod Hybiau i Deuluoedd, mewn egwyddor, yn gysyniad da. Os cânt eu cyflwyno yn unol â'r bwriad, gallai Hybiau i

[305] Foundations (2024).
[306] Foundations (2024).
[307] Foundations (2024).
[308] Foundations (2024).
[309] Foundations (2024).
[310] Foundations (2024).
[311] Foundations (2024).
[312] Foundations (2024).
[313] Yr Adran Addysg (2023b).

Deuluoedd gynnig amrywiaeth o wahanol wasanaethau, gweithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt, mynediad drws agored i gymorth help cynnar, cymorth rhwng cyfoedion, ac amrywiaeth o fathau eraill o help, cymorth a gwasanaethau i blant a'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gael i bawb o bell ffordd a chafodd cyfleoedd hollbwysig i ymyrryd yn gynharach yn achos plant a theuluoedd sy'n destun cam-drin domestig eu colli. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r adroddiad hwn, ymwelodd y Comisiynydd â Hybiau i Deuluoedd ym mhob rhan o'r wlad a chynhaliodd drafodaethau bord gron ag ymarferwyr a rheolwyr Hybiau i Deuluoedd. Er bod enghreifftiau da, yn anffodus mae'r broses o gynllunio a chyflwyno Hybiau i Deuluoedd yn golygu bod y cyfle hanfodol i roi blaenoriaeth i gam-drin domestig, ac i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, wedi cael ei golli.

O dan y Llywodraeth flaenorol, cyhoeddodd yr Adran Addysg ddisgwyliadau sylfaenol ar gyfer Hybiau i Deuluoedd wrth ymateb i gam-drin domestig – gan nodi'r disgwyliadau sylfaenol a meysydd lle gallai gwasanaethau fynd gam ymhellach er mwyn rhagori ar y disgwyliadau (er enghraifft, drwy gydleoli gweithiwr cam-drin domestig arbenigol annibynnol ar y safle).[314] Drwy gydol gwaith ymgysylltu'r Comisiynydd ag ymarferwyr a rheolwyr Hybiau i Deuluoedd, daeth yn gwbl amlwg nad oedd llawer o Hybiau i Deuluoedd yn bodloni'r meini prawf sylfaenol a nodwyd gan yr Adran Addysg. Mewn trafodaeth bord gron ag ymarferwyr rheng flaen a oedd yn gweithio mewn Hyb i Deuluoedd, nid oedd 66% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau gwasanaeth sylfaenol ar gyfer cam-drin domestig. Ac o bosibl yn destun mwy o bryder, mewn trafodaeth bord gron â Rheolwyr Hybiau i Deuluoedd, dim ond 54% o'r ymatebwyr oedd yn ymwybodol o'r ddogfen, nid oedd 30% yn ymwybodol o'r disgwyliadau sylfaenol, ac roedd 16% yn ansicr yn eu cylch.

Er gwaethaf hyn, soniodd llawer o'r Hybiau i Deuluoedd mewn ffordd gadarnhaol am bocedi o ddarpariaeth cam-drin domestig yn eu hyb. Er enghraifft, soniodd ymarferwyr am gysylltiadau â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol lleol, llwybrau atgyfeirio, mannau cyfrinachol a diogel yn yr hyb, posteri, gwybodaeth ar y we am lwybrau lleol ac atgyfeiriadau i raglenni i gyflawnwyr lle roeddent ar gael – sydd oll yn rhan o'r disgwyliadau sylfaenol. Fodd bynnag, er bod 100% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn amlwg yn gwybod am lwybrau atgyfeirio i blant a phobl ifanc ac oedolion sy'n destun cam-drin domestig, prin iawn oedd yr enghreifftiau o wasanaethau cam-drin domestig arbenigol a oedd wedi'u cydleoli mewn hybiau – sy'n rhan o'r meini prawf ar gyfer mynd gam ymhellach.

### 6.4.1 Mynediad at gymorth arbenigol i blant drwy Hybiau i Deuluoedd

Yn bryderus, nododd llawer o ymarferwyr mai dim ond i'r rhai hynny sy'n byw mewn lleoliadau llety diogel y mae llwybrau arbenigol ar gael i blant, gan sôn am y pwyslais ar ddarpariaeth risg uchel a'r diffyg sylweddol o ran argaeledd gwasanaethau cymunedol. Er bod hyn yn deillio o drefniadau comisiynu a'r diffyg cyllid ar gyfer gwasanaethau i blant, mae'n golygu na all staff Hybiau i Deuluoedd gyfeirio plant a phobl ifanc at gymorth pellach sydd ei angen yn ddirfawr arnynt, ac sy'n ddisgwyliad sylfaenol, onid ydynt yn byw mewn llety diogel. O ystyried na fydd y rhan fwyaf o blant sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn byw mewn llety diogel, mae hyn yn annigonol.

Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad, mae beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol yn gyfnod risg uchel pan fydd cam-drin domestig o bosibl yn gwaethygu, a gall gael effaith negyddol gydol oes ar fabanod newydd-anedig a phlant o dan bump oed. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adnoddau dangosyddion risg sylfaenol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol mewn achosion o gam-drin domestig – fel y model nodi risg, asesu a rheoli achosion o Gam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu a Thrais ar sail Anrhydedd (DASH) – sy'n cynnwys beichiogrwydd fel penderfynydd risg.[315] Er gwaethaf hyn, dangosodd y trafodaethau bord gron nad oedd ymholiadau am gam-drin domestig yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer menywod beichiog yn y rhan fwyaf o Hybiau i Deuluoedd, onid oeddent eisoes yn byw mewn llety diogel. Nid yw hyn yn weithgarwch atal na nodi cynnar effeithiol ac mae'n

[314] Yr Adran Addysg (2022).
[315] SafeLives (2023b).

dangos nad yw staff yn ymwybodol o'r pwyntiau risg allweddol, fel beichiogrwydd a dod â pherthynas gamdriniol i ben, sef un o'r gofynion sylfaenol a bennwyd gan yr Adran Addysg. Nododd ymarferwyr o Hybiau i Deuluoedd fod ymholiadau cyffredinol yn cael eu cynnal ar sail ad hoc yn eu hyb, gan ddibynnu a oedd gweithwyr proffesiynol yn rhagweithiol ai peidio. Nodwyd ganddynt hefyd fod yr amrywiaeth o ran lefelau dealltwriaeth partneriaid proffesiynol eraill o gam-drin domestig, fel gofal cymdeithasol i blant, yr heddlu a lleoliadau addysg, yn creu rhwystrau a oedd yn atal dull gweithredu cydgysylltiedig a chymorth system gyfan.

### 6.4.2 Diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig

Er mwyn bodloni'r disgwyliadau sylfaenol o ran yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau Hybiau i Deuluoedd, dylai ymarferwyr yn yr hybiau hyn gael hyfforddiant arbenigol ar gam-drin domestig, ymholiadau cyffredinol a llwybrau atgyfeirio. Yn anffodus, nid yw hynny'n digwydd. Nododd ymarferwyr a gymerodd ran yn nhrafodaethau bord gron y Comisiynydd eu bod wedi cael hyd at ddiwrnod o hyfforddiant yn y rôl, neu ddim hyfforddiant o gwbl. Yn yr achosion prin lle roedd gwasanaethau cam-drin domestig wedi'u cydleoli, disgrifiwyd hyfforddiant llawer mwy cynhwysfawr. Roedd 85 y cant o argymhellion yr ymarferwyr i'r Comisiynydd yn canolbwyntio ar yr angen am hyfforddiant – gan ofyn yn benodol i'r hyfforddiant ganolbwyntio ar ddulliau gweithredu ymarferol, dealltwriaeth o'r effaith ar blant sy'n ddioddefwyr, a hyfforddiant sefydlu sy'n ystyriol o drawma ar gam-drin domestig.

Roedd diffyg dealltwriaeth o'r ddarpariaeth cam-drin domestig yn arbennig o amlwg yn ymateb yr Hybiau i Deuluoedd i achosion o wrthdaro rhwng rhieni. Soniodd rhai Hybiau i Deuluoedd am y ddarpariaeth ar gyfer achosion o wrthdaro rhwng rhieni fel ymateb i gam-drin domestig, sy'n amhriodol ac o bosibl yn beryglus. Roedd sawl ymarferydd yn aneglur ac yn amwys o ran y gwahaniaeth rhwng cam-drin domestig ac achosion o wrthdaro rhwng rhieni. Soniodd rhai ymarferwyr am achosion o wrthdaro rhwng rhieni a “waethygodd” i achosion o gam-drin domestig a'r ffaith “bod gan raglenni ar gyfer achosion o wrthdaro rhwng rhieni ffyrdd o olrhain materion a oedd yn gwaethygu, lle caiff atgyfeiriadau cam-drin domestig wedyn eu gwneud.” Nid yw'r asesiad hwn yn asesiad cadarn o'r rhaglen, ac nid yw'n dangos y ddealltwriaeth hanfodol bod achosion o wrthdaro rhwng rhieni ac achosion o gam-drin domestig yn gwbl wahanol i'w gilydd, a bod angen llwybrau gwahanol ar eu cyfer, yn seiliedig ar atal risg a dealltwriaeth o bŵer a rheolaeth. Fel disgwyliad sylfaenol, dylai staff yn yr hyb i deuluoedd allu gwahaniaethu rhwng achosion o wrthdaro rhwng rhieni a cham-drin domestig, ond mae'r sefyllfa sydd ohoni yn bell o hynny.[316] Trafodir y Rhaglen ar gyfer Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni yn fanylach yn ddiweddarach ym Mhennod 6.

Yn ogystal â bodloni'r disgwyliadau sylfaenol presennol sydd wedi'u pennu gan yr Adran Addysg, mae'n hanfodol y dylai pob Hyb i Deuluoedd unigol fodloni'r ‘disgwyliadau ar gyfer mynd cam ymhellach’ a nodwyd yn y meini prawf. Rhaid i ymateb Hybiau i Deuluoedd i gam-drin domestig fod yn fwy uchelgeisiol a rhaid iddynt atgyfnerthu eu partneriaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Arweinydd Strategol ar gyfer Cam-drin Domestig yn yr ardal, er mwyn galluogi gwasanaethau cam-drin domestig i ddylanwadu ar waith yr Hyb i Deuluoedd ac atgyfnerthu eu cyfranogiad yn yr Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig.

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Adran Addysg fuddsoddi mewn gwaith cam-drin domestig arbenigol yn yr Hybiau i Deuluoedd fel blaenoriaeth a sicrhau bod gwasanaethau cymorth cam-drin domestig wedi'u cydleoli a chyfleoedd iddynt chwarae rhan fwy gweithredol ym mhob Hyb i Deuluoedd.**

- **Dylai'r Adran Iechyd ei gwneud hi'n ofynnol rhoi'r ‘Disgwyliadau sylfaenol’ ac adrannau ‘Mynd gam ymhellach’ y ddogfen Disgwyliadau ar gyfer Gwasanaethau**

[316] Yr Adran Addysg (2022).

**Hybiau i Deuluoedd ar waith wrth ymateb i gam-drin domestig a sicrhau bod Hybiau i Deuluoedd yn atebol am eu gweithredu.**

- **Dylai pob ymarferydd yn yr Hybiau i Deuluoedd gael hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn deall cam-drin domestig, y gwahaniaethau rhwng cam-drin domestig ac achosion o wrthdaro rhwng rhieni, a'r ffordd orau o nodi a chefnogi plant sy'n ddioddefwyr. Mae hyn yn gysylltiedig â'r argymhelliad ehangach ar hyfforddiant ar dudalen 91.**

Ar lefel leol, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- Dylai rheolwyr Hybiau i Deuluoedd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r 'Disgwyliadau sylfaenol' ac adrannau 'Mynd gam ymhellach' y ddogfen Disgwyliadau ar gyfer Gwasanaethau Hybiau i Deuluoedd , a bod prosesau ar waith i oruchwylio'r gydymffurfiaeth hon drwy drefniadau llywodraethu perthnasol yn yr ardal leol.

- Dylai pwyntiau mynediad cyffredinol i deuluoedd, fel Hybiau i Deuluoedd, meddygfeydd a lleoliadau iechyd ac addysg eraill, arddangos gwybodaeth gyfeirio ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a gwasanaethau ehangach ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys gwasanaethau 'gan ac ar gyfer'.

- Dylai Comisiynwyr lleol sicrhau y gall y gwasanaethau a gomisiynir ganddynt dderbyn hunan-atgyfeiriadau a bod eu llwybrau atgyfeirio mor hygyrch a hyblyg â phosibl.

### 6.5 Rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol

Yn 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynllun i wella gofal cymdeithasol i blant. Rhan graidd o'r strategaeth hon oedd creu cynnig cymorth di-dor di-stigma wedi'i ddarparu gan dimau amlddisgyblaethol cymunedol. Bydd hyn yn dod â Help Cynnar wedi'i dargedu a chymorth i blant mewn angen ynghyd, yn seiliedig ar ganfyddiadau Prosiect Braenaru Teuluoedd yn Gyntaf i Blant, Cryfhau Teuluoedd, y Rhaglen Cefnogi Plant, a Cefnogi Teuluoedd.

Er y dylid croesawu ymdrechion i leihau atgyfeiriadau mynych rhwng Help Cynnar wedi'i dargedu a'r ddarpariaeth Plant mewn Angen, rhaid buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith hwn hefyd. Heb y buddsoddiad hwn, mae risg y bydd y diwygiadau yn codi'r trothwyon ar gyfer y gwasanaeth newydd yn uwch fyth, ac na all plant gael gafael ar y cymorth ymyrryd cynharach hwnnw. At hynny, i lawer o deuluoedd, mae Adran 17 yn cynnig ymyriad penodol i deuluoedd, a dangosydd risg clir – heb yr eglurder hwnnw, mae'n bosibl y bydd ymarferwyr yn drysu ynghylch lefel risg y plant ac y caiff cyfleoedd i ymyrryd ymhellach ac i gynnal asesiadau eu colli.

Rhaid dysgu'r gwersi o raglenni blaenorol. Er mai nod Cefnogi Teuluoedd oedd rhoi dulliau gweithredu teulu cyfan ar waith, nid oedd yn anelu at gynnwys arbenigedd cam-drin domestig fel rhan o ymarfer. Er gwaethaf y ffaith bod buddsoddi mewn partneriaethau yn un o bedwar galluogwr allweddol y rhaglen, clywodd y Comisiynydd am enghreifftiau cyson lle nad oedd trefniadau i gyllido gwasanaethau cam-drin domestig annibynnol yn cael eu gwerthfawrogi gan fforymau ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol, ac roedd cyllid rhai gwasanaethau hyd yn oed wedi lleihau.

Mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â diffyg dealltwriaeth timau Cefnogi Teuluoedd o gam-drin domestig. Cafodd y Comisiynydd wybod am sawl enghraifft lle roedd cyflawnwyr wedi llwyddo i lywio barn gweithwyr proffesiynol, gan arwain at ganlyniadau gwael i blant ac oedolion sy'n ddioddefwyr, ac mewn rhai achosion at fwy o niwed. Clywodd tîm y Comisiynydd sawl stori lle roedd cyflawnwyr cam-drin domestig wedi llywio barn gweithwyr proffesiynol, gan fanteisio ar eu diffyg hyder wrth weithio gyda chyflawnwyr a'u diffyg dealltwriaeth gyffredinol o gam-drin domestig, yn arbennig ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at brofiadau

gwaeth i blant sy'n destun cam-drin domestig, ac at sefyllfa lle na chaiff achosion pellach o gam-drin eu nodi.

Fel y cyfryw, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Adran Addysg gyllido gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol wedi'u cydleoli yn y Timau Amlddisgyblaethol Help i Deuluoedd ac Amddiffyn Plant newydd.**

- **Dylai'r Adran Addysg roi'r gwersi a ddysgwyd ar waith yn y Ddarpariaeth Amddiffyn Plant a Help i Deuluoedd newydd, gan gynnwys modelau sy'n cydweithio mewn partneriaeth â'r rhiant nad yw'n cam-drin ac sy'n sicrhau bod y cyflawnwr yn atebol, fel Safe and Together.**

- **Dylai'r Adran Addysg gyhoeddi canllawiau yn nodi'r ymateb y gall plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig ddisgwyl ei gael fel rhan o'r ddarpariaeth Amddiffyn Plant a Help i Deuluoedd newydd.**

- **Dylai'r Adran Addysg sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol ym maes Help Cynnar wedi cael hyfforddiant i ddeall cam-drin domestig ac ymateb iddo, fel y nodir yn argymhelliad hyfforddiant y Comisiynydd ar dudalen 91.**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnwys data Help Cynnar yn ei gofynion ar gyfer Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol o dan y Ddyletswydd i Gydlafurio yn y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion. Dylai hyn gynnwys nifer y plant sy'n destun cam-drin domestig a gaiff eu hatgyfeirio i gael gwasanaethau Help Cynnar ac a gaiff y gwasanaethau hynny.**

Ar lefel leol, dylai ardaloedd ddatblygu llwybrau atgyfeirio a phrosesau rhannu gwybodaeth cadarn a chynhwysfawr, gyda gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu teulu cyfan ar gael i unrhyw blentyn a gaiff ei atgyfeirio i gael Help Cynnar yng nghyd-destun cam-drin domestig.

Yn ogystal, rhaid i ardaloedd lleol gyflwyno adroddiadau ar ddata help cynnar, a nifer y plant sy'n destun cam-drin domestig sy'n cael gafael ar wasanaethau Help Cynnar, neu'n cael eu gwrthod gan y gwasanaethau hynny, er mwyn cyflawni'r gofyniad i gyflwyno data fel rhan o Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol.

### 6.6 Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni – Cyfle Coll

Cafodd sawl rhaglen ei chyllido gan y Llywodraeth flaenorol o dan ambarél cymorth Help Cynnar, gan gynnwys y Rhaglen ar gyfer Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni (RPC), a gafodd £83m gan yr Adran Gwaith a Phensiynau rhwng 2018 a 2025.[317]

Mae cam-drin domestig yn gwbl wahanol i achosion o wrthdaro rhwng rhieni, ond mae'r Rhaglen ar gyfer Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni yn aml yn cyfuno'r ddau. Mae un yn ymwneud â dau riant yn teimlo y gallant fynegi eu teimladau a'u dymuniadau (er na fyddant bob amser yn gwneud hynny mewn ffordd adeiladol na chadarnhaol), ond mae'r llall yn ymwneud ag un partner yn defnyddio pŵer a rheolaeth dros y llall – hyd yn oed lle bydd dioddefwr o bosibl yn ceisio gwrthod y rheolaeth honno. Drwy gydol ei gwaith ymgysylltu, mae'r Comisiynydd wedi sylwi ar nifer syfrdanol o uchel o ddeunyddiau cyhoeddus sy'n awgrymu bod achosion o wrthdaro rhwng rhieni yn rhywbeth a all waethygu i achos o gam-drin domestig. Mae deall cam-drin yn y cyd-destun hwn yn peri risg y

[317] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2024b).

rhoddir bai ar y dioddefwr – bod y gwrthdaro mewn rhyw ffordd wedi bod yn ormod i'r unigolyn, a bod un rhiant yn ymosod ar y llall. Mae hefyd yn cyfyngu ar allu gweithwyr proffesiynol rheng flaen i nodi arwyddion cynnar o reolaeth drwy orfodaeth, cynnal asesiad risg priodol ac ymyrryd yn gynnar i ddiogelu a chefnogi oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr. Yn y senario waethaf, gall hyn arwain at niwed pellach sylweddol.

Mae'r trydydd gwerthusiad o'r Rhaglen ar gyfer Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni yn peri pryder gan ei fod yn cyfeirio at lefelau o wrthdaro sydd wedi pasio'r trothwyon ar gyfer cam-drin domestig, ac yn nodi bod y Rhaglen yn ceisio ymdrin ag achosion o wrthdaro islaw'r trothwy ar gyfer cam-drin domestig, a bod rhieni wedi dod i ymyriadau ag amrywiol lefelau o wrthdaro, o achosion lle nad oedd unrhyw wrthdaro i achosion lle bu cyhuddiadau o gam-drin domestig.[318] Mae'r camddealltwriaeth sylweddol hwn yn creu dryswch ymhlith gweithwyr proffesiynol rheng flaen, gan gyfyngu ar eu gallu i nodi arwyddion rheolaeth drwy orfodaeth ac i weithredu i gadw teuluoedd yn ddiogel. Roedd hyn i'w weld yn glir ac yn gwbl amlwg wrth i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol o'r Hybiau i Deuluoedd ymateb yn ystod trafodaethau bord gron y Comisiynydd, gan nodi ei bod hi'n haws ymgysylltu â chyflawnwyr drwy gyfeirio at wrthdaro yn hytrach na cham-drin, ac felly mai dim ond y tu hwnt i 'drothwy' penodol y byddai llwybrau cam-drin domestig yn cael eu hystyried. Gallai hyn fod yn eithriadol o beryglus mewn achosion lle ceir ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ac mae hefyd yn peri risg y caiff y diwylliant amlwg o feio'r dioddefwr sy'n atal dioddefwyr a goroeswyr rhag gofyn am gymorth ac yn golygu na chaiff cyflawnwyr eu dwyn i gyfrif ei atgyfnerthu.

Yn y Gwerthusiad Terfynol o'r rhaglen, dadleuodd y gwerthuswyr "a key early challenge local authorities reported was working out at what point conflict in a relationship becomes abusive. They appreciated that conflict in relationships was very common, but were struggling to find mechanisms to help distinguish between acceptable and unacceptable conflict. Knowledge and understanding of the three key elements of domestic abuse (power imbalance, fear and control) was not widespread."[319] Canfu'r gwerthusiad hwn hefyd yn achos atgyfeiriadau gan y Rhaglen ar gyfer Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni i wasanaeth arall, mai 10% a gafodd gymorth cam-drin domestig, gan gynyddu i 20% rhwng chwe mis a 12 mis ar ôl cwblhau'r rhaglen.[320] At hynny, nododd trydydd gwerthusiad y rhaglen fod yr unigolion hynny a gymerodd ran mewn rhaglenni ar gyfer achosion o wrthdaro rhwng rhieni yn cynnwys unigolion a oedd wedi dioddef cam-drin domestig, gan gyfeirio at ymosodiadau corfforol, rheolaeth drwy orfodaeth a stelcio.[321]

Mae presenoldeb sylweddol cam-drin domestig yn y ddau werthusiad yn destun pryder mawr, felly hefyd lefel y dryswch ymhlith ymarferwyr rheng flaen ac arweinwyr strategol, sy'n gyfrifol am sicrhau na chaiff dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig eu cyfeirio'n amhriodol at un o'r rhaglenni hyn. Cadarnhawyd hyn hefyd yn y gwerthusiad, a ganfu fod ymarferwyr, oherwydd diffyg hyfforddiant arbenigol, yn teimlo "some confusion around eligibility for different interventions. In particular, they were sometimes unsure about the provision available for parents experiencing domestic abuse."[322] Yn amlwg, mae atgyfeiriadau amhriodol yn cael eu gwneud, ac mae'r prosesau sgrinio ar gyfer cam-drin domestig a gynhelir cyn cofrestru unigolion ar y rhaglen yn aneffeithiol neu nid ydynt yn cael eu cynnal. Nid yw'r rhaglen yn cynnwys y mewnbwn angenrheidiol gan wasanaethau cam-drin domestig arbenigol, wrth roi hyfforddiant i ymarferwyr ar gydnabod ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a hefyd wrth nodi achosion o gam-drin domestig.

Gall ymateb i achos o gam-drin domestig drwy raglen lleihau achosion o wrthdaro neu o safbwynt tebyg achosi niwed sylweddol, gan ddwysáu a hwyluso rheolaeth bellach dros ddioddefwr ac achosion pellach o gam-drin, a gwneud i'r unigolyn hwnnw deimlo'n gyfrifol am y cam-drin y mae'n ei ddioddef. Mae'r diffyg gwerth a roddir ar wasanaethau arbenigol yn amlwg ar lefel leol a

318 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2022).
319 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023).
320 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023).
321 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2022).
322 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023).

chenedlaethol. Nid oedd hyd yn oed werthusiad y Llywodraeth ei hun yn cynnwys mewnbwn gan sefydliadau cam-drin domestig arbenigol.

Ceir rhai pocedi o ymarfer gwell. Mae'r Comisiynydd wedi ymweld â rhai ardaloedd sydd wedi ymateb yn briodol i gam-drin domestig ac achosion o wrthdaro rhwng rhieni, gan eu trin fel dau endid ar wahân. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd hyn yn y lleiafrif, ac mae methu ag ystyried y ddwy elfen fel elfennau ar wahân yn peri risg i ddioddefwyr a'u plant. Er mwyn i ymdrechion i leihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni weithio, rhaid rhoi hyfforddiant sylweddol i ymarferwyr ar gam-drin domestig, yn enwedig ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, a materion sy'n dod i'r amlwg yn aml fel rhan o waith i leihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni, fel trafodaethau ynghylch cyswllt â phlentyn ac ymatebion Amharodrwydd-Ymwrthedd-Gwrthodiad gan blant[323] i hyn. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn cymryd camau i adnabod arwyddion o reolaeth drwy orfodaeth ac i ddiogelu dioddefwyr a goroeswyr a'u helpu i gael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt i'w cadw nhw eu hunain a'u plant yn ddiogel.

Ar ôl blynyddoedd o fuddsoddiad sylweddol, mae cyfle gan y Llywodraeth i ailosod ffiniau'r rhaglen er mwyn sicrhau, yn y dyfodol, yr ymdrinnir â'r materion a nodwyd yn y gwerthusiad. Rhaid bellach cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol wrth lywio'r rhaglen hon a gwneud penderfyniadau yn ei chylch yn genedlaethol ac yn lleol, ac ar lefel leol, rhaid rhoi adnoddau i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol sgrinio atgyfeiriadau a rhoi cyngor drwy gydol taith ymyriadau'r rhiant.  Bydd hyn yn sicrhau y caiff risgiau eu nodi a'u rheoli'n briodol. Rhaid i bob ymarferydd sy'n gysylltiedig â lleihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni feddu ar ddealltwriaeth gryf o gam-drin domestig a gwybod sut i gyfeirio unigolion i gael cymorth arbenigol yn ddiogel, yn enwedig os bydd achos o gam-drin domestig yn dod i'r amlwg o ganlyniad i wrthdaro.

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau greu hyblygrwydd yn y trefniadau cyllido er mwyn galluogi ardaloedd lleol i ddefnyddio cyllid ar gyfer lleihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni fel y bo angen ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig, yn ogystal ag unrhyw raglen ar gyfer lleihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni sydd ei hangen.**
- **Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau drefnu hyfforddiant eang ar ddeall cam-drin domestig ac ymateb iddo i ymarferwyr sy'n gysylltiedig â lleihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni, fel rhan o'r argymhelliad ar dudalen 91.**

Ar lefel leol, rhaid i Drefniadau a Phartneriaethau Diogelu Amlasiantaethol sicrhau bod gan dimau gofal cymdeithasol a thimau lleihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni adnoddau sgrinio gorfodol ar waith i sicrhau nad oes unrhyw gam-drin domestig nac ymddygiadau gorfodaethol a rheolaethol yn bresennol cyn asesu achosion o wrthdaro rhwng rhieni. Mae dilyniant adnoddau yn hanfodol at ddibenion diogelu gan fod unrhyw asesiad o wrthdaro lle mae cam-drin domestig yn bresennol yn debygol o fod yn anghywir ac yn gamarweiniol wrth bennu risgiau. Gall hyn achosi i achosion waethygu ac arwain at niwed difrifol i ddioddefwyr a phlant.

### 6.7 Cam-drin domestig a 'Thrais Difrifol'

Er nad yw'r rhan fwyaf o blant sy'n dioddef cam-drin domestig yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol neu broblematig fel pobl ifanc neu oedolion, ceir tystiolaeth gynyddol sy'n dangos cydberthyniad rhwng trais difrifol gan bobl ifanc a phrofiadau o gam-drin domestig. O ddadansoddiad o Adolygiadau Achos a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Plant, canfu ymchwilwyr fod y gorgyffwrdd hwn yn berthnasol i 37% o blant a gyflawnodd drais difrifol.[324] Yn yr un modd, canfu gwaith ymchwil fod 42% o'r bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â gangiau wedi dioddef cam-drin

[323] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2023).
[324] Y Comisiynydd Plant  (2019).

domestig yn ystod eu plentyndod.[325] Er nad yw CAPVA yn rhan uniongyrchol o gwmpas yr adroddiad, dylid nodi'r cysylltiadau hefyd rhwng plant a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol tuag at rieni a gofalwyr a'u profiadau hanesyddol neu barhaus o gam-drin domestig.[326]

O ystyried y cysylltiadau hyn, ceir cyfleoedd i ddatblygu ymatebion sy'n ymdrin â gwahanol fathau o niwed mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys ymdrechion i ddeall ffactorau strwythurol sylfaenol a rennir a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'n arbennig o bwysig ystyried hyn yng nghyd-destun cenadaethau Strydoedd Mwy Diogel y Llywodraeth i haneru achosion o drais yn erbyn menywod a merched a throseddau sy'n defnyddio cyllyll o fewn degawd. Caiff y cyfleoedd hyn eu tanseilio gan gronfeydd cyllid sydd wedi'u neilltuo a threfniadau sy'n datblygu polisi ac ymarfer o fewn seilos. Yn arbennig, gosodwyd ffiniau rhwng polisïau cam-drin domestig, polisïau wedi'u hanelu at blant ifanc gwrywaidd sy'n ddioddefwyr a pholisïau trais difrifol ymhlith pobl ifanc, gan arwain at bolisïau sy'n ymdrin â holl anghenion person ifanc.[327]

O ystyried y nifer uchel o achosion o gam-drin domestig sy'n digwydd mewn cartrefi teuluol, mae angen llunio polisi cenedlaethol sy'n anelu at ddiddymu'r cyfyngiadau tiriogaethol sy'n gysylltiedig â'r sector ieuenctid a'r sector cam-drin domestig. Anaml y ceir trefniadau cydweithio rhwng y ddau sector ac mae angen i hynny newid er mwyn i bobl ifanc fod yn ddiogel ac er mwyn iddynt gael cymorth i wella yn dilyn achosion o gam-drin domestig. Mae tystiolaeth o SPACE,[328] canolfan ieuenctid i blant sy'n dioddef cam-drin domestig yn Bedford, yn dangos bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi darpariaeth sy'n ystyriol o gam-drin domestig sydd wedi'i chydgynhyrchu, sy'n hyblyg ac sy'n darparu diogelwch corfforol a chyfle i gysylltu ag unigolion sy'n wynebu amgylchiadau tebyg. Mae'r Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y darparwyd £85 miliwn ar ei chyfer, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i weithio ar draws y llywodraeth er mwyn dod â'r sector ieuenctid a'r sector cam-drin domestig yn agosach.[329] Gellir atgyfnerthu hyn ymhellach fel rhan o strategaeth gyffredinol y Llywodraeth ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched. Hoffai'r Comisiynydd weld yr adnoddau sydd ar gael i'r Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i gynnwys hyfforddiant arbenigol i weithwyr ieuenctid ar gam-drin domestig ac i gefnogi creadigrwydd ac arloesedd o fewn rhaglenni wedi'u harwain gan bobl ifanc sy'n cyfuno arbenigedd eang y sector cam-drin domestig a'r sector ieuenctid. Dylai uchelgais y Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol i ddod â'r loteri cod post sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i bobl ifanc i ben fod yn gyson ag ymdrechion i fynd i'r afael â'r nifer uchel o achosion o gam-drin domestig ym mywydau pobl ifanc.

### 6.7.1 Y Strategaeth a'r Ddyletswydd Trais Difrifol

Ers 2018, mabwysiadwyd dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â 'thrais difrifol', sy'n cynnwys trais ymhlith pobl ifanc, troseddau sy'n defnyddio cyllyll a gweithgareddau camfanteisio sy'n gysylltiedig â gangiau fel masnachu cyffuriau. Roedd yn rhan amlwg o'r Strategaeth Trais Difrifol. Mae dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc wedi cael cryn dipyn o sylw cyhoeddus, wedi arwain at gyllid ar gyfer gweithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar ac wedi cael blaenoriaeth ar agenda Llywodraethau dilynol. Yn 2022, cyflwynodd y Llywodraeth y Ddyletswydd Atal Trais Difrifol, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau penodedig mewn ardal leol gydweithio a chynllunio i atal a lleihau achosion o drais difrifol, nodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw, paratoi strategaeth i ymdrin â hyn a rhoi'r strategaeth honno ar waith.[330] Yn dilyn ymgyrchoedd eang drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, derbyniodd y Llywodraeth ddiwygiad i'r diffiniad o 'Drais Difrifol' i nodi'n benodol y gall trais difrifol gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol a stelcio, a oedd yn ddatblygiad i'w groesawu o gymharu â strategaethau blaenorol ac a lywiodd y ddyletswydd atal.

[325] Bwrdd Diogelu Plant Croydon (2019).
[326] Baker, V. a Bonnick, H. (2021).
[327] Levell, J. (2022).
[328] CAFADA (2025).
[329] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2024).
[330] Y Swyddfa Gartref (2022b).

Er gwaethaf y ffaith bod cam-drin domestig wedi'i gynnwys yn y diffiniad cyfreithiol o 'Drais Difrifol', yn ymarferol, nid yw hyn wedi ymddangos fel rhan o ymateb strategol cydgysylltiedig eto – caiff trais difrifol ymhlith pobl ifanc a cham-drin domestig eu trafod gan bartneriaethau a byrddau ar wahân o hyd. At hynny, nid yw pob Uned Lleihau Trais yn ymdrin â cham-drin domestig a thrais difrifol – er bod Unedau Lleihau Trais yn ystyried y ddau fath o niwed, ymddengys yr ymdrinnir â nhw mewn fforymau ar wahân. Ceir diffyg cydweithredu rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes trais difrifol a gweithwyr proffesiynol ym maes cam-drin domestig, gan gyfyngu ar y gallu i gydgysylltu a dealltwriaeth gyffredin o ran yr ymarfer gorau.

Mae creu ffin artiffisial yn atal dealltwriaeth o natur ryng-gysylltiol cam-drin domestig a thrais difrifol, sy'n golygu bod datrysiadau ataliol dilys yn cael eu colli,[331] yn ogystal â chyfleoedd i sicrhau y gall plant gael gafael ar gymorth sy'n diwallu eu hanghenion.

### 6.7.2 Gwrywdod, unigolion agored i niwed a thrais

Gan edrych yn benodol ar fechgyn sydd wedi dioddef cam-drin domestig fel plentyn neu berson ifanc, mae cyfoeth o waith ymchwil sy'n dangos y gall profiad cynnar o gam-drin domestig gael effaith ar ymdeimlad bechgyn o'u hunaniaeth wrywaidd.[332] Canfu gwaith ymchwil Dr Jade Levell y gall bechgyn gael eu llethu gan "[the] pressure to protect, provide, and be strong, against the experience of being victimised and subordinated through abuse."[333] Gall y profiad hwn greu achosion cymhleth o wrthdaro i rai bechgyn, lle ceir nodweddion sy'n ei gwneud yn agored i niwed a nodweddion trais ar yr un pryd. Wrth gwrs, nid yw hyn yn wir i bob bachgen ifanc, ond ceir cydberthyniad y mae'n rhaid ei gydnabod mewn polisi ac ymarfer.

I lawer o fechgyn ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig, mae'n bosibl mai lleoliadau addysg fydd y man cyntaf y byddant yn dechrau defnyddio trais eu hunain. Er mwyn diwallu eu hanghenion, mae'n hanfodol deall mai strategaeth ymdopi sy'n ymwneud yn benodol â gwrywdod ydyw, yn enwedig pan fydd y bobl ifanc hynny wedi dioddef cam-drin domestig.[334] Gyda'r ddealltwriaeth hon, dylai gweithwyr proffesiynol ystyried anghenion cymorth yn gyntaf, yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i fesurau cosbol. Mae'r materion hyn yn atgyfnerthu'r angen am ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas effeithiol, sydd hefyd yn diwallu anghenion bechgyn ifanc sydd wedi dioddef cam-drin domestig, fel y nodwyd yn flaenorol ym Mhennod 3.

Gan ystyried cymorth arbenigol, rydym yn gwybod bod prinder gwasanaethau cymorth i blant sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae bwlch ehangach byth o ran cymorth sy'n benodol i fechgyn ifanc yn eu harddegau. Fel rhan o ganfyddiadau HALT a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig, argymhellodd un Adolygiad o Ddynladdiad Domestig y dylai'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol "consider identifying working with adolescent boys as a thematic priority in its strategic plan," mewn ymateb i fwlch yn y ddarpariaeth, lle nad oedd bechgyn ifanc yn eu harddegau yn cael eu hystyried fel "children who might need a safeguarding or other protective response."[335]

### 6.7.3 Oedolyneiddio

O safbwynt croestoriadol, gall oedolyneiddio ehangu'r bwlch hwn mewn cymorth ymhellach fyth. Mae oedolyneiddio yn fath o hiliaeth a rhagfarn, lle yr ystyrir bod plant o gymunedau Du a lleiafrifiedig yn fwy aeddfed ('*streetwise*') ac yn llai diniwed ac agored i niwed na phlant eraill. Mae'n bosibl y caiff y plant hyn hyd yn oed eu hystyried yn bennaf fel plentyn sy'n peri bygythiad iddo'i hun,

---

[331] Levell, J. (2022).
[332] Levell, J. (2022).
[333] Levell, J. (2022).
[334] Levell, J. (2022).
[335] Chantler, K. et al (2023a).

yn hytrach na phlentyn y mae angen cymorth arno. Mewn achosion o oedolyneiddio, nid lles y plentyn yw'r prif bryder a gall ymholiadau a thrafodaethau proffesiynol achosi niwed gweithredol.[336]

Mae plant sy'n byw mewn cartrefi lle ceir achosion o gam-drin domestig hefyd yn fwy tebygol o gael eu hoedolyneiddio.[337] Heb fawr gymorth gan wasanaethau, mae'n bosibl y bydd y plentyn yn teimlo ymdeimlad o gyfrifoldeb i ofalu am ei frodyr a'i chwiorydd, ac hyd yn oed am y rhiant nad yw'n cam-drin. Fel y cyfryw, mae'n bosibl y bydd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y plentyn hwn yn fwy gwydn. Felly, mae'n bosibl y caiff nodweddion sy'n golygu bod y plentyn yn agored i niwed eu diystyru, gan olygu y bydd yn wynebu mwy o risg. Gwelwyd yn ystod trafodaethau bord gron ’gan ac ar gyfer’ y Comisiynydd fod effaith anghymesur ar blant o gymunedau Du a lleiafrifiedig eto, oherwydd rhagfarn sefydliadol a'r beichiau ychwanegol posibl arnynt i gyfieithu ar gyfer eu rhiant neu i'w helpu ag anghenion ymarferol eraill. Rhannwyd llawer o enghreifftiau lle roedd yr heddlu wedi gofyn i blentyn gyfieithu gwybodaeth benodol gan ei riant, ni waeth beth oedd oedran y plentyn.

### 6.7.4 Trais Difrifol: cysylltu'r dotiau

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Swyddfa Gartref, gyda'r Adran Addysg, ddatblygu a chyhoeddi canllawiau ymarfer a fframwaith ieitheg a rennir er mwyn sicrhau bod pob person sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig yn deall ei rôl yn yr ymateb. Rhaid i'r canllawiau hyn fod yn seiliedig ar yr egwyddor y dylid cyfeirio at blant mewn ffordd rhywedd-benodol, er mwyn cydnabod eu gwahanol anghenion cymorth.** Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r argymhelliad sy'n cyfeirio at ganllawiau ar dudalen 90 i greu fframwaith ieitheg a rennir ar gyfer ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.

- **Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Bwrdd Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel gyllido'r gwaith o gwmpasu, datblygu a chyflwyno ymyriadau rhywedd-benodol ac ymyriadau sy'n ymwybodol o wrywdod i blant gwrywaidd sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.** Ni ddylent awgrymu ei bod hi'n anochel y bydd plant gwrywaidd yn gyflawnwyr yn y dyfodol, ond yn hytrach gydnabod y gall dod i gysylltiad â cham-drin domestig effeithio ar hunaniaeth bechgyn a'u defnydd o drais.

- **Dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sicrhau bod y Strategaeth Ieuenctid yn cynnwys ymdrechion i wella'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau cam-drin domestig a sefydliadau ieuenctid, ar lefel polisi ac ar lefel ymarfer, er mwyn cydnabod y gorgyffwrdd rhwng unigolion sy'n dod i gysylltiad â cham-drin domestig yn ystod plentyndod a'r tebygolrwydd o gyflawni trais difrifol ymhlith pobl ifanc.**

[336] Davis, J. (2022).
[337] Haselschwerdt, M.L. a Tunkle, C. (2024).

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria***

Yn 2021, mapiodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria y ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Tynnodd yr ymarfer sylw at amrywiadau sylweddol yn y gwasanaethau sydd ar gael a bylchau ar draws y chwe ardal awdurdod lleol roedd yn ymdrin ag ef, gan gynnwys:

- Darpariaeth brin iawn o ran gwasanaethau cwnsela un i un i blant dros 8 oed mewn pedair ardal allan o'r chwech
- Diffyg llwyr, fwy neu lai, o ran gwasanaethau therapi chwarae/cwnsela i blant rhwng 4 a 7 oed
- Gwaith grŵp therapiwtig cyfyngedig i blant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt

Yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Plant y mae Cam-drin Domestig yn Effeithio Arnynt (CADA) y Swyddfa Gartref, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi defnyddio'r cyllid hwn i alluogi sefydliadau arbenigol annibynnol lleol i ddatblygu a darparu'r gwasanaethau canlynol ar draws y chwe ardal awdurdod lleol:

- Gwasanaethau therapiwtig un i un ac mewn grwpiau i blant a phobl ifanc rhwng 4 ac 18 oed
- Rhaglenni gwaith un i un ac mewn grwpiau i blant a phobl ifanc a'u rhiant nad yw'n troseddu fel ffordd o ymdrin ag effaith cam-drin domestig ar eu perthynas
- Gwaith ymgysylltu â rhieni i wella'r cymorth a roddir gan rieni/cyfranogiad rhieni wrth helpu eu plentyn i wella.

Ers mis Hydref 2022, mae'r chwe gwasanaeth lleol arbenigol wedi darparu gwasanaethau cwnsela, gwaith therapi chwarae a gwaith grŵp therapiwtig i gyfanswm o 783 o blant a phobl ifanc ac wedi darparu ymyriadau i rieni a phlant i 475 o blant a phobl ifanc eraill (a'u rhieni nad ydynt yn troseddu) a chymorth unigol i 570 o rieni.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi defnyddio cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r gwasanaethau hyn ymhellach er mwyn ategu llwybrau cymorth i ddioddefwyr ehangach ac mae wedi gweithio gyda'r chwe awdurdod lleol i'w helpu i gymryd rhan yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol i blant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

### 6.8 Casgliad

Dim ond os bydd adnoddau digonol ar gael i bob elfen ohono y gall Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig ffynnu. Mae'r Comisiynydd yn gobeithio y bydd y Ddyletswydd i Gydlafurio arfaethedig sy'n rhan o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn chwarae rhan hanfodol wrth ymdrin â'r mathau hyn o niwed mewn ffordd gyfannol. Dylai hyn hefyd ymdrin â bylchau eraill, fel y gorgyffwrdd rhwng cam-drin plant yn rhywiol, trais difrifol ymhlith pobl ifanc a cham-drin domestig,[338] er enghraifft.

Fodd bynnag, mae tirlun ariannol presennol llywodraeth leol yn parhau'n rhwystr posibl o ran cyflawni'r weledigaeth hon. Yn ogystal â gofynion ariannol brys, mae ardaloedd lleol wedi wynebu cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch dyfodol ffrydiau cyllido presennol gyda phenderfyniadau byrdymor yn cael eu gwneud ar y funud olaf, gan arwain at golli arbenigedd yn y sector cam-drin domestig, ac at ddiddymu rhai gwasanaethau cam-drin domestig.

Mae'r Comisiynydd yn glir, er mwyn cwblhau'r gwaith amlasiantaethol gofynnol sy'n rhan o'r ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, bod yn rhaid datrys yr argyfwng cyllido y mae ardaloedd lleol yn ei wynebu. Os na chaiff y gwaith hwn ei gyllido, mae'n golygu'n anochel y bydd mwy o blant yn dod at sylw gwasanaethau pan fyddant yn wynebu argyfwng, ac y bydd cyfleoedd i ymyrryd yn gynharach wedi cael eu colli. Mae hyn yn cael effaith andwyol iawn ar y plentyn.

[338] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2024b).

**Argymhelliad y Comisiynydd o ran canllawiau**

Drwy gydol yr adroddiad, mae'r Comisiynydd wedi nodi'r angen am ganllawiau a hyfforddiant i ymarferwyr rheng flaen sy'n gweithio gyda phlant sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae canllawiau a hyfforddiant yn hanfodol bwysig a byddant yn gosod y sylfeini i bob gwasanaeth unigol allu nodi achosion, ymyrryd yn gynnar, a darparu cymorth y mae ei angen yn fawr.

Er mwyn darparu sail i hyfforddiant, mae'n allweddol bod canllawiau ymarfer clir, diwygiedig ar gael. **Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai pob un o Adrannau'r Llywodraeth gyfrannu at sicrhau bod y canllawiau statudol newydd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Plant a Llesiant arfaethedig yn cynnwys manylion cynhwysfawr i ymarferwyr rheng flaen o ran yr hyn y mae Adran 3 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn ei olygu yn ymarferol, ynghyd â fersiwn o'r canllawiau hyn sy'n addas i blant.**[339]

Rhaid i'r canllawiau nodi'r canlynol:

- Bod plant yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, ac effaith tymor hir profiad o gam-drin domestig.
- Rolau a chyfrifoldebau ac ymateb disgwyliedig pob gwasanaeth statudol, gan gynnwys addysg, a sut y mae'n rhaid iddynt gydweithio i roi llwybrau atgyfeirio a systemau cymorth effeithiol ar waith i blant.
- Fframwaith ieitheg a rennir ar gam-drin domestig, wedi'i gydgynhyrchu â phlant, ac yn cynnwys diffiniadau a thermau sy'n gysylltiedig â phrofiadau plant o gam-drin domestig, er mwyn creu dealltwriaeth genedlaethol fwy cyson ym mhob rhan o'r ymateb amlasiantaethol.
- Disgwyliadau o ran sut i gasglu safbwyntiau, profiadau ac anghenion plant a phobl ifanc mewn ffordd ddiogel ac ystyrlon.

Rhaid i gwmpas y gwaith hwn fod yn llawer manylach na'r cynnwys penodol ar blant a phobl ifanc yn y Ddeddf Cam-drin Domestig a rhaid neilltuo o leiaf bennod iddo yn y Canllawiau Statudol ar gyfer y Bil.

**Fframwaith Ieitheg a Rennir:** Dylai'r fframwaith hwn fod ar ffurf canllawiau sy'n diffinio iaith a rennir i amlinellu termau a diffiniadau allweddol sy'n gysylltiedig â phlant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Rhaid i'r broses ar gyfer creu iaith a rennir a chytuno arni fod yn gydweithredol a rhaid cynnwys plant a phobl ifanc wrth ei datblygu. Bydd y canlyniad yn galluogi trefniadau cyfathrebu cryf, canllawiau clir a phrosesau clir ar gyfer gwneud polisïau, ymarfer rheng flaen effeithiol, ac yn y pen draw, bydd yn arwain at sicrhau'r cymorth mwyaf defnyddiol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig. Dylai hyn gynnwys iaith sy'n disgrifio profiadau plant o gam-drin domestig a'i effaith, cam-drin fel rhan o berthnasoedd rhwng pobl ifanc yn eu harddegau a thrais a cham-drin gan blant a phobl ifanc tuag at eu rhieni (CAPVA), yn ogystal â thermau eraill sy'n gysylltiedig â phrofiadau croestoriadol plant.

Rhaid i'r canllawiau hyn fod yn seiliedig ar y egwyddorion canlynol:

- Y cysyniad o 'fethu ag amddiffyn' a bod rhoi cyfrifoldeb amhriodol ar y rhiant nad yw'n cam-drin i amddiffyn plentyn yn gyfystyr â beio'r dioddefwr.
- Y dylai ymarferwyr ystyried anghenion yr oedolyn sy'n ddioddefwr, a sut mae hynny'n effeithio ar ei allu i amddiffyn y plentyn.
- Nad yw rhieni nad ydynt yn cam-drin yn gyfrifol am ymddygiad y cyflawnwr.
- Ei bod hi'n bwysig grymuso'r rhiant nad yw'n cam-drin i helpu'r plentyn, ond bod angen taro cydbwysedd rhwng hynny a rhoi cyfle i'r plentyn wella yn unigol hefyd os bydd am wneud hynny.
- Bod cynnal cyfrinachedd i blant a phobl ifanc, cyhyd ag y bo hynny'n bosibl o fewn deddfwriaeth ddiogelu, yn bwysig wrth feithrin ymddiriedaeth a sut y gellir gwneud hynny o fewn cyd-destun Adrodd Mandadol.
- Bod siarad â phlant yn uniongyrchol ac ar wahân i'w rhiant yn hanfodol yn ystod pob ymweliad.

- Y dylid atgyfeirio plant mewn ffordd rhywedd-benodol, er mwyn cydnabod eu gwahanol anghenion cymorth. Byddai hyn yn helpu i greu gwasanaethau cymorth wedi'u targedu'n well i blant sy'n dioddef cam-drin domestig ac yn creu ymyriadau â gwell ffocws ar fachgendod yn y sector cyfiawnder ieuenctid/trais ymhlith pobl ifanc.
- Mai'r dull mwyaf diwyd o ymdrin â lles plant a'u diogelu yw i wasanaethau statudol ystyried plentyn sy'n amharod i gael cyswllt â rhiant ar ôl gwahanu o safbwynt sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o gamdriniaeth, er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o ddiogelu mewn perthynas â cham-drin domestig.

**Argymhelliad y Comisiynydd o ran hyfforddiant**

Yn ogystal â'r canllawiau, mae'r adroddiad wedi nodi'r angen allweddol i bob unigolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael hyfforddiant arbenigol.

**Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:**

**Llywodraeth:**

- **Dylai gyllido'r broses o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant cynhwysfawr ac arbenigol i bob gweithiwr proffesiynol rheng flaen a fydd o bosibl yn gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc, gan gynnwys nodi achosion o gam-drin domestig ac ymateb yn ddiogel drwy ddull haenog yn seiliedig ar flociau adeiladu** (er enghraifft, rhaid bod unrhyw un sy'n cael hyfforddiant ar y lefelau uwch fod wedi cwblhau'r lefelau is yn eu trefn yn gyntaf). Rhaid i'r hyfforddiant sicrhau y gall gweithwyr proffesiynol gyflawni'r holl bwyntiau isod fel rhan o'r hyfforddiant a gwblheir ganddynt.

- Dylai'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant gael ei chydgynhyrchu gan y sector cam-drin domestig arbenigol annibynnol a'r sector plant arbenigol annibynnol.

- Lle y bo'n bosibl, dylid rhoi blaenoriaeth i sefydliadau lleol, gwybodaeth leol a chyd-destun lleol wrth gyflwyno'r hyfforddiant.

| Lefel yr Hyfforddiant: | Rhaid i gynnwys yr hyfforddiant ymdrin â'r canlynol: |
|---|---|
| **Cyffredinol** i bob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc | Arfer chwilfrydedd proffesiynol a nodi arwyddion pob math o gam-drin domestig yn hyderus (gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg, cam-drin 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir ac arferion niweidiol) i bob plentyn. |
| | Ymateb yn briodol i blant sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys dangos ymarfer sy'n ystyriol o drawma, dulliau cyfathrebu sy'n briodol o ran oedran, deall rhwystrau i ymgysylltu, a'r ymatebion gorau i blant â hunaniaeth ac anghenion amrywiol, a nodweddion gwarchodedig, gan gydnabod pwysigrwydd croestoriadedd. |
| | Atgyfeirio plant (a'r oedolion cysylltiedig) at y gwasanaethau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau arbenigol lleol a dealltwriaeth o systemau diogelu sefydliadol a statudol a phrotocolau lleol ar gyfer pob lefel o angen, gan gynnwys |

[339]Rhaid i hyn fod yn ychwanegol at ganllawiau presennol (fel Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant a'r canllawiau newydd ar gyfer y diwygiadau Help i Deuluoedd), ystyried lleisiau plant, a chael eu creu drwy ymgynghori ag ymarferwyr rheng flaen, arbenigwyr cam-drin domestig, y sector plant ac academyddion arbenigol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | help cynnar. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn hyderus yn defnyddio llwybrau atgyfeirio lleol a rhyngasiantaeth. | |
| | **Wedi'i deilwra** ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc yng nghyd-destun eu profiadau o gam-drin (gan gynnwys comisiynwyr gwasanaethau cam-drin domestig) | Deall profiadau plant a phobl Ifanc o gam-drin domestig fel trawma cymhleth, gan gynnwys yr heriau y mae plant a'u teuluoedd yn eu hwynebu. | |
| | | Deall effaith cam-drin domestig ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r perthnasoedd ehangach a'r systemau ymdopi y byddant o bosibl yn eu defnyddio yng nghyd-destun croestoriadedd, gan gydnabod natur amrywiol hunaniaethau ac anghenion. | |
| | | Deall pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a threfniadau gweithio amlasiantaethol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad bywyd o gam-drin domestig. | |
| | | Deall y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a mathau eraill o risg a niwed, gan gynnwys trais difrifol. | |
| | | Deall dynameg cam-drin domestig, gan gynnwys cydnabod achosion o 'feio'r dioddefwr' a rhoi cyfrifoldeb a gyflawnwyr sy'n defnyddio ymddygiadau niweidiol. | |
| | | Cymhwystra wrth ddogfennu unrhyw ryngweithio â phlant, gan ystyried y derminoleg briodol. | |
| | | Cydnabod rôl amddiffynnol a chryfderau'r rhiant nad yw'n cam-drin a phwysigrwydd perthnasoedd amddiffynnol. | |
| | | Deall teipolegau cyflawnwyr (gan gynnwys gwahanol fathau o gyflwyniadau). | |
| | | Deall strategaethau effeithiol ar gyfer atal, nodi ac ymyrryd a sicrhau bod plant a'u rhiant/gwarcheidwad nad yw'n cam-drin yn cael cymorth priodol ac amserol. | |
| | **Arbenigol** ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt/gweithwyr proffesiynol sy'n darparu ymyriadau i unigolion sy'n defnyddio ymddygiadau niweidiol | Cymhwystra wrth asesu risgiau ac anghenion a theilwra cymorth i blant sy'n dioddef cam-drin domestig. | |
| | | Cymhwystra wrth gynllunio sesiynau cymorth â ffocws penodol â phlant sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant ac sy'n diwallu eu hanghenion unigol a chroestoriadol. | |
| | | Deall sut i deilwra cymorth i blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. | |
| | | Deall sut i gyflwyno cynnwys cam-drin domestig mewn lleoliad Addysg Rhyw a Chydberthynas ar gyfer amrywiaeth o ystodau oedran. | |
| | | Deall sut i ymgysylltu â chyflawnwyr, gan eu helpu i gymryd rhan mewn rhaglenni newid ymddygiad ond gan eu dwyn i gyfrif ar yr un pryd. | |
| | | gan ac ar ranDeall sut i eirioli ar ran plant, ar lefel unigol ac ar lefel sefydliadol. | |

# RHAN 4 – YR YMATEB MEWN ARGYFWNG A CHYMORTH PARHAUS I BLANT A PHOBL IFANC

**Nodyn i'r darllenydd**

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ymwneud â'r ymateb mewn argyfwng a gwella i achosion o gam-drin domestig gan asiantaethau statudol – sef yr heddlu, llysoedd teulu a gofal cymdeithasol i blant. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio'r term 'ymateb mewn argyfwng' gan ei fod yn derm a ddefnyddir yn eang gan ymarferwyr llinell flaen i ddisgrifio'r ymateb uniongyrchol i gam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu i'r plant a'r bobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig, ond nad ydynt mewn trallod amlwg nac uniongyrchol, bod y gamdriniaeth yn effeithio llai arnynt na'i bod yn llai difrifol.

Ymhellach, er bod gwasanaethau arbenigol, darpariaeth lloches a gwasanaethau 'gan a thros' yn hanfodol i'r ymateb mewn argyfwng, mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y gwasanaethau statudol sydd ar waith i gefnogi plant sy'n ddioddefwyr. Mae'r Comisiynydd yn glir drwy'r adroddiad ynghylch gwerth y gwasanaethau hyn ac mae wedi ceisio cydnabod eu rôl allweddol. Mae Pennod 2 yn bennod benodol ar wasanaethau arbenigol i gefnogi plant sy'n destun cam-drin domestig.

Yn rhan 4, bydd y Comisiynydd yn cwmpasu:

- Pennod 7 – Yr Ymateb mewn Argyfwng
    - Gwasanaethau Arbenigol sy'n Darparu Cymorth mewn Argyfwng
    - Help Ariannol Brys
    - Plismona a Chyfiawnder Cymdeithasol
    - Ymgyrch Encompass
    - Gofal Cymdeithasol i Blant
    - Marac
    - Gwasanaethau Llety

- Pennod 8 – Gwella a Chymorth Parhaus
    - Cymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
    - Cymorth Therapiwtig yn y Gymuned
    - Ymyriadau i'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin
    - Ymyriadau Newid Ymddygiad
    - Y Llys Teulu
    - Cymorth i blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig

## 7.0 PENNOD SAITH – YR YMATEB MEWN ARGYFWNG

Pan fo gwasanaethau cyffredinol neu wasanaethau help cynnar yn methu ymyrryd yn effeithiol neu na allant leihau niwed, gall asiantaethau cyfiawnder troseddol neu ofal cymdeithasol i blant ddod yn ymwybodol o deuluoedd a bod angen ymyriad. Er ei bod yn bwysig cydnabod nad dyna yw'r achos bob amser i lawer o deuluoedd sy'n wynebu argyfwng, bydd y bennod hon yn ystyried y cymorth sydd ar gael drwy'r ymateb statudol.

Yr ymateb mewn argyfwng i gam-drin domestig sy'n dueddol o gael y mwyaf o sylw, cyllid a phrosesau craffu. Eto, hyd yn oed yma, mae gwasanaethau statudol sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cam-drin domestig mewn argyfwng fel mater o drefn yn methu cydnabod plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Nod y Canllawiau Statudol, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant',[340] yw tywys partneriaid diogelu statudol (awdurdodau lleol, yr heddlu ac adrannau iechyd) yn eu cyfrifoldebau i ddiogelu a hybu lles plant. Er hyn, mae diffyg pwyslais ar gam-drin domestig, ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ac effaith cam-drin domestig ar blant yn y canllawiau. Er bod y canllawiau yn cyfeirio at y ffaith bod plant sy'n dyst i gam-drin domestig yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, ni cheir eglurder yn y canllawiau o ran beth yw ystyr hyn yn ymarferol, lle mae'r ddyletswydd gofal a beth yw'r ddyletswydd gofal honno mewn gwirionedd. Nid yw ychwaith yn cynnig unrhyw esboniadau ymarferol ar bartneriaid diogelu, yn benodol ar gyfer cam-drin domestig, ac ni cheir llawer o gyfarwyddyd i ymarferwyr llinell flaen.

O ganlyniad, caiff profiadau ac anghenion plant a'r risgiau a wynebir ganddynt eu colli, gan olygu bod plant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig yn agored i niwed.

### 7.1 Gwasanaethau arbenigol sy'n darparu cymorth mewn argyfwng

O arolygon y Comisiynydd, yr ymyriadau yr adroddwyd arnynt fwyaf aml yn dilyn argyfwng (fel gwasanaethau statudol yn dod yn ymwybodol o riant nad yw'n cam-drin neu drwy geisio help drwy wasanaeth cymorth) oedd:

- gweithwyr cymorth cam-drin domestig i blant a phobl ifanc (31%)
- eiriolaeth a chymorth i blant a phobl ifanc (25%)
- cynghorwyr annibynnol ar drais domestig i blant a phobl ifanc (19%)

Ymysg y gwasanaethau cymorth eraill yr adroddwyd arnynt yn llai aml roedd gweithwyr allgymorth i blant a phobl ifanc, gweithwyr cymorth teulu, cymorth galw heibio i blant a phobl ifanc, gwaith adsefydlu i blant a phobl ifanc a chymorth ymateb cyntaf mewn argyfwng i blant a phobl ifanc.

Y costau canolrifol yr adroddwyd arnynt gan wasanaethau a ymatebodd i'n harolwg bob blwyddyn oedd £60,000 ar gyfer gweithwyr cymorth cam-drin domestig i blant a phobl ifanc, £56,000 ar gyfer eiriolaeth a chymorth i blant a phobl ifanc, £70,000 ar gyfer cynghorwyr annibynnol ar drais domestig i blant a phobl ifanc a £83,000 ar gyfer gweithwyr cymorth teulu. Mae gwahaniaethau mawr yn y symiau cyllid yr adroddwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a gweithwyr cymorth teulu yn awgrymu mai dim ond un neu ddau weithiwr oedd gan rai darparwyr gwasanaethau ar y mwyaf ond bod gan eraill dimau mwy o lawer.[341] Caiff y gwahaniaethau hyn o ran graddau'r ddarpariaeth eu hadlewyrchu hefyd yn y nifer canolrifol o blant a welwyd gan wasanaethau cymorth teulu yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Er i rai gwasanaethau nodi eu bod yn helpu mwy na mil o blant bob blwyddyn, y cyfartaledd canolrifol oedd 134 o blant yn cael eu gweld gan weithwyr cymorth teulu, 121 o blant yn cael eu gweld gan

[340] Yr Adran Addysg (2023c).
[341] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025b).

gynghorwyr annibynnol ar drais domestig i blant a phobl ifanc, 115 o blant yn cael eu gweld gan wasanaethau eiriolaeth a 67 o blant yn cael eu gweld gan weithwyr cymorth cam-drin domestig.[342]

Er bod gan rai plant mewn amgylchiadau penodol hawl statudol i gael cymorth eiriolaeth annibynnol, nid oes gan y mwyafrif o blant sy'n ddioddefwyr troseddau difrifol, gan gynnwys cam-drin domestig, yr hawl hon ac mae dirfawr angen cymorth eiriolaeth arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.[343]

### 7.2 Help ariannol brys

Mae grantiau brys a roddir i deuluoedd mewn argyfwng yn rhoi cipolwg ar anghenion plant sy'n ddioddefwyr ar y cam ymyrryd hwn. Mae dwy ran o dair o'r holl grantiau a roddir gan elusen Battle UK yn rhai i deuluoedd lle'r oedd cam-drin domestig yn ffactor allweddol yn yr argyfwng a wynebwyd ganddynt.[344] Ymysg y senarios nodweddiadol roedd:

- Teuluoedd mewn lloches neu deuluoedd sy'n mynd i gartref newydd, sydd wedi ffoi o gamdriniaeth heb fawr ddim eiddo os o gwbl
- Plant sy'n aros am le mewn ysgol neu sydd wedi dechrau mewn ysgol newydd, yn aml mewn ardal newydd
- Cyflawnwyr yn dal cyfrifon banc a budd-daliadau, gan gynnwys taliadau budd-dal plant, a'r rhiant nad yw'n cam-drin yn cario dyled, a achosir gan gamdriniaeth economaidd

Mae angen grantiau i alluogi plant i ddechrau eto ar ôl i bopeth gael ei gymryd oddi wrthynt drwy'r gamdriniaeth. Mae'r taliadau ar gyfer anghenion sylfaenol (fel dodrefn, dillad gwely, teclynnau'r cartref, esgidiau a dillad, carpedi a lloriau), anghenion seicolegol ac addysgol (fel teganau, llyfrau a gemau, cyfarpar TG, costau teithio, teithiau ysgol, therapi) a hunangyflawni (fel gweithgareddau ar ôl ysgol, gweithgareddau hamdden).

**Plismona a Chyfiawnder Cymdeithasol**

tell nicole

*"Dylai'r heddlu gymryd mwy o sylw o bobl ifanc pan fydd digwyddiad a cheisio eu safbwyntiau – gofyn iddyn nhw beth ddigwyddodd."*

Plant 11–16 oed

*"Pan fydd yr heddlu yn ymateb i alwad cam-drin domestig...yn aml caiff plant eu gwthio i un ochr ac ni chânt eu hystyried fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Ni siaredir â nhw gyda'r un lefel o bryder ag oedolion er gwaethaf deddfwriaeth cam-drin domestig newydd sy'n ystyried bod plant yn ddioddefwyr hefyd."*

Grŵp ysgol uwchradd

*"Hoffwn i'r heddlu ddod i siarad â fi ar fy mhen fy hun heb fy rhieni yno."*

Plentyn yn cael cymorth un i un

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn chwarae rôl hanfodol yn yr ymateb i gam-drin domestig ac mae wedi newid yn sylweddol ers i'r ddeddfwriaeth gyntaf ar fynd i'r afael â cham-drin domestig gael

[342] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025b).
[343] Comisiynydd Plant Lloegr (2024a).
[344] Buttle UK (2024). Data heb eu cyhoeddi a rennir â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

ei phasio yn 1976.[345] Er hyn, mae llawer y mae angen ei wella ac mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod problemau sylweddol gyda phlismona fel y nodir yn adroddiad cyfiawnder troseddol y Comisiynydd *Troi'r Fantol: Trawsnewid yr ymateb cyfiawnder troseddol i gam-drin domestig*.[346] Mae'n gwbl hanfodol bod yr ymateb yn cael ei wella i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn ofni cysylltu â'r heddlu, ac i sicrhau, pan fydd hynny'n digwydd, y gofelir am fuddiannau pennaf y plentyn a'i adferiad. Hefyd, rhaid cael cydnabyddiaeth ac ymateb gwell i risgiau ac anghenion plant sy'n ddioddefwyr, ynghyd ag oedolion sy'n ddioddefwyr. Trafododd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron y ffaith nad yw llawer o blant a phobl ifanc yn ymddiried yn yr heddlu, sy'n atal datgelu. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau o *Tell Nicole* ac arolygon pobl ifanc a gynhelir gan y sector cam-drin domestig.

Gwelir mwy o'r diffyg ymddiriedaeth hwn ymysg pobl ifanc du a lleiafrifedig oherwydd profiadau o gamymddwyn hiliol gan yr heddlu, fel y nodir mewn adroddiadau fel adroddiad y Fonesig Louise Casey, a nododd fod yr heddlu Metropolitanaidd yn hiliol yn sefydliadol.[347] Nododd ymarferwyr yn y cyfarfod bord gron dan arweiniad pobl ddu a lleiafrifedig fod rhagfarn gan rai swyddogion yr heddlu yn effeithio ar benderfyniadau a wneir ynghylch plant sy'n ddioddefwyr. Mae profiad blaenorol o wahaniaethu yn golygu bod llawer o rieni yn ofni y gall cynnwys yr heddlu olygu y byddant yn cael eu troseddoli eu hunain a bod eu plant yn cael eu cymryd oddi wrthynt. Mae hyn yn golygu bod datgelu cam-drin domestig, neu risgiau cam-drin ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir yn benderfyniad anos o lawer. Myfyriodd yr ymarferwyr ar y ffaith nad yw'r heddlu yn deall cwmpas Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ac, felly, nid ydynt yn deall risg yn ddigonol wrth ddatblygu cynlluniau diogelu.

Yn debyg i oedolion sy'n ddioddefwyr, ofn arall sy'n wynebu plant wrth gysylltu â'r heddlu yw y gallai gwneud hynny olygu y gallai'r cyflawnwr fod mewn trafferth. Yn aml, bydd gan blant sy'n ddioddefwyr deimladau cymhleth tuag at gyflawnwr cam-drin domestig, sydd hefyd yn aelod o'r teulu fel arfer. Ymhellach, rhaid i'r heddlu feddu ar y sensitifrwydd a'r setiau sgiliau i ddeall yr hyn a all fod yn safbwyntiau gwahanol rhwng oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr, rhwng brodyr a chwiorydd a'r cyflawnwr. Felly, rhaid i'r heddlu cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod yr holl achosion o gyfathrebu ac ymdrin â phlant yn cyfrannu at y broses o greu gofod dibynadwy a diogel sy'n rhoi sicrwydd i'r plant mai datgelu yw'r cam gweithredu gorau ac y cânt hwy a gweddill eu teulu eu diogelu rhag unrhyw niwed pellach.[348]

Yn amlwg, rhaid gwneud llawer o waith gan yr heddluoedd ac arweinwyr plismona cenedlaethol i atgyfnerthu ymddiriedaeth plant a phobl ifanc yn yr heddlu a'u hyder i roi gwybod am gam-drin domestig. Mae'r Comisiynydd wedi gwneud cyfres lawn o argymhellion yn ei hadroddiad cyfiawnder troseddol[349] a fyddent, o gael eu rhoi ar waith yn gyfannol, yn gwneud cynnydd sylweddol yn y broses o adeiladu hyder yn yr heddlu ymysg plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr a'r rhai sy'n goroesi cam-drin domestig.

### 7.3.1 Ymateb cychwynnol

Mae adborth i'r Comisiynydd gan ymarferwyr mewn asiantaethau statudol ac arbenigol yn tynnu sylw at y ffaith nad yw ymateb plismona i blant yn aml yn dangos dealltwriaeth o niwed ac effaith cam-drin domestig, yn benodol ynghylch ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol a cham-drin ar ôl gwahanu. Mae hyn yn dal i gynnwys methiant i roi ystyriaeth gyson i blant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Er enghraifft, mae adroddiadau MERLIN yr heddlu[350] yn aml yn nodi oherwydd

---

[345] *Deddf Trais Domestig ac Achosion Priodasol 1976 (diddymwyd 1.10.1997).*
[346] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025a).
[347] Casey, L. (2023).
[348] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[349] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025a).
[350] Cronfa ddata a gaiff ei rhedeg gan yr Heddlu Metropolitanaidd yw **Merlin** (**M**issing p**ER**sons **L**inked **IN**dicies) sy'n sgorio gwybodaeth am blant y mae'r heddlu yn ymwybodol ohonynt am unrhyw reswm. Mewn achosion lle rhoddir gwybod am gam-drin domestig, caiff adroddiad MERLIN ei greu ar gyfer pob plentyn sy'n gysylltiedig â'r cartref (p'un a oedd yn bresennol yn y digwyddiad ai peidio). Defnyddir hyn ar gyfer atgyfeirio at dimau diogelu'r awdurdod lleol.

“children were not present for the incident, or not in the same room, they were not harmed.” Mae'r dull hwn yn achosi problemau enfawr am ei fod yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau a risgiau unigol ar wahân, yn hytrach na dealltwriaeth gyfannol o brofiad uniongyrchol dyddiol plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig a'r effaith barhaus. Yn yr un modd, nid yw'n adlewyrchu'r diffiniad o blant fel dioddefwyr fel y nodir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig.

Nododd gweithwyr cymdeithasol a oedd yn rhan o'r cyfarfodydd bord gron fod swyddogion yr heddlu yn tueddu i chwilio am arwyddion o esgeulustod mewn plant, gan ddeall bod hyn yn fwy tebygol o gyrraedd trothwyon ar gyfer ymyriad gofal cymdeithasol. Roeddent hefyd o'r farn bod heddlu sy'n mynd i alwadau cam-drin domestig yn aml yn amharod i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a'u bod yn tueddu i ganolbwyntio ar ymddygiad y plentyn, yn hytrach na chasglu cudd-wybodaeth a siarad â'r plentyn yn uniongyrchol – yn enwedig os dywedir bod y plant yn cysgu. Canfu'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant hefyd fod y rhan fwyaf o blant sy'n destun cam-drin domestig wedi cael eu gweld gan yr heddlu ond nad oeddent wedi siarad yn uniongyrchol â nhw oherwydd y nodwyd eu bod yn “seemed well”, y mae'r Panel yn cymryd sy'n golygu nad oeddent wedi cyffroi ac nad oeddent mewn unrhyw drallod amlwg.[351] Gall credu'n anghywir y gall plant fod yn rhy ifanc i roi barn, a diystyru effaith bosibl cam-drin domestig ar blant olygu nad yw safbwyntiau ac anghenion plant yn cael eu cynnwys yn asesiadau cychwynnol yr heddlu. O ganlyniad, mae gwybodaeth hanfodol ar goll o'r wybodaeth a rennir mewn atgyfeiriadau at ofal cymdeithasol a Marac.

Nid yw'n syndod bod ymarfer anghyson ledled y wlad a dealltwriaeth wael o effaith cam-drin domestig ar blant sy'n ddioddefwyr, o ystyried y canllawiau ymarfer sydd ar gael i swyddogion ar hyn o bryd. Yr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig (APP) a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona yw'r ffynhonnell swyddogol o arferion proffesiynol ar gyfer plismona. Dylai'r canllawiau alluogi ymateb plismona cyson i blant ac oedolion sy'n ddioddefwyr a goroeswyr, os bydd heddluoedd lleol yn eu dilyn yn gyson. Diweddarodd y Coleg Plismona ei gynnwys yn ystod haf 2024 i gael adran benodol ar ymateb i blant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig yn yr adran ‘Risk and Vulnerability’ yn y canllawiau. Er bod y diweddariad yn gam cadarnhaol, mae amwyster o hyd o ran p'un a yw plant yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Er bod y canllawiau yn cydnabod y newid mewn deddfwriaeth, ni chyfeirir at blant fel dioddefwyr yn y canllawiau ac mae anghysondeb mawr yn yr iaith. Mae hefyd yn cynnwys gwahaniaethu mewn modd niweidiol ac anfuddiol rhwng plant fel tystion, a phlant fel dioddefwyr uniongyrchol, sy'n tanseilio profiadau plant nad yw'n amlwg eu bod yn destun ymosodiad corfforol ac sy'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth.

Ymhellach, dylai'r newid deddfwriaethol i gydnabod plant fel dioddefwyr fod yn llwybr i gefnogi, i ddiogelu atgyfeiriadau ac i reoli troseddwyr. Eto, ni cheir unrhyw gyfeiriad yn y canllawiau APP at bwysigrwydd llwybrau atgyfeirio at gymorth arbenigol i blant sy'n destun cam-drin domestig. Yn hytrach, mae'r canllawiau yn cynghori swyddogion i atgyfeirio plant sy'n ddioddefwyr at asiantaethau eraill, fel gofal cymdeithasol i blant, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau diogelu. Mae hyn hefyd yn fethiant i gyflawni hawliau plant o dan y Cod Dioddefwyr, sef ‘i gael mynediad at wasanaethau sy’n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chymorth wedi’u teilwra i’ch anghenion’ (Hawl 4).[352] Yn fwy cadarnhaol, diwygiodd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddwyr ei chanllawiau comisiynu yn 2024[353] gan gyfeirio at anghenion penodol plant sy'n ddioddefwyr.

Yn absenoldeb canllawiau cenedlaethol cadarn, mae heddluoedd unigol wedi cysylltu â'r Comisiynydd yn ceisio eglurhad ar b'un a ddylid nodi bod plant sy'n ddioddefwyr yn ddioddefwyr neu'n dystion, gyda rhai yn esbonio nad yw eu systemau cofnodi wedi cael eu diweddaru i gydnabod plant fel dioddefwyr. Mae hyn yn tanseilio prosesau casglu data cenedlaethol yn sylweddol, dealllusrwydd o gyffredinrwydd o fewn troseddau a gofnodir gan yr heddlu a chydnabod plant fel dioddefwyr. Felly, argymhellodd y Comisiynydd yn ei hadroddiad cyfiawnder troseddol diweddar fod yn rhaid casglu a chofnodi data yn gywir, yn ôl ardal heddlu, ar nifer y dioddefwyr a

[351] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[352] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023).
[353] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024).

goroeswyr cam-drin domestig a gysylltodd â'r heddlu, yn ôl demograffig, gan gynnwys plant.[354] Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylid diwygio'r canllawiau APP i egluro ystyr plant fel dioddefwyr, ac y dylid rhoi hyfforddiant ar bob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol er mwyn deall cam-drin domestig – gan gynnwys yr effaith ar blant.

### 7.3.2 Ymchwiliad Ehangach

> *"Cefais gyfweliad ond chlywais i ddim yn ôl."*
>
> Person ifanc yn siarad am ei brofiad gyda'r heddlu

Nid dim ond yr ymateb plismona cychwynnol i blant sydd angen ei wella, ond hefyd yn ystod ymchwiliad hirdymor. Canfu'r Comisiynydd Plant, ar ôl y datgeliad a'r adroddiad cychwynnol, y gall plant sy'n ddioddefwyr troseddau deimlo nad oes ganddynt bŵer na rheolaeth. Mae hyn yn arbennig o acíwt pan gaiff diweddariadau eu rhannu â rhieni yn ddiofyn ac nad ymgynghorir â'r plant eu hunain ac na roddir diweddariadau iddynt[355] Nododd plant anfodlonrwydd eu bod yn gorfod aros yn hir i gael diweddariadau yn yr achos, ac mai gwybodaeth gyfyngedig a gafwyd ynghylch y rhesymau dros yr oedi hwnnw.[356] Yn anffodus, mae achosion o oedi hir yn symptom o argyfwng yn y system cyfiawnder troseddol, na ellir ei leddfu heb fuddsoddi adnoddau a chyllid sylweddol ym mhob rhan o'r system. Er hyn, gellid gwella profiadau plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn sylweddol drwy gyflwyno eu Hawliau o ran y Cod Dioddefwyr yn effeithiol fel mater o drefn a thrwy roi mesurau arbennig ar waith, fel y nodir yng nghanllawiau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau.[357]

O dan y Cod Dioddefwyr, mae gan ddioddefwyr troseddau hawliau penodol, y dylai'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ehangach eu cyflwyno. Mae gan blant dan 18 oed sy'n ddioddefwyr troseddau 'hawliau ychwanegol' yn awtomatig, gan gydnabod eu bod y agored i niwed oherwydd eu hoedran. Mae'r hawliau ychwanegol hyn yn cynnwys darpariaethau i greu'r amodau i blant allu rhoi eu tystiolaeth orau, fel cyfweliadau a gaiff eu recordio ar fideo er mwyn osgoi ailadrodd tystiolaeth, cynnal asesiad o anghenion cyn cyfweliadau a chael cyfryngwr cofrestredig yn bresennol yn y cyfweliad. Fodd bynnag, ni chaiff yr hawliau ychwanegol hyn eu cyflawni'n gyson ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.[358] Ymhellach, pan fydd heddluoedd yn parhau i nodi mai tystion i gam-drin domestig yw plant yn hytrach na dioddefwyr, caiff eu mynediad i hawliau'r Cod Dioddefwyr ei atal. Mae ymchwil gan y Comisiynydd Plant wedi datgelu graddau ofnadwy y methiant hwn:

- Ar draws 12 o ardaloedd heddluoedd, cafodd cyfanswm o 122,818 o achosion o droseddau eu cofnodi a oedd yn cynnwys dioddefwr trais difrifol, trais rhywiol neu gam-drin domestig a oedd yn blentyn. Fodd bynnag, dim ond 1,491 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig i fod yn bresennol yn y cyfweliad a wnaed, sy'n cyfateb i ddim ond 1.2% o'r plant sy'n ddioddefwyr.[359]

- Dim ond 8% oedd y cyfraddau atgyfeirio cyfartalog, ar draws y pedwar heddlu a ddarparodd ddata, ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig at gymorth eiriolaeth arbenigol, yn amrywio o 1% mewn un ardal heddlu i 15% mewn un arall. Roedd hyn yn cyfateb i 109,000 o ddigwyddiadau yn cynnwys plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig na wnaethant arwain at unrhyw atgyfeiriad a gofnodwyd at gymorth eiriolaeth arbenigol.[360]

---

[354] Gweler Argymhelliad 1, y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025a).
[355] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[356] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[357] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022).
[358] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[359] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[360] Y Comisiynydd Plant (2024b).

- Dim ond pedair ardal heddlu a wnaeth adrodd ar nifer yr atgyfeiriadau a wnaed ganddynt at wasanaethau iechyd meddwl i blant. Nododd yr heddluoedd hyn gyfanswm o 36,596 o achosion o droseddau yn cynnwys plentyn sy'n ddioddefwr trais difrifol, trais rhywiol neu gam-drin domestig – ond dim ond 216 (0.6%) o atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl plant a nodwyd.[361]

- Nid yw'r rhan fwyaf o heddluoedd (80%) yn casglu data canolog ar b'un a gynhaliwyd asesiad risg cyn cyfweld â phlant sy'n ddioddefwyr troseddau (yn unol â'r gofyniad yn y Cod Dioddefwyr). Yn y ddwy ardal heddlu a allai ddarparu'r data hyn, dim ond 11% o blant sy'n ddioddefwyr a gafodd asesiad o anghenion.[362]

- Dim ond 19% o heddluoedd a allai ymateb a allai gadarnhau eu bod yn cofnodi a yw plentyn sy'n ddioddefwr wedi cael cyfweliad wedi'i recordio ar fideo. Dim ond tri heddlu a allai roi nifer y plant sy'n ddioddefwyr a gyfwelwyd ym mlwyddyn ariannol 2022/23.[363] Dim ond cyfrannau bach iawn o staff plismona a hyfforddwyd i gyfweld â phlant sy'n ddioddefwyr ar fideo yn yr un flwyddyn.

Mae'r ffigurau yn dangos nad yw plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn cael y darpariaethau angenrheidiol y mae ganddynt hawl iddynt, gan effeithio'n sylweddol ar eu profiad o system sydd eisoes yn codi ofn, a'u gallu i roi tystiolaeth o ansawdd. Mae llawer o blant o'r farn bod cael cyfweliad mewn gorsaf heddlu yn “ail-godi'r trawma”, yn “ddryslyd” ac “yn anaddas i blant”. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod y broses mor gefnogol a syml â phosibl. Er bod hyn wedi'i nodi'n glir yn y canllawiau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, a'i fod yn ofyniad yn y Cod Dioddefwyr, nid yw'n digwydd yn ymarferol.

### 7.3.3 Argymhellion

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer paratoi cyn cyfweliad ac i asesu anghenion pob plentyn a thyst sy'n agored i niwed, gan ddarparu hyfforddiant, monitro a sicrhau ansawdd yn rheolaidd i sicrhau y gellir cefnogi plant i gael llais yn eu hachosion eu hunain.**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu Cod Dioddefwyr penodol ar gyfer plant a chanllawiau statudol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n allweddol i gefnogi mynediad plant i'w hawliau o dan y Cod Dioddefwyr ac arferion gorau wrth Sicrhau'r Dystiolaeth Orau.**

- **Dylai'r Coleg Plismona ddiwygio ei Ganllawiau APP i sicrhau cysondeb ac eglurder o ran beth yw ystyr plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, a rolau a chyfrifoldebau swyddogion yr heddlu a heddluoedd.**

Fel yr argymhellir yn *Troi'r Fantol*, rhaid trawsnewid y broses o gasglu data ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol a chynnwys proses gywir o gofnodi plant fel dioddefwyr, yn hytrach na thystion cam-drin domestig.

Er mwyn ategu'r argymhellion hyn, ar lefel leol, mae'r Comisiynydd yn glir y dylai heddluoedd sicrhau bod Swyddogion yn chwilfrydig yn broffesiynol ac yn hyderus i nodi ac ymateb i bryderon diogelu er mwyn amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys unrhyw oedolion neu blant cysylltiedig, a dylid eu hyfforddi'n ddigonol.

---

[361] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[362] Y Comisiynydd Plant (2024b).
[363] Y Comisiynydd Plant (2024b).

Hefyd, dylai'r heddlu asesu pob plentyn sy'n ddioddefwr cam-drin domestig a'i atgyfeirio o ganlyniad i hynny at y math mwyaf priodol o gymorth arbenigol, ynghyd ag atgyfeiriadau diogelu priodol, fel sy'n ofynnol. Dylai'r asesiad hwn gynnwys sut mae plant am gael diweddariadau am eu hachos. Mae'r Comisiynydd yn annog y Llywodraeth i edrych ar ddatblygiadau yn yr Alban, lle caiff plant sy'n destun cam-drin domestig eu cyfweld, caiff eiriolwr ei neilltuo iddynt a chânt eu cefnogi drwy'r broses gyfreithiol drwy Fodel Bairns Hoose.[364]

Mae gweithgarwch cyfiawnder troseddol mewn ymateb i gam-drin domestig yn ehangach o lawer na'r ymateb cychwynnol a chamau ymchwilio, ac mae gan asiantaethau gyfrifoldebau statudol i reoli'r risg a achosir gan gyflawnwyr. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, o'r llysoedd i garchardai a gwasanaethau prawf a sefydliadau ehangach sy'n gweithio mewn cymunedau i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif ac i liniaru'r risg y mae cyflawnwyr yn ei hachosi i ddioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys plant. Mae'r Comisiynydd yn glir bod gan bob asiantaeth cyfiawnder troseddol a sefydliadau ehangach sy'n gweithio i liniaru'r risg a achosir gan gyflawnwyr yn y gymuned, rôl i'w chwarae mewn ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'r Comisiynydd yn annog yr holl asiantaethau hyn i ganoli anghenion plant a phobl ifanc, y risgiau a wynebir ganddynt ac effaith cam-drin domestig arnynt wrth wneud penderfyniadau mewn asesiadau, gwaith cynllunio diogelwch a rheoli risg.

### Ymgyrch Encompass

Partneriaeth gwybodaeth gynnar yw Ymgyrch Encompass lle mae heddluoedd yn hysbysu ysgol plentyn pan ddaw'n amlwg ei fod yn blentyn sy'n ddioddefwr cam-drin domestig, proses a wnaed yn statudol yn Neddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024.[365] Gallai hyn fod yn dilyn galwad gan yr heddlu, neu yn dilyn atgyfeiriad at yr heddlu o wasanaeth arall. Rhwng mis Chwefror 2023 a mis Ebrill 2024, cafwyd 2,000 o hysbysiadau y diwrnod yng Nghymru a Lloegr ar gyfartaledd. Hyd yma, mae mwy na 28,000 o bobl wedi defnyddio hyfforddiant ar-lein am ddim Ymgyrch Encompass ar gyfer oedolion allweddol.[366]

Fodd bynnag, yn anffodus, ni roddodd y Ddeddf unrhyw ddyletswydd ar leoliadau addysg i weithredu ar yr hysbysiad, y tu hwnt i gyfrifoldebau diogelu presennol. Mae'n hanfodol bod ymateb effeithiol yn digwydd cyn gynted â phosibl a bod camau perthnasol yn dilyn unrhyw hysbysiad, fel dogfennu ac asesu llesiant y plentyn, asesu unrhyw risgiau a rhoi cymorth emosiynol i'r plentyn. Rhaid i'r ymateb hwn gael ei arwain gan staff hyfforddedig sy'n deall mân wahaniaethau cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a theimlo'n hyderus i siarad â rhieni a gofalwyr yn ddiogel.

Yr adborth a gafwyd o gyfarfodydd bord gron y Comisiynydd oedd, er bod hysbysiadau Ymgyrch Encompass yn ddefnyddiol, maent yn anghyson, nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth allweddol, neu maent yn cael eu hanfon yn hwyr. Nododd Arweinwyr Diogelu Dynodedig fod gofynion croes yn cyfyngu ar eu gallu i ymateb i hysbysiadau yn gyflym, ac nad yw'r heddlu bob amser yn gwybod ble i anfon hysbysiadau. O ganlyniad, mae anghysondeb yn ansawdd yr hysbysiadau a pha mor aml y maent yn cyrraedd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig perthnasol.

Mae tystiolaeth o'r Alban yn dangos, heb arweiniad clir na fframwaith strwythurol i'w ddilyn, bod sawl aelod o staff ysgolion yn mabwysiadu dull 'briff gwylio' neu 'aros i weld' yn hytrach na rhoi mesurau cefnogol ar waith yn dilyn hysbysiad Ymgyrch Encompass.[367]

Yn anffodus, nid yw hyn yn syndod. Mae canllawiau ar broses Ymgyrch Encompass yn nodi:

---

[364] Bairns' Hoose. (n.d.).
[365]*Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024.*
[366] Carney, E. et al (2023).
[367] Ash, D.P. et al (2024).

“Operation Encompass does not replace statutory safeguarding procedures. Where appropriate, the police and/or schools should make a referral to local authority children’s social care if they are concerned about a child’s welfare.”[368]

Mae hwn yn ymateb annigonol yn dilyn hysbysiad. Dylid ystyried plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig drwy lens diogelu bob amser, a dylai amlygiad i gam-drin domestig godi pryderon bob amser am ddiogelwch a llesiant plentyn. Mae methiant i wneud hynny yn peri risg y gallai profiadau plant o gam-drin domestig gael eu tanseilio.

Nododd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron mai dim ond mewn ardaloedd lle ceir ymateb cydlynol cryf at gam-drin domestig, ymgysylltiad amlasiantaethol a gallu i roi cymorth yn dilyn hysbysiad y mae Ymgyrch Encompass yn effeithiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r heddlu, ysgolion a gofal cymdeithasol gydweithio i gytuno ar lwybrau atgyfeirio priodol at gymorth arbenigol, yn ogystal â chymorth a roddir o fewn amgylchedd yr ysgol. Mae'n peri pryder y cafwyd oedi cyn cyhoeddi gwerthusiad y Swyddfa Gartref o Ymgyrch Encompass; dylid rhoi blaenoriaeth i hyn, ac ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd mewn gwaith yn y dyfodol.

Un o bryderon eraill y Comisiynydd yw nad yw'r sail statudol i Ymgyrch Encompass yn ymestyn i leoliadau'r blynyddoedd cynnar – er i hyn gael ei dreialu mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae darpariaeth i hyn gael ei ddiwygio i fod yn gymwys i ddarparwyr gofal plant, ar ddisgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol.[369] Roedd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron o'r farn y dylai Ymgyrch Encompass fod ar gael a'i fandadu y tu hwnt i blant oedran ysgol, gan gydnabod cyffredinrwydd cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd ac yn union ar ôl hynny.

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi dyletswydd ar leoliadau addysgol i weithredu ar hysbysiadau Ymgyrch Encompass ac i roi cymorth ar waith ar gyfer y plentyn sy'n addas i'w anghenion ac sy'n ystyried ei safbwyntiau. Dylai'r cymorth hwn gynnwys atgyfeiriad at wasanaeth cam-drin domestig arbenigol, cymorth ychwanegol mewn ysgol a dylai gael ei gefnogi gan ganllawiau.**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ehangu'r ddyletswydd statudol ar gyfer Ymgyrch Encompass i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar.**

### 7.4 Gofal Cymdeithasol i Blant

Rôl gofal cymdeithasol i blant yw rhoi cymorth ac arweiniad ychwanegol i deuluoedd, gydag ymyriadau pellach pan fydd angen er mwyn sicrhau budd gorau'r plentyn a'i alluogi i fyw bywyd diogel, bodlon a hapus. Ond mae gofal cymdeithasol i blant wedi bod yn wynebu argyfwng ei hun ers gormod o amser. Yn 2022, rhoddodd adolygiad annibynnol i ofal cymdeithasol i blant sylw llym ac anghyfforddus ar system a oedd dan straen eithriadol, yn cyflawni canlyniadau annerbyniol o wael i'r plant y dylai fod yn eu cefnogi.[370] Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau, y gwendidau a'r rhwystredigaethau parhaus a godwyd gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn y system ac ochr yn ochr â hi.

Bydd yr adran hon yn archwilio'r amrywiaeth eang o faterion sy'n cyfrannu at yr argyfwng hwn, yr effaith ar blant sy'n destun cam-drin domestig a datrysiadau i fynd i'r afael â nhw.

[368] Yr Adran Addysg (2024e).
[369] Diwygiwyd Deddf Cam-drin Domestig 2021 gan Adran 20 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, gan gyflwyno Adran 49B ‘Power to extend section 49A to childcare providers’.
[370] MacAlister, J. (2022).

### 7.4.1 Deddfwriaeth

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n cynnwys dyletswyddau statudol awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles plant i'w gweld yn Neddf Plant 1989[371] a Deddf Plant 2004.[372] Ceir nifer o ddyletswyddau, yn benodol:

*Deddf Plant 1989*

- Mae Adran 17 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau er mwyn diogelu a hybu lles plant yr ystyrir eu bod mewn angen
- Mae Adran 31(2) yn nodi'r ddyletswydd i wneud gorchmynion gofal neu oruchwylio os bydd y Llys yn fodlon bod Adran 43, isod, wedi'i sefydlu
- Mae Adran 43(1)(b) yn nodi y gellir gwneud gorchmynion adran 31(2) yn dilyn pryder ac asesiad sy'n sefydlu bod y plentyn yn dioddef, neu ei fod yn debygol o ddioddef niwed sylweddol

*Deddf Plant 2004*

- Mae Adran 11 yn gosod dyletswydd ar amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff iechyd a chyrff plismona lleol, i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.[373]

*Deddf Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2017*[374]

Mae'r Ddeddf yn sefydlu dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, yn ogystal â rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol. Nod y Ddeddf oedd gwella trefniadau gweithio cydgysylltiedig ar lefel leol i ddiogelu plant fel ffordd o wella ymarfer cenedlaethol. Fel rhan o'r Ddeddf, gwnaed Addysg Rhyw a Chydberthynas yn orfodol.[375]

*Niwed sylweddol: ystyr sy'n datblygu*

Caiff niwed sylweddol ei ddiffinio fel camdriniaeth neu amhariad ar iechyd neu ddatblygiad, a gafodd ei ehangu yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i gynnwys yn benodol amhariad yn deillio o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.[376] Cafodd hyn ei gynnwys yn uniongyrchol yn Neddf Plant 1989 yn adran 31(9)[377] a dylai bellach gael ei hysbysu gan Adran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, sy'n nodi bod plentyn sy'n gweld neu'n clywed neu'n profi effeithiau'r gamdriniaeth yn ddioddefwr yn ei rinwedd ei hun.[378]

Er bod Deddf Cam-drin Domestig 2021 wedi cymryd y cam nodedig o gydnabod plant a phobl ifanc fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, nid yw'r Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi gweld hyn yn arwain at newidiadau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol eto. Er bod sawl awdurdod wedi creu system o gymorth cadarn, arbenigol i blant sy'n destun cam-drin domestig, mae sawl ardal yn methu cyrraedd y nod o bell ffordd. Yn drasig, gellir gweld hyn mewn

---

[371] *Deddf Plant 1989*
[372] *Deddf Plant 2004*
[373] Mae Adran 11 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol drwy Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010. Mae Adran 11 o Ddeddf Plant 2004 hefyd yn sefydlu dyletswydd gofal ar y GIG drwy Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.
[374]Mae'r Ddeddf hon yn adeiladu ar adran 22 o Ddeddf Plant 1989.
[375] Ceir rhagor am Addysg Rhyw a Chydberthynas ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn.
[376]*Deddf Plant a Mabwysiadu 2002* (OS 2004/3203)
[377]*Deddf Plant 1989,* A31(9)
[378]*Deddf Cam-drin Domestig 2021,* A3.

sawl Adolygiad o Achosion Difrifol yn cynnwys plant a cham-drin domestig, lle mae'r thema gyson oedd nad oedd ymarferwyr wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r risg i'r plentyn.

### 7.4.2. Cyffredinrwydd, Adnabod ac Asesiadau Risg

*Data ac adnabod*

Mae cam-drin domestig yn nodwedd graidd o fusnes gwaith cymdeithasol i blant o ddydd i ddydd. Mae'r Comisiynydd wedi clywed dro ar ôl tro gan weithwyr cymdeithasol fod cam-drin domestig yn ffactor mewn mwy na hanner eu llwyth achosion. Mae cam-drin domestig yn bresennol mewn 55% o'r achosion sy'n destun Adolygiad Ymarfer Diogelu Plant, a gynhelir pan wyddys neu amheuir bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, a bod y plentyn wedi marw neu wedi cael niwed difrifol.[379] Hefyd, dyma'r ffactor risg mwyaf cyffredin ar lefel teuluoedd a nodir yn yr Hysbysiadau Digwyddiadau Difrifol mewn perthynas â marwolaeth plentyn.[380]

Ond ar hyn o bryd, mae'n amhosibl deall yn gywir ar raddfa genedlaethol faint o deuluoedd sydd mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol i blant sydd â cham-drin domestig fel eu prif angen ymgyflwyno. Yn yr asesiad cychwynnol, bydd gweithwyr cymdeithasol yn nodi prif angen plentyn drwy ddewis un o'r categorïau canlynol: camdriniaeth neu esgeulustod, camweithrediad teuluol, teulu dan straen acíwt.[381] Yn hanfodol, nid yw 'cam-drin domestig' yn gategori penodol. Caiff data eu casglu ar ddiwedd yr asesiad ar 'ffactorau' pellach eraill a all gyfrannu at y ffaith bod angen gofal cymdeithasol i blant ar blentyn. Caiff cam-drin domestig ei nodi ar ddiwedd yr asesiad ar gyfer tua hanner y plant mewn angen. Heblaw iechyd meddwl y plentyn neu oedolion eraill, nodir hyn yn amlach o lawer nag unrhyw ffactor arall.[382]

Ar gyfer rhai plant sy'n ddioddefwyr, gall categoreiddio eu prif angen fel esgeulustod guddio achos sylfaenol y broblem, ac mae'n peri risg o ymatebion sy'n beio'r dioddefwr, am ei fod yn nodi mai'r rhiant nad yw'n cam-drin sy'n gyfrifol, ar ei ben ei hun neu gyda'r camdriniwr.

Er mwyn gwella dealltwriaeth o gyffredinrwydd cam-drin domestig mewn achosion o ofal cymdeithasol i blant, ac ymateb yn briodol, mae'n hanfodol bod cam-drin domestig yn cael ei nodi mewn modd cywir ac amserol yn y lle cyntaf. Yn aml, mae gorddibyniaeth ar gam-drin corfforol fel modd o asesu'r risg i'r plentyn a'r oedolyn sy'n ddioddefwyr, ac yn aml ni chaiff gweithwyr cymdeithasol y manylion a'r wybodaeth angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n atgyfeirio achosion atynt.[383] Mae'n bwysig bod pob asiantaeth yn ystyried hyn. Mae gweithwyr cymdeithasol wedi nodi nad yw'r atgyfeiriadau a gânt gan asiantaethau eraill yn cynnwys digon o fanylion ar hanes, amlder, lefel gwaethygiad a phatrymau ymddygiad – a all wedyn effeithio ar yr asesiad cychwynnol.

Nododd ymarferwyr llinell flaen ddiffyg dealltwriaeth o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ymysg yr holl grwpiau proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd. Hyd yn oed lle caiff ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ei nodi, bydd hynny yn bennaf mewn perthynas â'r oedolyn sy'n ddioddefwr, ac ni cheir llawer o gydnabyddiaeth o'r effaith ar blant.[384][385] [386]

Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai'r Adran Addysg wneud y canlynol:

---

[379] Dickens, J. et al (2022).
[380] Dickens, J. et al (2022).
[381] Yr Adran Addysg (2024b).
[382] Yr Adran Addysg (2024b).
[383] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[384] Katz, E. (2016).
[385] Katz, E. (2022).
[386] Katz, E. (2016).

- **Diwygio'r categorïau Plant mewn Angen i sicrhau bod plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu categoreiddio felly, ac nid dim ond eu bod yn cael eu hesgeuluso, er mwyn deall cyffredinrwydd plant sy'n ddioddefwyr a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n briodol.**

- **Ymrwymo i ddadansoddi canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn Cynllun Plant mewn Angen, er mwyn deall yr effeithiau y mae'r cynlluniau yn eu cael fesul ardal, a'r rhesymau dros gau achosion.**

*Asesiad risg*

Un her arall a nodwyd gan ymarferwyr yw archwilio'n llawn y risgiau a wynebir gan y plentyn. Canfu Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant dystiolaeth o brosesau asesu a dealltwriaeth wael o'r risg o gam-drin domestig mewn cyfarfodydd amlasiantaethol, cynlluniau a chofnodion achosion.[387] Yn yr un modd, canfu adolygiad thematig o adolygiadau o laddiadau domestig achosion lle'r oedd asesiadau risg gan wasanaethau plant yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau unigol, heb ymgysylltu ag aelodau ehangach y teulu i ddatblygu darlun cynhwysfawr o risg neu geisio safbwyntiau'r plentyn a chynnwys ei lais.[388] Ymhellach, nododd ymarferwyr orddibyniaeth ar DASH fel dull o asesu risg, yn hytrach na rhestr wirio dangosyddion risg.

Gall asesiadau risg gan ymarferwyr gael eu diystyru gan safbwyntiau ystrydebol ac anwybodus, er enghraifft, ystyried bod partneriaid sy'n gwahanu yn datrys y sefyllfa yn hytrach na gwaethygu'r risg o bosib (Adolygiadau o Laddiadau Domestig 149). Argymhellodd astudiaeth HALT y dylai asesiadau risg ganolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion y teulu cyfan a symud oddi wrth brosesau manwl o 'fonitro' risg at fynd i'r afael â risg, gan gynnwys cynllunio diogelwch gyda'r plant a'r oedolion sy'n ddioddefwyr ar wahân.[389] Mae'r arferion hyn yn rhannol yn adlewyrchu'r pwysau gweinyddol a wynebir gan weithwyr cymdeithasol, y cred 40% ohonynt fod gormod o amser yn cael ei dreulio yn cofnodi achosion,[390] ac yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb a roddir ar y rhieni nad ydynt yn cam-drin i reoli'r risg a achosir gan y cyflawnwr.[391]

Nododd ymarferwyr, er gwaethaf y ffaith yr ystyrir bod anghenion a risgiau plant ar wahân i anghenion a risgiau'r rhiant nad yw'n cam-drin, nid yw'r asesiadau yn cynnwys digon o asesiadau risg penodol ar gyfer plant. Canfu dadansoddiad Adolygu Ymarfer Diogelu Plant fod plant yn aml yn cael eu categoreiddio fel eu bod yn wynebu niwed emosiynol neu esgeulustod – gan danseilio eu profiadau o gam-drin domestig a'r niwed uniongyrchol a wynebwyd ganddynt.[392] Mae hyn yn dangos bod yn rhaid ystyried cam-drin domestig fel mater amddiffyn plant, neu bydd asesiadau yn canolbwyntio ar anghenion y rhiant nad yw'n cam-drin a'r angen i weithredu a gadael y berthynas.[393] Rhaid i asesiadau sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn sy'n ddioddefwr yn wynebu risg gan y cyflawnwr, a sicrhau na roddir cyfrifoldeb diangen ar y rhiant amddiffynnol nad yw'n cam-drin.

Ymysg y cyfyngiadau pellach wrth asesu'r risg mewn achosion o gam-drin domestig mae:

- diffyg dealltwriaeth o'r risg a achosir gan drefniadau cyswllt plant
- methu cysylltu'r risg â rhieni nad ydynt yn cam-drin a'r risgiau i blant
- tybiaethau bod y rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn ar yr un lefel risg â'r hyn a bennir gan y DASH
- fframio mamau yn niweidiol yn anghydsyniol ac yn anghymwys
- tybiaeth o gontinwwm llinol o gamdriniaeth

[387] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[388] Chantler, K. et al (2023a).
[389] Chantler, K. et al (2023a).
[390] What Works Centre for Children's Social Care (2021a).
[391] Featherstone, B. et al (2014).
[392] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[393] NSPCC (2020).

- peidio â chydnabod y posibilrwydd y byddai risg gynyddol ar adegau penodol.

Caiff yr ail bwynt hwn ei ddangos yn blwmp ac yn blaen yn yr adroddiad HALT:

> "…the fact that [perpetrator] had left the matrimonial home and [victim] had taken legal steps to prevent contact provided a misleading sense of safety that influenced how some professionals, such as children's social care and the police, approached risk assessment and managed their contact with [victim] and [perpetrator]. Rather than seeing separation from a controlling and coercive relationship as signifying loss of control on the part of [perpetrator] and therefore potential for an escalation in the risk to [victim], the separation was seen as a resolution requiring no further substantial input."[394]

### 7.4.3. Hyfforddiant

Mae problemau o ran nodi, asesu a deall y risgiau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cyfeirio at angen i ymarferwyr gwaith cymdeithasol i blant gael hyfforddiant. Un angen hyfforddiant, a amlygwyd yn flaenorol gan y Comisiynydd, yw sut i gefnogi mudwyr sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr a'u plant y mae gofal cymdeithasol i blant yn gwneud cam â nhw ac nad ydynt yn cael gafael ar y cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

Mae adroddiad y Comisiynydd *Safety Before Status*[395] yn nodi profiadau mudwyr sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr a'r rhwystrau a wynebir ganddynt wrth gael gafael ar y cymorth sydd ar gael drwy Adran 17 o Ddeddf Plant 1989, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu a hybu lles plant mewn angen yn eu hardal.[396] Mae'r ddyletswydd statudol hon yn cynnwys darparu cymorth fel llety a chymorth ariannol i blant diymgeledd, ynghyd â'u teuluoedd. Lluniwyd yr adroddiad am nad oedd Adran 17 yn cael ei dilyn bob amser.[397] Canfu ymchwil â gwasanaethau trais yn erbyn menywod a merched dan arweiniad arbenigwyr mewn materion pobl ddu a lleiafrifol a wnaed ar ran y Comisiynydd fod y 12 o'r gwasanaethau yr ymgynghorwyd â nhw wedi dweud eu bod wedi arsylwi'n rheolaidd ar Awdurdodau Lleol yn methu cyflawni'r ddyletswydd.[398] Yn aml, caiff capasiti cyfyngedig y gwasanaethau hyn ei dreulio'n eirioli i awdurdodau lleol neu'n cyflwyno heriau cyfreithiol i awdurdodau lleol nad ydynt yn dilyn Adran 17. Nododd y gwasanaethau hefyd eu bod wedi treulio llawer o amser yn rhoi hyfforddiant anffurfiol i weithwyr cymdeithasol ar hawliau plant o dan Ddeddf Plant 1989.

Yn anffodus, bedair blynedd ar ôl *Safety Before Status*, nid yw'r sefyllfa wedi newid fawr ddim. Nododd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron o wasanaethau 'gan ac ar gyfer' nad yw gweithwyr cymdeithasol na'r heddlu yn gwybod fawr ddim am lwybrau a fframweithiau mewnfudo, ac o ganlyniad, eu bod yn methu cyflawni eu dyletswyddau statudol na gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau 'gan ac ar gyfer'. Gall arferion porthgadw o fewn gofal cymdeithasol i blant effeithio ar blant mudwyr sy'n oroeswyr yn uniongyrchol, a golygu eu bod yn wynebu risg sylweddol - er enghraifft, gofyn am dystiolaeth o gam-drin domestig cyn cefnogi oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr. Disgrifiodd ymarferwyr frwydr gyson wrth eirioli ar gyfer y plant hyn a'r angen am gymorth cyfreithiol mwy hygyrch ac am ddim i helpu'r teuluoedd hyn i sicrhau eu hawliau a'u diogelwch drwy orchmynion amddiffyn, cystodaeth plant a statws mewnfudo. Mae amser gwaith achos a hyd y cyfnod o ymgysylltu â goroeswyr yn uwch o lawer yn yr achosion cymhleth hyn ac yn aml, ni chyfrifir am hynny wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae diffyg gwybodaeth, ynghyd â ffactorau cymdeithasol ehangach, polisi a deddfwriaeth mewnfudo yn amharu ar yr ymateb i fudwyr sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig. Ceir rhagor o fanylion am argymhellion y

---

[394] Chantler, K. et al (2023a).
[395] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021).
[396] *Deddf Plant 1989*
[397] Dexter, Z. et al (2016).
[398] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021).

Comisiynydd ar gyfer newid yn ei dau adroddiad: *Safety before Status*[399] a *Safety Before Status: The Solutions.*[400]

O ystyried y rôl benodol sydd gan ofal cymdeithasol i blant wrth ddiogelu plant a gwneud penderfyniadau fydd yn newid eu bywydau iddynt, mae'n hanfodol bod gan yr ymarferwyr hyn wybodaeth arbenigol am gam-drin domestig, ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol yn benodol, a gyflwynir gyda mewnbwn gan arbenigwyr cam-drin domestig sydd wedi bod yn ymarfer ar y llinell flaen yn ddiweddar. Soniodd yr ymarferwyr wrth y Comisiynydd nad yw pwyntiau cyswllt cyntaf gwasanaethau plant bob amser wedi'u hyfforddi'n arbenigol mewn cam-drin domestig, er ei fod yn gyffredin mewn llwythi achosion, a'i bod yn hanfodol cael ymarferwyr wedi'u hyfforddi â gwybodaeth arbenigol yn sgrinio atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod yr atgyfeiriadau cywir yn cael eu trosglwyddo i'r lefel cymorth briodol.

Dylai'r hyfforddiant hwn ddechrau (ond nid diweddu) â'r hyfforddiant a gaiff gweithwyr cymdeithasol fel rhan o'r cwricwlwm gofal cymdeithasol. Roedd gweithwyr cymdeithasol a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron yn synnu cyn lleied o gynnwys ar gam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol oedd ar y cwricwlwm, yn enwedig o ystyried nifer yr achosion a'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn ymateb yn effeithiol. Mae angen cynnwys mwy manwl ar weithio gyda chyflawnwyr a'u dwyn i gyfrif, adnabod arwyddion cam-drin, dynameg, llwybrau a gwell dealltwriaeth o'r effaith ar blant. O blith y prifysgolion sy'n darparu cyrsiau gwaith cymdeithasol a ymatebodd i gais rhyddid gwybodaeth y llynedd, dywedodd 37% nad oeddent yn cynnig unrhyw hyfforddiant penodol ar ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, er bod bron i ddegawd wedi mynd heibio ers pasio'r ddeddfwriaeth i'w wneud yn drosedd benodol. Hefyd, roedd llai na 10% o'r cyrsiau gwaith cymdeithasol a achredir gan addysg uwch yn Lloegr yn cynnig cwrs penodol ar ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol i fyfyrwyr.[401] Ymatebodd Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol mewn Prifysgolion ar y Cyd i'r ymchwil hon drwy nodi na ddylai cyrsiau gwaith cymdeithasol mewn prifysgolion gwmpasu “ymarfer arbenigol iawn”, fel cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, sy'n awgrymu na chaiff amlygrwydd achosion cam-drin domestig mewn ymarfer gwaith cymdeithasol ei gydnabod.[402]

Dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron ‘gan ac ar gyfer’ y dylai graddau gwaith cymdeithasol gynnwys modiwlau penodol ar gam-drin domestig a chroestoriadedd fel bod gweithwyr cymdeithasol wedi'u paratoi i ddeall anghenion croestoriadol goroeswyr a'u plant. Nododd un ymarferydd nad oedd unrhyw hyfforddiant ar gyfer cam-drin domestig mewn unrhyw ran o'i chwrs gradd diweddar mewn gwaith cymdeithasol, a bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar waith theori hanfodol, nad oedd mor uniongyrchol gymwys i lwythi achosion.

Ceir ymarfer da presennol mewn hyfforddiant i ddysgu ohono ac adeiladu arno. Disgrifiodd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron a oedd wedi cofrestru a chymryd rhan mewn hyfforddiant ‘Safe & Together’[403] y modd yr oedd yr hyfforddiant a'r egwyddorion wedi eu galluogi i adnabod arwyddion cam-drin domestig yn well, dwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a llunio partneriaeth â'r rhiant nad yw'n cam-drin i gefnogi plant sy'n ddioddefwyr yn well, a chadw'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin gyda'i gilydd. Gall gweithredu'r model greu newid arwyddocaol mewn diwylliant ym mhob rhan o'r gofal cymdeithasol i blant ac yn yr holl ymateb amlasiantaethol, yn benodol oherwydd yr ymgorfforir prosesau cydweithio cryf â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol.

Mae angen hyfforddiant parhaus ar gam-drin domestig er mwyn ymgorffori bygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i ddiogelwch, ymatebion arfer gorau, a diweddariadau i ddeddfwriaeth a

---

399 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021).
400 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022b).
401 Collinson, A. (2024).
402 Samuel, M. (2024).
403 Safe & Together Institute (2019).

chanllawiau. Gallai goruchwyliaeth adfyfyriol fod yn rhan werthfawr o'r dysgu parhaus hwn;[404] fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn ddigon rheolaidd i lawer o weithwyr cymdeithasol, os o gwbl.[405]

Yn argymhelliad y Comisiynydd ar hyfforddiant, a welir ar dudalen 91, mae'r Comisiynydd yn glir, o ystyried y rôl bwysig sydd gan weithwyr cymdeithasol, y dylent gael hyfforddiant arbenigol. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Adran Addysg orchymyn meini prawf cwricwlwm ac asesu penodol ar gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, drwy Fframwaith Gyrfa Cynnar 2025 a datblygu cyfarwyddiadau ymarfer i gyd-fynd â hyn.**

- **Dylai Social Work England ymrwymo i arolygiad trylwyr o raddau Gwaith Cymdeithasol a'r cynnwys cam-drin domestig ar raglenni graddau a sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn cael hyfforddiant mewn cam-drin domestig eu hunain. Dylid datblygu'r meini prawf arolygu mewn cydweithrediad agos â'r sector cam-drin domestig arbenigol a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.**

- **Dylai Social Work England adolygu'r safonau Gwybodaeth, Sgiliau ac Ymddygiadau gan ystyried cam-drin domestig er mwyn sicrhau bod darparwyr cyrsiau yn deall yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i gyflawni'r safonau.**

### 7.4.4. Galw a Chost Gynyddol

Mae heriau sy'n gysylltiedig â hyfforddi, dealltwriaeth ac asesu gwael yn gwaethygu yn sgil y galw cynyddol a wynebir gan ofal cymdeithasol i blant ac, yn eu tro, gan y gweithwyr cymdeithasol unigol sy'n gweithio o fewn y system hon. Mae unigolion ymroddedig sydd am weithio gyda phlant a'u teuluoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl yn canfod eu hunain mewn sefyllfa amhosibl, am na allant ateb y galw. Dair blynedd yn ôl, nododd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, ers 2007/08, bod atgyfeiriadau at ofal cymdeithasol i blant wedi cynyddu 21%, ac mai'r prif reswm dros atgyfeiriadau yw camdriniaeth neu esgeulustod.[406]

Pwysleisiodd y gweithwyr cymdeithasol a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron pa mor niferus yw'r achosion cymhleth y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt, a'r nifer mawr o achosion o orflinder proffesiynol a thrawma dirprwyol. Er gwaethaf y gwelliannau yn nifer y gweithwyr cymdeithasol[407], gyda'r lefelau uchel o drosiant staff, adnoddau cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'r argyfwng yng nghyllid llywodraeth leol a'r gyfran uchel o weithwyr cymdeithasol a gyflogir gan awdurdodau lleol mewn swyddi rheoli neu swyddi lle nad ydynt yn gyfrifol am achosion, nifer cynyddol fach o weithwyr cymdeithasol sy'n llai profiadol fel arfer sydd â chyfrifoldeb am yr holl waith cofnodi achosion a'r ymweliadau.

Mae nifer cynyddol o achosion ac achosion mwy cymhleth wedi arwain at drothwy cynyddol uchel er mwyn cael mynediad at gymorth gofal cymdeithasol i blant. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, cafwyd 621,880 o atgyfeiriadau at ofal cymdeithasol i blant. O'r atgyfeiriadau hyn, ystyriwyd nad oedd angen gweithredu ymhellach (NFA) ar 6.3% ohonynt, a chafod 30.3% eu cau ar ôl eu hasesu. Yn yr achosion hyn, penderfynwyd nad oedd y plant hyn yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriad gan ofal cymdeithasol i blant. Er y gall hyn fod yn briodol mewn rhai achosion, mae hyn yn gyfran uchel iawn o blant yn cael eu gwrthod ar ôl i bryder gael ei nodi, yn enwedig gan nad oes unrhyw ddata i ddangos a gafodd y plant hyn eu hatgyfeirio at help cynnar ar ôl yr asesiad.[408] O ystyried amlygrwydd yr achosion cam-drin domestig yn yr ystadegau plant mewn angen, mae'n debygol iawn y bydd plant sy'n destun cam-drin domestig yn cael eu gwrthod o ofal cymdeithasol i

[404] Chantler, K. et al (2023a).
[405] Johnson, C. et al (2021).
[406] Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Cyf (2022).
[407] Yr Adran Addysg (2024c).
[408] Yr Adran Addysg (2024b).

blant, neu na chymerir camau pellach mewn perthynas â nhw. Gall teuluoedd â phlant hŷn yn benodol fod yn llai tebygol o gyrraedd y trothwy ar gyfer ymateb diogelu, gyda'r plant hyn yn cael eu trin yn fwy fel oedolion gan weithwyr proffesiynol. Hyd yn oed pan geir ymateb, gall hyn gynnwys disgwyliad iddynt gadw eu hunain yn ddiogel fel rhan o Gynlluniau Plant mewn Angen neu Gynlluniau Amddiffyn Plant.

Nododd gweithwyr cymdeithasol a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron, oni ddangosir bod plentyn yn wynebu 'risg' weithredol, nad yw'n debygol y bydd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cymorth. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd cyn Deddf Cam-drin Domestig 2021,[409] gan ddangos eto nad yw'r ddeddfwriaeth wedi newid realiti ymarfer ar lawr gwlad. Yn y cyfamser, ar gyfer llawer o blant, bydd y trawma a'r effaith a wynebir ganddynt drwy gam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol yn parhau heb ymyriad gan ofal cymdeithasol i blant.

Er mai capasiti yw un o'r prif benderfynyddion wrth benderfynu ar drothwyon, caiff ei waethygu ymhellach gan ddiffyg arweiniad canolog ar ba achosion ddylai gyrraedd y trothwy. Mae pob awdurdod lleol yn pennu ei drothwyon ei hun ar gyfer ymyriad, a nodir yn aml mewn 'dogfen trothwy'. Mae asesiad o'r dogfennau hyn wedi dangos bod amrywiad sylweddol o ran cychwyn ymholiadau Adran 47 a mesurau help cynnar mewn achosion o gam-drin domestig.[410] Mewn data cyfyngedig a gyhoeddwyd, ni cheir llawer o eglurder na thryloywder o ran pam yr ystyrir bod angen i rai plant gael cymorth gan ofal cymdeithasol i blant ac nad oes angen hynny ar blant eraill. Mae amrywiad o ran trothwy ac ymateb yn creu 'loteri cod post' o gymorth ledled y DU. Canfu'r Comisiynydd Plant, yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2023, bod nifer y plant ar gynllun Plant mewn Angen fesul 10,000 yn amrywio o 30 yn Newcastle upon Tyne i 316 yn Reading.[411]

Yn rhy aml, canlyniad peidio â chael y cymorth sydd ei angen arnynt pan gânt eu hatgyfeirio yn y lle cyntaf, yw bod plant a'u teuluoedd yn aml yn cael eu hailatgyfeirio yn ôl i ofal cymdeithasol i blant gyda phryderon cynyddol.[412] Mae ystadegau Plant mewn Angen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024 yn dangos bod bron i chwarter yr atgyfeiriadau yn ailatgyfeiriadau o fewn y 12 mis blaenorol[413] sy'n dangos nad yw'r prosesau asesu nac ymyrryd yn ddigon amserol nac effeithiol i greu'r newid parhaus sydd ei angen ar deuluoedd.

Er mwyn i weithwyr cymdeithasol chwarae eu rhan yn yr ymateb i gam-drin domestig, rhaid rhoi blaenoriaeth i'w gallu i wneud eu gwaith yn effeithiol. Rhaid i hyn gynnwys cael llwythi achos rhesymol, fel bod pob plentyn a'i deulu yn cael digon o sylw, ar gyfer ymchwilio ac asesu'n briodol gan leihau'r tebygolrwydd o ailatgyfeirio. Byddai llwythi achos realistig, ynghyd ag amodau gweithio gwell a phrosesau goruchwylio clinigol cadarn hefyd yn gwella cyfraddau cadw, gan sicrhau bod staff sydd â phrofiad a sgiliau pwysig yn y gweithlu yn cael eu cadw. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid sicrhau cyllid a buddsoddiad cynaliadwy a digonol yn y system gofal cymdeithasol i blant. Mae'r cyllid hwn wedi bod yn darged toriadau cyllid Llywodraethau olynol ers 2010, lle cafodd gwariant ei leihau £1 biliwn bron – 9% o doriad mewn termau real.[414] Yng nghyd-destun gorflinder a throsiant uchel ymysg staff, caiff y gyllideb ei hymestyn ymhellach drwy orddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth, oedd yn golygu cost ychwanegol fesul gweithiwr o £26,000 y flwyddyn yn 2022.[415]

Er yr amgylchedd ariannol anodd hwn, mae'r dyletswyddau statudol a roddir ar ofal cymdeithasol i blant wedi cynyddu.[416] Mae llai o adnoddau, ynghyd â mwy o gyfrifoldebau statudol wedi'i gwneud yn amhosibl i awdurdodau lleol fantoli'r cyfrifon, gan arwain at ostyngiad yn y gwasanaeth y gallant

[409] Action for children (2019).
[410] Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant (2018).
[411] Comisiynydd Plant Lloegr (2024c).
[412] Comisiynydd Plant Lloegr (2024c).
[413] Yr Adran Addysg (2024b).
[414] Franklin, J. et al (2023).
[415] Kantar (2020).
[416] MacAlister, J. (2022).

ei gynnig, yn enwedig o ran atal ac ymyriad cynnar.[417] Mae hyn yn economi ffug, oherwydd y costau uwch o lawer yr eir iddynt ar adeg argyfwng.

### 7.4.5. Gwella cymorth gwaith cymdeithasol i blant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr ac i rieni nad ydynt yn cam-drin

*Gwrando ar Lais y Plentyn*

> *"Er bod plant yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr erbyn hyn, mae'n dal i deimlo bod eu lleisiau'n cael eu cuddio."*
>
> Sylw o'r cyfarfod grŵp ar-lein

Fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i sefydlu hyd yma, yn rhy aml, caiff plant eu trin fel dioddefwyr eilaidd i'r rhiant, ac ni wrandewir ar eu lleisiau. Mae Adolygiadau Achos Cyhoeddedig wedi canfod bod rhai gweithwyr proffesiynol yn ei chael hi'n anodd cadw'r ffocws ar y plentyn mewn achosion o gam-drin domestig, [418]gan wthio plant i ymylon eu systemau diogelu eu hunain. Yn y cyd-destun hwn, mae rhai plant yn cadw'n dawel yn fwriadol, yn enwedig o flaen gweithwyr proffesiynol, am nad ydynt am roi baich eu teimladau eu hunain ar y rhiant nad yw'n cam-drin.[419] Pan ofynnir i blant am eu profiadau, gwneir hyn o flaen y cyflawnwr weithiau, gan greu rhwystr i ddatgelu camdriniaeth neu fanylu arni, neu i siarad am effeithiau'r gamdriniaeth honno arnynt.[420] Felly, anaml y caiff lleisiau plant eu clywed mewn gwirionedd gan wasanaethau, sy'n golygu bod cyfleoedd i ymyrryd ac i roi llais i'r plentyn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno yn cael eu colli.[421]

Gall fod yn anodd rhoi llais i blant sy'n destun cam-drin domestig a gweithio gyda nhw, am ei bod yn bosibl nad ydynt yn ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol, sy'n deillio o ofn, neu achosion blaenorol o dorri cyfrinachedd a/neu o gymorth gwael.[422] Gall plant a phobl ifanc fod yn gyfathrebwyr huawdl, strategol a myfyriol, a rhaid i gymorth roi cyfle i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed.[423] Mae angen yr amser hwn ar blant i feithrin perthynas â gweithwyr proffesiynol ac i allu ymddiried ynddynt. [424] Mae papur briffio'r NSPCC *'Voice of the child'*[425] yn nodi'r rhwystrau cyffredin sy'n atal llais y plentyn rhag cael ei gynnwys yn effeithiol ac yn tynnu sylw at y ffordd y gellir deall llais plentyn, yn enwedig wrth weithio gyda babanod, plant nad ydynt wedi dechrau siarad eto a phlant ag anableddau.[426]

Mae angen i ni herio'r safbwynt bod plant yn rhy agored i niwed i rannu eu profiadau. Dylid ystyried bod esboniadau plant o ddigwyddiadau yr un mor bwysig ag esboniadau'r rhieni, am eu bod yn llywio'r ddealltwriaeth o'r modd yr effeithiwyd ar y plentyn. Wrth wrando ar blant sy'n destun cam-drin domestig a gweithio gyda nhw, rhaid cynnig hyblygrwydd, dewis a hawl.[427] Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd gan y plentyn anghenion ychwanegol a bregusrwydd. Rhannodd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron enghreifftiau arfer gorau ar gyfer cynnwys llais y plentyn, gan sicrhau ei fod yn cael ei gynrychioli a bod ei anghenion yn cael eu deall. Ymhlith y rhain roedd:

[417] Franklin, J. et al (2023).
[418] NSPCC (2020).
[419] McGee, C. (2000).
[420] NSPCC (2023).
[421] Chantler, K. et al (2023a).
[422] Cossar, J. et al (2013).
[423] Callaghan, J. et al (2017b).
[424] SafeLives (2017).
[425] NSPCC (2024a).
[426] NSPCC (2024a).
[427] Lundy, L. (2007); Houghton, C. (2015).

- Mae cynnwys plant b/Byddar a'u teuluoedd wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau bod eu lleisiau yn ganolog a bod y gwasanaethau a ddarperir yn berthnasol ac yn mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion penodol y gymuned f/Fyddar
- Ystyried anghenion y plentyn wrth ddylunio gwasanaethau ac wrth ystyried hygyrchedd
- Yn aml, mae deunyddiau cynhwysol, fel taflenni a deunyddiau allgymorth, yn arwain oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr at gymorth – dyma'r cam cyntaf i sicrhau bod cymorth yn hygyrch i ddioddefwyr a goroeswyr anabl
- Cydgynhyrchu dyluniad gwasanaethau
- Sefydlu Hybiau Ieuenctid wedi'u llywio gan yr hyn y mae plant wedi dweud eu bod am ei gael a'r hyn sydd ei angen arnynt
- Arbenigwyr croestoriadol drwy grwpiau profiad yn llywio polisïau sefydliadol
- Cynrychiolaeth ac arweinyddiaeth LHDT+ mewn ymgynghoriadau a chyrff amlasiantaethol, gan gynnwys Marac.

*Goresgyn rhwystrau i ymgysylltu â rhieni nad ydynt yn cam-drin*

Yn rhy aml, mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig, caiff ymgysylltiad gofal cymdeithasol i blant â rhiant nad yw'n cam-drin ei fframio drwy lens gysyniadol 'methiant i ddiogelu'.[428] Gall dangos tystiolaeth o 'fethiant i ddiogelu' gynnwys beirniadaeth o'r ffaith bod yr oedolion sy'n ddioddefwr wedi tanseilio'r gamdriniaeth, tynnu datgeliadau blaenorol yn ôl, neu wrthod cymorth gan wasanaeth cam-drin domestig arbenigol. Efallai y bydd ymarferwyr yn ystyried hyn fel rhiant nad yw'n cam-drin yn peidio â 'chydnabod' na 'derbyn' cam-drin domestig, yn hytrach na'i fod yn dangos presenoldeb rheolaeth drwy orfodaeth ac ofn, a strategaeth goroesi bosibl. Drwy'r lens hon, cyfrifoldeb y rhiant nad yw'n cam-drin yw diogelu'r plentyn rhag gweithredoedd y rhiant sy'n cam-drin, a gadael y berthynas. Daw hyn yn ffocws, yn hytrach na defnydd y cyflawnwr o gamdriniaeth a thrais.[429]

Yn y bôn, nid yw hyn yn deall y rhwystrau a wynebir gan oedolion sy'n ddioddefwyrac yn oroeswyr wrth adael perthynas gamdriniol, y risgiau cynyddol posibl wrth wneud hynny, a natur ac effaith annatod rheolaeth drwy orfodaeth.Er bod oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr yn ceisio cymorth ar gyfer amddiffyn eu plant, maent hefyd yn deall bod unrhyw ymgais i adael neu ddatgelu yn creu risg o gamdriniaeth waeth neu bellach.[430] Gall methiant gan weithwyr proffesiynol i ddeall hyn greu neu ddwysáu diffyg ymddiriedaeth yr oedolyn sy'n ddioddefwr neu'n oroeswr mewn gwasanaethau statudol, gan gynnwys yr ofn y bydd y plentyn yn cael ei gymryd oddi wrtho. Gall hyn, ynghyd ag ofni'r cyflawnwr, weithredu fel rhwystr sylweddol i brosesau ymgysylltu a chydweithio rhwng gofal cymdeithasol i blant a'r rhieni nad ydynt yn cam-drin er mwyn gwneud penderfyniadau diogel, hirdymor er budd gorau'r plentyn. Mae ymarferwyr yn nodi bod y model Safe & Together wedi helpu i sicrhau y gall ymarferwyr gyfeirio'r ffocws tuag at y cyflawnwr, yn hytrach na rhoi bai ar y rhiant nad yw'n cam-drin, sy'n helpu i leihau risg a niwed i'r plentyn.

Dangosir y methiant i ddeall camdriniaeth ac i gefnogi oedolion sy'n oroeswyr yn glir mewn achosion lle caiff plant eu tynnu oddi wrth eu rhiant nad yw'n cam-drin. Ceir cyfrifon torcalonnus o blant mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn cael eu tynnu ar y sail na wnaeth y rhiant nad yw'n cam-drin eu hamddiffyn yn ddigonol rhag y rhiant camdriniol pan na roddwyd llawer o gymorth i'r rhiant nad yw'n cam-drin. Gall y canlyniad hwn arwain at aildrawmateiddio ac ailerledigaeth. Ni ddylid dwyn oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig i gyfrif am weithredoedd ac ymddygiad eu camdriniwr. Mewn sawl achos, mae gwahanu oedolyn a phlentyn sy'n goroesi cam-drin domestig yn cosbi'r ddau: caiff bywydau plant eu troi wyneb i waered pan fyddant ar eu mwyaf bregus a bydd hyn yn peri gofid enfawr i'r rhiant ac i'r plentyn. Mae'r Comisiynydd wedi cael cyfrifon eithriadol o ofidus o'r modd y mae goroeswyr cam-drin domestig wedi cael eu cam-drin eto, eu trawmateiddio a'r modd yr effeithiwyd arnynt drwy'r broses hon o dynnu'r plentyn oddi wrthynt.

---

[428] Stewart, S. ac Arnull, E. (2023).
[429] Alexander, K. et al (2022).
[430] Alexander, K. et al (2022).

Mae'n amlwg bod gweithwyr cymdeithasol wedi cael trafferth sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu plant a grymuso oedolion sy'n ddioddefwyr. Mae naratifau goroeswyr yn disgrifio, wrth i'w hachosion ddatblygu, bod gweithwyr cymdeithasol yn gofyn mwy a mwy gan y rhiant nad yw'n cam-drin ac yn ei feio am y risg a achosir gan y partner camdriniol.[431] Mae dioddefwyr a goroeswyr yn disgrifio diffyg empathi, a hyd yn oed ymdeimlad o gam-drin eilaidd gan wasanaethau.[432] Mae ceisio gorfodi cymorth gan wasanaethau arbenigol yn dadrymuso ac yn creu perygl o adlewyrchu ymddygiad rheolaethol tuag at yr oedolyn sy'n ddioddefwr y mae eisoes wedi'i wynebu gan y cyflawnwr. Yn hytrach, dylai gweithwyr cymdeithasol fod yn chwilfrydig ynghylch unrhyw strategaethau goroesi a ddefnyddir gan y dioddefwr, fel ymgais ganfyddedig i danseilio neu wadu cam-drin domestig, yn enwedig lle ceir hanes o gam-drin, neu lle mae datgeliad blaenorol wedi cael ei dynnu yn ôl.[433]

Argymhellodd gweithwyr cymdeithasol a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron y dylid disodli'r syniad o “fethu amddiffyn” â dull sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n deall y gall y rhiant nad yw'n cam-drin ddirnad y risgiau i'w hunain ac i'w plant yn gywir a gweithredu ar hynny. Ni ddylid ystyried bod y rhiant nad yw'n cam-drin yn oddefol ond yn hytrach dylid ei annog i rannu ei ganfyddiadau a'i safbwyntiau ar risg a diogelwch, a'r technegau y mae eisoes wedi'u datblygu i reoli, gwrthsefyll a goroesi cam-drin domestig.[434] Pan fydd yn destun cam-drin domestig, caiff diogelwch y plentyn ei glymu â diogelwch y rhiant nad yw'n cam-drin – pan gaiff y rhiant nad yw'n cam-drin ei gefnogi, caiff y plentyn ei amddiffyn hefyd.[435] Rhaid ystyried hyn mewn asesiadau risg, cynlluniau diogelwch a chefnogaeth – rhaid i unrhyw gynllun fynd i'r afael ag anghenion y plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin mewn modd cyfannol.

*Dwyn cyflawnwyr i gyfrif*

Wrth rymuso'r rhiant nad yw'n cam-drin ac ymgysylltu ag ef, rhaid dwyn y rhiant camdriniol i gyfrif am ei weithredoedd. Nid yw hyn yn digwydd yn gyson ar hyn o bryd: disgrifir bod cyflawnwyr camdriniaeth ar goll neu'n anweledig i wasanaethau fel arfer.[436][437] Trafododd gweithwyr cymdeithasol a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron amharodrwydd a phryder ymysg rhai cydweithwyr i ddefnyddio'r gair ‘cyflawnwr’ oni chafwyd euogfarn droseddol am droseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Nid oes gan eraill yr hyder i ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflawnwyr, neu nid ydynt yn ystyried bod hyn yn rhan o'u rôl, neu nad yw'n gyflawnadwy, o ystyried y diffyg adnoddau ac ymyriadau i fynd i'r afael â'r ymddygiad.[438]Er y gall y rhiant camdriniol fod yn llai parod i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol,[439] gall canfyddiadau, set sgiliau neu ofnau'r gweithiwr cymdeithasol am ei ddiogelwch ei hun gyfrannu at absenoldeb y cyflawnwr mewn gofal cymdeithasol i blant. Yn yr un modd, gall yr oedolyn sy'n ddioddefwr a/neu'r gweithiwr cymdeithasol ofni y bydd risg uwch yn deillio o gysylltu â'r cyflawnwr neu ei herio, yn enwedig pan fydd yng nghartref y teulu o hyd. Mae angen hanfodol am hyfforddiant cadarn ar sut i fynd i'r afael â'r gwaith cymhleth o ymgysylltu â chyflawnwyr gyda'r manylder a'r hyder sydd eu hangen (y mae'n rhaid eu hategu gyda goruchwyliaeth gadarn, reolaidd), fel y nodir yn argymhelliad hyfforddiant y Comisiynydd ar dudalen 91.

Heb ddealltwriaeth o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, mae gweithwyr cymdeithasol yn llai tebygol o allu adnabod pan fydd cyflawnwyr yn defnyddio tactegau gorfodaethol tebyg i roi'r argraff nad ydynt yn cam-drin, neu hyd yn oed eu bod yn ddioddefwyr eu hunain. Yn aml, bydd cyflawnwyr cam-drin domestig yn gwadu honiadau a wneir yn eu herbyn ac yn cwyno am ymddygiad y

[431] Keeling, J. a Van Wormer, K. (2012).
[432] Empowerment Charity (2023).
[433] NSPCC (2020).
[434] Alexander, K. et al (2022).
[435] Alexander, K. et al (2022).
[436] Chantler, K. et al (2023a).
[437]Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2021).
[438] Stanley, N. et al (2010).
[439] Heron, R.L. ac Eisma, M.C. (2021).

dioddefwr er mwyn gwneud i weithwyr proffesiynol gwestiynu credadwyedd y dioddefwr.[440] Drwy gyfnewid statws y dioddefwr a'r cyflawnwr, gall sicrhau ei sefyllfa ei hun fel dioddefwr a sefyllfa'r sawl a fu'n destun ei gamdriniaeth fel y cyflawnwr. Gelwir hyn yn DARVO yn Saesneg – Gwadu, Ymosod, Cyfnewid Dioddefwr a'r Troseddwr. Gall hyn hefyd chwarae i ddwylo mythau ynghyd 'cam-drin gan y ddwy ochr' a bydd yn gwaethygu pan na fydd y gweithwyr cymdeithasol yn deall defnydd dioddefwyr o wrthwynebiad treisgar. Tacteg arall gan gyflawnwyr yw awgrymu nad yw'r dioddefwr yn ddigon iach na ffit i ofalu am y plentyn, a'i fod ef mewn sefyllfa well i gyflawni'r rôl hon. Mae trin gweithwyr proffesiynol yn y ffordd hon ynddo'i hun yn ddull o gynnal rheolaeth a pharhau â'r gamdriniaeth ar ôl gwahanu.[441]

Mae ymarferwyr llinell flaen o amrywiaeth o wasanaethau yn cydnabod bod angen gwneud cymaint mwy i ddeall beth yw lle cyflawnwr ym mywyd plentyn, ynghyd â safbwyntiau, dymuniadau a dealltwriaeth y plentyn mewn perthynas â'r person hwn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi'r rhiant neu'r aelod o'r teulu camdriniol, asesu'r risg a gyflwynir ganddo, a'i ddwyn i gyfrif am ddiogelwch a llesiant y plant, ei ymddygiad tuag at y rhiant nad yw'n cam-drin, a mynd i ymyriadau newid ymddygiad.[442] Er mwyn i ofal cymdeithasol i blant ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig, rhaid i weithwyr cymdeithasol gael yr hyder, y gefnogaeth a'r adnoddau i weithio gyda chyflawnwyr mewn ffordd sy'n ddiogel i'r teulu cyfan.

Mae amrywiaeth o ddulliau i weithio gyda chyflawnwyr neu ymateb iddynt, a all fod â'r nod o darfu ar eu hymddygiad neu eu hysgogi i newid. Rhaid i ymyriadau priodol fod ar gael yn lleol fel y gall gweithwyr cymdeithasol wneud atgyfeiriadau ar gyfer y gwaith arbenigol hwn yn ôl yr angen. Fodd bynnag, fel y nodir yn adroddiad diweddar y Comisiynydd, *Shifting the Scales*[443], yn ymarferol, y tu hwnt i fframweithiau cyfiawnder troseddol, mae'r ymyriadau arbenigol i newid ymddygiad yn ddychrynllyd o dameidiog. Mae hyn i'w weld yn y ffaith bod llai nag 1% o gyflawnwyr yn cael ymyriad arbenigol i herio neu newid eu hymddygiad.[444] Canfu ymarfer mapio'r Comisiynydd ei hun yn 2022 mai dim ond 7% o oroeswyr a oedd am i'w cyflawnwr gael cymorth i newid ei ymddygiad a lwyddodd i'w gael, er bod eisiau hyn ar fwy na hanner y goroeswyr.[445] Lle mae gwasanaethau'n bodoli, prin yw'r rhai sydd â darpariaeth wedi'i theilwra er mwyn diwallu anghenion y rhai o gymunedau a ymyleiddiwyd neu a leiafrifwyd, yn enwedig y rhai y mae Saesneg yn ail iaith iddynt a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg. Mae dibyniaeth fawr ar raglenni sy'n seiliedig ar grwpiau, nad ydynt yn galluogi ymyriadau wedi'u teilwra'n fwy yn ôl proffiliau risg ac ymddygiad. Fel y nodwyd yn nogfen y Drive Partnership, A call for further action,[446] mae cyllid yn ansicr ac yn annigonol, ac mae arferion comisiynu'n amrywiol, gan gynnwys defnydd cyffredin o gontractau cyfnod byr.

Fodd bynnag, fel y nodir hefyd yn *Shifting the Scales*, mae arfer da eisoes o reoli cyflawnwyr yn y gymuned er mwyn cadw oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr yn fwy diogel. Y ddau sydd â'r dystiolaeth orau ac sydd wedi ennill eu plwyf fwyaf yw Drive a Thasgau a Chydgysylltu Amlasiantaethol (MATAC). Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw bod eu dull yn seiliedig ar weithio amlasiantaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau statudol – gan gynnwys gofal cymdeithasol i blant – ddod ynghyd i greu strategaethau ar gyfer ymyrryd yn ymddygiad cyflawnwr.

[440] Harsey, S.J. a Freyd, J.J. (2022).
[441] Katz, E. (2022).
[442] Callaghan, J. et al (2025).
[443] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025a).
[444] The Drive Partnership (2024)
[445] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a)
[446] The Drive Partnership (2024)

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Safe & Together***

Mae'r model Safe & Together[447] yn galluogi dull systemau cyfan at ddiogelwch a llesiant plant drwy lenwi bylchau mewn gwybodaeth ac egwyddorion ymarfer a rennir ym mhob rhan o'r ymateb amlasiantaethol at gam-drin domestig. Mae'r ffocws yn newid i ddewisiadau cyflawnwyr fel rhieni, wrth iddynt gael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd. Mae Arweinwyr Gweithredu S&T wedi'u lleoli o fewn wasanaethau partner yn cydweithio'n agos â thimau VAWG, gwasanaethau plant ac asiantaethau partner, fel yr heddlu, iechyd ac addysg, er mwyn helpu i ymgorffori'r model yn yr Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig lleol i gam-drin domestig. Gwneir hyn drwy hyfforddiant, trafodaethau achos, drwy fonitro hynt y prosiect drwy archwiliadau ffeiliau achosion parhaus a thrwy werthuso data gofal cymdeithasol/asiantaeth.

O fewn cyd-destun ehangach dull GIRFEC yn yr Alban[448], mae'r model Safe & Together wedi cyflwyno dull cydlynol a systematig at yr ymateb i gam-drin domestig yn Ucheldiroedd yr Alban. Gyda chefnogaeth partneriaeth gadarn a threfniant llywodraethu rhwng Partneriaeth Trais yn Erbyn Menywod Ucheldiroedd yr Alban a Phwyllgor Amddiffyn Plant Ucheldiroedd yr Alban, mae partneriaid statudol y tu hwnt i ofal cymdeithasol wedi ymrwymo i'r model yn strategol ac yn weithredol, gan gynnwys cadeiryddion Marac, partneriaid cyfiawnder troseddol, iechyd a phartneriaid amlasiantaethol eraill. Dull haenog yw hwn o hyfforddi'r gweithlu cyffredinol, y gweithlu uniongyrchol a'r gweithlu arbenigol. Mae hyn yn sicrhau iaith ac egwyddorion a rennir ar draws asiantaethau, sy'n cydnabod y rhiant amddiffynnol ac anghenion plant sy'n destun cam-drin domestig.

Yn Llundain, mae Respect wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Safe & Together ers 2019, pan sefydlwyd y prosiect cyntaf yn Hackney a Waltham Forest. Ers hynny, dyfarnwyd cyllid MOPAC i Respect drwy'r Swyddfa Gartref i barhau i roi'r London Partnership ar waith a'i hehangu i bedair bwrdeistref arall: Newham, Hammersmith & Fulham, Barnet, Barking & Dagenham. Mae Arweinwyr Gweithredu Respect yn gweithio mewn pum bwrdeistref arall yn Llundain drwy bartneriaeth Restart[449]; Camden, Croydon, Havering, Westminster, a Sutton.

Un o brif elfennau'r dull S&T yw mapio patrymau o gamdriniaeth a gorfodaeth, yn hytrach na thrin achosion ar wahân. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar batrwm y cyflawnwr yn blaenoriaethu ymyriadau uniongyrchol â chyflawnwyr, gan bennu safonau uchel i'r rhiant camdriniol, a pharhau i'w ddwyn i gyfrif am y niwed. Mae'r dull hefyd yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth â'r dioddefwr-goroeswr drwy lens sy'n seiliedig ar gryfderau. Un o'r egwyddorion craidd a gaiff ei hatgyfnerthu yn ei ymgynghoriadau achos yw osgoi beio dioddefwyr ac iaith gydfuddiannol - er enghraifft, yn hytrach na nodi bod mam yn gadael y tad yn ôl i mewn i'r cartref dro ar ôl tro, caiff ymarferwyr eu hannog i archwilio gweithredoedd y tad sy'n ei alluogi i'w gweld unwaith eto. Gallai hyn gynnwys atal cynhaliaeth plant, gwneud bygythiadau neu niweidio enw da y fam yn ei chymuned. Un her gyffredin mewn ymyriadau cam-drin domestig yw pan fydd cyflawnwyr yn gwrthod ymgysylltu, a all olygu bod y rhiant nad yw'n cam-drin yn bennaf cyfrifol am ddiogelwch y plentyn. Yn yr ymyriadau â chyflawnwyr, caiff cam-drin domestig ei fframio fel dewis rhianta a chaiff yr effaith ar blant ei thrafod â'r cyflawnwr. Yn lle rhoi rhwymedigaethau diogelwch ar y dioeddefwr-goroeswr, caiff cytundebau rhianta ac ymddygiad eu pennu â'r cyflawnwr, gan symud y baich cyfrifoldeb yn briodol. Caiff dioddefwyr a goroeswyr a phlant eu cefnogi ar bob cam ar y daith hon ac mae eu lleisiau'n rhan ganolog o'r broses o lunio llwybrau tuag at eu diogelwch a'u hadferiad.

[447] Safe & Together Institute (2019).
[448] Llywodraeth yr Alban (2006).
[449] Mae Restart yn ymgorffori dull tai newydd arloesol drwy geisio llety amgen, gwrthdyniadol i gyflawnwr y gamdriniaeth, a arweinir gan ddymuniadau'r dioddefwr, gan alluogi'r plentyn a'r oedolyn sy'n ddioddefwyr i aros yn y cartref.

***“Mae'r hyfforddiant wedi bod yn werthfawr gan fod llawer o bwyslais ar batrymau ymddygiad cyflawnwyr. Mae'n ddefnyddiol i staff prawf wrth weithio gyda theuluoedd lle caiff dynion eu heuogfarnu o droseddau heblaw cam-drin domestig ond lle gellir adnabod arwyddion o gam-drin domestig o hyd, a hefyd i droseddwyr benywaidd a all fod yn destun cam-drin domestig”*** (cyfranogwr S&T y System Cyfiawnder Troseddol, yr Alban)

### 7.4.6. Ymwybyddiaeth croestoriadol ac ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant

*Iaith a Chyfathrebu*

Ar gyfer llawer o oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr sydd ag anghenion croestoriadol, gall iaith a chyfathrebu fod yn rhwystr ychwanegol wrth gael gafael ar gymorth. Gan ystyried profiadau dioddefwyr b/Byddar drwy lens croestoriadol, mae'n amlwg eu bod dan ddwywaith, deirgwaith neu hyd yn oed bedair gwaith mwy o anfantais.[450] Yn y cyfarfodydd bord gron ‘gan ac ar gyfer’ dan arweiniad dioddefwyr b/Byddar, soniodd ymarferwyr bod bywyd yn anodd ac yn wahanol i blant b/Byddar am nad oes ganddynt iaith a rennir, nad ydynt yn gwybod sut i ofyn am help, na sut i ddatgelu eu profiadau yn y cartref ac yn yr ysgol. Ymhellach, ar gyfer plant lle mae eu rhiant nad yw'n cam-drin yn f/Fyddar, gall hyn olygu bod rhwystrau i ofal cymdeithasol i blant, gan na chaiff dehonglwyr eu gwahodd ar ymweliadau yn aml, sy'n golygu na all gweithwyr cymdeithasol asesu risg mewn modd ystyrlon. Mewn achosion lle mae'r plentyn yn f/Fyddar, bydd hyn yn effeithio'n gritigol ar y gallu i gynnwys llais y plentyn mewn asesiadau ac wrth wneud penderfyniadau, i ddeall eu hanghenion a'u profiadau penodol ac i roi'r cymorth cywir. Soniodd ymarferwyr, yn yr achosion hyn, mai lle y gwasanaeth arbenigol yw esbonio'r jargon i deuluoedd ac ysgwyddo'r cymorth gweinyddol. Yn hyn o beth, argymhellodd ymarferwyr, er mwyn cael gwasanaeth cwbl gyfannol i ddiwallu anghenion y plentyn, y dylid buddsoddi mewn gweithwyr cymdeithasol i gymunedau b/Byddar ac mewn technoleg a seilwaith hygyrch – fel gwasanaethau trosglwyddo fideo a llwyfannau sgwrsio Iaith Arwyddion Prydain wrth ddarparu gwasanaethau i'w gwneud hi'n haws i blant b/Byddar a'u teuluoedd geisio help.

Yn y cyfarfodydd bord gron ‘gan ac ar gyfer’ dan arweiniad pobl ddu a lleiafrifedig, soniodd yr ymarferwyr y gall rhwystrau ieithyddol hefyd effeithio ar y rhyngweithio a'r trefniadau ar gyfer y plentyn sy'n ddioddefwr. Er enghraifft, nid yw trefniadau maethu ar gyfer plant yn ystyriol o ddiwylliant nac iaith yn aml. Roedd enghreifftiau yn y gymuned Bwylaidd lle'r oedd gofal cymdeithasol i blant yn gofyn i'r rhiant nad yw'n cam-drin siarad yn Saesneg â'r plant, a oedd yn achosi straen ac yn effeithio ar ymlyniad y dioddefwr â'r plant.

*Ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant*

Ym mhob un o'r cyfarfodydd bord gron ‘gan ac ar gyfer’ trafodwyd yr angen am ymatebion sy'n ystyriol o ddiwylliant sawl gwaith. Disgrifiodd gwasanaethau ‘gan ac ar gyfer' arbenigol y diffyg lens croestoriadol mewn gwasanaethau statudol, gan nodi bod angen i wasanaethau fod yn llawer gwell am ystyried materion diwylliannol ym mhrofiad y plentyn sy'n ddioddefwr. Er enghraifft, mewn achosion o arferion niweidiol, gall y risg i'r oedolyn a'r plentyn sy'n ddioddefwyr waethygu heb ddealltwriaeth gyfannol o ddynameg pŵer a rheolaeth sy'n gysylltiedig ag ‘anrhydedd’ a ‘chywilydd’ fel y'u gelwir ac ymddygiadau gormesol a ddefnyddir gan gyflawnwyr.

Yn yr un modd, roedd angen clir am hyfforddiant ynghylch diwylliannau b/Byddar, a bod angen i bob gwasanaeth integreiddio adnoddau a chael gafael ar hyfforddiant er mwyn meithrin y cymhwysedd hwnnw. Yn y cyfarfodydd bord gron ‘gan ac ar gyfer’ dan arweiniad pobl Anabl, dywedodd yr ymarferwyr bod angen newid diwylliannol sylweddol mewn gwasanaethau, drwy hyfforddiant a negeseuon cyson, am anghenion cymunedau Anabl – gan gynnwys y rhai sydd â niwrowahaniaeth ac anabledd dysgu. Ar gyfer goroeswyr anabl a'u plant, gall cynnig cymorth ymarferol wrth

[450] Napier, J. (2024).

ddefnyddio systemau fod yn hanfodol wrth iddynt ffoi rhag cam-drin domestig a chael cymorth. Rhaid gwella polisïau er mwyn iddynt fod yn fwy cynhwysol, a dylid nodi cam-drin domestig mewn polisïau anabledd. Yn aml, caiff niwrowahaniaeth ar gyfer plant ei wneud yn anweledig ac o ganlyniad, ni chaiff anghenion plant eu hystyried. Yn yr un modd, mae diffyg data cywir ar anabledd a niwrowahaniaeth yn amharu ar brosesau effeithiol i gomisiynu gwasanaethau.

Ar gyfer goroeswyr LHDT+, disgrifiodd gwasanaethau arbenigol ddiffyg dealltwriaeth systemig o anghenion cymunedau a phlant LHDT+. Mae hyn yn cynnwys hyder wrth gefnogi pobl ifanc LHDT+ 16-18 oed, mynd i'r afael â rhagfarn broffesiynol a homoffobia a thrawsffobia sefydliadol.

Ar gyfer llawer o ddioddefwyr LHDT+, erbyn iddynt gyrraedd gwasanaethau arbenigol, maent wedi cael eu haildrawmateiddio dro ar ôl tro gan y gwasanaethau nad ydynt yn cydnabod eu hunaniaethau, eu hanghenion a phwy ydynt. Ymysg yr enghreifftiau roedd defnyddio enwau marw, rhagenwau anghywir, neu gyswllt a orfodir â rhieni a theuluoedd (pan mai nhw yw cyflawnwyr y gamdriniaeth yn aml).

### 7.4.7. Gwerthfawrogi gwasanaethau arbenigol

Mae gofal cymdeithasol i blant yn cael budd sylweddol o integreiddio arbenigwyr cam-drin domestig yn ofalus. Nododd ymarferwyr Hybiau i Deuluoedd a gweithwyr cymdeithasol, lle roeddent wedi cydleoli gweithiwr cam-drin domestig arbenigol, bod hyn wedi gwella'r ymateb cyfan yn sylweddol, gan eu hannog i fod yn fwy ystyriol o iaith, agweddau ac ymarfer. Hefyd, mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig eiriolaeth annibynnol i blant ac oedolion gan lywio'r sbectrwm o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant a helpu i greu ymddiriedaeth rhwng y gwasanaethau hyn a theuluoedd.

Nododd yr Adolygiad Cenedlaethol i farwolaethau trasig Star Hobson ac Arthur Labinjo-Hughes fod yr ymarferwyr yn y gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol wedi dangos dealltwriaeth dda o effaith cam-drin domestig a'r risgiau posibl i blant. Mae'r achosion hyn yn dangos pwysigrwydd cynnwys ymarferwyr arbenigol i wella ymarfer asiantaethau eraill ac i sicrhau bod arbenigedd yn cael ei werthfawrogi ac yn cyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys pan geir pryderon am blant.[451]

Canfu'r Adolygiad Cenedlaethol hefyd na roddwyd sylw na buddsoddiad digonol i sicrhau'r arbenigedd amlasianaethol sy'n ofynnol i gynnal ymchwiliadau ac ymatebion i niwed sylweddol o gamdriniaeth ac esgeulustod.[452] Yn yr un modd, canfu'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant yn 2022 nad oedd tystiolaeth o ymateb amlasiantaethol wedi'i gydlynu i gam-drin domestig. Yn ei bapur ar gam-drin domestig, canfu'r Panel mai prin iawn oedd y gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol y cyfeiriwyd atynt yn yr adolygiadau, ac na wnaeth unrhyw wasanaethau arbenigol ymddangos fel aelodau o baneli adolygu.[453]

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gwasanaethau cam-drin domestig yn cynnal eu hannibyniaeth wrth gydleoli ac ymgysylltu mewn ymateb amlasiantaethol â phartneriaid statudol, gan gynnwys gofal cymdeithasol i blant. Mae annibyniaeth gwasanaeth cymorth yn hollbwysig ac mae'n arbennig o acíwt i'r rhai o gymunedau lleiafrifedig sy'n agored i anghydraddoldeb strwythurol,[454] ac yn enwedig i oroeswyr mudol yn absenoldeb wal dân rhwng gwasanaethau statudol a phrosesau gorfodi o ran mewnfudo.[455]

[451] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022a).
[452] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022a).
[453] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).
[454] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).
[455] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021).

**Felly, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Adran Addysg ariannu'r broses o gydleoli gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol mewn gofal cymdeithasol i blant.**

- **Dylai'r Adran Addysg sicrhau bod yr holl dimau amddiffyn plant amlasiantaethol yn cael eu hysbysu'n llawn o ran cam-drin domestig drwy ganllawiau cadarn, arweinyddiaeth strategol a phrosesau ariannu gwasanaethau cymorth i roi llwybrau atgyfeirio clir i wasanaethau arbenigol annibynnol.**

- **Dylai Ofsted, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi gynnal arolygiadau thematig ar y cyd ddwywaith y flwyddyn o ardaloedd lleol gan ganolbwyntio ar gam-drin domestig, sy'n asesu:**
    - **Y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer:**
        - **Ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, ar yr adeg y caiff hynny ei nodi**
        - **Asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig**
        - **Amddiffyn, cefnogi a gofalu am blant sy'n wynebu risg, neu sydd wedi bod yn destun cam-drin domestig**
        - **Atal plant rhag bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig**
    - **Rhoi lle canolog i leisiau a phrofiadau plant a'r rhiant nad yw'n cam-drin ar draws yr holl brosesau statudol a gwaith amlasiantaethol**
    - **I ba raddau y mae pob asiantaeth wedi'u hysbysu am gam-drin domestig, gan gynnwys gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol a ddarperir a'r hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny**
    - **Prosesau llywodraethu ac arweinyddiaeth strategol o gam-drin domestig o fewn y trefniadau ac o fewn pob asiantaeth**
    - **Ansawdd gwaith â chyflawnwyr cam-drin domestig**

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Bwrdeistref Waltham Forest yn Llundain***

Mae'r model Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig yn Waltham Forest wedi'i ymgorffori'n gryf drwy waith cydlynu'r tîm VAWG sy'n cynnwys wyth aelod o staff sy'n cydlynu amrywiaeth o ddarpariaeth mewn ymateb i VAWG, gan gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol, stelcian a diogelwch stryd i fenywod a merched drwy ddull atal cadarn. Ceir anghydraddoldeb amlwg mewn rhannau gwahanol o'r fwrdeistref, gyda disgwyliad oes saith mlynedd yn uwch yng ngogledd y fwrdeistref. Caiff y timau Safe & Together a VAWG eu llywio gan hyn yn eu dull cyflawni a'r gwaith a wneir ganddynt tuag at leihau anghydraddoldebau. Caiff gwasanaethau arbenigol eu comisiynu i ddarparu eiriolaeth ar gyfer goroeswyr sy'n wynebu risg uchel o niwed. Ceir amrywiaeth o ddarpariaeth gwaith grŵp ar gyfer rhieni a phlant o bob oedran.

Gwneir y gwaith VAWG yn Waltham Forest ar draws y Cyfarwyddiaethau Diogelwch Cymunedol a Cymunedau Cryfach sy'n cydweithio i ymgorffori arfer gorau. Mae'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau Cryfach yn dwyn gwasanaethau Atal, Economi Gynhwysol a Chymunedau ynghyd i leihau anghydraddoldebau, adeiladu gwydnwch a gwella diogelwch cymunedol. Un ffocws allweddol yw rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched (VAWG) drwy ddulliau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ac yn lleihau dibyniaeth ar ymyriadau argyfwng. Drwy ymgorffori ymarfer perthynol a chyd-ddylunio cymunedol, mae'r Gyfarwyddiaeth yn meithrin bwrdeistref fwy diogel a chynhwysol, a ddangosir drwy fentrau fel hyfforddi timau llyfrgelloedd i adnabod arwyddion cam-drin domestig ac ymateb iddynt. Daeth y Gyfarwyddiaeth hon â thimau llyfrgell, Help Cynnar, atal VAWG, cymorth i ffoaduriaid, gofal cymdeithasol i oedolion a sgiliau ynghyd o dan un ambarél i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol, i greu data canlyniadau wedi'u symleiddio, a phlethu negeseuon VAWG ar draws yr holl dimau.

Mae model Safe & Together[456] wedi cyflwyno newid sylfaenol i systemau o ran y modd yr ystyrir achosion gofal cymdeithasol a'r modd yr ymatebir iddynt drwy lens cam-drin domestig. Mae staff gofal cymdeithasol i blant ar draws pob lefel rheoli ac ymarfer yn cwblhau hyfforddiant Safe & Together. Mae dulliau wedi'u haddasu i ymgorffori elfennau ac egwyddorion model Safe & Together a cheir ymgynghoriad ar sail achosion unigol gan y tîm VAWG sydd wedi'i integreiddio'n dda yn yr ymateb gofal cymdeithasol, gyda goruchwyliaeth fanwl a gwaith hwyluso gan y tîm VAWG. Mae ymarferwyr wedi rhannu gwybodaeth y gwelwyd newid yn yr iaith o amgylch rheolaeth drwy orfodaeth ac atebolrwydd cyflawnwyr.[457]

Gosododd tîm VAWG a model Safe & Together y cynsail ar gyfer sut y dylai rhannau eraill o'r system ehangach ryngweithio â'i gilydd drwy lens cam-drin domestig. Caiff rhaglen Lleihau Gwrthdaro Rhwng Rhaglenni (RPC) ei hymgorffori'n fwriadol o fewn Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig Waltham Forest fel y gellir adnabod risgiau ac arwyddion o gam-drin domestig i ddechrau, cyn gwneud unrhyw waith gwrthdaro rhwng rhieni, sy'n dangos arfer da a phwysigrwydd gwasanaethau sy'n ystyriol o VAWG/cam-drin domestig ar gyfer plant a goroeswyr. Yn yr un modd, mae gan Hybiau i Deuluoedd dimau amlddisgyblaethol sydd wedi'u cydleoli gan gynnwys timau cam-drin domestig arbenigol, ac maent yn fannau croesawgar i bob rhiant, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn gwestai i ffoaduriaid yn y fwrdeistref.

Cafodd y cydgyfeirio hwn mewn ymarfer ei groesawu gan weithwyr cymdeithasol plant a siaradodd yn uniongyrchol â'r Comisiynydd ar ei hymweliad. Gwnaethant dynnu sylw at y lefelau eithriadol o uchel o gam-drin domestig yn eu gwaith achosion a'r diffyg hyfforddiant yn eu cwricwlwm gofal cymdeithasol ar gam-drin domestig. Drwy hyfforddiant Safe & Together a thrwy gydweithio'n agos â thimau VAWG a gwasanaethau arbenigol gellir sicrhau eu bod yn gallu adnabod arwyddion cam-drin

[456] Safe & Together Institute (2019).
[457] Kelly, L. a Garner, M. (2022).

domestig a dilyn llwybrau cymorth diogel sy'n ystyriol o gam-drin domestig ar gyfer plant, gan gynnwys diogelu mewnol a gwneud penderfyniadau i ddiogelu plant o fewn eu timau gofal cymdeithasol.

Canfu gwerthusiad annibynnol o fodel VAWG Waltham Forst[458] fod tystiolaeth gref o'r dull Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig a ymgorfforwyd wrth i drigolion, busnesau a gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd gwahanol chwarae eu rolau wrth fynd i'r afael â VAWG a cham-drin domestig. Mae hefyd yn canmol y model symud ac ysgogi cymunedau sy'n gweithio i sicrhau bod pawb yn ystyriol o VAWG a cham-drin domestig. Mae'r gwerthusiad yn arsylwi bod tîm VAWG yn chwarae rôl newidiol drwy sicrhau bod ymatebion yn cael eu cydlynu a bod timau awdurdodau lleol gan gynnwys help cynnar a gofal cymdeithasol i blant yn cynnig ymatebion sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

### 7.4.8. Adnabod Risg

Cyflwynwyd y rhestr wirio adnabod risg Cam-drin Domestig, Stelcian a Cham-drin ar sail 'Anrhydedd' am y tro cyntaf yn 2009 fel dull i ymarferwyr ar draws sawl asiantaeth sy'n gweithio gydag oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig, a chafwyd sawl diweddariad hyd yma. Gofynnir cyfres o gwestiynau i ddioddefwr ar adeg benodol, ac os bydd yn sgorio mwy na nifer penodol, ystyrir ei fod yn wynebu risg uchel a dylid gwneud atgyfeiriad at Marac a rhoi cymorth ar waith, gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (IDVA) gan amlaf. Dylai'r ymarfer sgorio hwn gael ei lywio gan farn a chwilfrydedd proffesiynol, sy'n golygu y gellir gwneud atgyfeiriadau o hyd, hyd yn oed os na fydd yn bodloni'r nifer penodol o feini prawf. Er bod buddiannau'r dull yn helpu i feithrin gwaith amlasiantaethol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodir, caiff ei ddefnyddio'n rhy aml wrth ymateb i achosion a nodwyd o gam-drin domestig ac, felly, nid yw'n llwyddo i nodi'r patrymau risg a gyflwynir gan gyflawnwr.

Yn 2022, cyhoeddodd y Coleg Plismona wybodaeth i randdeiliaid am Asesiad Risg Cam-drin Domestig (DARA) sy'n benodol ar gyfer plismona, gyda'r nod o ddeall patrymau cam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol i oedolion sy'n ddioddefwyr.

Fodd bynnag, mae'r ddau ddull risg hwn yn canolbwyntio ar brofiadau oedolion sy'n ddioddefwyr o gam-drin domestig. Er y dylai DASH a DARA adnabod plant o fewn cartref neu deulu ac annog gweithwyr proffesiynol i gymryd camau diogelu, nid yw'r dulliau yn adlewyrchu profiadau uniongyrchol plant o ddydd i ddydd. Mewn adolygiad o bolisïau cam-drin domestig ar wefannau awdurdodau lleol, dim ond cyfeirio at ddull adnabod risg DASH fel meini prawf trothwy neu atgyfeirio a wnaeth 40.7% o'r polisïau, heb roi rhagor o fanylion na meini prawf ar asesu risg plentyn.[459] O ganlyniad, defnyddir y rhestr wirio DASH fel dull dirprwyol o ganfod risg i'r plentyn. Un o argymhellion yr Adolygiadau o Laddiadau Domestig yw y dylid mabwysiadu DASH i bobl ifanc (DHR162, t66, SCB) fel ffordd o sicrhau bod yr holl ddulliau adnabod yn cael eu cynnig mewn modd therapiwtig a chefnogol gyda phlant.[460] Yn 2015, bu SaveLives yn gweithio mewn partneriaeth â sawl sefydliad i ddatblygu rhestr aros adnabod a chanllawiau ymarfer ar gyfer pobl ifanc,[461] ond nid yw wedi'i diweddaru ers hynny.

Er bod y Comisiynydd yn cydnabod bod angen dulliau sy'n benodol ar gyfer y plentyn, mae'n hanfodol bod unrhyw ddulliau risgiau a chynllunio diogelwch yn adlewyrchu'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd ar blant, ac nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn fframweithiau i oedolion sy'n amhriodol.

---

[458] Vera-Gray, F. et al (2024).
[459] Russell, A. et al (2022).
[460] Chantler, K. et al (2023a).
[461] SafeLives (2015).

### 7.4.9. Marac

Ar adegau o argyfwng, risg uchel a niwed uchel, mae gweithio amlasiantaethol yn hollbwysig. Mae'r Marac yn rhan allweddol o'r ymateb amlasiantaethol mewn achosion o gam-drin domestig. O'r 107,674 o achosion a drafodwyd yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, roedd 134,222 o blant a phobl ifanc yn byw yn y cartrefi hyn, a oedd yn agored i gam-drin domestig risg uchel.[462]

Mae gan yr holl wasanaethau statudol ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ddyletswydd i ddiogelu plant a rhoi gwybod am unrhyw risgiau o niwed i Marac, ynghyd â Hybiau Diogelu Amlasiantaethol. Mae'r data atgyfeirio yn dangos mai'r heddlu sy'n atgyfeirio'r nifer mwyaf o ddioddefwyr a goroeswyr a'u plant at Marac o bell ffordd (63.85%). Er yr amlygrwydd cam-drin domestig mewn llwythi achosion gwaith cymdeithasol, dim ond 2.9% o'r atgyfeiriadau a ddaeth o ofal cymdeithasol i blant, 0.6% o'r Hybiau Diogel Amlasiantaethau a dim ond 0.2% o leoliadau addysg.[463]

Nododd Arweinwyr Diogelu Dynodedig mewn ysgolion a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron y gall Maracs fod yn fforwm defnyddiol i rannu gwybodaeth, a phan gânt eu rhedeg yn dda y gallant helpu i gyflwyno ymateb diogelu cadarn. Fodd bynnag, yn aml ni chaiff athrawon wahoddiad, neu oherwydd capasiti, ni allant fynychu. O ganlyniad, caiff eu mewnwelediad dyddiol i'r plentyn neu berson ifanc sy'n destun cam-drin domestig ei golli, ynghyd â'r cyfle i gael trosolwg strategol ar y teulu cyfan.

Cynllunnir Maracs i lunio ymateb amlasiantaethol cryf ar gyfer oedolion sy'n ddioddefwyr risg uchel. Er y caiff y plant sy'n rhan o'r achosion hyn eu trafod yng nghyd-destun yr oedolyn sy'n ddioddefwr, nid oes system gyfatebol ar gyfer plant a phobl ifanc fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae ymarferwyr a gymerodd ran yng nghyfarfodydd bord gron y Comisiynydd yn nodi, er y gall Marac fod yn effeithiol i oedolyn sy'n ddioddefwr, nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer profiadau plant o gam-drin domestig. Dylai gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol fod yn bresennol bob amser yn Marac, ond eiriolaeth a chynrychiolaeth i'r oedolyn sy'n ddioddefwr yw eu prif rôl, yn aml o ganlyniad i drefniadau comisiynu lleol. Canfu'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant fod heriau o ran rhannu gwybodaeth yn Marac am blant,[464] a pheidio â chysylltu'r risg i'r plentyn â'r risg i oedolion sy'n ddioddefwyr.

Mae bylchau penodol yn Marac a'r broses o reoli achosion risg uchel i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion croestoriadol. Yn y cyfarfodydd bord gron i wasanaethau ‘gan ac ar gyfer’ pobl ddu a lleiafrifedig, nododd ymarferwyr ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion niweidiol, fel Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, a Chamdriniaeth ar sail ‘Anrhydedd’. Argymhellodd ymarferwyr y dylid cynrychioli sefydliadau ‘gan ac ar gyfer’ arbenigol mewn fforymau amlasiantaethol a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r risg ac yr eir i'r afael â ffactorau niwed cudd. Un enghraifft o arfer gorau yw gwaith y Ganolfan Adnoddau i Fenywod Asiaidd, sydd â thempled ar gyfer rhedeg Marac Arferion Niweidiol arbenigol, annibynnol mewn partneriaeth â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Kingston. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i oroeswyr a'u plant ac, yn y tymor hir, mae'n gwella cymhwysedd y fforwm cyfan i ail-gydgyfeirio’r achosion yn y Marac lleol.

Disgrifiodd yr ymarferwyr hefyd ddealltwriaeth wael o ddiwylliant b/Byddar yn Marac, gan effeithio ar eu dealltwriaeth o gyfanrwydd yr achos a'r penderfyniadau a wneir. O ganlyniad, mae'n rhaid i wasanaethau arbenigol nad ydynt wedi cael adnoddau digonol gael gwaith ychwanegol i lenwi'r bylchau, er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion yr oedolyn a'r plentyn sy'n ddioddefwyr. Cyfeiriodd yr ymarferwyr at Marac Leeds fel enghraifft o arfer gorau, am fod ganddynt ddehonglydd,

[462] SafeLives (2024).
[463] SafeLives (2024).
[464] Y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant (2022b).

sy'n sicrhau dulliau cyfathrebu, llif a dealltwriaeth well o weithwyr proffesiynol ac oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr.

Oherwydd cynrychiolaeth wael yn Marac gan wasanaethau 'gan ac ar gyfer' LHDT+ arbenigol (o ganlyniad i bartneriaethau gwael, prinder adnoddau a gwasanaethau), mae lefel y wybodaeth arbenigol yn annigonol. Nododd yr ymarferwyr nad oes gan Marac lawer o gymhwysedd i weithio â phobl LHDT+ ac asesu eu hanghenion, ac o ganlyniad, maent yn anweledig a chaiff eu plant a'u hanghenion penodol eu colli.

Er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i Marac, rhaid diweddaru'r canllawiau er mwyn sicrhau bod prosesau Marac yn adlewyrchu plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Rhaid i'r canllawiau gynnwys protocolau diogel plant er mwyn sicrhau ymateb amlasiantaethol cryfach i'r teulu cyfan. Mae'n hanfodol wrth gynllunio diogelwch bod anghenion y plentyn sy'n ddioddefwr yr un mor ganolog ag anghenion yr oedolyn sy'n ddioddefwr. Dylai gwaith cynllunio diogelwch adeiladu ar strategaethau ymdopi presennol y plentyn, cydnabod a chefnogi dyhead y plentyn i amddiffyn ei riant nad yw'n cam-drin a'i hun, ac adlewyrchu ei gam datblygiadol.[465]

Nododd *Troi'r Fantol*[466], nifer o bryderon ehangach am weithrediad effeithiol Maracs. Mae hyn yn cynnwys nifer mawr o atgyfeiriadau a dim sail statudol sylfaenol, ynghyd â thangynrychiolaeth a gorgynrychiolaeth o wasanaethau a allai ddarparu gwybodaeth bwysig am gyflawnwyr a chymorth iddynt – sy'n hanfodol er mwyn deall a lleihau'r risg sy'n wynebu oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr. Felly, mae'r adroddiad cyfiawnder troseddol yn argymell bod yn rhaid i'r Llywodraeth ymrwymo i gynnal adolygiad system gyfan o fodel Marac ac asesiadau risg DASH, sy'n cynnwys gwella ei dealltwriaeth o blant sy'n ddioddefwyr ac ymateb iddynt.

**Hefyd, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Swyddfa Gartref gynnal adolygiad llawn o ddulliau adnabod risg a Marac, drwy lens system gyfan, gan gynnwys y graddau y caiff anghenion a risgiau plant sy'n ddioddefwyr eu hystyried a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rhaid i hyn ehangu i ymchwil i ddulliau a chanllawiau sy'n benodol i blant a'u datblygu, i asesu risgiau ac anghenion ochr yn ochr â'i gilydd, gydag amrywiadau sy'n briodol i oedran i gwmpasu babanod, plant a phobl ifanc o bob oed.**

Hefyd, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau, ar lefel leol, rhaid i bartneriaid Marac sicrhau bod gwaith amlasiantaethol strategol a gweithredol cryf, prosesau llywodraethu a rhannu gwybodaeth rhwng Marac, Tasgau a Chydgysylltu Amlasiantaethol (MATAC), Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a MASH, lle mae'r rhain yn bodoli, a bod pob asiantaeth yn gwneud ei gwaith o ganlyniad i hynny i sicrhau lle caiff camau gweithredu eu rhoi ar waith i sicrhau newid ar gyfer plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr.

Rhaid i bartneriaid hefyd sicrhau bod cynrychiolaeth reolaidd yng nghyfarfodydd Marac o ofal cymdeithasol i blant, diogelu addysg, diogelu iechyd plant, y gwasanaeth prawf, yr heddlu, tai a'r sector cam-drin domestig arbenigol i gynrychioli'r plentyn yn benodol yn ogystal ag oedolion sy'n ddioddefwyr. Rhaid i'r cynrychiolwyr hyn baratoi ar gyfer Maracs, eu mynychu a chymryd camau gweithredu ohonynt. Dylai pob asiantaeth hefyd gofnodi ei baneri cam-drin domestig a gwaith rheoli achosion ar gyfer Marac.

### 7.5 Gwasanaethau Llety

Gall ffoi o'r cartref fod yn brofiad trawmatig i unrhyw ddioddefwr neu oroeswr cam-drin domestig. Ar gyfer sawl plentyn sy'n ddioddefwr, gall cymhlethdodau a dryswch ychwanegol godi o adael eu cyd-

[465] Winfield, A. et al (2024).
[466] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025a).

destun cymdeithasol a'u hamgylchedd cyfarwydd.[467] Mewn rhai achosion, mae plant yn ystyriaeth eilaidd i wasanaethau llety, a chaiff eu hanghenion eu hystyried ar ôl anghenion y rhiant nad yw'n cam-drin.[468] Fel arfer, mae astudiaethau o ddarpariaeth llochesi wedi cyflwyno plant a phobl ifanc fel grŵp homogenaidd, heb archwilio rhyw lawer i anghenion gwahanol plant a phobl ifanc a'r angen am gymorth hyblyg. Gall y materion hyn fod yn arbennig o acíwt i blant yn eu harddegau.[469][470] Nododd plant yn eu harddegau sy'n byw mewn lleoliadau lloches y byddai'n ddefnyddiol iddynt gael cymorth gan aelod penodol o staff. Fodd bynnag, prin oedd y llochesi oedd yn cael cyllid ar gyfer gweithwyr plant ac nid oedd unrhyw weithwyr penodol ar gyfer plant yn eu harddegau.[471]

Roedd Dyletswydd Llety Diogel Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn gam ymlaen nodedig yn yr ymateb i gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi clywed gan ddioddefwyr a goroeswyr, gwasanaethau arbenigol ac ymarferwyr llinell flaen, mewn rhai ardaloedd, bod awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr cyffredinol, nad ydynt yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig. Mae hyn yn arbennig o siomedig o ystyried bod canllawiau statudol sylfaenol y Ddyletswydd yn nodi'n glir bod yn rhaid diwallu anghenion cymorth plant sy'n byw mewn llety diogel.

### 7.5.1 Plant sy'n cael eu gwrthod rhag cael cymorth a ddarperir mewn llety

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, cafodd 63,950 o unigolion eu cefnogi drwy'r Ddyletswydd Llety Diogel, cynnydd o 13,280 o unigolion, neu 26%, o'r flwyddyn flaenorol.[472] O'r unigolion hynny a gefnogwyd, roedd 24,940, neu 39%, yn blant.[473] Fodd bynnag, yn yr un flwyddyn cafodd 26,870 o gartrefi eu hatgyfeirio at wasanaeth a ddarperir mewn llety ond cawsant eu gwrthod. Mae oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr y gwrthodir cymorth a ddarperir mewn llety diogel iddynt pan fyddant yn e i geisio yn wynebu risg uwch o niwed, oherwydd efallai na fydd ganddynt ddewis arall heblaw dychwelyd at y camdriniwr. Mae'r ffaith eu bod yn methu cael gafael ar gymorth pan fydd ei angen arnynt yn annerbyniol, ac mae'n golygu bod oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr mewn sefyllfa fregus iawn. Yn anffodus, mae'r sefyllfa'n gwaethygu, gan fod y ganran o'r bobl a gafodd eu gwrthod 9% yn uwch yn 2022/23 a 305 yn is yn 2021/22.[474]

Mae'r data a luniwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn dangos y rhesymau pam na allai teuluoedd gael cymorth.

- Ni allai 10,610 (39%) gael cymorth oherwydd cyfyngiadau capasiti
- Ni allai 5,370 (20%) gael cymorth am na allent ddiwallu anghenion y teulu.[475]

Ymysg y rhesymau nodedig dros fethu diwallu anghenion y teulu roedd:

- 580 (11%) oherwydd yr amod Dim Hawl i Gael Arian Cyhoeddus
- 530 (10%) oherwydd anghenion cymorth cyffuriau
- 500 (9%) oherwydd anghenion cymorth alcohol
- 360 (6.7% oherwydd oedran y plentyn/maint y teulu.[476]

Er i 22% o'r gwasanaethau llety a ymatebodd i arolwg y Comisiynydd nodi bod plant yn cael eu gweld o fewn 24 awr, yr amser aros a nodwyd amlaf ar gyfer gwasanaethau llety oedd rhwng un a dau ddiwrnod (52%), sy'n golygu bod bron tri chwarter y plant yn cael eu gweld o fewn dau

[467] Selvik, S. ac Øverlien, C. (2015).
[468] Humphreys, C. et al (2008).
[469] Bracewell, K. et al (2022).
[470] Bracewell, K. et al (2022).
[471] Bracewell, K. et al (2022).
[472]Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024b).
[473] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024b).
[474] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024b).
[475] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024b).
[476] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024b).

ddiwrnod. Fodd bynnag, gwasanaethau llety oedd y math o wasanaeth oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn troi atgyfeiriadau i ffwrdd, gyda bron hanner y gwasanaethau (46%) yn nodi eu bod yn cael mwy o atgyfeiriadau na'r hyn y mae ganddynt y capasiti neu'r cyllid i'w cefnogi.

Byddai adborth gan ymarferwyr yn awgrymu bod y 360 o gartrefi a gafodd eu gwrthod oherwydd oedran y plentyn neu faint y teulu yn dangyfrifiad, a bod yr achosion hyn wedi cael eu nodi o dan y cyfyngiadau capasiti, neu'r categorïau methu diwallu anghenion y teulu. Yn adroddiad diweddar Cymorth i Ferched, *Nowhere to Turn*, o'r teuluoedd a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth, dim ond 27.8% o'r teuluoedd oedd â mwy na thri phlentyn a lwyddodd i gael lle mewn lloches.[477] Gall fod cyfyngiadau i fechgyn yn eu harddegau gael gafael ar lety diogel, gyda brodyr a chwiorydd weithiau'n cael eu gwahanu o ganlyniad i'r rheolau ynghylch eu lleoliad.[478] Er bod diogelwch preswylwyr yn hollbwysig, ni all hyn ddod ar draul plant sy'n ddioddefwyr. Mae angen i bob plentyn, gan gynnwys bechgyn yn eu harddegau, sydd wedi wynebu cam-drin domestig, gael amgylchedd cefnogol a diogel i fyw ynddo. Mae'n hanfodol bod darpariaeth amrywiol a hyblyg i ddiwallu pob angen.

Mae'n hanfodol cael darlun cywir o nifer y plant sydd wedi cael neu heb gael cymorth mewn lleoliadau llety, ac felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:

- **Dylai'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gasglu data gwell ar blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n byw mewn llety diogel.** Dylai hyn gynnwys canlyniadau i blant a theuluoedd, oedrannau plant, y rhesymau pam na ellir cefnogi plant, a'r math o wasanaeth cymorth sy'n benodol ar gyfer plant sydd ar gael yn y llety. Rhaid i hyn gynnwys profiadau bechgyn yn eu harddegau, a'r nifer penodol o blant na ellir eu cefnogi, yn hytrach na dim ond ar lefel cartref.

### 7.5.2 Dyletswyddau Digartrefedd

Oherwydd esgeulustod deddfwriaethol, ni all y rhai sy'n mynd i'w hawdurdod lleol am eu bod yn ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig (ac felly sydd ag angen blaenoriaethol), gael cymorth mewn llety diogel. Os asesir bod gan y dioddefwr neu'r goroeswr angen blaenoriaethol, a bod angen cymorth digartrefedd drwy Ddeddf Tai 1996, yn hytrach, bydd yn gymwys i gael llety dros dro. Mae hyn yn bryder, gan fod gan lety dros dro a ddarperir gan yr awdurdod lleol ofynion addasrwydd gwahanol, fel y nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996, nad yw'n cyd-fynd â'r safonau sy'n ofynnol gan y Ddyletswydd Llety Diogel. Er enghraifft, gall gynnwys llety o fath Gwely a Brecwast, sy'n gwbl anaddas i oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.[479] Nid oes gofyniad chwaith i'r awdurdod lleol ddarparu cymorth i'r oedolyn na'r plentyn sy'n ddioddefwyr os byddant yn aros mewn llety dros dro.

Mae'r Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd yn nodi bod y ddeddfwriaeth digartrefedd yn annibynnol ar y Ddyletswydd Llety Diogel ac mai'r unig beth y mae'n ei awgrymu yw y gall awdurdodau tai fod am ystyried y disgrifiadau o lety diogel perthnasol.[480] Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar yr awdurdodau lleol i wneud hyn.

Yn y set data blynyddol diweddaraf, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, canfu bod prif ddyletswydd tai yn ddyledus i 64,960 o gartrefi.[481] O blith y rhain, roedd gan 4,900 o gartrefi (8%) angen blaenoriaethol am eu bod yn wynebu cam-drin domestig.[482] O fewn yr un set

[477] Cymorth i Ferched (2024b).
[478] Theobald, J. et al (2021).
[479] Dylid nodi bod y Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd yn nodi na ddylai awdurdodau tai ddefnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd â phlant neu fenywod beichiog heblaw lle nad oes opsiwn arall ar gael, ac yna dim ond am uchafswm cyfnod nad yw'n fwy na chwe wythnos. Lle caiff ei ddefnyddio, dylai ystyried cynllun i leihau'r defnydd a wneir ohono neu roi'r gorau i'w ddefnyddio.
[480] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2018).
[481] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024a).
[482] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024a).

ddata, gwelwyd cynnydd o 14.7% yn nifer y cartrefi â phlant sydd mewn llety dros dro i 74,530.[483] O ystyried y niferoedd hyn, bydd nifer eithriadol o uchel o blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n byw mewn llety dros dro anaddas, heb gael unrhyw gymorth am eu profiadau. Mae hyn yn esgeulustod difrifol, ac mae'n rhaid iddo gael ei unioni gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n ddioddefwr yn gallu byw mewn lleoliadau llety diogel, a chael gafael ar gymorth. Barn y Comisiynydd yw y dylai cartrefi a wnaed yn ddigartref oherwydd cam-drin domestig barhau i gael llety o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd, ond bod unrhyw lety dros dro a ddarperir yn cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Llety Diogel.

**Felly, fel cam cyntaf, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ystyried cynlluniau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth digartrefedd er mwyn newid y diffiniad o lety dros dro, ar gyfer cartrefi y canfuwyd bod ganddynt angen blaenoriaethol oherwydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig, i adlewyrchu'r diffiniad o lety diogel a geir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig (2011).**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol sicrhau bod oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr sy'n byw mewn llety dros dro yn cael eu cynnwys yn nata'r Ddyletswydd Llety Diogel, ar deuluoedd na ellid eu cefnogi mewn llety diogel, i sicrhau dull cywir o fesur maint y broblem. Ar hyn o bryd, nid yw'r teuluoedd hyn yn cael eu cynnwys yn y data, sy'n dangyfrifiad sylweddol.**

### 7.5.3 Cymorth mewn gwasanaethau a ddarperir mewn llety

Er gwaethaf gwerth ymyriadau mewn llochesi i blant sydd wedi profi cam-drin domestig,[484] mae prinder cymorth o hyd.

Cafodd un rhan o bump o'r gwasanaethau arbenigol i blant a nodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau eu cofnodi fel rhai a ddarperir mewn llety, o gymharu â 28% a nodwyd gan gomisiynwyr. Mae gwasanaethau llety yn cael symiau cyllid uwch na gwasanaethau yn y gymuned (er bod y gwariant cyffredinol ar wasanaethau yn y gymuned yn uwch gan fod mwy ohonynt). Yn seiliedig ar ymatebion i'n harolwg, roedd y symiau cyllid a roddwyd ar gyfer gwasanaethau cymorth a ddarperir mewn llety i blant a nodwyd gan gomisiynwyr gwasanaeth a ymatebodd yn amrywio'n sylweddol o £2,500 i £4.5 miliwn gyda chyfartaledd canolrifol o £41K y flwyddyn. Er nad ydynt mor fregus â gwasanaethau yn y gymuned, mae'r gwasanaethau hyn yn wynebu'r un problemau cyllid â'r sector cyfan. Dywedodd 11 o sefydliadau darparu gwasanaethau eu bod wedi cau gwasanaeth cymorth a ddarperir mewn llety ar gyfer plant yn ystod y pum mlynedd diwethaf am resymau yn ymwneud â chyllid.[485]

---

[483] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024a).
[484] Copping, V.E. (1996).
[485] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2025b).

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Harbour Support Services, Gogledd-ddwyrain Lloegr***

Gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol yw Harbour Support Services, a leolir mewn ardaloedd amrywiol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Mae Harbour Support Services yn darparu llety diogel ar ffurf darpariaeth lloches ac unedau gwasgaredig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant, ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau allgymorth.

Mae gan Harbour Support Services ddull i'r teulu cyfan ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau at eu gwasanaethau. Caiff anghenion yr holl deulu, gan gynnwys brodyr a chwiorydd a rhieni/gofalwyr eu hasesu. Mae amrywiaeth o raglenni cymorth pwrpasol, therapiwtig ar gael i blant a phobl ifanc rhwng 3 a 18 oed, gan gynnwys sesiynau unigol a gwaith grŵp.

Yn Durham, mae Harbour Support Service a thîm Cymorth Cynnar Cyngor Durham yn darparu rhaglen Domestic Abuse, Recovering Together (DART) yr NSPCC [486]i famau a'u plant. Bydd Harbour Support Services yn gweithio gyda'r plentyn a'r oedolyn cyn iddynt fynd i sesiynau DART lle caiff cymorth ei ddarparu drwy raglenni pan nodir anghenion gofal a chymorth ychwanegol. Mae'r pecyn hwn o gymorth a dull cyfannol yn hanfodol i lwyddiant DART. Drwy DART, bydd mamau a'u plant yn cwrdd mewn sesiwn grŵp dwy awr o hyd bob wythnos dros gyfnod o 10 wythnos. Ar ddechrau'r sesiwn, bydd plant a'u mamau yn cydweithio am awr ac yna'n cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn grwpiau gwahanol. Ar ddiwedd pob sesiwn, maent yn dod at ei gilydd unwaith eto.

[486] NSPCC (n.d.a).

### 7.5.4 Profiad o ddydd i ddydd o wasanaethau a ddarperir mewn llety i blant a phobl ifanc

Rhaid i wasanaethau a ddarperir mewn llety ystyried anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw mewn llety diogel o ddydd i ddydd, a'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion, gan sicrhau diogelwch yr holl breswylwyr. O ystyried y tarfu a'r dadrymuso posibl a deimlir gan blant oherwydd y newidiadau (annisgwyl yn aml) i'w trefniadau byw, mae'n bwysig bod cyfleoedd iddynt gymryd rhan a mynegi eu barn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn gwasanaethau a ddarperir mewn llety, er nad yw hyn yn digwydd yn ymarferol fel mater o drefn.[487]

Yn astudiaeth Bracewell, mae plant hŷn mewn llochesi wedi disgrifio eu bod yn teimlo'n gaeth ac nad oes ganddynt annibyniaeth.[488] Ymysg y cyfyngiadau roedd peidio â chael allwedd, mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd,[489] cyrffiw a pheidio â chael gadael yr eiddo.[490] Er bod llawer o lochesi yn cynnwys gofodau cymdeithasol yn benodol ar gyfer plant ifanc, prin oedd y gofodau cymunedol penodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau (heb oruchwyliaeth) a oedd yn effeithio ymhellach ar eu hymdeimlad o annibyniaeth.[491] Amherir ar breifatrwydd pobl ifanc yn eu harddegau gan fod angen iddynt rannu ystafell wely â'u brodyr a'u chwiorydd a'u rhiant, a'r ymdeimlad bod staff y lloches yn tarfu ar eu bywydau.[492]

Roedd mynediad annigonol i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd yn cyfrannu at y teimladau o arwahanrwydd am ei fod yn cyfyngu ar gyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol â chyfoedion drwy'r cyfryngau cymdeithasol, adloniant a gwaith ysgol.[493] Er bod cyfyngiadau ar fynediad i'r rhyngrwyd yn cael eu cyflwyno i leihau risg, dylai polisïau sicrhau safbwynt cytbwys o allu plant hŷn i asesu eu risg eu hunain ac i ddefnyddio strategaethau diogelwch ar-lein.[494] Fodd bynnag, yn fwy cadarnhaol, mae pobl ifanc yn eu harddegau hefyd yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle a gynigir gan wasanaethau a ddarperir mewn llety i gwrdd â phobl ifanc eraill sydd â phrofiadau tebyg.[495]

Ar addysg plant a phobl ifanc mewn llety diogel y gwelir yr effaith fwyaf. Ar gyfer llawer o bobl ifanc yn eu harddegau, mae'r ysgol yn cynnig ymdeimlad o bwrpas, teimladau o berthyn, ffynhonnell gadarnhaol o hunaniaeth a sylfaen diogel, a all gael ei golli oherwydd yr angen i adleoli.[496] Ar gyfartaledd, mae pobl ifanc yn eu harddegau yn treulio 13.8 wythnos allan o addysg.[497] Ymysg y rhesymau dros hyn mae problemau trafnidiaeth i ysgolion mewn ardaloedd eraill, prinder llefydd mewn ysgolion yn lleol, oedi wrth gofrestru a phryderon lles.[498] Er mwyn cynnal cyfeillgarwch ac ymdeimlad o normalrwydd, mae llawer o blant yn awyddus i barhau i fynd i'r un ysgol.[499] Fodd bynnag, gall hyn olygu teithiau hir i'r ysgol, gadael y lloches yn gynnar a dychwelyd yn hwyr, ynghyd â phryderon diogelwch ynghylch ymwybyddiaeth y cyflawnwr o leoliad yr ysgol. Gall byw mewn llety diogel hefyd greu anawsterau ymarferol wrth gwblhau gwaith cartref, oherwydd prinder cyfarpar priodol, gofodau tawel, cyfrifiaduron a mynediad i'r rhyngrwyd.[500] Gall hyn ddwysáu pryderon plentyn am ei lwyddiant academaidd, a'i allu i ragweld y dyfodol a sicrhau diogelwch ariannol.[501]

Nododd gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' brinder cronig o ddarpariaeth lloches arbenigol a all ddiwallu anghenion croestoriadol oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr.[502] Mae angen mwy o lochesi arbenigol i bobl ddu a lleiafrifedig, yn ogystal â mwy o wasanaethau sy'n diwallu anghenion

---

487 Bracewell, K. et al (2022).
488 Bracewell, K. et al (2022).
489 Bracewell, K. et al (2022).
490 Gregory, K. et al (2021).
491 Bracewell, K. et al (2022).
492 Bracewell, K. et al (2022).
493 Bracewell, K. et al (2022).
494 Bracewell, K. et al (2022).
495 Bracewell, K. et al (2022).
496 Shepherd, C. et al (2010).
497 Bracewell, K. et al (2022).
498 Thunberg, S. et al (2024).
499 Bracewell, K. et al (2020).
500 Bracewell, K. et al (2020).
501 Bracewell, K. et al (2020).
502 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022a).

dioddefwyr a goroeswyr nad oes unrhyw gyllid cyhoeddus ar gael iddynt. Mae'r Comisiynydd wedi nodi mwy o fanylion yn *Safety Before Status: The Solutions.*[503]

Disgrifiodd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron i bobl LHDT+ fod bwlch systemig mewn darpariaeth, ac mai prin iawn oedd y llefydd i ddioddefwyr a goroeswyr LHDT+ sydd â phlant mewn llochesi – sy'n creu rhwystr i oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr rhag ffoi rhag camdriniaeth. Gan edrych yn benodol ar anghenion pobl ifanc – nododd lloches Loving Me Trans fod 80% o ddefnyddwyr eu gwasanaeth rhwng 18 a 21 oed ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mai'r cyflawnwr oedd rhiant neu aelod o deulu'r person ifanc. Mae prinder lle yn golygu bod llawer o ddioddefwyr LHDT+ ifanc yn cael eu gorfodi i fyw mewn llety dros dro anaddas, fel llety a rennir, hosteli neu lety gwely a brecwast, sy'n aildrawmateiddio. Nododd ymarferwyr fod y bobl ifanc hyn yn gorfod aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir o amser oherwydd yr opsiynau i symud ymlaen, felly yn hytrach na dewis byw gydag oedolion sy'n cynnig llety amgen iddynt, sy'n cynyddu'r siawns y cam-fanteisir arnynt neu wynebu camdriniaeth bellach. Yr ateb yw ehangu'r ddarpariaeth o lochesi a llety gwasgaredig, ynghyd â chymorth wedi'i deilwra'n arbenigol ar gyfer pobl ifanc LHDT+.

Prin iawn oedd yr opsiynau i fenywod a phlant b/Byddar, ac anaml iawn y bydd llochesi'n gallu diwallu eu hanghenion iechyd a diogelwch. Caiff oedolion a phlant b/Byddar eu cyfyngu ymhellach rhag manteisio ar loches, oherwydd prinder lle ysgolion arbennig i ddiwallu anghenion addysgol y plentyn.

Nid dim ond cael gafael ar loches a nodwyd gan yr arbenigwyr 'gan ac ar gyfer', ond hefyd y cymorth a gynigir wrth gael mynediad i loches. Pan gaiff plant sy'n ddioddefwyr eu rhoi mewn lloches, yn aml, bydd gwasanaethau statudol yn cau achosion am eu bod yn teimlo y gall y lloches gymryd drosodd a diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc. O ganlyniad, mae'r ymyriad gofal cymdeithasol sydd ei angen yn cymryd mwy o amser neu'n cael ei wrthod am fod y plentyn mewn lloches. Yn yr un modd, pan fydd teuluoedd yn croesi ffiniau awdurdodau lleol i gael llety diogel, efallai na chaiff yr achos ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol newydd – gall fod angen i awdurdodau lleol gael asesiad newydd, a allai fod aildrawmateiddio'r plentyn sy'n ddioddefwr. Roedd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron yn argymell y dylid comisiynu gwasanaethau plant a gweithwyr plant a theuluoedd fel rhan safonol o'r gwasanaeth mewn lloches.

**Felly, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gynnal adolygiad o'r Ddyletswydd Llety Diogel a'r ymateb i blant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig, gan gynnwys y mathau o gymorth sy'n benodol i blant a gynigir mewn llety diogel, sut y gellir ehangu'r cymorth hwnnw a'r rhesymau pam y caiff plant eu gwrthod, ynghyd â phrofiadau bechgyn yn eu harddegau sy'n cael gafael ar gymorth yn benodol.**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gaffael safbwyntiau a phrofiadau plant mewn llety diogel yn eu hasesiadau o anghenion, ffurflenni monitro data a strategaethau ac ymrwymo i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu cynrychioli**.

[503] Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2022c).

## 8.0 PENNOD WYTH – GWELLA A CHYMORTH PARHAUS

Mae gwasanaethau gwella yn hanfodol i roi'r cyfle i blant a'u rhieni wella gyda'i gilydd ac atgyfnerthu'r ymlyniad rhyngddynt. Gall hyn gynnwys strategaethau ymdopi, gwybodaeth ymarferol a'r sgiliau i gefnogi plant i wella ac i wneud synnwyr o'r gamdriniaeth a brofwyd ganddynt.[504] Hefyd, mae eu hymdeimlad o ddiogelwch yn gwbl greiddiol i'w proses wella.[505]

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Acorns, Gogledd Tyneside a Northumberland***

Mae Acorns yn sefydliad annibynnol, arbenigol sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi teuluoedd y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, gan gynnwys cwnsela cyfannol a gwaith gwella i blant a phobl ifanc. Mae'r holl wasanaethau a systemau sefydliadol a staff yn ystyriol o drawma. Mae Acorns yn gweithredu ar egwyddorion allweddol, gan gynnwys dewis a dull 'Un Drws, Sawl Ystafell', sy'n sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y pŵer i ddewis pa wasanaethau yr hoffent gael gafael arnynt a phryd, yn hytrach na bod yn gyfeiriol ynghylch beth y gallant i gael ai peidio. Gall plant ddewis y math o gymorth sydd ei angen arnynt, ac a fyddant yn cael gafael ar y cymorth hwn ar eu pen eu hunain, gyda'u brodyr a'u chwiorydd a/neu gyda'u rhiant nad yw'n cam-drin. Mae drws agored a gall teuluoedd gael cymorth cyhyd ag y bydd ei angen arnynt neu ddychwelyd ar ôl cyfnod o amser os bydd angen cymorth ychwanegol.

Mae Acorns yn cynnig amrywiaeth o ymyriadau therapiwtig i blant, cymorth iechyd meddwl, cymorth argyfwng i'r rhai sy'n ei ddewis, rhaglenni gwaith grŵp a gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau. Mae hefyd yn cynnig gwaith ymgysylltu â rhieni a chwnsela i rieni, ynghyd ag eiriolaeth i rieni sy'n mynd drwy'r broses amddiffyn plant.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn ariannu Acorns i wneud gwaith gwella i blant sy'n destun cam-drin domestig ers y 10 mlynedd diwethaf. Mae Acorns hefyd yn cael cyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sydd wedi sicrhau y gall y cyllid fod yn hyblyg yn dibynnu ar yr angen.

### 8.1 Cymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, gall profiad o gam-drin domestig effeithio ar iechyd meddwl plentyn neu berson ifanc ac i rai plant bydd hefyd angen rhyw fath o driniaeth ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl. Ar gyfer plant sy'n destun trawma, ymyriadau iechyd meddwl a gaiff eu haddasu i'w hanghenion, sy'n rhoi ymreolaeth, rheolaeth a dewis iddynt yw'r rhai mwyaf buddiol.[506] Pan fydd gan blant sydd wedi profi cam-drin domestig angen iechyd meddwl penodol (gan gydnabod na fydd hyn yn berthnasol i bob plentyn), CAMHS ddylai fod yn y sefyllfa orau i gynnig cymorth clinigol wedi'i dargedu i ddiwallu'r anghenion hynny.

Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n ceisio cymorth iechyd meddwl gan CAMHS yn wynebu dau rwystr allweddol rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt: Anallu CAMHS i fodloni'r galw cyffredinol a diffyg ymwybyddiaeth o gam-drin domestig.

Mae'r galw cynyddol am CAMHS yn golygu na all y rhan fwyaf o wasanaethau gyrraedd y lefelau sydd eu hangen. Mae teirgwaith yn fwy o blant yn cysylltu â gwasanaethau meddwl o gymharu â saith blynedd yn ôl ond nid yw nifer y meddygon a gyflogir o fewn CAMHS wedi cynyddu yn unol â hynny.[507] Dangosodd data Insights SafeLives 2022/23, er bod gan 65% o bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau partner bryder iechyd meddwl a nodwyd pan gawsant eu derbyn, dim ond 11% oedd

[504] Stylianou, A.M. et al (2022).
[505] Morrison, F. (2024).
[506] Ellinghaus, C. et al (2021).
[507] Cymdeithas Feddygol Prydain (2024).

yn cael cymorth gan CAMHS a dim ond 4% arall oedd wedi ymgysylltu â CAMHS wrth adael.[508] Nododd y rhai a gymerodd ran mewn cyfarfodydd bord gron fod rhestrau aros eithriadol o hir ar gyfer CAMHS a mathau eraill o gymorth iechyd meddwl, a gwnaethant ddisgrifio'r modd y mae atgyfeiriadau yn aml yn cael eu gwrthod oherwydd y trothwyon uchel ar gyfer cymorth a meini prawf cymhleth neu lym.[509]

Dangosodd dadansoddiad o feini prawf atgyfeirio CAMHS a gynhaliwyd yn 2018 fod rhai darparwyr yn eithrio plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae problemau rhwng y rhieni, gan gynnwys plant sy'n destun cam-drin domestig, gan nodi y dylai gwasanaethau eraill ddiwallu eu hanghenion.[510] Yn hyn o beth, mae risg mewn rhai ardaloedd y bydd plant â sawl bregusrwydd yn syrthio rhwng y bylchau ac na fyddant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt – er gwaethaf y ffaith bod cymorth iechyd meddwl arbenigol yn hanfodol ar gyfer y boblogaeth hon o blant.

Fel arfer, cynhelir asesiadau CAMHS i blant a phobl ifanc gyda'u rhiant/gofalwr oni fydd y plentyn yn gwneud cais fel arall. Ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, efallai na fydd hyn yn briodol bob amser ac, felly, mae'n hanfodol bod yr asesiad yn ystyried hyn a bod y plant yn cael eu hasesu mewn ffordd sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

O ystyried cyffredinrwydd cam-drin domestig, mae'r Comisiynydd yn glir bod yn rhaid i gymorth CAMHS fod ar gael i bob plentyn sy'n ddioddefwr cam-drin domestig sydd â chyflwr iechyd meddwl, ni waeth ble y mae'n byw. Yn ogystal ag atgyfnerthu gallu ac adnoddau, rhaid i ymarferwyr CAMHS allu deall y gwahaniaeth rhwng cyflyrau iechyd meddwl clinigol ac ymatebion i drawma, a sut mae'r ddau yn rhyngweithio. Mae angen i ymarferwyr gael eu huwchsgilio i gefnogi plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, sydd hefyd ag angen iechyd meddwl croestoriadol, fel y gallant gael triniaeth briodol i gefnogi anghenion y plentyn yn y ffordd orau.

Dangosodd astudiaeth ddiweddar o brofiad plant sy'n destun cam-drin domestig o driniaeth CAMHS fod plant yn ei chael hi'n anoddach ymgysylltu mewn triniaeth a'u bod yn ei chael hi'n anodd datgelu camdriniaeth sy'n mynd rhagddi, am eu bod yn ofni canlyniadau datgeliad o'r fath. Roedd plant o'r farn bod eu profiad o CAMHS yn ddryslyd, ac roedd ganddynt safbwyntiau cymysg am ran rhieni yn y driniaeth, gyda phrofiadau cymysg o sesiynau ar y cyd.[511]

Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at yr angen am ddull sy'n fwy ystyriol o gam-drin domestig gan CAMHS, er mwyn helpu i leddfu nerfusrwydd, egluro beth i'w ddisgwyl a sicrhau gwybodaeth well cyn yr ymyriad ar gyfer y plentyn a'i riant nad yw'n cam-drin. Mae'n argymell y dylid cynnwys gwaith therapiwtig i wella llesiant y plentyn, a phwysleisiodd bwysigrwydd bod plant yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, a'u bod yn gallu gweld therapydd cyson. Ymhellach, mae'n hanfodol bod CAMHS yn mynd ati fel mater o drefn i asesu diogelwch y plentyn, i asesu risg ac i archwilio os bydd amharodrwydd y plentyn i ymgysylltu mewn therapi neu sesiynau ar y cyd am ei fod yn ofni y bydd y cyflawnwr yn dial arno neu'n parhau i'w gam-drin. [512] Mae hefyd yn hanfodol bod ymarferwyr CAMHS yn cael eu hyfforddi ac yn teimlo'n hyderus i atgyfeirio plant, gyda'u cysyniad, yn uniongyrchol i wasanaethau cam-drin domestig lleoli i gael cymorth parhaus, yn hytrach na chyfeirio'n unig.

[508] SafeLives (2023a).
[509] Crenna-Jennings, W. a Hutchinson, J. (2020).
[510] Y Sefydliad Polisi Addysg (2018).
[511] Onsjö, M. et al (2023).
[512] Onsjö, M. et al (2023).

**ASTUDIAETH ACHOS**

***Standing Together Against Domestic Abuse (STADA): Prosiect Iechyd Crossing Pathways***

Cyflwynodd STADA y dull 'Iechyd Cyfan' at gam-drin domestig, sy'n cydnabod yr angen am ddull systemig i ymateb i gam-drin domestig ar draws yr economi iechyd. Mae STADA wedi gweithio'n lleol ac yn genedlaethol i gydlynu ymateb partneriaid iechyd i gam-drin domestig dros y ddau ddegawd diwethaf. Llywiodd y wybodaeth hon a'r profiad hwn eu prosiect cydweithio cenedlaethol, Pathfinder, a chafodd yr argymhellion eu cynnwys yng Nghanllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig 2021.

Nod Prosiect Iechyd Cyfan Crossing Pathways, a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref rhwng 2023 a 2025, oedd gwella ymyriadau cam-drin domestig mewn lleoliadau gofal iechyd i gefnogi poblogaeth amrywiol o gleifion ac, yn benodol, grwpiau sy'n agored i niwed sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf wrth ddatgelu camdriniaeth neu wrth gael gafael ar wasanaethau, fel menywod anabl, grwpiau ethnig leiafrifol a menywod a phlant mudol. Cwblhaodd y prosiect broses i fapio ymatebion sy'n seiliedig ar iechyd mewn perthynas â cham-drin domestig ledled Lloegr, gan gynnwys comisiynu darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer grwpiau cleifion sy'n agored i niwed a datblygu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

***Ymarferwr Cam-drin Domestig CAMHS – Swydd Stafford***

Cafodd y Gwasanaeth Cam-drin Domestig New Era ei ariannu drwy grant gan Standing Together Against Domestig Abuse i gyflwyno cynllun peilot 12 mis (a ddaeth i ben ym mis Medi 2024), gan roi ymarferwr cam-drin domestig yng ngwasanaeth CAMHS Ymddiriedolaeth GIG Gyfunol gogledd Swydd Stafford, mewn ymateb i'r angen i angen pobl ifanc y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt yn cael eu trosglwyddo'n ôl ac ymlaen rhwng y gwasanaeth CAMHS a gwasanaeth New Era i blant a phobl ifanc.

Cafodd yr ymarferwr ei integreiddio yn nhri safle CAMHS yng Ngogledd Swydd Stafford i roi hyfforddiant, cyngor ac ymgynghoriaeth i gydweithwyr CAMHS er mwyn gwella llwybrau atgyfeirio a phrosesau cydweithio rhwng y ddau wasanaeth ac uwchsgilio ymarferwyr CAMHS i adnabod plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt ac ymateb yn effeithiol iddynt. Daeth yr ymarferwr yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer staff CAMHS ar gyfer ymholiadau am gam-drin domestig a gwneud atgyfeiriadau i New Era. Roeddent hefyd yn mynd i gyfarfodydd brysbennu a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i roi ymgynghoriaeth a chyngor, yn aml ar faterion cymhleth. Cafodd hyfforddiant ei ddarparu yn y tri safle ac yn yr ymddiriedolaeth iechyd meddwl ehangach a'r partneriaid cysylltiedig sy'n darparu cymorth i bobl ifanc.

Cafodd yr ymarferwr wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o'r modd yr oedd y gwahanol safleoedd yn brysbennu ac yn rheoli atgyfeiriadau pan fydd cam-drin domestig yn ffactor. Llwyddodd y broses o gyflwyno arsylwadau a phryderon i ddylanwadu ar newidiadau allweddol i broses CAMHS, gan arwain at brosesau brysbennu ac atgyfeirio ymlaen mwy effeithiol a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc. Uwchsgiliodd yr ymarferwr staff New Era ar y gwasanaethau a ddarperir gan CAMHS, trothwyon a'r broses atgyfeirio, a arweiniodd at atgyfeiriadau symlach i CAMHS. Cafodd y prosiect adborth cadarnhaol cyson gan gydweithwyr CAMHS am y gwerth uchel roeddent yn ei roi i gydleoli ac arbenigedd yn y tîm. Mae'r Ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i ehangu'r peilot i fis Mawrth 2025.

**8.2 Cymorth therapiwtig yn y gymuned**

Pan fydd plentyn wedi wynebu cam-drin domestig, ond mae ganddo gyflwr iechyd meddwl hefyd, dylid darparu cymorth drwy wasanaeth CAMHS sy'n ystyriol o gam-drin domestig. Pan fydd angen i blentyn gael cymorth therapiwtig o ganlyniad i gam-drin domestig, dylai gael ei ddarparu gan wasanaeth arbenigol yn y gymuned. Mae'r ddau fath hyn o wasanaeth yn rhan hollbwysig o'r ymateb lleol i gam-drin domestig a rhaid iddynt gael eu hariannu fel y gallant ateb y galw a diwallu anghenion unigol plant.

Yn ogystal ag atgyfnerthu gallu ac adnoddau CAMHS, nododd y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron a gynhaliwyd gan y Comisiynydd yr angen am ymyriadau therapiwtig yn y gymuned sy'n briodol i oedrannau plant sy'n destun cam-drin domestig. Pan fydd plant wedi profi cam-drin domestig, ond nad oes ganddynt gyflwr iechyd meddwl, mae'n well bod gofal a chwnsela therapiwtig i helpu'r plant i wella o'u profiadau yn cael eu darparu gan wasanaethau cymorth arbenigol yn y gymuned, sy'n gallu darparu cymorth penodol wedi'i deilwra i blant sy'n ddioddefwyr. Mae gwasanaethau yn y gymuned yn darparu amrywiaeth o fathau o ymyriadau, o ofal therapiwtig i gynllunio diogelwch ac asesu risgiau. Felly, mae'n hanfodol bod amrywiaeth o opsiynau ac ymyriadau mewn ardal leol, fel y gellir atgyfeirio plentyn at y gwasanaeth(au) gorau ar ei gyfer.

Mae mynediad ac aros am gymorth yn rhwystr eang i broses wella plant. Fel gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n ymateb i arolwg y Comisiynydd, yr amser aros a nodwyd amlaf ar gyfer y gwasanaethau gwella oedd rhwng un a thri mis (42% o wasanaethau gwella). Dywedodd dwy ran o dair o wasanaethau gwella hefyd bod yn rhaid iddynt roi plant ar restrau wrth gefn neu restrau aros ychwanegol.
Er nad i'r un graddau â gwasanaethau a ddarperir mewn llety, roedd gwasanaethau gwella yn fwy tebygol na gwasanaethau eraill o gael mwy o atgyfeiriadau na'r hyn y mae ganddynt y gallu a'r adnoddau neu'r cyllid i'w cefnogi, gyda 30% yn nodi eu bod yn gwrthod atgyfeiriadau.

Bydd gwella argaeledd gwasanaethau yn y gymuned yn galluogi ymyriadau a chymorth cynharach i blant cyn iddynt gyrraedd argyfwng iechyd meddwl a bod angen triniaeth fwy eang.

**Felly, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ariannu cwnsela a chymorth therapiwtig i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig o fewn gwasanaethau arbenigol yn y gymuned.**

- **Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wella gallu CAMHS i ddeall ac ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig sydd ag anghenion iechyd meddwl a sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol CAMHS ddealltwriaeth gadarn o gam-drin domestig.**

## 8.3 Ymyriadau i'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin

Un math o ymyriad yw un sydd ar gyfer y plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin. Er bod angen mwy o gysondeb wrth fesur canlyniadau,[513] mae tystiolaeth yn dangos y gall ymyriadau sydd â'r nod o ailadeiladu'r berthynas rhwng y plentyn a'i riant nad yw'n cam-drin ei helpu i wella ar ôl cam-drin domestig.[514] Mae'r ymyriadau hyn (sydd ar gyfer mamau sy'n ddioddefwyr) yn cydnabod y bydd cyflawnwyr camdriniaeth yn aml yn tanseilio'r berthynas rhwng y fam a'r plentyn yn fwriadol, a fyddant, o ganlyniad, yn ei chael hi'n anodd trafod yr hyn y maent wedi'i brofi gyda'i gilydd.[515] Fel arfer, mae'r ymyriadau grŵp hyn yn annog y fam a'r plentyn i wneud gweithgareddau gyda'i gilydd a hefyd i siarad â mamau a phlant eraill yn eu grwpiau cyfochrog ar wahân eu hunain am brofiadau plant o gam-drin domestig. Mae hyn yn helpu plant i ddeall eu teimladau ac yn helpu mamau i helpu eu plant i wella.[516]

Roedd y broses o gomisiynu'r math hwn o wasanaeth yn amrywio'n sylweddol, gyda symiau cyllid a nodir gan gomisiynwyr a gymerodd ran yn ein harolwg yn amrywio o £6,398 i £670,000, gyda'r swm canolrifol yn £92,000.

## 8.4 Ymyriadau Newid Ymddygiad

Yn aml, bydd gan blant sy'n destun cam-drin domestig deimladau cymhleth tuag at y cyflawnwr, sy'n deillio o fod am amddiffyn y rhiant nad yw'n cam-drin a'i gadw'n ddiogel, a ph'un a yw am gael cyswllt â'r person hwnnw. Mae ymchwil wedi canfod bod cyflawnwyr, fel arfer, yn ei chael hi'n anodd cydnabod effaith eu camdriniaeth ar eu plant.[517] Anaml y bydd llawer o gyflawnwyr yn cydnabod bod eu plant wedi profi'r gamdriniaeth a gyflawnwyd tuag at y rhiant arall.[518]

Pan fydd cyflawnwyr yn cydnabod yr effaith ar eu plant, gall hyn eu hysgogi i newid eu hymddygiad, a gall cymryd rhan mewn rhaglenni newid ymddygiad a rhianta leihau'r lefelau cam-drin tuag at oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr.[519] Fodd bynnag, pan fydd cyflawnwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen rianta yn unig, heb fynd i'r afael â'u hymddygiad camdriniol eu hunain, fel cofrestru ar gyfer ymyriad i gyflawnwyr, gall y cyflawnwr gael ei rymuso'n fwy yn ei rôl fel rhiant, a defnyddio hyn fel dull i barhau i gam-drin, gorfodi a rheoli ei gynbartner, ar ôl iddynt wahanu. Canfu Gřundělová a Stankova, pan na fydd cyflawnwyr sy'n cymryd rhan mewn ymyriad yn ymgysylltu fel treiswyr, ac nad eir i'r afael â'r angen i roi terfyn ar y trais, y byddai'r bai a'r cyfrifoldeb yn aros gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin.[520] Nodir perygl hyn – ac ymarfer presennol – ym Mhennod 6 sy'n sôn am y rhaglen Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni.

Felly, mae'n hanfodol bod asiantaethau yn deall y rhyng-gysylltiad rhwng cam-drin domestig, rhaglenni rhianta a rhaglenni i gyflawnwyr, cyn cynnig cyswllt rhwng y cyflawnwr a'r plentyn. Ymhellach, mae'n hanfodol, ochr yn ochr â newid ymddygiad â chyflawnwr, yr eir i'r afael ag anghenion therapiwtig plant a bod gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig ar gael, er mwyn helpu plant i wneud synnwyr o'u teimladau tuag at y cyflawnwr a'r trefniadau cyswllt. Rhaid i wasanaethau statudol gydweithio er mwyn deall anghenion, dyheadau a llais y plentyn wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Nid yw'n syndod bod cysylltiad rhwng gallu plant i deimlo'n ddiogel ac i wella â gostyngiad yn y gamdriniaeth gan y rhiant sy'n cam-drin.

513 Howarth, E. et al (2015).
514 Smith, E. et al (2015).
515 Humphreys, C. et al (2006).
516 Morrison, F. (2024).
517 Stanley, N. (2011).
518 Stanley, N. (2011).
519 Stanley, N. et al (2009).
520 Gřundělová, B. a Stanková, Z. (2018).

**Felly, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Swyddfa Gartref ariannu darpariaeth gynhwysfawr o ymyriadau newid ymddygiad ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig.**

### 8.5 Llys Teulu

*"Dylai plant allu gwneud eu dewisiadau eu hunain. Ni ddylai'r llys orfodi plant i gael cyswllt â'u rhieni os nad ydynt yn dymuno hynny."*
Cerdyn post, plentyn oedran ysgol uwchradd

*"Dylai plant gael mwy o ddylanwad o ran pwy maent am gael cyswllt â nhw ai peidio."*
Poster a luniwyd gan blant oedran ysgol uwchradd

*"Ni ddylai camdrinwyr allu cael gafael ar wybodaeth addysgol, feddygol a phersonol plant hyd yn oed os oes ganddynt gyfrifoldeb rhieni."*
Plant sy'n cael cymorth, 11–16 oed

Mae gan y system cyfiawnder teuluol ran hollbwysig i'w chwarae yn diogelu plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Y Llys Teulu sy'n pennu'r trefniadau cyswllt ar gyfer plant pan fydd eu rhieni'n gwahanu. Pan fydd cam-drin domestig yn nodwedd berthnasol, mae angen clir i ddeall unrhyw risg a gyflwynir i'r plentyn yn sgil cyswllt. Yn 2023, roedd mwy na 52,000 o achosion cyfraith teulu preifat yn y Llys Teulu yng Nghymru a Lloegr, gan oruchwylio achosion sy'n ymwneud â mwy na 80,000 o blant. Amcangyfrifir bod 62% o achosion y Llys Teulu yn ymwneud â cham-drin domestig.[521]

Mewn ymateb i bryderon cynyddol mewn perthynas â'r Llys Teulu yn cam-drafod achosion cam-drin domestig, ar draul plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr camdriniaeth, comisiynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymchwil a arweiniodd at adroddiad, *Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases*, a gyhoeddwyd yn 2020.[522] Yn aml, cyfeirir at yr adroddiad fel Adroddiad y Panel Niwed ac mae'n nodi methiannau sylweddol a phryderus y system cyfiawnder teuluol. Ddwy flynedd ar ôl yr adroddiad, adeiladodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar waith yr adroddiad a chyflwynodd ei hadroddiad ei hun gerbron y Senedd: *Domestic Abuse and the Family Court: Achieving Cultural Change*.[523] Nododd adroddiad y Comisiynydd, er bod cynnydd wedi'i wneud, bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â phryderon gwreiddiol adroddiad y Panel Niwed. Gwnaeth y Comisiynydd 10 o argymhellion allweddol i fynd i'r afael â diffygion y system cyfiawnder teuluol mewn perthynas â cham-drin domestig.[524]

Un o elfennau allweddol dull gweithredu'r Comisiynydd mewn perthynas â'r Llys Teulu yw galw am Lys Teulu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o gam-drin. Mae'r Comisiynydd wedi tynnu sylw yn gyson at Adran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, sy'n nodi y dylai'r Llys Teulu ystyried y plentyn fel dioddefwr cam-drin domestig yn ei rinwedd ei hun.[525] Mae'r newid deddfwriaethol hwn yn golygu bod plentyn yn ddioddefwr cam-drin pan fydd un rhiant yn cam-drin y rhiant arall, yn ystod perthynas neu pan fydd wedi dod i ben. Er hyn, mae dioddefwyr a goroeswyr yn sôn am aildrawmateiddio ac ailerledigaeth yn gyson, a bod diogelwch plant yn cael ei ail-flaenoriaethu o ganlyniad i'r ffaith bod cam-drin domestig yn cael ei danseilio. Mewn ymateb, mae adroddiad y Comisiynydd yn nodi model sy'n canolbwyntio ar y plentyn sydd â'r nod o sicrhau bod y plentyn yn rhan ganolog o'r Llys Teulu.

521 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2023).
522 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020).
523 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2023).
524 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2023).
525 Walsh, K. (2024).

Mae'r Comisiynydd yn credu'n gryf bod yn rhaid deall a mynd i'r afael â cham-drin domestig er mwyn amddiffyn plant sydd â rhiant sy'n cam-drin. Felly, rhaid i'r teulu gael ei ddeall yn briodol i ddechrau o ran cam-drin domestig cyn troi at unrhyw honiad sy'n ymwneud â'r ffaith bod plentyn yn amharod i weld rhiant neu'n gwrthod gwneud hynny. Mae hyn am fod ymatebion gan blant yn cael eu cyfiawnhau yng nghyd-destun cam-drin domestig, felly mae angen nodi cyd-destun y teulu o'r cychwyn cyntaf.Mae ymdrechion i roi taw ar lais y plentyn neu i dawelu llais y plentyn unigol yn annerbyniol ac mae llawer o blant a phobl ifanc, drwy *Tell Nicole*, yn dweud nad oeddent yn teimlo y gwrandewir arnynt pan oedd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am gyswllt ag aelodau o'r teulu. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn adborth gan aelodau Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc, [526]ac mewn ymchwil gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.[527]

Yn galonogol, ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Llywydd yr Is-adran Deulu, Syr Andrew McFarlane, ganllawiau a phecyn cymorth ar gyfer barnwyr teulu ar sut i ysgrifennu at blant sy'n destun gweithdrefnau ar benderfyniadau a wneir am eu hachos.[528] Datblygwyd hyn ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc, ac mae'n gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir.

### 8.5.1 Ailerledigaeth mewn Achosion Cyfraith Gyhoeddus

Achosion yn y Llys Teulu a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus fel Awdurdod Lleol yw achosion cyfraith gyhoeddus. Yn yr achosion hyn, mae nifer o bobl a sefydliadu sydd â'r rôl o hysbysu'r llys ar lesiant y plentyn. Mae'r achosion hyn yn wahanol i achosion cyfraith breifat, lle mae'r bobl sy'n rhan o'r achos fel arfer yn rhieni ond bob amser yn ddau unigolyn.

Er bod gan achosion cyfraith gyhoeddus fwy o bresenoldeb ac arbenigedd o ran y rhai sy'n cynorthwyo ac yn hysbysu'r llys, ceir hanesion sy'n peri pryder mawr o oroeswyr yn cael eu dwyn i gyfrif am beidio ag amddiffyn plant rhag oedolyn arall sy'n cam-drin, partner/y rhiant arall fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae dioddefwyr a goroeswyr wedi sôn eu bod wedi cael eu beirniadu a'u cosbi, gan eu gwneud nhw'n gyfrifol am y gamdriniaeth y maent yn debygol o fod wedi'i brofi'n uniongyrchol. Mae'r ailerledigaeth yma yn mynd yn groes i Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 a darpariaethau cyfreithiol ehangach i amddiffyn oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr.

Gall enghreifftiau o ailerledigaeth gynnwys rhiant nad yw'n cam-drin yn cael ei wneud yn gyfrifol am y gamdriniaeth a achosir gan oedolyn arall. Drwy wneud hyn, gall y llys ddod i'r casgliad na all y rhiant nad yw'n cam-drin rianta ac amddiffyn y plentyn, gan argymell y dylid rhoi'r plentyn mewn gofal neu ei osod i gael ei fabwysiadu. Mae'r broses o drosglwyddo bai a chyfrifoldeb yn enghraifft o ailerledigaeth ac aildrawmateiddio.

O ystyried presenoldeb awdurdodau'r wladwriaeth mewn achosion cyfraith gyhoeddus, ystyrir ei bod yn broses drylwyr ar y cyfan. Fodd bynnag, gall dealltwriaeth anghywir o gam-drin domestig ac ymdrechion i danseilio a wneir gan riant nad yw'n cam-drin i ddiogelu plant arwain at ganlyniadau trychinebus ac annheg.

**Felly, mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn comisiynu ymchwil sy'n cynnal adolygiad systematig o achosion cam-drin domestig mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Dylai'r ymchwil hon adlewyrchu'r Adroddiad Niwed a chynnwys adolygiad llenyddiaeth, ymgynghoriad a chanfyddiadau cyhoeddedig.**

[526] Cafcass (2021).
[527] Roe, A. (2021).
[528] Llywydd yr Is-adran Deulu (2025).

### 8.5.2 Llysoedd Braenaru a rôl gwasanaethau arbenigol

Mae llysoedd 'Braenaru' newydd ledled Cymru a Lloegr yn cyflwyno dull mwy ymchwiliol, llai gwrthwynebus i achosion cyfraith breifat. Cyflwynwyd y model hwn mewn dau safle peilot yn 2022 ac ers hynny mae wedi'i ehangu i ddau safle arall.

Un agwedd allweddol ar y model yw casglu gwybodaeth cyn gynted â phosibl yn y broses er mwyn gwneud penderfyniadau hyddysg. Rhaid i CAFCASS, CAFCASS Cymru neu'r Gwasanaethau Plant gynnal Asesiad o'r Effaith ar Blant ar y dechrau. Ymarfer casglu gwybodaeth manwl yw hwn, sy'n rhoi'r cyfle i'r plentyn gael ei weld a'i glywed o ddechrau'r achos. Mewn sefyllfaoedd lle ceir pryderon ynghylch cam-drin domestig, caiff teuluoedd eu hatgyfeirio at asiantaethau cam-drin domestig arbenigol i gael asesiad risg a chymorth parhaus. Gall gwasanaethau cam-drin domestig roi adborth ar eu hymgysylltiad â'r plentyn dan sylw, sy'n helpu i roi mwy o sylw i lais y plentyn ac i lywio dealltwriaeth y Barnwr ynghylch teimladau'r plentyn.

Er gwaethaf y ffaith bod y model Braenaru yn cyflwyno diwygiadau uchelgeisiol i'r Llys Teulu, ceir bylchau sylweddol o hyd yn y cymorth a roddir i blant a phobl ifanc yn ystod ac ar ôl achosion. Mae gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn yr ardaloedd peilot yn wynebu cynnydd mewn galw, ond heb gyllid penodol ychwanegol, mae hyn wedi arwain at restrau aros hirach.

Mae'n hanfodol bod llysoedd Braenaru yn cael adnoddau addas, gan gynnwys drwy ariannu gwasanaethau arbenigol, cyn iddynt gael eu cyflwyno'n genedlaethol o bosibl, yn dibynnu ar werthusiad ffurfiol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

***The Den, Blackpool***

Gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol i blant yw The Den, sydd wedi'i leoli o fewn sefydliad eiriolaeth ehangach o'r enw Empowerment Charity, ac mae profiad uniongyrchol wrth wraidd popeth a wnânt. Mae The Den yn rhoi cymorth wedi'i deilwra i blant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt drwy dîm o Gynghorwyr Cam-drin Domestig i Blant hyfforddedig – gan gynnig cymorth unigol, sesiynau grŵp, gweithgareddau cadarnhaol a darpariaeth ieuenctid. Mae'r tîm yn gweithio gyda phlant sy'n byw mewn cartref lle ceir cam-drin domestig ar y pryd, gan drefnu amser/cyswllt teulu â rhiant lle ceir ymddygiadau camdriniol, neu bobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig yn eu perthnasoedd eu hunain.

Mae The Den yn hwyluso fforwm cyfranogiad ieuenctid diogel yn dilyn cam-drin domestig, gofod lle rhoddir mwy o sylw i leisiau plant a phobl ifanc i lywio gwaith y sefydliad, ac i wella'r ymateb i gam-drin domestig ar draws asiantaethau statudol lleol a chenedlaethol. Mae'r fforwm yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc lywio eiriolaeth sefydliadol a sicrhau bod gwasanaethau yn ymgorffori safbwyntiau a phrofiadau plant yn eu strategaethau a'u polisïau.

### 8.6 Cymorth i blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig

Mae plant a phobl ifanc wedi cael eu nodi yn rheolaidd fel dioddefwyr lladdiadau domestig sydd wedi'u hesgeuluso, o ystyried y diffyg data ar eu profiadau, a'u canlyniadau bywyd dilynol.[529] Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2023, cofnodwyd 248 o laddiadau gan bartner agos yn y DU. Mae'r ffocws ar pa wersi y gellir eu dysgu i atal lladdiadau rhag digwydd eto, a hynny'n briodol, ond ni

[529] Mertin, P. (2019).

roddwyd llawer o ffocws ar y dioddefwyr cudd yn yr achosion trasig hyn, sef plant y dioddefwyr hyn.[530]

### 8.6.1 Cyffredinrwydd

Gan edrych ar sampl o 33 o Adolygiadau o Laddiadau Domestig, a gyhoeddwyd rhwng 2017 a 2019, nododd 22 ohonynt fod plant 18 oed naill ai'n byw yng nghartref y dioddefwyr neu wedi bod yn ymweld ag ef yn ystod y cyfnod yn arwain at y lladdiad. Cofnodwyd cyfanswm o 43 o blant yn yr Adolygiadau hyn, ac roedd 98% o'r plant hynny wedi bod yn destun cam-drin domestig rhwng rhieni a/neu o fewn y teulu ehangach.[531] Mewn pum achos, roedd sawl dioddefwr lladdiad – holl blant naill ai'r dioddefwr a'r cyflawnwr, neu'r dioddefwr. Yn y sampl hon, roedd y pum plentyn dan 18 oed pan gawsant eu lladd.[532] Ymhellach, mewn 14 o'r Adolygiadau roedd plant ifanc yn bresennol neu wedi bod yn dyst i'r lladdiad.[533] Dengys ymchwil, yn anffodus, mai dyna'r achos gyda nifer sylweddol o laddiadau cymheiriaid.[534] Mewn adolygiad o Adolygiadau o Laddiadau Domestig rhwng mis Hydref 2022 a mis Medi 2023, roedd plant (dan 18 oed) yn aros mewn 41% (39) o gartrefi lle bu farw'r dioddefwr drwy hunanladdiad.[535]

Mae adroddiad blynyddol Prosiect Lladdiadau Domestig y Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (VKPP) yn cynnwys data ar Hunanladdiadau Dioddefwyr a Amheuir yn dilyn Cam-drin Domestig (SVSDA). Dros gyfnod o dair blynedd (1 Ebrill 2020–31 Mawrth 2024), nodwyd 216 o hunanladdiadau dioddefwyr a amheuir yn dilyn cam-drin domestig (SVSDA).[536] Yn nhrydedd flwyddyn yr astudiaeth hon (1 Ebrill 2022–31 Mawrth 2023), cafwyd 93 o SVSDAs – y cynnydd mwyaf yn y broses o gasglu data ac am y tro cyntaf roedd yn uwch na'r marwolaethau hynny a oedd yn gysylltiedig â lladdiadau.[537]

### 8.6.2 Ymateb i leisiau plant a gwrando arnynt

Yn dilyn marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, anaml y ceisir lleisiau plant am benderfyniadau arwyddocaol sy'n effeithio arnynt.[538] Ni roddir y cyfle i lawer o blant sy'n ddioddefwyr ddylanwadu ar eu dyfodol, fel ble y byddent yn byw a gyda phwy, ac yn achos marwolaeth dioddefwr drwy hunanladdiad, gallant aros gyda'r camdriniwr, neu gael eu rhoi mewn lleoliad gofal gan berthynas gyda theulu'r camdriniwr. Mae hyn yn mynd yn gwbl groes i Erthygl 12 o'r UNCRC (parch i safbwyntiau plant), a Deddf Plant 1989. Mae ymchwil gan Brifysgol Warwick yn nodi bod angen i aelodau teulu a phlant sy'n cael profedigaeth, a all fod yn wynebu risg gan gamdrinwyr o hyd, gael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy eiriolaeth sy'n ystyriol o drawma.[539]

Mae'r ffaith bod hawliau rhieni wedi cael eu cynnal hyd yn oed mewn achosion lle mae rhiant y plentyn sy'n ddioddefwr wedi cael ei euogfarnu am lofruddio rhiant arall y plentyn neu am hunanladdiad cysylltiedig, yn peri cryn bryder.[540] Gall y rhain gynnwys penderfyniadau fel lle mae'r plentyn yn byw, trefniadau cyswllt, neu fynediad i wybodaeth am eu bywydau. O ganlyniad, mae hyn wedi creu sawl enghraifft o'r plentyn sy'n ddioddefwr yn profi rheolaeth drwy orfodaeth ac aildrawmateiddio ar ôl lladdiad gan bartner agos – ac felly wedi methu cydnabod plant fel dioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain.[541]

---

530 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (2023).
531 Chantler, K. et al (2023a).
532 Chantler, K. et al (2023a).
533 Chantler, K. et al (2023a).
534 Stanley, N. et al (2019).
535 Y Swyddfa Gartref, (2024).
536 Hyfforddiant Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (2024).
537 Hyfforddiant Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (2024).
538 Kurdi, Z. et al (2024).
539 Munro, V. et al (2022).
540 Kurdi, Z. et al (2024).
541 Kurdi, Z. et al (2024).

Anaml yr ymgynghorir â phlant yn ystod Adolygiad o Laddiad Domestig neu Hunanladdiad a phrin yw'r wybodaeth a geir yn yr adroddiadau am eu hoedran, rhyw, ethnigrwydd, anghenion a'u gofal.[542] Mae hwn yn gyfle a gollir, o ystyried y ffaith y gallent fod wedi bod yn dyst i'r lladdiad neu gamdriniaeth cyn marwolaeth eu rhiant ac wedi galw am help, ond hefyd o ystyried pwysigrwydd naratif y plentyn am gam-drin domestig cyn y lladdiad.[543] Os gwneir hyn yn ofalus, ac mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma ochr yn ochr â chyfres o gymorth arbenigol, gallai cymryd rhan ym mhrosesau'r Adolygiad o Laddiadau Domestig fod yn rhan o broses wella'r plentyn, gan ei rymuso'n fawr.[544]

**Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:**

- **Dylai'r Swyddfa Gartref ddiweddaru canllawiau statudol i'w gwneud yn ofynnol i Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig gynnwys llais dilys y plentyn sy'n ddioddefwr.**

### 8.6.3 Prinder gwasanaethau i blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig

O ystyried y trawma a'r effeithiau sylweddol sy'n gysylltiedig â cholli rhiant drwy laddiad gan bartner agos neu hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, mae angen i blant gael cymorth parhaus hirdymor, neu gymorth a all ailddechrau'n rheolaidd.[545] Er y gall ymddangos bod plant yn ymdopi yn y cyfnod yn union ar ôl marwolaeth, gall fod ymateb gohiriedig i'r trawma o golli rhiant, a dyna pam y dylai gwasanaethau fod ar gael am flynyddoedd yn dilyn lladdiad neu hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.[546]

Prin oedd yr ymarferwyr a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron a allai nodi cymorth arbenigol ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr lladdiadau gan gymar. Roedd darparwyr gwasanaethau hefyd yn llai hyderus ynghylch cefnogi'r grŵp hwn o blant o gymharu â phlant eraill sydd ag anghenion ychwanegol neu groestoriadol. Er mai dyma yw un o'r profiadau mwyaf trawmatig y gall plentyn ei gael, nid oes llawer o gymorth ar gael i'w helpu i wella, yn enwedig mewn gwasanaethau cymorth arbenigol.

Mae cymorth a ddarperir ar gyfer plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig yn destun rhestrau aros hir, atgyfeiriadau gwael ar gyfer ymyriadau therapiwtig a darpariaeth wael o wasanaethau trawma yn enwedig ar gyfer plant – yn benodol o ran mynediad i CAMHS, sy'n llawn trothwyon uchel i gael gafael ar gymorth.[547] Wrth i argyfwng cyllid llywodraeth leol barhau o ran gwasanaethau a ddarperir, mae gweithwyr proffesiynol yn porthgadw mynediad at wasanaethau hanfodol mwyfwy i blant sy'n ddioddefwyr lladdiadau gan bartneriaid agos, sy'n golygu bod llai a llai o blant yn cael gafael ar gymorth. O ganlyniad i danariannu yn y sector statudol a'r sector cymorth, mae hyd yn oed y gwasanaethau a allai ddarparu rhywfaint o gymorth i blant sy'n ddioddefwyr wedi'u cyfyngu yn ôl cod post a grŵp oedran – gan adael llawer o blant heb unrhyw gymorth ar gyfer eu profiadau.[548]

Heb gymorth arbenigol a ariennir yn barhaol ar gyfer y grŵp hwn o blant, mae gwasanaethau cyffredinol yn gorfod darparu'r cymorth hwn. Mae'r cymorth sydd ar gael i blant sy'n cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig neu hunanladdiad yn annigonol. Er y bwriadau da ac ymarferwyr cymwys, mae llawer o glinigwyr yn amharod i dderbyn yr achosion hyn, am eu bod yn ofni y byddai gweithio gyda thrawma mor sylweddol o fewn yr amserlenni a roddir iddynt yn

[542] Chantler, K. et al (2023a).
[543] Stanley, N. et al (2019).
[544] Kurdi, Z. et al (2024).
[545] Gomersall, A. et al (2024).
[546] Gomersall, A. et al (2024).
[547] Gomersall, A. et al (2024).
[548] Gomersall, A. et al (2024).

anniogel.[549] Ymysg y dangosiadau eraill o gymorth annigonol mae enghreifftiau o grwpiau cymorth plant a wahoddodd blant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig a phlant sydd wedi cael profedigaeth pan fu farw eu rhieni o achosion eraill, er enghraifft, damwain ffordd.[550] Mae hyn yn gwbl amhriodol i'r ddau set o blant sydd wedi cael profedigaeth.

Ymysg y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r garfan hon o blant, llai na 5% oedd o'r farn bod y gwasanaeth presennol a ddarperir yn diwallu anghenion plant sydd wedi cael profedigaeth drwy laddiad domestig yn eithriadol o dda. O gymharu, roedd 29% o'r farn nad oedd anghenion plant yn cael eu diwallu o gwbl.[551] Felly, mae'r Comisiynydd yn glir bod yn rhaid ychwanegu gallu ac adnoddau yn y sector arbenigol er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion cyfannol plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig neu hunanladdiad, a bod yn rhaid gwneud gwaith i ddeall y modelau cymorth arbenigol a all gefnogi'r plant hyn orau.

### 8.6.4 Cymorth i aelodau eraill o'r teulu

Yn ogystal ag ystyried anghenion y plentyn sy'n ddioddefwr lladdiad domestig neu hunanladdiad, mae hefyd yn bwysig ystyried anghenion aelodau eraill o'r teulu. Er enghraifft, gofalwyr newydd y plant hyn sy'n berthynas. Mae gofalwyr yn cael budd o gymorth emosiynol ar gyfer eu galar eu hunain, eiriolaeth a gwybodaeth am weithdrefnau cyfreithiol ac ymarferol, cymorth gan gymheiriaid ac addysg ar effaith trawma.[552] Mae angen i'r teuluoedd hyn gael mwy o gymorth ariannol, gyda llawer yn dibynnu ar gynilion i gefnogi'r plentyn.[553] Nid yw'r system bresennol yn rhoi llawer o gymorth i'r gofalwyr hyn, a rhaid gwneud mwy er mwyn sicrhau bod unrhyw newid i fyw gydag aelodau teulu newydd mor gefnogol â phosibl, o ystyried yr anawsterau cynhenid i bawb dan sylw.

### 8.6.5 Hyfforddiant

Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn nodi diffyg hyder wrth weithio gyda phlant sydd wedi cael profedigaeth drwy laddiad domestig, ni waeth beth fo'u cefndir ymarferol.[554] Mae plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig yn gwerthfawrogi athrawon sy'n estyn allan, yn dangos dealltwriaeth ac yn helpu i ailadeiladu ymdeimlad o ddiogelwch, ymddiriedaeth a rheolaeth.[555] Er nad oes angen i bob ymarferwr a fydd yn cefnogi plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig gael sgiliau clinigol, cred y Comisiynydd Cam-drin Domestig fod yn rhaid i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ddeall effaith yr hyn y maent wedi'i brofi, beth yw straen trawmatig a sut beth yw ymatebion i drawma. Rhaid i ymarferwyr allu atgyfeirio plant at y cymorth priodol a chael yr hyder i weithio gyda nhw.

O ystyried natur ddifrifol yr hyn y mae plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i laddiad domestig wedi'i brofi, yn ddealladwy, gall fod teimladau o bryder proffesiynol yn aml, a waethygir gan lwyth gwaith, diffyg hyfforddiant a goruchwylio gwael.[556] Mae athrawon wedi gweld bod yr amgylchiadau hyn yn flinedig yn emosiynol, a bod angen cymorth arnynt ar lefel ryngbersonol ynghyd â chymorth i feithrin sgiliau ymdopi.[557] Felly, fel rhan o'r Dull Ysgol Gyfan at gam-drin domestig, a gwmpesir ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn, argymhellir y dylai athrawon gael goruchwyliaeth glinigol wrth gefnogi plant o'r fath, a bod polisïau a phrosesau ar waith i gefnogi a diogelu'r plentyn sy'n ddioddefwr a'r staff addysgu.

**Felly, mae'r Comisiynydd yn argymell y canlynol:**

549 Gomersall, A. et al (2024).
550 Gomersall, A. et al (2024).
551 Gomersall, A. et al (2024).
552 Gomersall, A. et al (2024).
553 Kurdi, Z. et al (2024).
554 Gomersall, A. et al (2024).
555 Dods, J. (2013).
556 Gomersall, A. et al (2024).
557 Alisic, E. et al (2012).

- **Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnal adolygiad tystiolaeth cyflym o brofiadau plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i gam-drin domestig, gan gynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth sector statudol a gwirfoddol sydd ar gael iddynt.**

Ar lefel leol, rhaid i asiantaethau sicrhau bod plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i gam-drin domestig yn cael dewis wrth wneud penderfyniadau, ac yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, lle y bo'n briodol.

# RHAN 5 CASGLIAD AC ARGYMHELLION

## 9.0 PENNOD NAW – CASGLIAD AC ARGYMHELLION

### 9.1 Galwad i weithredu

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi'r ymateb i blant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig ym mhob rhan o'r system, ac yn hanfodol, wedi ymgorffori lleisiau plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio'n galed i'w cefnogi mewn ymarfer llinell flaen yn y canfyddiadau a'r argymhellion dilynol. Mae'r adroddiad wedi tynnu sylw at fylchau sylweddol yn yr ymateb, enghreifftiau o arfer gorau ledled Cymru a Lloegr a chyfleoedd i wella. Yr hyn sy'n amlwg yw bod gweithredu wedi'i gydlynu yn gwbl hanfodol, a bod gan y Llywodraeth gyfleoedd sylweddol drwy Adolygiad o Wariant 2025 sydd ar y gweill, Strategaeth VAWG a'r Bil Llesiant Plant i wneud cynnydd ac i newid bywydau plant sydd wedi profi cam-drin domestig.

Rhaid i'r llywodraeth gydweithio i roi'r arweinyddiaeth strategol sy'n ofynnol ar waith er mwyn sicrhau newid y mae ei ddirfawr angen. Ni all hyn fod drwy ymdrech un Adran yn unig. Yn hytrach, mae angen cyfraniad holl beirianwaith y Llywodraeth, drwy gydweithio ar draws yr holl Genadaethau – yn benodol, *creu GIG sy'n addas ar gyfer y dyfodol, strydoedd mwy diogel* a *chwalu'r rhwystrau i gyfleoedd.*[558] Mae'r Comisiynydd yn gofyn i'r Llywodraeth fod mor uchelgeisiol â phosibl wrth gyflawni argymhellion y Comisiynydd ac mae'n gofyn iddynt gael eu derbyn yn llawn.

Er mai cylch gwaith y Comisiynydd yw materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, rhaid cydnabod bod cam-drin domestig yn fath o Drais yn Erbyn Menywod a Merched, ac ar lefel strategol, nad yw bob amser yn ddefnyddiol gwneud argymhellion i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dim ond un math o VAWG, ac y gall hynny gael effaith andwyol ar yr ymateb i fathau eraill tebyg o niwed. Felly, er bod argymhellion y Comisiynydd yn ymwneud yn benodol â cham-drin domestig, yn unol â chylch gwaith y Comisiynydd, mae'r Comisiynydd yn annog y Llywodraeth i ystyried yr argymhellion gan gadw mathau eraill o Drais yn Erbyn Menywod a Merched mewn cof.

O ystyried bod yr argymhellion yn adlewyrchu profiadau plant a phobl ifanc, mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r Adran Addysg arwain ar ymateb y Llywodraeth, a gyhoeddir ymhen 56 o ddyddiad lansio'r adroddiad hwn. Mae'r Comisiynydd yn annog y Llywodraeth i gydweithio â'r Comisiynydd wrth ystyried yr argymhellion, ac i ddefnyddio arbenigedd swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau'r ffordd orau o gyflawni'r argymhellion a rhoi newid parhaus ar waith. Gyda'r adnoddau, y sylw a'r arweinyddiaeth sy'n ofynnol, gall newid ddigwydd, a gall plant dyfu i fyw bywydau hapus a gwerth chweil, er gwaethaf eu profiadau o gam-drin domestig.

Isod ceir argymhellion y Comisiynydd, wedi'u rhannu'n saith thema – llais y plentyn, arweinyddiaeth strategol, cyllid, gwasanaethau arbenigol, data a thystiolaeth, hyfforddiant a diogelu. Mae'r gyfres gyntaf o argymhellion yn argymhellion polisi ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus – sydd dan ddyletswydd statudol i ymateb i'r argymhellion hynny. Mae'r ail gyfres o argymhellion, a geir yn Atodiad 1, yn argymhellion ar gyfer ymarfer lleol, fel y gall ymarferwyr llinell flaen ac arweinwyr strategol ar lefel leol wella eu hymateb i blant sy'n destun cam-drin domestig cyn gynted â phosibl.

Er mwyn cyflawni'r argymhellion yn y tabl isod – mae'n hanfodol bod y mecanwaith yn cael ei roi ar waith i greu newid parhaus. **Felly mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn argymell y canlynol:**

**Dylai pob un o adrannau'r Llywodraeth gyfrannu at roi trefniadau llywodraethu a chydlynu cryfach ar waith i atgyfnerthu'r ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, ynghyd ag oedolion sy'n ddioddefwyr, a chreu cysylltiadau rhwng y cenadaethau. Rhaid i hyn gael ei**

[558] Llywodraeth Ei Fawrhydi (2024).

**arwain o ganol y Llywodraeth, gyda metrigau clir, atebolrwydd ac adnoddau priodol. Mae hyn yn cynnwys:**

- **Rôl arwain strategol ar gam-drin domestig yn Swyddfa'r Cabinet, a fyddai'n cynnwys:**
    i. **atgyfnerthu'r ymateb traws-Lywodraethol i gam-drin domestig**
    ii. **gwneud cysylltiadau rhwng y cenadaethau**
    iii. **arwain ar elfennau'r plant o'r strategaeth VAWG sydd ar y gweill**
    iv. **canoli a chydlynu'r ymateb traws-Lywodraethol i gam-drin domestig**
    v. **bwydo cynnydd yn uniongyrchol i Rif 10**

- **Y ffocws ar blant sy'n ddioddefwyr ym Mwrdd Gweinidogol VAWG, gan arwain at adroddiad ar gynnydd blynyddol a metrigau y cytunwyd arnynt i asesu atebolrwydd.**

- **Creu gweithgor traws-Lywodraethol, yn canolbwyntio'n benodol ar blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, dan gydarweinyddiaeth yr Adran Addysg a'r Swyddfa Gartref.**

<table>
<tr><th></th><th>9.2 Argymhellion polisi</th><th>Corff cyhoeddus sy'n gyfrifol</th><th>Math o newid</th><th>Rhif Tudalen</th></tr>
<tr><td colspan="5">Rhoi lle canolog i leisiau plant<br><br>Dywedodd plant y canlynol wrthym:<br>• Er mwyn eu helpu i wella ar ôl cam-drin domestig, roedd angen diogelwch corfforol ac emosiynol arnynt a gofod lle gallant siarad â rhywun a fydd yn credu ynddynt ac yn gwrando arnynt mewn ffordd nad yw'n barnu.<br>• Gall eu cyfrifon o'r hyn a oedd yn digwydd fod yn wahanol i rai eu rhieni, eu gofalwyr a'u brodyr a'u chwiorydd.<br>• Yn aml, roedd gan oedolion ddisgwyliadau annheg o blant oedd â phrofiad o drawma.<br>• Yn aml, mae eu safbwyntiau wedi'u diystyru neu wedi'u hystyried yn eilaidd i safbwyntiau oedolion – weithiau, roedd plant wedi gorfod cadw eu safbwyntiau yn gudd neu aros nes gallent gael cyfle i siarad.<br>• Gallai ysgolion eu helpu i ddeall cam-drin domestig drwy gynnwys mwy o drafodaethau am gam-drin domestig drwy wasanaethau a'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas a thrwy ymyrryd ar gam cynharach, gan gynnig cymorth arbenigol a chwnsela.</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Ariannu Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i dreialu'r broses o greu panel ieuenctid cenedlaethol.</td><td>Y Swyddfa Gartref/yr Adran Addysg</td><td>Cyllid</td><td>15</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Diweddaru canllawiau statudol i'w gwneud yn ofynnol i Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig gynnwys llais dilys y plentyn sy'n ddioddefwr.</td><td>Swyddfa Gartref</td><td>Canllawiau</td><td>135</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Rhaid i bob adran sy'n aelod o'r gweithgor traws-Lywodraethol arfaethedig adolygu a datblygu ei hymateb i blant fel dioddefwyr, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod llais plant yn hanfodol fel rhan o unrhyw ryngweithio neu waith datblygu polisi.</td><td>Pob un</td><td>Polisi</td><td>15</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer paratoi cyn cyfweliadau ac asesu anghenion pob plentyn a thyst sy'n agored i niwed.</td><td>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</td><td>Canllawiau</td><td>100</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Datblygu Cod Dioddefwyr ar gyfer plant a chanllawiau statudol ategol.</td><td>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</td><td>Polisi</td><td>100</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu cynrychioli mewn adroddiadau blynyddol ar wasanaethau cymorth cam-drin domestig.</td><td>Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol</td><td>Polisi</td><td>126</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Atgyfnerthu Polisi Prawf Teulu i gynnwys profiadau plant o gam-drin domestig yn benodol.</td><td>Yr Adran Gwaith a Phensiynau</td><td>Canllawiau</td><td>15</td></tr>
</table>

**Gwaith trawsadrannol ac arweinyddiaeth strategol gryfach**

Dywedodd un plentyn wrthym:

- *Er mwyn rhannu eu negeseuon â'r rhai ar frig y llywodraeth: “Rydyn ni am gael y BOS MAWR!”*
- *Roeddent o'r farn nad oedd y rhai cyfrifol yn llawn werthfawrogi'r effaith y gall cam-drin domestig ei chael ar fywydau plant ac nad oeddent yn gwrando ar blant.*
- *Efallai nad yw rhai plant yn ymwybodol mai cam-drin domestig oedd yr hyn roeddent yn ei brofi gartref.*
- *Bod angen i bob plentyn gael gwybodaeth sylfaenol am gam-drin domestig, sut i wybod bod sefyllfa yn gamdriniol os yw'n cynnwys rhywbeth heblaw cam-drin corfforol, a phwy y dylid dweud wrthynt os bydd yn digwydd i chi.*
- *Os gellid rhesymoli'r pwnc cam-drin domestig, byddai gan fwy o blant ymwybyddiaeth.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Penodi rôl arweiniol strategol ar gam-drin domestig. | Swyddfa'r Cabinet | Polisi | 140 |
| 9 | Adroddiad cynnydd blynyddol ar blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig a metrigau y cytunwyd arnynt i asesu atebolrwydd. Dylid ategu'r gwaith hwn drwy greu gweithgor traws-Lywodraethol gweithredol sy'n gweithio ar draws y Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg. | Bwrdd Gweinidogol VAWG | Polisi | 140 |
| 10 | Datblygu tasglu Addysg Rhyw a Chydberthynas i greu trefniadau llywodraethu a chydlynu gwell wrth ddatblygu Addysg Rhyw a Chydberthynas. | Yr Adran Addysg | Polisi | 50 |
| 11 | Sicrhau bod canllawiau statudol newydd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Plant a Llesiant arfaethedig yn cynnwys canllawiau a diffiniadau clir i ymarferwyr llinell flaen o ran yr hyn y mae Adran 3 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn ei olygu yn ymarferol. | Yr Adran Addysg mewn cydweithrediad ag adrannau perthnasol eraill | Polisi | 90 |
| 12 | Ei gwneud hi'n ofynnol rhoi'r ‘Disgwyliadau sylfaenol’ ac adrannau ‘Mynd gam ymhellach’ y ddogfen Disgwyliadau ar gyfer Gwasanaethau Hybiau i Deuluoedd ar waith wrth ymateb i gam-drin domestig. | Yr Adran Addysg | Polisi | 81 |
| 13 | Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at gam-drin domestig. | Yr Adran Addysg | Polisi | 55 |
| 14 | Ariannu rhwydwaith o ymarferwyr i sicrhau y gellir cyflawni'r Dull ysgol Gyfan ac Addysg Rhyw a Chydberthynas yn well yn lleol. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 51 |
| 15 | Ymrwymo i greu fframwaith clir yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi sut i roi pynciau Addysg Rhyw a Chydberthynas mewn dilyniant a threfn. | Yr Adran Addysg | Polisi | 51 |
| 16 | Datblygu canllawiau Addysg Rhyw a Chydberthynas diwygiedig. | Yr Adran Addysg | Canllawiau | 51 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Sicrhau bod y Strategaeth Ieuenctid yn cynnwys y modd y bydd y Llywodraeth yn gwella prosesau cydweithio rhwng sefydliadau cam-drin domestig a sefydliadau ieuenctid. | Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | Strategaeth | 87 |
| 18 | Cyhoeddi strategaeth 10 mlynedd i roi Dull Iechyd y Cyhoedd at Gam-drin Domestig ar waith. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Strategaeth | 72 |
| 19 | Sicrhau bod Arweinwyr Cam-drin Domestig a Thrais Byrddau Gofal Integredig yn rhoi digon o sylw i blant sy'n ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain a bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei roi ar waith mewn perthynas â cham-drin domestig ledled eu hardaloedd. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Polisi | 72 |
| 20 | Ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol fynd i Fyrddau Partneriaeth Cam-drin Domestig a Marac. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Polisi | 72 |
| 21 | Canllawiau APP i nodi plant fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, a rolau a chyfrifoldebau swyddogion yr heddlu a heddluoedd. | Y Coleg Plismona | Canllawiau | 100 |
| 22 | Cynnal arolygiadau thematig ar y cyd ddwywaith y flwyddyn o ardaloedd lleol sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig. | Ofsted, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi | Arolygiad | 115 |
| 23 | Ehangu meini prawf arolygu Ofsted i asesu ymateb ysgol i gam-drin domestig. | Ofsted | Arolygiadau | 55 |
| 24 | Nodi gwybodaeth leol am gwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas a rhannu canfyddiadau â'r Adran Addysg | Ofsted | Polisi | 50 |

**Ariannu cyfannol**

*Gallai'r llywodraeth helpu drwy ddeall pa wasanaethau sy'n helpu plant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt a sicrhau bod y gwasanaethau hynny ar gael.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 25 | Dyletswydd statudol i ariannu gwasanaethau yn y gymuned i sicrhau bod **pob** plentyn ac oedolyn sy'n ddioddefwr cam-drin domestig yn gallu cael gafael ar gymorth sydd ei angen yn fawr. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg | Deddfwriaethol | 40 |
| 26 | Diweddaru'r canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod a Merched, er mwyn atgyfnerthu'r cynnwys sy'n ymwneud â phlant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig ac ystyried eu hanghenion croestoriadol unigol. | Y Swyddfa Gartref | Canllawiau | 41 |
| 27 | Cwmpasu datblygiad ac argaeledd ymyriadau rhywedd-benodol ac ymyriadau sy'n ymwybodol o wrywdod i blant gwrywaidd sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref a'r Bwrdd Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel | Cyllid | 87 |
| 28 | Ariannu darpariaeth gynhwysfawr o ymyriadau newid ymddygiad ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig. | Swyddfa Gartref | Cyllid | 131 |
| 29 | Ariannu'r broses o ddarparu rhaglenni atal ar gyfer plant mewn ysgolion gan y sector arbenigol. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 51 |
| 30 | Sicrhau bod Hybiau i Deuluoedd yn buddsoddi mewn gwaith arbenigol ar gam-drin domestig. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 81 |
| 31 | Sicrhau bod y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion yn galluogi ardaloedd lleol i ddewis yr asiantaeth o fewn y Ddyletswydd i Gydlafurio sydd yn y sefyllfa orau i feddu ar bwerau cynnull. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Deddfwriaethol | 17 |
| 32 | Sicrhau trefniadau goruchwylio ac atebolrwydd cenedlaethol o'r rôl sy'n gysylltiedig â'r pŵer cynnull er mwyn rhoi'r Ddyletswydd i Gydlafurio ar waith. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Polisi | 17 |
| 33 | Creu hyblygrwydd yn y trefniadau cyllido er mwyn galluogi ardaloedd lleol i ddefnyddio cyllid ar gyfer lleihau achosion o wrthdaro rhwng rhieni fel y bo angen ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau | Polisi | 84 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 34 | Ariannu'r ddarpariaeth o wasanaethau cam-drin domestig arbenigol mewn lleoliadau iechyd i gefnogi gweithgarwch atal a gwaith ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Cyllid | 72 |
| 35 | Sicrhau darpariaeth ddigonol o gwnsela a chymorth therapiwtig i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Cyllid | 130 |
| | **Data a thystiolaeth** | | | |
| | *Gallai'r Llywodraeth wneud pethau'n well i blant drwy sicrhau bod argaeledd gwasanaethau cymorth yn gyson ledled y wlad, yn gyflym ar gyfer plant sydd eu hangen ac yn addas ar gyfer plant sydd ag anghenion gwahanol.* | | | |
| 36 | Cyflwyno'r Arolwg Cyffredinrwydd Cam-drin Plant, gan gynnwys cwestiynau penodol ar ddod i gysylltiad â cham-drin domestig a phrofiad ohono yn ystod plentyndod. | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Data | 17 |
| 37 | Ystyried datblygu cwestiynau am fabanod a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig fel rhan o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Data | 17 |
| 38 | Rhaid i'r canllawiau statudol Dyletswydd i Gydlafurio fod yn glir y dylai partneriaid gynnwys data blynyddol ar blant sy'n destun cam-drin domestig mewn Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Statudol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Canllawiau | 17 |
| 39 | Rhaid i'r canllawiau statudol Dyletswydd i Gydlafurio fod yn glir y dylai Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Statudol gynnwys data ar blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig nad ydynt yn hysbys i'r gwasanaethau statudol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Canllawiau | 17 |
| 40 | Diwygio'r categorïau Plant mewn Angen i sicrhau bod plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu categoreiddio felly, ac nid dim ond eu bod yn cael eu hesgeuluso, er mwyn deall cyffredinrwydd plant sy'n ddioddefwyr a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n briodol. | Yr Adran Addysg | Data | 100 |
| 41 | Ymrwymo i ddadansoddi canlyniadau i blant a phobl ifanc ar Gynllun Plant mewn Angen. | Yr Adran Addysg | Data | 100 |
| 42 | Ymrwymo i adolygiad tystiolaeth cyflym o brofiadau plant sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | Tystiolaeth | 137 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 43 | Cyflwyno dull fesul cam o werthuso gwasanaethau yn y gymuned i blant. | Y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Gwerthuso | 41 |
| 44 | Atgyfnerthu data a gasglwyd ar blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n byw mewn llety diogel. Dylai hyn gynnwys canlyniadau i blant a theuluoedd, oedrannau plant, y rhesymau pam na ellir cefnogi plant, a'r math o wasanaeth cymorth sy'n benodol ar gyfer plant sydd ar gael yn y llety. | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Data | 122 |
| 45 | Cynnal adolygiad o'r Ddyletswydd Llety Diogel a'r ymateb i blant a phobl ifanc sy'n destun cam-drin domestig. | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Tystiolaeth | 126 |
| 46 | Sicrhau bod oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr sy'n byw mewn llety dros dro yn cael eu cynnwys yn nata'r Ddyletswydd Llety Diogel, ar deuluoedd na ellid eu cefnogi mewn llety diogel. | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Data | 122 |
| 47 | Cynnwys data Help Cynnar yn ei gofynion ar gyfer Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol o dan y Ddyletswydd i Gydlafurio. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Data | 82 |
| 48 | Comisiynu ymchwil gan gynnal adolygiad systematig o achosion cam-drin domestig mewn achosion cyfraith gyhoeddus. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Tystiolaeth | 133 |

**Hyfforddiant arbenigol ar gyfer pob gweithiwr llinell flaen proffesiynol a all fod yn gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc**

tell nicole

Dywedodd plant y canlynol wrthym:

- *Gallai'r Llywodraeth helpu drwy addysgu oedolion am effaith cam-drin domestig ar blant.*
- *Er mwyn eu helpu i wella ar ôl cam-drin domestig, mae angen gweithwyr proffesiynol ar blant sy'n cydnabod y gallai disgrifiadau'r plant o'r hyn a oedd yn digwydd fod yn wahanol i ddisgrifiadau eu rhieni a'u gofalwyr.*
- *Roeddent am i weithwyr gydnabod bod ganddyn nhw fel oedolion fwy o bŵer, a all fod yn annheg i blant.*
- *Roedd cam-drin domestig naill ai ddim yn cael ei gymryd o ddifrif gan yr heddlu neu'n cael ei ddehongli'n gul iawn a bod angen gwelliant yn yr heddlu o ran gwybodaeth ac agweddau tuag at blant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt.*
- *Roeddent am gadw eu gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol a chadw rheolaeth dros ba wybodaeth amdanyn nhw neu am eu teulu a gaiff ei rhannu ag eraill.*
- *Roedd angen i ysgolion gael rôl fwy o lawer yn cefnogi plant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt. Gellid gwneud hyn drwy hyfforddi athrawon i ddiweddaru eu gwybodaeth am drawma ac effaith cam-drin domestig ar blant, ac arwyddion cam-drin, gan gynnwys o fewn perthnasoedd pobl ifanc.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 49 | Ariannu'r broses o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant arbenigol i bob gweithiwr proffesiynol llinell flaen sy'n gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc a allai wynebu risg o gam-drin domestig. | Dan arweiniad yr Adran Addysg mewn cydweithrediad ag adrannau perthnasol eraill o'r llywodraeth. | Cyllid | 91 |
| 50 | Ymrwymo i arolygiad trylwyr o raddau Gwaith Cymdeithasol a'r cynnwys cam-drin domestig ar raglenni graddau a sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn cael hyfforddiant mewn cam-drin domestig eu hunain. | Social Work England | Arolygiadau | 107 |
| 51 | Adolygu'r safonau Gwybodaeth, Sgiliau ac Ymddygiadau gan ystyried cam-drin domestig er mwyn sicrhau bod darparwyr cyrsiau yn deall yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i gyflawni'r safonau. | Social Work England | Polisi | 107 |
| 52 | Ariannu athrawon i gael hyfforddiant o ansawdd uchel mewn Addysg Rhyw a Chydberthynas, fel un rhan o'r ymdrech gyffredinol i broffesiynoli addysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 51 |
| 53 | Gorchymyn meini prawf cwricwlwm ac asesu penodol ar gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, drwy Fframwaith Gyrfa Cynnar 2025. | Yr Adran Addysg | Polisi | 107 |

**Diogelu**

Dywedodd plant y canlynol wrthym:

- *Gallai'r Llywodraeth helpu drwy roi mwy o rôl i ysgolion wrth gefnogi plant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt.*
- *Roeddent am gael gweithwyr sy'n brofiadol ac sydd â dealltwriaeth dda o gam-drin domestig, ac sy'n garedig ac yn dangos parch tuag at blant, yn gwrando'n dda heb farnu.*
- *Roedd angen i wybodaeth am gam-drin domestig neu berthnasoedd iach gael ei chyflwyno gan weithwyr sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y pynciau hyn - nid eu hathrawon arferol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 54 | Gwneud lleoliadau addysg yn bedwerydd partner diogelu statudol. | Yr Adran Addysg | Deddfwriaeth | 62 |
| 55 | Cyhoeddi canllawiau yn nodi'r ymateb y gall plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig ddisgwyl ei gael fel rhan o'r ddarpariaeth Amddiffyn Plant a Help i Deuluoedd newydd. | Yr Adran Addysg | Canllawiau | 82 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 56 | Cyflwyno rolau Cynghorwyr Cam-drin Domestig ym Maes Addysg, fel rhan o'r Bartneriaeth Diogelu Plant Leol. | Yr Adran Addysg a'r Swyddfa Gartref | Cyllid | 62 |
| 57 | Ariannu'r cynllun peilot ar gyfer 'Arweinydd Diogelu Penodedig'. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 62 |
| 58 | Diwygio'r ddeddfwriaeth digartrefedd i newid y diffiniad o lety dros dro, ar gyfer cartrefi y canfuwyd bod ganddynt angen blaenoriaethol oherwydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref o ganlyniad i gam-drin domestig, i adlewyrchu'r diffiniad o lety diogel a geir yn y Ddeddf Cam-drin Domestig (2011). | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Deddfwriaeth | 122 |
| 59 | Cynnal adolygiad o ddulliau adnabod risg llawn a Marac, drwy lens system gyfan, gan gynnwys y graddau y caiff anghenion a risgiau plant sy'n ddioddefwyr eu hystyried a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. | Y Swyddfa Gartref | Canllawiau | 120 |
| 60 | Rhoi dyletswydd ar leoliadau addysg i weithredu ar hysbysiadau Ymgyrch Encompass ac i roi cymorth ar waith ar gyfer y plentyn yn seiliedig ar ei anghenion. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Deddfwriaeth | 102 |
| 61 | Sicrhau bod Dyletswydd Ymgyrch Encompass yn cael ei hehangu i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 7.4.1 Deddfwriaeth | 102 |
| 62 | Gwella gallu CAMHS i ddeall ac ymateb i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig sydd ag anghenion iechyd meddwl a sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol CAMHS ddealltwriaeth gadarn o gam-drin domestig. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Cyllid | 120 |

**Sicrhau y caiff ymarfer ei lywio gan arbenigwyr**

Dywedodd plant y canlynol wrthym:

- *Er mwyn eu helpu i wella ar ôl cam-drin domestig, roedd angen iddynt gael mwy o ddewis o ran hyd y cymorth, y lleoliad a'r math o gymorth (er enghraifft, sesiynau grŵp neu sesiynau unigol).*
- *Maent am gael gweithwyr sy'n deall cam-drin domestig ac sy'n dda am weithio gyda phlant a phobl ifanc.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 63 | Rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith yn y Ddarpariaeth Amddiffyn Plant a Help i Deuluoedd newydd, gan gynnwys modelau sy'n cydweithio mewn partneriaeth â'r rhiant nad yw'n cam-drin ac sy'n sicrhau bod y cyflawnwr yn atebol, fel Safe and Together. | Yr Adran Addysg | Polisi | 82 |
| 64 | Ariannu gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol wedi'u cydleoli yn y Timau Amlddisgyblaethol Help i Deuluoedd ac Amddiffyn Plant newydd. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 82 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 65 | Ariannu'r broses o gydleoli gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol mewn gofal cymdeithasol i blant. | Yr Adran Addysg | Cyllid | 115 |
| 66 | Sicrhau bod yr holl dimau amddiffyn plant amlasiantaethol yn cael eu hysbysu'n llawn o ran cam-drin domestig drwy ganllawiau cadarn, arweinyddiaeth strategol a phrosesau ariannu gwasanaethau cymorth i roi llwybrau atgyfeirio clir i wasanaethau arbenigol annibynnol. | Yr Adran Addysg | Polisi | 115 |

### 9.3 Rhestr termau

*Acronymau*

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| AAAA | Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau |
| ABE | Sicrhau'r Dystiolaeth Orau |
| ABGI | Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd |
| ACE | Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| ADCS | Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| APCC | Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| APP | Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona |
| ASB | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| BCYP | Babanod, Plant a Phobl Ifanc |
| BME | Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol |
| BSL | Iaith Arwyddion Prydain |
| CAFADA | Plant a Theuluoedd y mae Cam-drin Domestig wedi Effeithio Arnynt (prosiect ymchwil) |
| CAFCASS | Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CAPVA | Trais a Cham-drin gan Blant a Phobl Ifanc tuag at eu Rhieni |
| CBT | Therapi Gwybyddol Ymddygiadol |
| CCB | Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol |
| CCR | Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig |
| CIN | Plant mewn Angen |
| CJS | Y System Cyfiawnder Troseddol |
| CP | Amddiffyn Plant |
| CQC | Y Comisiwn Ansawdd Gofal |
| CSC | Gofal Cymdeithasol i Blant |
| CSEW | Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr |
| CSP | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| CYP | Plant a Phobl Ifanc |
| DAC | Y Comisiynydd Cam-drin Domestig |
| DAPB | Y Bwrdd Partneriaeth Cam-drin Domestig |
| DART | Domestic Abuse, Recovering Together (Rhaglen yr NSPCC) |
| DARVO | Gwadu, Ymosod, Cyfnewid Dioddefwr a'r Troseddwr |
| DASH | Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu a Thrais ar sail Anrhydedd dull nodi risg |
| DCMS | Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon |
| DfE | Yr Adran Addysg |
| DHR | Adolygiad o Laddiadau Domestig (a elwir bellach yn Adolygiad o Farwolaeth sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig [DARDR]) |
| DHSC | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| DSL | Arweinydd Diogelu Dynodedig |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| EVAW | Y Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod |
| FGM | Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod |
| FJC | Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol |
| FJYPB | Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc, (Rhan o CAFCASS) |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| HALT | Homicide Abuse Learning Together (prosiect ymchwil) |
| HBA | Cam-drin ar sail ‘anrhydedd’ fel y'i gelwir |
| HMICFRS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi |
| HMIP | Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi |

| | |
|---|---|
| HO | Y Swyddfa Gartref |
| ICB | Y Bwrdd Gofal Integredig |
| IDVA | Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig |
| IRIS | Nodi ac Atgyfeirio er mwyn Gwella Diogelwch (lleoliadau gofal iechyd) |
| JSNA | Asesiad o Anghenion Strategol ar y Cyd |
| JTAI | Arolygiad Maes Penodol ar y Cyd |
| LFJB | Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol |
| LGA | Cymdeithas Llywodraeth Leol |
| LHDT+ | Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol |
| LSCP | Partneriaeth Diogelu Plant Lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd |
| MARAC | Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg |
| MASH | Hwb Diogelu Amlasiantaethol |
| MATAC | Tasgau a Chydgysylltu Amlasiantaethol |
| MHCLG | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NFA | Dim Camau Gweithredu Pellach |
| NRPF | Heb Hawl i Gael Arian Cyhoeddus |
| NSPCC | Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Blant |
| OFCOM | Y Swyddfa Gyfathrebiadau |
| OFSTED | Y Swyddfa Safonau Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau |
| OPCC | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| PCC | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| RPC | Lleihau Achosion o Wrthdaro rhwng Rhieni |
| RRR | Amharodrwydd, Gwrthwynebiad, Gwrthodiad (Ystyried plentyn sy'n amharod i gael cyswllt â rhiant ar ôl gwahanu o safbwynt sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o gamdriniaeth, er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o ddiogelwch mewn perthynas â cham-drin domestig) |
| RSE | Addysg Rhyw a Chydberthynas |
| SR | Adolygiad o Wariant |
| STADA | Standing Together Against Domestic Abuse |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| UNCRC | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 |
| VAWDASV | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 |
| VAWG | Trais yn Erbyn Menywod a Merched |
| WAFE | Women’s Aid Federation England |

### 9.4 Terminoleg

**Cymorth a gwasanaethau mewn llety:** Ystyr ‘cymorth mewn llety’ yw cymorth, mewn perthynas â cham-drin domestig, a roddir i ddioddefwyr cam-drin domestig, neu eu plant, sy'n byw mewn llety perthnasol, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

**Oedolyneiddio:** Oedolyneiddio yw rhagfarn sy'n digwydd pan gaiff rhai plant eu trin fel rhywun hŷn, gyda disgwyliad bod yn rhaid iddynt ymddwyn yn fwy aeddfed. Mae hyn yn golygu eu bod yn colli'r diniweidrwydd a'r bregusrwydd a roddir fel arfer i eraill yn eu grŵp oedran. Mae plant o gymunedau wedi'u hymyleiddio ac yn enwedig plant du ac wedi'u lleiafrifoli yn fwy tebygol o brofi rhagfarn oedolyneiddio gan bobl mewn safleoedd o awdurdod a gall hyn arwain at fylchau mewn mesurau diogelu priodol

**Babanod, Plant a Phobl Ifanc:** Yn Lloegr, caiff plentyn ei ddiffinio fel rhywun nad yw wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Mae Adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod plentyn yn berson dan 18 oed. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae Babanod,

Plant a Phobl Ifanc yn cwmpasu pob grŵp oedran rhwng 0 a 17 oed (yn cynnwys yr oedrannau hynny).

**Gwasanaethau 'gan ac ar gyfer':** Sefydliadau sy'n cael eu cynllunio a'u darparu 'gan ac ar gyfer' pobl sydd wedi'u lleiafrifoli (gan gynnwys ar sail hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, crefydd neu oedran). Bydd y gwasanaethau hyn wedi'u gwreiddio yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt, a gallant gynnwys gwasanaeth adfer a chymorth holistig cofleidiol sy'n mynd i'r afael â holl anghenion dioddefwr/goroeswr, y tu hwnt i gymorth ar gyfer cam-drin domestig yn unig

**Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol:** Gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau a bygylu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar ddioddefwr. Defnyddir ymddygiadau rheolaethol i wneud y person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, defnyddio eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, eu hamddifadu o'r modd sy'n angenrheidiol i fod yn annibynnol, i ymwrthod a ffoi ac i reoleiddio eu hymddygiad o ddydd i ddydd. Maent yn fathau o gam-drin domestig, ac yn drosedd sy'n gysylltiedig ag ymddygiad dros gyfnod o amser o dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.

**Gwasanaethau cymunedol:** Gwasanaethau anstatudol yw gwasanaethau yn y gymuned sy'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth a chymorth gan gynnwys llety lloches, llinellau cymorth, allgymorth, cymorth lle bo'r angen, cymorth adsefydlu, gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc, eiriolaeth a chymorth galw heibio.

**Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig:** Mae'r Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig yn galluogi ymateb system gyfan i unigolion.Mae'r model ymarfer hwn yn symud cyfrifoldeb dros ddiogelwch oddi wrth ddioddefwyr a goroeswyr unigol a thuag at y gymuned a gwasanaethau sy'n bodoli i'w cefnogi. Gelwir y broses y caiff y gwaith amlasiantaethol hwn ei integreiddio a'i reoli yn Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig. Sefydlwyd gan Standing Together Against Domestic Abuse (STADA)

**Ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant:** Mae ymatebion cam-drin domestig wedi'u gwreiddio mewn gostyngeiddrwydd diwylliannol sy'n cydnabod pwysigrwydd bod yn chwilfrydig yn broffesiynol a deall cyd-destun diwylliannol dioddefwyr a goroeswyr yn bwysig o ran y modd y maent yn profi cam-drin domestig, rhwystrau i ddatgelu a'r ymatebion a gânt. Felly, nod ymarfer sy'n ystyriol o ddiwylliant yw sicrhau na chaiff dioddefwyr a goroeswyr eu haildrawmateiddio ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio. Caiff cymorth ei deilwra i'w hanghenion a lle y bo'n bosibl caiff cymorth arbenigol 'gan ac ar gyfer' ei wneud yn hygyrch.

**Cam-drin domestig:** At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y diffiniad statudol yn Neddf Cam-drin Domestig 2021. Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/contents

**Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig (Adolygiad o Laddiadau Domestig yn flaenorol):** Caiff Adolygiadau o Laddiadau Domestig eu hailenwi maes o law yn Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig er mwyn cydnabod marwolaethau drwy hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Caiff y newidiadau eu cyflwyno i'r gyfraith drwy basio Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Adolygiad amlasiantaethol yw Adolygiad o Laddiadau Domestig yn dilyn marwolaeth person 16 neu drosodd sy'n bodloni'r meini prawf y cyfeirir atynt yng nghanllawiau statudol yr Adolygiad o Laddiadau Domestig (ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/revised-statutory-guidance-for-the-conduct-of-domestic-homicide-reviews). Sefydlwyd yr adolygiadau ar sail statudol yn 2013 o dan Adran 9 o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr (2004).

**Ystyriol o rywedd:** Mae dull sy'n ystyriol o rywedd y Comisiynydd mewn perthynas â cham-drin domestig yn cydnabod bod cam-drin domestig yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched a'i fod yn fath o Drais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG). Bydd rhywedd yn effeithio ar brofiad pob

person o gamdriniaeth ac ymdrechion i geisio help ac, felly, mae'n bwysig bod yn ystyriol o rywedd wrth roi mwy o sylw i leisiau holl ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

**Arferion Niweidiol:** Mae'r Ganolfan Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod Genedlaethol yn disgrifio Arferion Niweidiol fel a ganlyn: Arferion ac ymddygiadau mynych sy'n seiliedig ar wahaniaethu ar sail rhyw, rhywedd, oedran a seiliau eraill yn ogystal â mathau lluosog a/neu groestoriadol o wahaniaethau sy'n aml yn cynnwys trais ac yn achosi niwed neu ddioddefaint corfforol a/neu seicolegol, fel Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

**Cam-drin ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir:** Mae Karma Nirvana yn disgrifio cam-drin ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir fel: Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ymddygiad rheolaethol; gorfodaethol; ystrywgar; neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth a gyflawnir gan un neu fwy o aelodau o'r teulu, y teulu estynedig a/neu'r gymuned a/neu bartneriaid agos presennol/blaenorol mewn ymateb i gamweddau honedig mewn perthynas ag ymddygiadau derbyniol. Er y cyflawnir y rhain amlaf yn erbyn menywod a merched, gall unrhyw un brofi cam-drin ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir ni waeth beth fo'u hoedran, ethnigrwydd, rhywioldeb, crefydd neu rywedd, gan gynnwys dynion a bechgyn. Gall gwmpasu'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: Cam-drin seicolegol, emosiynol, corfforol, rhywiol, ysbrydol ac yn seiliedig ar ffydd, economaidd, ariannol ac ar sail hil; priodas dan orfod; anffurfio organau cenhedlu benywod; herwgydio; ynysu; bygythiadau; llofruddiaeth; a gweithredoedd eraill o gam-drin domestig. Mae pobl sy'n byw yng nghyd-destun dynameg anrhydedd yn wynebu rhwystrau ychwanegol i'w gallu i leisio eu barn a rhoi gwybod am gamdriniaeth am eu bod yn ofni'r hyn a allai ddigwydd gan gynnwys camdriniaeth, cywilydd, stigma a chael eu hymddieithrio/eu halltudio.

**Croestoriadedd**: Term a bennwyd gan Kimberlé Crenshaw, wedi'i wreiddio'n gadarn mewn profiadau menywod Du o hiliaeth a mathau gwahanol o orthrwm, gan gynnwys cam-drin domestig. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Ysgol y Gyfraith Columbia (2017). *Kimberlé Crenshaw on Intersectionality, More than Two Decades Later*. Gweler ar-lein yn www.law.columbia.edu

**Niwrowahaniaeth:** Mae NHS England yn defnyddio'r diffiniad canlynol: Mae niwrowahaniaeth yn disgrifio'r boblogaeth gyfan ac mae'n cydnabod amrywiaeth ymenyddiau gwahanol. Mae niwronodweddiadol yn disgrifio'r rhan fwyaf o'r boblogaeth – y grŵp mwyafrifol sy'n mynegi eu hunain mewn ffyrdd a ystyrir yn "norm" cymdeithasol. Mae niwrowahanol yn disgrifio'r grŵp lleiafrifol sy'n wahanol yn niwrolegol o'r "norm" a nodwyd. Amcangyfrifir bod hyn yn 1 mewn 7 person, er bod hyn yn debygol o fod yn uwch o ystyried y cynnydd mewn ymwybyddiaeth a lefelau diagnosis hwyr. Gall cyflyrau niwrowahanol gynnwys Awtistiaeth/Cyflwr Ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASC)/Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASD), Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)/Nodwedd ysgogiad Sylw Amrywiol (VAST), Dyspracsia, Dyslecsia, Dyscalcwlia a Syndrom Tourette (TS) ynghyd â sawl cyflwr arall. Caiff niwrowahaniaeth ei ddosbarthu fel anabledd, er nad yw rhai pobl niwrowahanol yn ystyried eu bod yn anabl ond mae angen iddynt gael cymorth i fyw mewn cymdeithas niwronodweddiadol.

**Nodweddion gwarchodedig:** Mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn person oherwydd nodwedd warchodedig. Ceir naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Dull Gweithredu Iechyd y Cyhoedd:** Datblygodd SafeLives ddull gweithredu iechyd y cyhoedd pedwar cam yn 2023 fel ffordd o greu ffyrdd cynaliadwy a graddadwy o roi arferion gorau ar waith wrth ymateb i gam-drin domestig ar lefel leol. Y pedwar cam yw: i) Diffinio a monitro'r broblem, ii) Nodi risg a ffactorau amddiffynnol, iii) Gweithredu ar raddfa, iv) Datblygu a phrofi ymatebion a arweinir gan strategaethau risg, ymyrryd yn gynnar ac atal. Ar-lein yn: https://safelives.org.uk/wp-content/uploads/Public_Health_Approach_Report_2023.pdf

**Ymholiad cyffredinol:** Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o ofyn i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau am eu profiad o gam-drin domestig yw ymholiad cyffredinol. Nid oes angen unrhyw

arwyddion nac amheuon o gamdriniaeth gan fod ymholiad cyffredinol yn golygu gofyn i bawb. Gall hyn helpu i wneud yr ymholiad yn haws oherwydd y gallwch gyfeirio ato fel hynny yn union – cwestiwn a ofynnir i bawb.

**Sector arbenigol i blant:** Sefydliadau sy'n ddarparwyr gwasanaethau cymunedol, annibynnol, arbenigol i blant a phobl ifanc.

**Sector cam-drin domestig arbenigol:** Mae gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn darparu cymorth sy'n achub bywydau i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys cwnsela, cynllunio diogelwch, eiriolaeth a llefydd mewn llochesi. Yn aml, mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth i wella ymateb asiantaethau cyhoeddus fel yr heddlu neu'r gwasanaethau iechyd ac, yn hanfodol, yn cynnig gwasanaeth annibynnol ac arbenigol sy'n canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr a goroeswyr.

**Ymarfer sy'n ystyriol o drawma:** Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn ddull o weithredu ymyriadau iechyd a gofal sy'n seiliedig ar y ddealltwriaeth y gall amlygiad i drawma effeithio ar ddatblygiad niwrolegol, biolegol, seicolegol a chymdeithasol unigolyn. Ei nod yw paratoi ymarferwyr i gydweithio a llunio partneriaeth â phobl a'u grymuso i wneud dewisiadau am eu hiechyd a'u llesiant a gwella diogelwch a mynediad. Un nod allweddol yw atal achosion o aildrawmateiddio, sef ailbrofi meddyliau, teimladau neu synwyriadau a brofir ar adeg digwyddiad neu amgylchiad yng ngorffennol person.

**Dioddefwyr a goroeswyr**: Rydym yn defnyddio'r term hwn i gyfleu'r broses o fframio pobl sy'n destun cam-drin domestig yn gyfreithiol ('dioddefwyr') ac i gyfrif am ddewisiadau unigol oedolion sydd wedi profi cam-drin domestig ('goroeswyr').

**Dull Ysgol Gyfan:** Mae'r Gynghrair ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod (EVAW) yn disgrifio hyn fel dull sy'n hanfodol i athrawon a staff ysgolion, ynghyd â newidiadau posibl mewn polisïau a thrawsnewid diwylliant a chymuned yr ysgol. Mewn gwirionedd, mae angen i newid trawsnewidiol ddigwydd ar bob lefel, ac mae angen i fynd i'r afael â VAWG fod yn flaenoriaeth i'r gymdeithas gyfan er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.

**Dull Iechyd Cyfan:** Mae Standing Together Against Domestic Abuse yn disgrifio hyn fel cydnabod yr angen am ddull systemig i ymateb i gam-drin domestig ar draws yr economi iechyd.

## 9.5 Cyfeiriadau


Gweithredu dros Blant. (2019) *Patchy, piecemeal and Precarious: support for children affected by domestic abuse*. Ar gael yn: https://media.actionforchildren.org.uk/documents/patchy-piecemeal-and-precarious-support-for-children-affected-by-domestic-abuse.pdf. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Gweithredu dros Blant. (2022) *Too little, too late: Early help and early intervention spending in England*. Ar gael yn: https://media.actionforchildren.org.uk/documents/Too_Little_Too_Late_Report_Final.pdf. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Adjei, N.K. et al. (2022) 'Impact of poverty and family adversity on adolescent health: a multi-trajectory analysis using the UK Millennium Cohort Study,' *The Lancet Regional Health – Europe*, 13. Ar gael yn: www.thelancet.com/pdfs/journals/lanepe/PIIS2666-7762(21)00265-9.pdf (Accessed 17 February 2025)

*Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Nodiadau esboniadol.* Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/38/notes/division/4/2/10 (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Against Violence and Abuse. (2023) *Funding for Support Services for Victims and Survivors of Violence Against Women and Girls in London.* Ar gael yn: *www.londoncouncils.gov.uk/sites/default/files/2024-04/republished_13_sept_london_mapping_report_vawg.pdf* (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Alexander, K. et al. (2022) 'Bringing dignity to the assessment of safety for children who live with violence,' *The British Journal of Social Work*, 52(6). Ar gael yn: https://doi.org/10.1093/bjsw/bcab260. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Alisic, E. et al. (2012) 'Teachers' experiences supporting children after traumatic exposure.' *Journal of Traumatic Stress*, 25(1). Ar gael yn: https://doi.org/10.1002/jts.20709. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Alisic, E. et al. (2017) 'Children bereaved by fatal intimate partner violence: A population-based study into demographics, family characteristics and homicide exposure,' *PLoS One*, 12(10). Ar gael yn: https://doi.org/10.1371/journal.pone.0183466. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Blant. (2018) *Storing up trouble: A postcode lottery of children's social care*. Ar gael yn: www.ncb.org.uk/sites/default/files/uploads/files/NCB%2520Storing%2520Up%2520Trouble%2520%255BAugust%2520Update%255D.pdf. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Andriessen, K. et al. (2020) '"It Changes Your Orbit": The Impact of Suicide and Traumatic Death on Adolescents as Experienced by Adolescents and Parents,' *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 17(24). Ar gael yn: https://doi.org/10.3390/ijerph17249356. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Ash, D.P. et al (2024. (2024) *Exploring Innovation in multi-agency settings for supporting children and families affected by domestic abuse: police notification schemes – Project Report*. Ar gael yn: https://cafada.stir.ac.uk/wp-content/uploads/2025/01/Police-notification-schemes-extract-from-final-CAFADA-report.pdf. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

Sefydliad Ymchwil Cenedlaethol Awstralia ar gyfer Diogelwch Menywod. (2022) *Children and young people's mental health and domestic and family violence: What's the link?* Available at: www.anrows.org.au/publication/investigating-the-mental-health-of-children-exposed-to-domestic-

and-family-violence-through-the-use-of-linked-police-data-and-health-records/read-summary/. (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025)

